Esboniad ar Efengyl Ioan

Cyf. I.

gan y
Parch. R. Lloyd Jones



CANCELLED

W. E. Gladstone

St. Deiniol's Library
Hawarden, Clwyd
Founded by
The Rt. Hon. W. E. Gladstone

B49/113

ST. DEINIOL'S
HAWARDEN
LIBRARY

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/esboniadarefengy0000parc

CANCELLED

ESBONIAD

AR

EFENGYL IOAN

GAN Y

PARCH. R. LLOYD JONES

CYF. I.

BANGOR
CYHOEDDEDIG YN Y LLYFRFA WESLEYAIDD
1910

BANGOR:
EVAN THOMAS, ARGRAFFYDD.

RHAGAIR.

YSGRIFENWYD y Llawlyfr neu'r Esboniad hwn ar gais Pwyllgor y Maes Llafur, a'r Gymanfa Wesleyaidd. Priodol, efallai, yw dyweyd na chefais yr amser arferol i barotoi y gyfrol hon. Disgynodd y gwaith o'i pharotoi i fy rhan yn sydyn ac annisgwyliadwy, oherwydd gwaeledd y Parch. W. O. Evans, yr hwn oedd wedi ei benodi y flwyddyn gynt i ysgrifenu ar yr Epistol at y Rhufeiniaid. Gwnaethum fy ngoreu o dan yr amgylchiadau, ac o fewn y terfynau gosodedig.

Gwelir oddiwrth y Rhagarweiniad fy mod—gyda dynion goreu a galluocaf yr Eglwys yn mhob oes—yn credu fod yr Efengyl hon yn cynwys hanes gwirioneddol, yn cael ei adrodd i amcan penodol, gan un oedd yn llygad-dyst.

Tra yn credu mewn Beirniadaeth Destynol, ac yn gwerthfawrogi ffrwyth ei hymchwiliadau, nis gallaf gredu fod i Uwchfeirniadaeth nemawr o le yn yr Efengylau, ac yn enwedig felly yn y Bedwaredd Efengyl. Mae gwahaniaeth dirfawr rhwng yr amgylchiadau o dan ba rai y cyfansoddwyd rhai o Lyfrau yr Hen Destament a'r amgylchiadau o dan ba rai y cyfansoddwyd yr Efengylau : y naill wedi dyfod i fod yng nghanol niwl a thywyllwch y gorphenol pell, a'r lleill wedi eu cyfansoddi i raddau helaeth yn y goleuni.

Ymgynghorais â phob Esboniwr Saesneg a Chymraeg oedd o fewn fy nghyraedd, a dymunaf gydnabod fy nyled iddynt. Ond dymunaf gydnabod mewn modd arbenig fy rhwymedigaeth i *Gyfieithiad Newydd o'r Testament Newydd gyda Nodiadau*, gan Dr. William Edwards, Llywydd Athrofa y Bedyddwyr, Caerdydd. Credaf ei fod yn tra rhagori ar y Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg. Mae y Cyfieithiad hwn yn sicr o fod yn ffrwyth meddwl annibynol a dysgedig.

Nid oes genyf ond gobeithio y bydd y Gyfrol fechan hon yn gymorth i'r rhai a'i defnyddia i fyfyrio Efengyl Ioan, a deall ei dysgeidiaeth addurnol ac ysprydol yn well.

R. LLOYD JONES.

113, *Queen's Road, Lerpwl,*
Chwefror, 1910.

TALFYRIADAU.

W.E.—Dr. W. Edwards, Caerdydd, Cyfieithiad Newydd o'r Testament Newydd, gyda Nodiadau. Cyfrol I.

W.—Dr. Weymouth, "*New Testament in Modern English.*"

B.—Cyfieithiad Dr. Briscoe.

M. a M.—"*Commentary on St. John,*" by Dr. W. Milligan and Dr. W. F. Moulton.

O.W.—"Testament yr Efrydydd," gan y Parch. Owen Williams.

E.B.—"Esboniad y Bobl: Ioan," gan y Parchn. O. Davies, D.D., a Cernyw Williams, Corwen.

T.Y.S.—"Testament yr Ysgol Sul," gan amryw Weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd.

CYWIRIAD GWALLAU.

Rhoi, yn lle "rhaid," Rhagarweiniad, tudalen 1, 16 llinell o'r dechreu.

Anfonasid, yn lle "ofynasid," tudalen 31, nodiad ar adn. 24, 3edd llinell.

Rhodder *yn* i mewn o flaen "y cyfriniol," llinell olaf, tudalen 104.

RHAGARWEINIAD.

WRTH wynebu ar y gwaith dyddorol o efrydu Efengyl Ioan, dymunir galw sylw, i ddechreu, at hynodrwydd a rhagoriaeth arbenig yr efengyl hon. Galwodd Clement, o Alexandria, hi er yn foreu iawn yn "Efengyl Ysprydol;" a galwodd Esgob Ripon hi yn "Efengyl y Crist tragwyddol." Barn Dr. Horton am dani ydyw, "ei bod yn sicr yr ysgrif *(document)* hynotaf mewn llenyddiaeth ddynol;" a dywed Dr. Fisher, "fod yr Efengyl, yn rhinweddol, yn hunan-fywgraphiad." Mae y meddyliau cryfaf a mwyaf ysprydol, yn mhob oes a gwlad, wedi gwledda llawer ar yr efengyl gyfoethog hon. Ysgrifenwyd hi, fel y ceir profi i foddlonrwydd pob meddwl teg a diragfarn, gan un oedd yn llygad-dyst o'r ffeithiau hanesyddol a gofnodir ynddi. Nid tystiolaeth ail law sydd yma, ond tystiolaeth uniongyrchol un a welodd â'i lygaid, ac a deimlodd â'i ddwylaw "am Air y Bywyd," i. 14; xxi. 24; 1 Ioan i. 1. Er mai eiddo Mathew o'r tair efengyl arall sydd yn dyfod agosaf ati yn yr ystyr hon, eto, nid yw Awdwr Efengyl Mathew yn honni ei fod yn dyst uniongyrchol o'r ffeithiau a gofnoda, a rhaid fod yr efengyl yn ei ffurf bresenol wedi dyfod o law yr efengylwr, yr hyn sydd heb fod uwchlaw amheuaeth.

Tra nad wyf yn barod i ddyweyd fod gwir Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist yn sefyll neu yn syrthio gyda'r efengyl hon, eto credaf mai colled anrhaethol fawr i ffydd yr eglwys fuasai bod hebddi. Credaf fod yr Yspryd Glân wedi gwneyd mwy o ddefnydd o'r efengyl hon er gogoneddu yr Iesu nag o unrhyw ran arall o'r Ysgrythyr Lân. Ein braint yw gwynebu ar yr efrydiaeth hon o dan arweiniad Yspryd y gwirionedd, ac mewn dibyniaeth arno ef am gymorth i ddeall, ac i fyned i mewn i'w chyfriniaeth, canys "yn ei oleuni ef y gwelwn oleuni."

I.—Gwahaniaeth rhwng Efengyl Ioan i'r Efengylau Cydolygol.

Un o'r pethau cyntaf sydd yn taro y darllenydd craff wrth fyned trwy yr efengyl hon yw y gwahaniaeth amlwg sydd rhyngddi â'r efengylau cydolygol, sef, eiddo Mathew, Marc a Luc. Gwir fod modd,

ar y naill law, wneyd gormod o'r gwahaniaeth, ac ar y llaw arall, wneyd rhy fach ohono. Tuedd gwrthwynebwyr yr efengyl ydyw ei chwyddo i raddau eithafol, ac, efallai, mai tuedd rhai o'i phleidwyr ydyw colli golwg arno. Ceisiaf ochel eithafion, ac edrych yn deg a diragfarn yn wyneb y gwahaniaeth.

Fod gwahaniaeth rhwng yr efengyl hon a'r efengylau cydolygol sydd yn ddiamheuol, ond credaf mai nid anfantais i gyd yw y gwahaniaeth; canys dengys fod awdwr yr efengyl hon yn dyst annibynol i brif ffeithiau bywyd, marwolaeth ac adgyfodiad ein Gwaredwr; ac nad oedd yn dibynu ar y ffynhonell gyffredin am ei wybodaeth. Cryfhau ein hyder yn ngwirionedd y tystiolaethau y mae ychydig o amrywiaeth yn yr hyn a adroddir tra y mae hyny heb ddyfod yn wrthebiad amlwg a diamheuol. Ac felly gydag Efengyl Ioan. Credaf fod y gwahaniaeth yn ddigon i brofi ei fod yn dyst gwreiddiol ac annibynol; ond nad yw yn gwrthddywedyd dim a gofnodir gan yr efengylwyr eraill, ac nad ydynt hwythau yn cofnodi dim sydd yn wirioneddol annghyson â'r hyn a ddywed yntau.

Dyma'r prif bethau y gwahaniaethant gyda golwg arnynt:—

1. *Maes Gweinidogaeth y Gwaredwr.*—Yn ol yr efengylau cydolygol, yn Galilea bron yn hollol yr oedd maes ei weinidogaeth, tra yn ol Efengyl Ioan treuliodd ran helaeth o'i dymor gweinidogaethol yn Jerusalem a'r gymydogaeth.

2. *Tymor ei Weinidogaeth.*—Ychydig gyda blwyddyn ydoedd yn ol yr efengylau cydolygol, tra yn ol y bedwaredd efengyl, y mae yn ymestyn dros dair neu bedair o wyliau blynyddol Iuddewig.

3. *Mater ac arddull ei Annerchiadau.*—Duw, a theyrnas nefoedd, sydd yn brif destynau annerchiadau Crist yn yr efengylau cydolygol; defnyddia yn helaeth hefyd y ffurf ddammegol o lefaru. Ond yn Efengyl Ioan, ni cheir bron yr un ddammeg, ac y mae'r ymddiddanion, a'r annerchiadau, er yn hynod o syml o ran iaith ac arddull, eto yn fynych yn arddansoddol, ac yn codi i dir uchel, ysprydol, a chyfriniol.

Eithr pa mor fawr bynag yw y gwahaniaeth hwn, nid oes sail o gwbl i'r haeriad a wneir weithiau, fod Crist Efengyl Ioan yn hollol wahanol i Grist yr efengylau cydolygol. Yr un un, yn sicr, yw y gwrthrych; ond ei fod mor fawr, fel nas gellir ei ddarlunio agos yn gyflawn heb edrych arno o wahanol safleoedd, a'i gyflwyno gerbron mewn gwahanol agweddau ac amrywiol gysylltiadau. Wrth dynnu darlun o unrhyw wrthrych o wahanol safbwyntiau, nid mor hawdd yw

credu mai dau ddarlun o'r un gwrthrych ydynt, os annghofir gwahaniaeth y safbwyntiau; ac felly gyda darlun y pedair efengyl o Grist. Er yn gwahaniaethu, a'r gwahaniaeth yn cyraedd ei bwynt uchaf yn Efengyl Ioan, eto, nid oes dim annghysondeb gwirioneddol rhyngddynt, fel yr haera rhai Rhesymolwyr ac Anffyddwyr. Nid Crist *dynol* yn unig sydd yn y tair efengyl gyntaf; ac nid Crist *Dwyfol* yn unig sydd yn y bedwaredd efengyl; ond yn ddilys, Crist *Dwyfol-ddynol* sydd yn yr oll ohonynt. Digon gwir y rhoddir mwy o amlygrwydd i'r ochr *ddynol* i'w fywyd rhyfedd yn yr efengylau cydolygol, a mwy o amlygrwydd i'r ochr *Ddwyfol* i'w fywyd hynod yn Efengyl Ioan; ond attolwg, pa annghysondeb sydd yn hyny? Priodol iawn y dywed Esgob Ellicott: —"Y mae Efengyl Mathew yn ei gyflwyno ini yn bennaf fel y Messiah addawedig y prophwydasid am dano; Efengyl Marc fel Duw-ddyn yn cyflawni gwyrthiau rhyfedd; Efengyl Luc fel Gwaredwr cyffredinol y byd, neu y ddynoliaeth; ac Efengyl Ioan fel Unig-anedig Fab Duw, yn nirgelion dyfnion ei Berson, a'i berthynasau â'r Tad, â'r Yspryd, ac â'i bobl."

Gan y rhoddir cymaint o bwys ar y gwahaniaeth y cyfeiriwyd ato gan wrthwynebwyr yr efengyl hon, er ceisio profi ei bod yn ffugiol a diymddiried, credaf mai angenrheidiol a buddiol ydyw sylwi yn fanylach ar y gwahaniaeth hwnw.

1. *Maes Gweinidogaeth Crist.*—Gofynaf, a ellir credu fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi cyfyngu ei lafur gweinidogaethol yn hollol i Galilea, ac nad ymwelodd o gwbl â Jerusalem hyd y Pasg y rhoddwyd ef i farwolaeth? Na ellir, yn sicr. Fel Iuddew crefyddol, nis gallai yr Iesu beidio talu parch i'r gwyliau oedd o osodiad Dwyfol, trwy fyned iddynt, o leiaf, yn achlysurol. A pha reswm allai fod dros iddo gyfyngu ei genadwri i drigolion Galilea yn unig, a gadael preswylwyr Jerusalem yn amddifad o freintiau ei weinidogaeth? Onid oeddent hwythau hefyd yn rhan o "ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel" yr oedd wedi ei anfon attynt? Rhaid fod yr Iesu wedi bod yn Jerusalem cyn y Pasg olaf yn ei hanes, cyn y buasai wedi cynhyrfu digofaint a chynddaredd yr awdurdodau yn Jerusalem i'r fath raddau fel ag y penderfynasant gymeryd ei einioes oddiarno. Rhaid fod elfenau y storm ofnadwy dorodd uwch ei ben wedi cael mwy o amser i ymgasglu at eu gilydd na'r ychydig ddyddiau yn ystod ei Basg olaf yn Jerusalem. Onid mwy rhesymol yw credu mai amcan a chynllun y tair efengyl cydolygol yw adrodd hanes ei lafur, yn Galilea, yn bennaf, ac mai bwriad a chynllun awdwr y bedwaredd efengyl yw rhoddi hanes ei weinidogaeth yn Jerusalem a

Judea? Ac felly fod y naill yn cyflenwi diffyg y llall. Dylid cofio hefyd, nad oes yr un o'r efengylwyr yn proffesu nac yn amcanu rhoddi hanes cyflawn o fywyd Crist. Rhanol *(fragmentary)* yw yr hanes ar y goreu. Un o'r pethau mwyaf anniogel a chamarweiniol yw tynnu casgliad oddiwrth *ddistawrwydd* unrhyw hanesydd. Mae'n bosibl i gynifer o wahanol bethau gyfrif am ddistawrwydd, fel nas gellir yn ddiogel gasglu anwybodaeth, llawer llai wybodaeth bendant, oddiwrtho. Ac eto dyma wneir gyda hyder sydd yn cyfateb i faint eu hanwybodaeth, gan feirniaid Rhesymolaidd ac Anffyddol. Am nad yw yr efengylau cydolygol yn crybwyll yn bendant am ymweliadau yr Iesu â Jerusalem, mynnant na fu efe yno cyn y Pasg olaf; ac mai tynnu ar ei ddychymyg y mae awdwr y bedwaredd efengyl pan yn darlunio ei wahanol ymweliadau a'r ddinas hono. Ac wrth adael hyn, rhaid cofio fod yna gyfeiriadau yn Efengyl Ioan at Weinidogaeth Crist yn Galilea (pen. iv. 43; vii. 1, &c.; cydmarer gyda vi. 4); ac hefyd fod yna gyfeiriadau yn yr efengylau cydolygol at ymweliadau yr Iesu â Jerusalem cyn ei Basg olaf (Mathew xxiii. 37; Luc xiii. 34).

2. *Tymor ei Weinidogaeth.*—Nid oes yr un o'r efengylau yn amcanu cyfleu hanes ein Gwaredwr mewn trefn amseryddol. A dyma'r anhawsder mawr sydd yn cyfarfod y rhai a geisiant ffurfio cysondeb i'r efengylau. Ac er nad yw y bedwaredd efengyl yn dilyn trefn amseryddol, eto y mae yn hon well sail i gasglu beth oedd hyd tymor gweinidogaeth Crist na'r un o'r efengylau eraill. Gan mai Jerusalem a Judea yw canolbwynt dyddordeb yr efengyl hon, y mae ynddi hanes ymweliadau yr Iesu â gwahanol wyliau yn Jerusalem; ac yn ol y rhai hyn, gellir casglu yn lled ddiogel beth raid fod hyd tymhor ei weinidogaeth gyhoeddus. Yn sicr, nid diogel yw ini gymeryd ein harwain gan yr efengylau cydolygol i dybied mai blwyddyn oedd ei hyd. Rhaid cael mwy na hyny o amser i ddwyn oddiamgylch y dadblygiad o ffydd ar y naill law, ac annghrediniaeth ar y llaw arall, i ba rai y tystiant; i waith cenhadol y deuddeg a'r deg-a-thriugain, ac i'r gwahanol gylchdeithiau y rhodiodd y Gwaredwr drwyddynt gan wneuthur daioni. Ac felly y mae tebygolrwydd hanesyddol cryf iawn mai Efengyl Ioan sydd yn cyfleu y syniad amseryddol gywiraf. Crybwyllir ynddi am bum ymweliad o eiddo yr Iesu â Jerusalem: tri ohonynt ar Wyl y Pasg (ii. 13; vi. 4; xi. 55; cydmarer vi.).

3. *Cynwys ac arddull ei ymddiddanion a'i annerchiadau.*—Dichon mai yn hyn y daw y gwahaniaeth amlycaf i'r golwg, rhwng y bedwaredd efengyl a'r lleill. Nis gallwn lai na theimlo ein bod wedi newid

byd, ac yn dyfod i awyrgylch bur wahanol. Yn lle llefaru am Dadoleaeth Duw, ac am deyrnas Dduw, mewn dammegion ac ymadroddion syml, ac agos at ddeall y bobl gyffredin; y mae yn yr efengyl hon annerchiadau arddansoddol a maith, dwfn a chyfriniol, sydd yn ein codi i dir uwch a mwy ysprydol. Yr ydym megys yn gadael y "pethau amlwg," ac yn cael ein harwain at "y dirgeledigaethau sydd yn eiddo yr Arglwydd ein Duw."

Eithr fe ddylid cofio y gwahaniaeth sydd yn yr amgylchiadau. Nid annerch torfeydd dysyml yn Galilea y mae'r Iesu yn yr efengyl hon; ond ymddiddan, dadleu, ac amddiffyn ei hun, yn mhresenoldeb Iuddewon galluog a dysgedig, ac yn fynych iawn annghrediniol a gelyniaethus; ac yr oedd ein Gwaredwr yn ddigon doeth, fel ag i gyfaddasu ei ddysgeidiaeth i gyfarfod âg ansawdd meddwl a chalon ei wahanol wrandawyr. Yn ei ymddiddan cyfrinachol â'i ddisgyblion drachefn, rhaid cofio eu bod hwythau wedi eu dysgu a'u haddfedu i dderbyn dysgeidiaeth uwch a mwy ysprydol, ar ol bod gyda'r Iesu oddeutu tair blynedd o amser.

Ac yn mhellach, fe gydnabyddir yn bur gyffredin, erbyn hyn, gan esbonwyr lled geidwadol, mai nid adroddiad air am air *(verbatim report)* o eiriau Crist sydd yn Efengyl Ioan; ond fod yr awdwr, ar ol myfyrdod maith o hanner canmlynedd, ar y geiriau suddasant mor ddwfn i'w feddwl a'i galon, yn eu cyfleu o dan ddylanwad ei brofiad, a chan roddi lliw ei feddwl ei hun arnynt i raddau mwy neu lai. Nid cronicl syml, ond efrydiaeth ar fywyd Crist yw yr efengyl hon. Nid cofnodi y ffeithiau hanesyddol yn unig y mae'r awdwr, ond y mae yn eu dehongli yn ngoleuni ei brofiad ei hun, ac o dan arweiniad yr Yspryd, oedd wedi ei addaw yn arbenig i'r disgyblion, i'w dysgu, ac i ddwyn ar gôf iddynt yr hyn a ddywedasai yr Athraw mawr wrthynt. Nid cofnodi yn beirianol yr hyn a gofiasai o eiriau yr Iesu, ac heb eu deall, y mae Ioan. Llai gwerthfawr o lawer fuasai hyny na'r hyn a wneir yma ganddo, canys y mae yn cyfleu yn ei eiriau a'i ddull ei hun y syniadau a ddysgodd yr Iesu, ar ol eu deall yn ngoleuni profiad a datguddiad yr Yspryd Glân. A dyma a olygir gan ysgrifenwyr uniongred, megys Deon Armitage Robinson ac eraill, pan y dywedant fod y deonglwr yn amlycach yn y bedwaredd efengyl na'r hanesydd. Pell ydynt drwy hyny o awgrymu nas gellir dibynu ar ddilysrwydd yr hanes, ond pwysleisiant yr ystyriaeth fod yr awdwr yn dehongli hanes a geiriau yr Iesu fel moddion i gynyrchu ffydd ynddo fel Crist a Mab Duw.

Credaf fod hyn yn ddigon i gyfrif am y gwahaniaeth sydd rhwng

yr efengyl hon â'r efengylau cydolygol; ac nad yw y cyfryw wahaniaeth yn golygu un math o annghysondeb gwirioneddol rhyngddynt, nac yn rhoddi y sail leiaf i neb diduedd a diragfarn i amheu dilysrwydd yr hanes a gofnodir ynddi.

II.—Tebygrwydd y Bedwaredd Efengyl i Epistol Cyntaf Ioan.

O gydmaru Efengyl Ioan âg Epistol Cyntaf Ioan, canfyddir ar unwaith fod yna debygrwydd amlwg rhyngddynt; ac y mae'r argyhoeddiad o'r tebygrwydd yn cryfhau pa fanylaf y cydmerir hwynt. Mor hynod yw y tebygrwydd rhwng dechreu yr efengyl a dechreu yr epistol. Sylwer ar y ddau "ddechreuad" a'r "Gair;" defnyddir y geiriau "goleuni a thywyllwch," a'r gair "bywyd" yn yr un ystyr. Mewn gair, y mae y tebygrwydd mor hynod o amlwg fel na faidd neb ei wadu. Mae y dybiaeth mai efelychiad yw y naill o'r llall gan ddau awdwr gwahanol yn un o'r pethau mwyaf disail gafodd le mewn dychymyg dynol erioed.

Yn awr, os mai yr un awdwr sydd i'r epistol ac sydd i'r efengyl, y mae pob prawf mai yr Apostol Ioan yw awdwr yr epistol yn dyfod yn brawf mai efe hefyd yw awdwr yr efengyl, canys y mae delw yr un awdwr mor amlwg yn y naill a'r llall; ac fel rheol, y mae y rhai sydd yn gwrthwynebu i Ioan fod yn awdwr yr efengyl yn gwrthwynebu hefyd iddo fod yn awdwr yr epistol cyntaf sydd ar ei enw; ac y mae rhith o gysondeb yn galw am hyny; canys y mae y naill a'r llall yn rhwym o sefyll neu syrthio gyda'u gilydd. Beth sydd wrth wraidd y gwrthwynebiad i gydnabod mai Ioan, y "disgybl anwyl," yw awdwr y naill a'r llall? Ai diffyg prawf rhesymol a digonol? Dim o'r fath beth. Etyb y Parch. H. Williams, Amlwch, yn ei Ragarweiniad i Epistol Cyntaf Ioan, yn dra boddhaol, yn ol fy marn i. "Ond gallaf ddyweyd cymaint a hyn," ebai Mr. Williams, "fod gwrthwynebiadau Ysgol Tübingen i'r bedwaredd efengyl a'r epistol hwn i fod yn gynyrch meddwl yr Apostol Ioan, yn seiliedig, yn bennaf, ar eu syniadau am Dduw. Derbyniant athroniaeth Hegel, yr hwn a wada fodolaeth Duw personol. Yn awr, ceisia deiliaid yr ysgol hon esbonio Cristionogaeth yn ngoleuni, ac yn gyson â'r athroniaeth hon. Ac er mwyn gwneyd hyn, rhaid gwadu y Goruwchnaturiol yn yr efengyl, megys yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, y Gwyrthiau, yr Adgyfodiad, &c. Ac yn gyson â hyn gwrthodant dderbyn ysgrifeniadau Ioan, sef, ei efengyl a'r epistol, am eu bod mor llawn o'r Dwyfol. Ond erbyn hyn, cydnabyddir gan rai o brif feirniaid

mwyaf ceidwadol Germani, Lloegr, ac America, mai Ioan yw awdwr y bedwaredd efengyl a'r epistol hwn. Y mae y tystiolaethau allanol a mewnol yn gyfryw fel nas gellir, i bob meddwl diduedd a diragfarn, ddyfod i unrhyw gasgliad boddhaol arall." Gan gredu yn ddiysgog fod yr epistol a'r efengyl yn waith yr un awdwr, y berthynas rhyngddynt â'u gilydd ydyw mai yn yr efengyl y ceir yr athrawiaeth, ac yn yr epistol gymhwysiad ymarferol ohoni. Yr efengyl, yn ddiau, a ysgrifenwyd gyntaf, a chredaf fod gwybodaeth o gynwys yr efengyl yn cael ei dybio i fod yn meddiant y rhai yr ysgrifenwyd yr epistol attynt; ac fod yr awdwr, yn yr epistol, yn datblygu ac yn cymhwyso gwirioneddau yr efengyl er eu cyfarwyddo a'u cryfhau yn wyneb yr amgylchiadau yr oeddynt ynddynt ar y pryd.

III.—Awduraeth Efengyl Ioan.

Dyma ni ar wynebu cwestiwn hynod o ddyddorol a phwysig, ac un y mae llawer o wahaniaeth barn yn ei gylch. Ni chaniata fy nherfynau i roddi iddo yr ymdriniaeth y mae yn ei deilyngu, ac y caraswn roddi iddo.

Gwahoddaf sylw y darllenydd, i ddechreu, at y *prawf* sydd yn codi o gynwys yr efengyl, neu y prawf *tufewnol.*

Teg yw rhoddi ystyriaeth ddiragfarn i dystiolaeth y cyfansoddiad ei hun i ddechreu. Holi y llyfr ei hun, pa beth a ddywed am dano ei hun? Ac o'i holi, fe edy, yn ddiamheu, argraph cryf ar bob meddwl teg a diragfarn, iddo gael ei ysgrifenu gan Iuddew Cristionogol, oedd yn gwbl gyfarwydd â sefyllfa pethau yn Jerusalem ac yn Palestina yn nyddiau Crist ar y ddaear.

1. *Yr oedd i ddechreu yn Iuddew.*—Nis gellir amheu hyn, ond ystyried ei gydnabyddiaeth âg arferion, defodau, a syniadau yr Iuddewon. Nis gallai neb ond un ohonynt egluro mor gywir a manwl y pethau hyn er mantais i ddarllenwyr dyeithr ac annghyfarwydd. Teilwng o sylw yw ei barch i Ysgrythyrau yr Hen Destament (x. 34, &c.), ei wybodaeth helaeth o'u cynwys, yn hanesyddol a phrophwydol, a'i ddifyniadau mynych ohonynt. Sylwer drachefn ar ei gyfeiriadau at yr amrywiol olchiadau Iuddewig, at y gwahanol wyliau perthynol i'r genedl, a'r defodau cysylltiol â hwynt yn eu gwahanol dymhorau. Ni fuasai yn bosibl i genedl-ddyn ffugio hanes sydd mor lawn o gyfeiriadau at syniadau, arferion a defodau yr Iuddewon, heb fradychu ei hun trwy syrthio i nifer mwy neu lai o gamsyniadau. Eithr nid oes y camsyniad lleiaf yn cael ei wneyd gan yr awdwr hwn trwy gydol yr efengyl, yr hyn sydd brawf o'r fath gryfaf y rhaid ei fod yn Iuddew.

2. *Yr oedd yn frodor o Palestina.*—Profir hyny yn eglur gan ei wybodaeth ddaearyddol, a'i wybodaeth leol gywir a manwl. Nid oedd modd yn y dyddiau hyny feddu gwybodaeth mor fyw a manwl ag a geir yn yr efengyl hon trwy gyfrwng llyfrau, fel y gellir ei meddu yn y dyddiau presenol. Eithr dyma un yn meddu y fath gydnabyddiaeth arbenig â Jerusalem, ac â Palestina yn gyffredinol, na allasai neb ei feddu ond un oedd wedi byw lawer o amser yn y wlad hono. Mor naturiol yw ei gyfeiriad at lyn Siloam (ix. 7); ac at lyn Bethesda gyda'i bum porth (v. 2). Mor fanwl y cyfeiria at Drysordy y Deml lle yr oedd yr Iesu yn athrawiaethu; at borth Solomon, a'i rodfa gauafol (x. 23), at afon Cedron a'i hamgylchoedd (xviii. 1), at Golgotha a'i gardd (xix. 17, 41). Mor hyddysg a chartrefol y sonia am Bethabara, tuhwnt i'r Iorddonen (i. 28), am Cana Galilea (ii. 1), am Ainon, yn agos i Salim, lle yr oedd dyfroedd lawer; am Sychar gyda'i ffynon ddofn, a'i hagosrwydd at Fynydd Gerizim, lle yr arferai y Samariaid addoli; am Fôr Galilea a'i lanau poblog; am ddinas dawel Ephraim yn neillduaeth yr anialwch. Pwy ond brodor o'r wlad, ac un hollol gyfarwydd â hi, fuasai yn mentro gwneyd y fath gyfeiriadau manwl a lluosog? Pwy bynag oedd yr awdwr, rhaid dyfod i'r casgliad ei fod yn frodor o Palestina.

3. *Ei fod hefyd yn llygad-dyst.*—Honna yr awdwr ei fod yn llygad-dyst o'r digwyddiadau a'r amgylchiadau a gofnoda. Nid teg yw troi yr honiad o'r neilldu heb gymaint ag ystyried a oes sail iddo. Pwy ond llygad-dyst allasai ddefnyddio yr ymadrodd, "Ac ni a welsom ei ogoniant ef" (i. 14). Ond y mae yn xix. 35 eiriau yn y rhai yr hawlia'r awdwr yn yr ymadroddion cryfaf ei fod yn llygad-dyst, "A'r hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth: ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi." Rhaid credu yn ngoleu y geiriau hyn, fod yr awdwr naill ai yn llygad-dyst, neu ynte yn dwyllwr ac yn ffugiwr, ag y mae ei athrylith am wirionedd a chelwydd yn hollol anesboniadwy. Eithr onid yw ei hawl i fod yn llygad-dyst yn cael ei attegu gan gynwys yr efengyl? Ystyrier y caricter perffaith, a'r bywyd sanctaidd a glân, a ddesgrifir ynddi. Pwy allasai ei ddarlunio heb ei weled? Ebai Dr. Lewis Edwards am yr efengylwyr yn gyffredinol, ond y mae ei sylw mewn modd arbenig yn gymhwysiadol at awdwr y bedwaredd efengyl: "Y mae tybied eu bod heb gymmorth dwyfol yn alluog i gyfansoddi darlun, yr hwn sydd yn peri ini ddyweyd wrth edrych arno, dyna Dduw yn y cnawd! er iddynt gael y gwrthrych o flaen eu llygaid yn afresymol; ond y mae tybied eu bod yn alluog i gyfansoddi

y cyfryw ddarlun dwyfol heb erioed weled un gwrthrych yn cyfateb iddo, yn fwy afresymol." Ac eto, dyma wneir gan y rhai a wadant fod yr awdwr yn llygad-dyst; ac er hyny galwant eu hunain yn Rhesymolwyr! Fel prawf pellach ei fod yn llygad-dyst, sylwer fel y mae yn crybwyll manylion wrth adrodd yr hanes, na fuasai neb byth ond un oedd yn bresenol yn gweled ac yn sylwi arnynt yn debyg o feddwl am danynt. Nid yn unig enwa bersonau neillduol, ond rhydd ddarluniad mor fyw ohonynt fel ag yr ymddangosant yn hollol gydnabyddus ini; ac ychwanega grybwylliou yn nghylch yr amser a'r lle sydd yn gwbl naturiol i lygad-dyst. Cymerer fel engreifftiau: Yr awr yr eisteddodd yr Iesu wrth ffynon Jacob; nifer a maint y dyfr-lestri yn y briodas yn Nghana; pwys a gwerth yr enaint; nifer y pysgod yn y ddalfa olaf; yr awr y dechreuodd mab y pendefig wella; a'r awr y cymerodd yr Iesu y ddau ymofynydd gydag ef i'w letty. Dyma fanylion ag y buasai ffugiwr yn gofalu am beidio eu crybwyll rhag iddo fradychu ei hun, trwy ryw annghysondeb. Credaf yn ddiysgog fod pob golygiad am awduraeth y bedwaredd efengyl sydd yn gwadu fod yr awdwr yn dyst personol, yn drwyadl annghyson â'i phrif nodweddion.

4. *Fod y llygad-dyst hwn yn neb arall ond yr Apostol Ioan.*—Gwelir oddiwrth ddiwedd yr efengyl ei bod yn cael ei phriodoli i'r "disgybl yr oedd Iesu yn ei garu." Anmhosibl dyfod i'r un casgliad arall ond darllen xxi. Yr oedd yr awdwr, pwy bynag oedd, yn bresenol gyda'r Iesu wrth Fôr Tiberias (xxi. 1—24). Enwir saith yn bresenol, Simon Pedr, Thomas, Nathanael, Meibion Zebedeus, a dau eraill o'i ddisgyblion. Amlwg yw, hefyd, oddiwrth yr efengyl fod yr awdwr yn nghyfrinach yr Iesu. Yn ol yr efengylau eraill, perthynai tri o'r disgyblion i ryw gylch mwy cyfrinachol â'r Iesu. Yr oeddent gydag ef ar ben Mynydd y Gweddnewidiad, yn nhŷ Jairus, yn yr ardd, &c. O'r tri hyn, nid oes neb wedi tybied mai Pedr oedd yr awdwr, canys y mae mor annhebyg i'w arddull ef, ac yr oedd yn sicr wedi marw cyn adeg ei chyfansoddiad. Nis gallasai Iago, ychwaith, fod yn awdwr ohoni, canys rhoddasid ef i farwolaeth yn mhell cyn amser ei hysgrifeniad, ac felly nid oes neb yn bosibl ond Ioan. Cadarnheir hyn gan y ffaith nad yw yn enwi ei hun yn yr efengyl hon o gwbl. Rhoddir amlygrwydd arbenig iddo yn yr efengylau eraill, ond yn hon ymneilldua yn wylaidd i'r cysgod o dan yr enw y "disgybl yr oedd Iesu yn ei garu." Ioan, a Ioan yn unig sydd yn cyfateb i'r holl hanes a'r holl amgylchiadau. "Ysgrifena yn amlwg," ebai Cernyw Williams, "fel un oedd yn hysbys o'r bywyd o'r tufewn i gylch cyfrin y deuddeg, ac fel un yn byw yn agos iawn at y

Gwaredwr, fel un yn clywed curiad ei galon, yn sylwi ar ei wahanol deimladau, a'i amrywiol ysgogiadau." Rhodder yr ystyriaethau hyn at eu gilydd a chyfansoddant brawf amgylchiadol nas ceir ei gryfach ond anfynych iawn, mai yr Apostol Ioan yw awdwr yr efengyl hon.

Trown eto at y prawf *allanol* neu *hanesyddol*. Mae yn dra theilwng o sylw, i ddechreu, nad amheuwyd yn yr Eglwys Gristionogol am yn agos ddeunaw can mlynedd, mai Ioan oedd awdwr yr efengyl, gyda'r eithriad o ryw blaid hereticaidd fechan, ddinod, a elwid *Alogi*, oblegid y gwadent athrawiaeth y *Logos*, neu y Gair a ddysgir gan Ioan. Priodolent yr efengyl i Cerinthus o bawb, un y credai Irenæus, yn nghyda thraddodiad yr eglwys, fod yr efengyl wedi ei hysgrifenu i'r amcan o wrthbrofi ei gyfeiliornadau! Yn awr, nid peth bach ydyw myned yn erbyn crediniaeth unfrydol a chyson yr eglwys am yn agos i ddeunaw canrif. Ni dderbyniodd yr eglwys unrhyw lyfr i mewn i'r Canon heb ymchwiliad manwl, a phrawf digonol o'i ddilysrwydd. Nid oedd yn unfryd ei meddwl gyda golwg ar dderbyniad rhai o lyfrau y Testament Newydd i mewn i'r Canon, ond ni fu y gradd lleiaf o betrusder yn ei meddwl i dderbyn y bedwaredd efengyl fel gwaith yr Apostol Ioan. Ni fu erioed fwy o chwilio allan ddychymygion nag sydd yn mhlith y rhai a wadant mai Ioan yw awdwr y bedwaredd efengyl. Ymaflant yn mhob gwelltyn er ceisio cadw eu hunain rhag boddi.

Rhoddir pwys mawr gan wrthwynebwyr yr efengyl ar yr ystyriaeth nad yw awduron oedd yn cydoesi âg Ioan, neu yn ei olynu yn uniongyrchiol, yn cyfeirio yn eglur a diamheuol ati fel gwaith yr Apostol Ioan. Cyn myned yn mlaen i ddangos nad oes cymaint o sail i hyn o lawer ag y mŷn Rhesymolwyr ini gredu, dylid cofio mai ychydig iawn o lenyddiaeth y cyfnod hwnw sydd wedi dyfod i lawr atom. Pe buasai mwy ohono wedi ei arbed, diau y buasai y cyfeiriadau at Efengyl Ioan yn amlach ac yn eglurach. Er dangos ffordd y mae beirniadaeth ar y cwestiwn hwn yn symud, sylwer ar yr hyn a ganlyn:—Ar un adeg, dywedai Baur, un o wrthwynebwyr pennaf yr efengyl, nad ysgrifenwyd hi cyn 160 neu 170 o.c. Ond fe fu raid i'r gwrthwynebwyr, er eu gwaethaf, ildio yn raddol i'r farn iddi gael ei chyfansoddi yn gynt. Aeth Zeller a hi yn ol i 150, Hilgenfeld i 140, Keim 130, Renan a Schenkel o 110 i 115, Moffatt 95 i 115, a Harnack 80 i 110. Cofier mai gwrthwynebwyr y golygiad mai yr Apostol Ioan yw awdwr yr efengyl sydd wedi gorfod caniatau cymaint a hyn; nes dyfod a chyfansoddiad yr efengyl *o fewn terfynau dyddiau Ioan*, yn ol y beirniaid mwyaf dysgedig ac uchaf eu hawdurdod, megys Harnack a Moffatt. Gwelir felly,

yn ol y beirniaid hyn, fod yna bosiblrwydd i Ioan, fab Zebedeus, fod yn awdwr iddi.

Beth am y tystiolaethau mai Ioan yw ei gwir awdwr? Yn ddiamheuol, mae y Rhesymolwyr wedi colli tir yn y cyfeiriad hwn hefyd. Rhaid, y mae'n debyg, myned mor bell yn mlaen a 180, cyn cyfarfod â dyfyniad eglur a diamheuol o Efengyl Ioan, a cheir ef gan un o'r enw Theophilus o Antiochia. Mewn ysgrif a elwir "*Muratorian Fragment*" y ceir y datganiad eglur cyntaf mai yr Apostol Ioan oedd awdwr y bedwaredd efengyl. Cyfansoddwyd yr ysgrif hon tua 170, eithr nid yw hyn yn profi o gwbl nad oedd yr efengyl mewn bod yn mhell cyn hyny. Eir yn mlaen i geisio dangos hyny. Mae olion o fodolaeth yr efengyl i'w chael yn y *Didache* neu Ddysgeidiaeth y Deuddeg, ysgrif ag y mae ei dyddiad yn myned yn ol agos i 100 o.c. Cyhoeddodd Polycarp, disgybl Ioan, ei Epistol at y Philippiaid oddeutu 110, yr hwn a gynnwys brawf amlwg ei fod yn gydnabyddus âg Epistol 1af Ioan, ac y mae y fath gysylltiad agos rhwng yr epistol a'r efengyl fel ag y mae y naill yn profi y llall. Ac yn mhellach, maentumia Dr. Drummond fod yna, o leiaf, un dyfyniad rhanol o'r efengyl yn ngwaith Polycarp. Ysgrifena Irenæus drachefn ei fod yn cofio Polycarp yn adrodd rhai o ddigwyddiadau yn hanes bywyd ein Gwaredwr a glywsai gan lygad-dyst; ac aiff yn mlaen i ddyweyd yn y cysylltiad hwn, "fod Ioan, dysgybl yr Arglwydd, yr hwn a orweddai ar ei fynwes, wedi cyhoeddi efengyl pan y preswyliai yn Ephesus yn Asia." Ac y mae'n deilwng o sylw, fod yna gysylltiad agos iawn rhwng Irenæus a'r Apostol Ioan, efe yn ddysgybl i Polycarp, a Polycarp yn ddysgybl i Ioan, ac felly y mae'n annghredadwy y gallasai Irenæus, yn y fath gysylltiad dyddorol ac agos â Ioan ei hun, fod wedi camddeall parthed awduraeth yr efengyl. Pe buasai ein terfynau yn caniatau, gallasem aros i ddangos fod prawf o gydnabyddiaeth âg Efengyl Ioan i'w gael yn ngwaith Ignatius (oddeutu 110), ac fod ysgrifenwyr hereticaidd, megys Basilides a Valentinus (125 a 145) yn dyfynu ohoni. Profir hefyd yn Epistol Barnabas (132) fod yr efengyl yn ei ddwylaw ef. Ac y mae brawddegau ac ymadroddion i'w cael yn ngwaith Justin Ferthyr (147) sydd yn brawf amlwg y gwyddai yntau am yr efengyl.

Nis gallaf beidio cyfeirio at *Diatessaron*, neu Gysondeb Tatian. Dywedai awdwr perthynol i'r ddeuddegfed ganrif, o'r enw Dionysius Bar-Silibi, fod y cysondeb yn dechreu gyda'r geiriau: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair." Eithr gwadai y Rhesymolwyr hyny yn bendant; ond o'r diwedd, yn 1886, fe gafwyd copi Arabaidd cyflawn o gysondeb

Tatian yn yr Aipht, ac yn hwnw gwelwyd fod Dionysius yn iawn, ac fod y gwaith yn cynwys y pedair efengyl. Dengys y darganfyddiad hwn yn amlwg fod y bedwaredd efengyl yn cael ei derbyn fel yn apostolaidd gan Eglwysi Syria, lle y treuliodd Tatian y rhan olaf ei fywyd, oddeutu y flwyddyn 160 neu 165. Yn awr, gofynaf pa fodd yr oedd yn bosibl i holl gylch yr Eglwysi Cristionogol yn y Dwyrain a'r Gorllewin fod wedi camsynio fel ag i dderbyn y bedwaredd efengyl fel gwaith yr Apostol Ioan, os nad efe mewn gwirionedd oedd ei hawdwr? Dim llais i'r gwrthwyneb yn codi o unrhyw gyfeiriad. Pan y dechreuodd Theophilus, o Antiochia, mewn ffordd dawel gymeryd yn ganiataol mai Ioan oedd awdwr yr efengyl, os nad efe mewn gwirionedd a'i hysgrifenodd, sut na fuasai rywun yn codi i'w wrthwynebu a'i gywiro? Nid oes ond un atebiad i'w roddi, sef, nad oedd neb yn credu yn wahanol i Theophilus ar y cwestiwn.

Yn mha le yr oedd rhywun heb ddyfod yn mlaen i haeru mai yr "*Henadur*" Ioan, y mae cymaint o sôn am dano yn y dyddiau hyn, oedd ei hawdwr, ac nid yr Apostol Ioan? Pe buasai rhywun yn yr oes hono yn tybio hyny, buasai yr haeriad yn sicr o gael ei wneyd. Yr "Henadur" Ioan yn wir! Nid rhyfedd i Dr. Fisher ddyweyd am dano: "He is apparently a much more notable person in the German criticism of the present day than he was in his own time or later." Dyma'r hudlewyn mwyaf disylwedd y ceisiodd dychymyg gwyllt a rhamantus redeg ar ei ol erioed. Nid oes un math o sicrwydd gwirioneddol am ei fodolaeth. A thybio fod y fath berson yn bod a'r "Henadur" Ioan, nid oes rithyn o sail i gredu fod ganddo allu a chymwysder i ysgrifenu y bedwaredd efengyl. Rhaid fod yr un allasai gyfansoddi Efengyl Ioan, yn ddyn o allu a dylanwad mawr yn yr oes yr oedd yn byw ynddi, a buasai wedi enwogi ei hun yn ddigonol fel ag i greu llawer mwy o sôn am dano nag sydd am yr "Henadur" Ioan.

Cadarnheir fy meddwl i yn y grediniaeth mai yr Apostol Ioan, ac nid neb arall ysgrifenodd y bedwaredd efengyl, gan yr ystyriaeth nad allasai neb ond efe ei hysgrifenu o'r rhai oedd yn byw o ddechreu yr ail ganrif i lawr hyd y bedwaredd ganrif. Ni raid ond darllen cynyrch meddwl awduron yr ail a'r drydedd ganrif, na chanfyddir ar unwaith fod yna fyd o wahaniaeth rhyngddynt, a'r meddyliau dyfnion ac ysprydol sydd yn Efengyl Ioan. Gwir ddywed Prof. Peabody: "Mae'n rhaid ini fyned i lawr i'r bedwaredd ganrif, i ddyddiau Chrysostom ac Augustine, cyn y gallwn gael unrhyw ysgrifenydd Cristionogol na

fyddai yn wrthun tybio y gallasai gyda chymorth yr efengylau cydolygol gyfansoddi y fath annerchiadau ag sydd yn Efengyl Ioan."

Fel hyn, rhodder ystyriaeth deg a diragfarn i'r profion tufewnol ac allanol y cyfeiriwyd attynt, a chredaf fod yn anmhosibl peidio dyfod i'r casgliad mai Ioan, y disgybl anwyl, ysgrifenodd y bedwaredd efengyl.

IV.—Amcan a Chynllun yr Efengyl.

Mae yn hawddach deall amcan ysgrifeniad yr efengyl hon na'r un o'r efengylau eraill, yn gymaint ag fod yr awdwr ei hun wedi dyweyd beth oedd ei amcan, "Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef." Ac ar ol i'r awdwr ei hun nodi allan yr amcan mor eglur a phendant, ymddengys i mi mai diangenrhaid a difudd yw myned i ddyfalu am amcanion eraill i'w hysgrifeniad. Ac y mae hwn yn amcan mor anrhaethol bwysig fel ag y mae pob amcan arall yn diflanu i'r cysgod yn ei ymyl. Ie, yn sicr, amcan ysgrifeniad Efengyl Ioan yw dwyn ei ddarllenwyr i gredu mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; ac y mae'r holl ddefnyddiau wedi eu dethol a'u trefnu yn y ffordd fwyaf cyfaddas er arwain dynion i gredu mai Iesu o Nazareth oedd y Crist, neu y Messiah addawedig, ac nad yw efe yn neb llai na Mab Duw.

Gan fod yr awdwr ei hun wedi mynegu ei amcan yn ysgrifenu ei efengyl, yr wyf heb betrusder yn gwrthod yr amcanion a briodolir iddi gan ysgrifenwyr eraill. Nid amddiffynol *(apologetic)* oedd ei hamcan, er ar yr un pryd y gall wneyd gwasanaeth pwysig yn y cyfeiriad hwnw; nid cyflawniadol oedd ei amcan, er ei bod i raddau yn cyflenwi diffyg yr efengylau ereill; nid ei hamcan ychwaith, oedd gwrthbrofi rhai o gyfeiliornadau yr oes, er y gwna hyny yn bur effeithiol; ond ei hamcan arbenigol oedd eangu, dyfnhau, a chadarnhau ffydd y rhai oedd eisioes wedi dechreu credu fod yr Iesu yn Grist, ac yn Fab Duw.

Gyda golwg ar gynllun yr efengyl, gellir dyfod i feddu syniad gweddol eglur am dano yn ngoleu yr amcan mewn golwg. I fod yn fyr, y mae yma, yn ol Esgob Westcott, "ddadblygiad cyfochrog o ffydd ac annghrediniaeth trwy bresenoldeb hanesyddol Crist." Credaf fod pob peth sydd wedi ei gofnodi yn yr efengyl yn dyfod o fewn terfynau y cynllun hwn. Nid oedd modd i Ioan fod yn hanesyddol deg a chywir heb gyfleu gerbron y ddwy ochr, dadblygiad ffydd ar y naill law, a dadblygiad annghrediniaeth ar y llaw arall. Eithr nid yw yn cofnodi hanes dadblygiad annghrediniaeth er ei fwyn ei hun, ond fel *back ground* du sydd yn dangos yn well fuddugoliaeth a gogoniant ffydd.

V.—Hanes yr Awdwr.

Ychydig iawn yw yr hanes a feddwn am yr Apostol Ioan. Gwyddom ei fod yn fab i Zebedeus ac i Salome. Pysgotwr ar Fôr Galilea oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, a dygwyd ei feibion, Iago ac Ioan, i fyny yn yr un alwedigaeth. Ymddengys oddiwrth y ffaith eu bod yn cadw "cyflog-ddynion," fod y fasnach yn llwyddianus, a'u bod mewn amgylchiadau bydol uwch na'r cyffredin. Rhoddir sail i gredu oddiwrth Ioan xix. 25 fod Salome yn chwaer i Mair, mam yr Iesu, ac felly fod Ioan yn gefnder i'r Gwaredwr yn ol y cnawd.

Ymddengys Ioan gerbron i ddechreu fel dysgybl dystaw ond ffyddlon i Ioan Fedyddiwr. Ond ar waith ei hen athraw yn dangos iddo "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd," y mae'n gadael y Rhagredegydd ac yn dilyn y Messiah. Ar ol dechreu ei ddilyn, ni bu neb yn fwy ffyddlon iddo nag Ioan. Glynodd wrtho yn ei brofedigaethau mwyaf, ac yr oedd yn aros wrth y groes pan yr oedd y disgyblion eraill wedi ffoi, a gadael yr Iesu. Yr oedd yn mhlith y rhai welsant yr Iesu ar ol ei adgyfodiad o feirw, ac yn cymeryd rhan amlwg yn nghychwyniad Cristionogaeth ar ol dydd y Pentecost. Alltudiwyd ef i Ynys Patmos, "Am Air Duw a thystiolaeth Iesu Grist." Yn ol traddodiad unfrydol yr eglwys, treuliodd hwyr-ddydd ei fywyd yn Ephesus; ac yno, yn ddiau, yr ysgrifenodd yr efengyl a'r epistolau. Credir iddo farw o farwolaeth naturiol, rywbryd rhwng 90 a 120 o.c.

BRASLUNELLIAD O GYNWYS PENNODAU I.—IX.

Y Rhagdraeth, i. 1—18.

Y Gair yn ei berthynasau gwreiddiol (1—5).
Yn ei amlygiadau hanesyddol (6—13).
Yr Ymgnawdoliad a'i ganlyniadau (14—18).

(Nodiad. Y Gair, 29).

Ei Weinidogaeth Gyhoeddus, 1—19 i xii. 50.

Gwahanol dystiolaethau i'r Iesu fel y Crist, 1—19, ii. 11.

(*a*) Tystiolaeth y Bedyddiwr, i. 19—40.

I'r gynrychiolaeth o Jerusalem (19—28).
I'r bobl (29—34).
I'r ddau ddisgybl (35—40).

(*b*) Tystiolaeth y disgyblion, i. 41—51.

(*c*) Tystiolaeth natur—y wyrth gyntaf, ii. 1—11.

(Nodiad. Gwyrth).

Ymweliad byr â Capernaum, ii. 12.

Y Weinidogaeth foreuol a'i gwahanol ganlyniadau, ii. 13, iv. 54.

(*a*) Yn y deml ii. 13—22.
(*b*) Yn Ninas Jerusalem, ii. 23, iii. 21.
(*c*) Yn Judea, iii. 22—36.
(*d*) Yn Samaria, iv. 1—42.
(*e*) Yn Galilea, iv. 43—54.

Amlygiad llawnach o'r Iesu fel y Crist, a gwrthodiad annghrediniol yr Iuddewon ohono, v. 1, xii. 50.

(*a*) Yr Iesu yn ffynhonell ac yn gynhalydd bywyd, v. 1, vi. 71.

Ei waith yn iachau y gŵr claf ar y Sabboth yn cyffroi gelyniaeth yr Iuddewon tuag ato, v. 1—18.

Pregeth Crist wrth Lyn Bethesda, yn yr hon yr honna ei fod fel y Mab yn ffynhonell bywyd, v. 19—47.

Yn porthi y pum mil yn Galilea, vi. 1—15.
Yr Iesu yn rhodio ar Fôr Galilea, 16—21.

Y bobl yn ei ganlyn i Capernaum. Ei bregeth am dano ei hun fel Bara y Bywyd, 22—59.

Ei heffaith ar ei wrandawyr, rhai yn credu, eraill yn cilio oddiwrtho, 60—71.

(*b*) Yr Iesu yn Jerusalem ar Wyl y Pebyll, ar ol arhosiad maith yn Galilea, vii. 1—52.

Yn dadlu gyda'i frodyr, vii. 1—9.
Ei bregeth ar Wyl y Pebyll, 10—39.
Canlyniadau gwahanol i'r bregeth, 40—52.

Gau chwanegiad yr adran am y wraig a ddaliwyd mewn godineb, vii. 53, viii. 11.

Tystiolaeth wir yr Iesu am dano ei hun, ac yn erbyn yr Iuddewon.

Crist yn ffynhonell gwirionedd, a bywyd yn cael ei egluro gan arwydd (ix.); arweiniad at yr arwydd (1—5); yr arwydd (6—12); gwahanol ganlyniadau yr arwydd (13—41).

EFENGYL IOAN.

PENNOD I.

YN y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair. 2. Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw. 3. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a

Y Rhaglith *(Prologue)*, 1—18.

Heb fyned i ormod o fanylwch, gellir rhanu y Rhaglith fel y canlyn; 1—5. *Y Gair yn ei berthynas â Duw ac â'r bydysawd.* 6—13. *Yr amlygiad hanesyddol ohono.* 14—18. *Yr Ymgnawdoliad a'i ganlyniadau.*

1—5. Y Gair yn ei Berthynas a Duw ac a'r Bydysawd.

Adn. 1. **Yn y dechreuad.** Cychwynfan yr Efengyl hon yw tragwyddoldeb. Treiddia y dechreuad hwn yn mhellach yn ol na'r dechreuad yn Llyfr Genesis (i, 1.) Dechreuad creadigaeth sydd yno, ond yma dechreuad o flaen creadigaeth. Rhaid i'r meddwl dynol meidrol gael ryw orphwysfan wrth geisio hedeg yn ol i dragwyddoldeb, onide fe ddiffygia ar y daith; ac yn y gair dechreuad y daw o hyd iddo. Treiddied meddwl dyn faint a fyno yn ol i dragwyddoldeb, nis gall byth fyned tu hwynt i "ddechreuad" Efengyl Ioan. **Yr oedd y Gair.** Os nad yw y geiriau hyn yn dysgu rhagfodolaeth yr Iesu ymgnawdoledig, y mae yn anmhosibl cyfleu mewn iaith y syniad o gwbl. Nid fe ddaeth y Gair i fod yn y dechreuad, ond *yr oedd* yn bodoli erioed. Gwneir gwahaniaeth amlwg yn yr Efengyl hon rhwng pethau sydd wedi dyfod i fod a'r hwn oedd yn bodoli erioed. (Am ystyr y term Gair, gwêl Nodiad ar ddiwedd y Bennod.) **A'r Gair oedd gyda Duw.** Yma gwahaniaethir y Gair oddiwrth Dduw. Gan mai *gyda* Duw yr oedd y Gair, gwelir fod gwahaniaeth personol rhwng y Tad a'r Mab erioed. **A Duw oedd y Gair.** Ar ol crybwyll am y gwahaniaeth personol yn y geiriau blaenorol, rhoddir pwyslais ar yr unrhywdeb hanfodol sydd rhwng y Tad â'r Mab. Yn lle darllen *a Duw oedd y Gair*, gellir darllen yn gywirach, *a'r Gair oedd Duw.** Ac felly y mae y Gair a Duw yn un o ran sylwedd. Nid Dwyfol yn unig yw y Gair, ond Duw gwirioneddol.

Adn. 2. **Hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw.** Ail adroddiad gyda phwyslais yw y geiriau hyn o syniad adn 1. Pwysig iawn yn nghyfrif yr Efengylwr yw cofio fod y Gair yn cydhanfodi yn nhragwyddoldeb gyda Duw.

Adn. 3. **Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth.** *Pob peth a wnaethpwyd trwyddo ef* (W. E.); *Pob peth trwyddo ef y'n gwnaethpwyd* (B). Mae y ddau

* Nid yr un ystyr sydd i'r gair Duw yn y ddau le yn yr adn. hon. Pan ddywedir fod y Gair "gyda Duw" defnyddir y fanod o flaen "Duw" (*ton theon*), a golyga y Tad. Ond pan ddywedir "a'r Gair oedd Duw," defnyddir y gair "Duw" heb y fanod (*Theos*), a golyga y natur Ddwyfol. Ac felly er nad yw y Gair yr un a'r Tad o ran ei Berson, eto y mae yn gyfranog o'r un sylwedd neu hanfod a'r Tad. Mae yn *Theos*, h.y., *Duw* mor wirioneddol ag yntau.

wnaethpwyd. 4. Ynddo ef yr oedd bywyd ; a'r bywyd oedd oleuni dynion. 5. A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch ; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.

---

gyfieithiad hyn yn fwy llythrenol, ac yn dangos y gosodir pwyslais arbenig ar y geiriau "*pob peth*." Nid oes dim crëedig nad yw wedi dyfod i fod trwy y Gair. Efe oedd cyfrwng creadigaeth yr holl fydysawd. **Ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd.** "*Ac hebddo ef ni wnaethpwyd hyd y nod un peth*" (W. E.). Yn y geiriau hyn dysgir yr un gwirionedd ag yn y geiriau blaenorol, ond mewn agwedd nacaol. Dull Hebreaidd yw cyfleu yr un syniad yn gadarnhaol ac yn nacaol. Mae y dull hwn yn nodweddiadol o Ioan.

Adn. 4. **Ynddo ef yr oedd bywyd.** Cynygir gan Feirniaid o awdurdod ddarlleniad gwahanol yma. Cysylltir dechreu yr adn. hon gyda diwedd yr adn. flaenorol, a darllenir, "Hebddo ef ni wnaethpwyd un peth ; a'r hyn a wnaethpwyd ynddo ef oedd fywyd." Dadleua Dr. Westcott yn gryf dros y darlleniad hwn. Yn y C.D. rhoddir y darlleniad hwn ar ymyl y ddalen, fel un y gellir ei gymeryd yn lle y darlleniad cyffredin. Dadleuir drosto hefyd yn gryf iawn gan M. a M. Dyma y darlleniad a dderbynid yn gyffredinol gan y Tadau Cristionogol yn y tri canrif cyntaf. Credaf, gan hyny, mai hwn yw y darlleniad cywir. Dysgir yn y geiriau mai am fod y Gair yn ffynhonell bywyd, yr oedd wedi creu pob peth (v 26). Cymerir y gair bywyd yma yn ei ystyr helaethaf. Nid bywyd moesol ac ysprydol yn unig a olygir, ond bywyd yn gyffredinol yn ei holl amrywiol ffurfiau. Rhaid olrhain pob math o fywyd yn ol at y Gair fel ei darddell. Grym (*energy*) yn tarddu ohono ef, ac yn dibynu yn barhaus arno ef, yw bywyd yn mhob agwedd arno. Dyma'r unig eglurhad ar darddiad bywyd. Nid oes gan Wyddoniaeth ddim goleuni i'w daflu ar y mater, canys y mae tu hwnt i'w therfynau cyfreithlon. Pwnc o ddatguddiad yn unig yw tarddiad bywyd. **A'r bywyd oedd oleuni dynion.** Ar ol defnyddio y gair bywyd yn ei ystyr helaethaf, defnyddir ef yma mewn ystyr neillduol ac arbenig, fel ag y mae yn effeithio ar ddynion, ar fodau rhesymol a moesol. Dyma fywyd o natur uwch a rhagorach na'r bywyd llysieuol neu anifeilaidd, bywyd nas gall neb na dim islaw bodau rhesymol a moesol gyfranogi ohono. Mae bywyd, fel yr ymddadblyga mewn rheswm ac hunanymwybyddiaeth, yn dyfod yn oleuni i ddynion—yn dyfod yn ffynhonell argyhoeddiadau moesol a dyheuadau ysprydol ynddynt. "Goleuni *dynion*." Nid rhai dynion, ond holl aelodau y teulu dynol. Mae y bywyd yn dyfod yn oleuni mewn dynion, am eu bod wedi eu creu ar lun a delw Duw. Ac oherwydd hyny, y maent yn alluog i ganfod, ac i sylweddoli, y dwyfol ynddynt hwy eu hunain. Dyma ogoniant dyn, fod y bywyd sydd ynddo yn cael ei drawsnewid i fod yn oleuni i'w arwain, i'w ddyrchafu, ac i'w buro. A phan yr apelia yr Iesu ato yn yr Efengyl, nid yw yn dibynu ar brawf allanol yn unig, ond apelia at y gweddill o oleuni y Gair sydd yn aros ynddo, yr hyn ddylai dderbyn y Gair yn gyflawn, gan wneyd brys i groesawu goleuni cryfach a chyflawnach.

Adn. 5. **A'r goleuni sydd yn llewyrchu.** Dylanwad naturiol goleuni yw llewyrchu, yn enwedig os yn cael ei amgylchynu gan dywyllwch. Nid *ocdd* yn

6. ¶ Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan. 7. Hwn a ddaeth yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, fel y credai pawb trwyddo ef.

---

llewyrchu, ond *sydd* o dan bob goruchwyliaeth. Yr oedd, ac y mae, hwn yn llewyrchu yn y byd Paganaidd. Ni fuasa Paganiaid amddifad o freintiau yr Efengyl byth yn gallu traethu syniadau moesol mor ragorol ag a draethwyd gan Socrates, Marcus Aurelius, Epictetus, ac eraill, oni buasai fod y goleuni yn llewyrchu arnynt. Ac y mae yn parhau i lewyrchu o dan oruchwyliaeth yr Efengyl. Nid yw goleuni yr Efengyl yn boddi y goleuni hwn, nac yn ei wneyd yn ddiangenrhaid ; yn hytrach, cryfha y goleuni, ac ymgymysga gydag ef, er goleuo y gydwybod, i ddyrchafu delfrydau dynion. **A'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.** "*A'r tywyllwch nis gorthrechodd ef*" (W.E.). "*And the darkness has not overpowered it*" (W.). Wrth y tywyllwch y golygir nid pechod yn unig, ond pob peth mewn dyn sydd yn tarddu oddiwrth bechod, ac yn ceisio atal i'r goleuni effeithio ar ei feddwl a'i galon. Cynwysa ragfarn, anwybodaeth, a holl rym llygredigaeth y galon ddynol. Megys yn ysgrifeniadau Ioan, y mae y goleuni yn arwyddlun o wirionedd a sancteiddrwydd, felly hefyd y mae tywyllwch yn arwyddlun o anwybodaeth, drygioni, a marwolaeth. Ac y mae y gwahanol nerthoedd moesol hyn yn gwrthwynebu eu gilydd, ac yn ymryson am yr oruchafiaeth. Ystyr y gair a gyfieithir "amgyffred" ydyw cymeryd gafael ar, gorddiwes, goddiweddyd, gorthrechu. "Dysgrifir y *goleuni* a'r *tywyllwch* yma fel dau allu gelynol i'w gilydd, a dangosir anallu yr olaf i *oddiweddyd*, i *drechu*, i *ddiffoddi*, ac i *ddifetha* y blaenaf" (W.E.). Pe caffai y tywyllwch neu bechod ei ffordd ei hun, fe ddinystriai bob argyhoeddiad moesol sydd mewn dyn, ac fe ddileai pob gwahaniaeth moesol sydd yn ei feddwl ef ; ond nis gall wneyd hyny. Nis gall wneyd hyny yn y byd presenol, o dan unrhyw amgylchiad, i neb sydd yn ei bwyll a'i synwyr, ac nis gall wneyd hyny yn y byd a ddaw, ychwaith ; onide fe ddarfyddai uffern a bod. Er ei holl ymdrech, nis gall orthrechu y goleuni.

6—13. Yr Amlygiad Hanesyddol o'r Gair.

Mae'r Efengylwr yma yn dyfod a'r Gair tragwyddol i gysylltiad âg amser, ac o dan amodau amser, ac felly daw yn wrthrych hanes, yn un y gellir tystio rhywbeth amdano. Mae yna lawer o dystio am Grist yn yr Efengyl hon, ond y tyst cyntaf a elwir yn mlaen yw Ioan Fedyddiwr. Naturiol iawn oedd i'r Efengylwr gyfeirio i ddechreu at y Bedyddiwr, canys cofiai amdano fel ei hen athraw, ac un fu yn offerynol i'w arwain ef at Grist.

Adn. 6, 7. **Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddiwrth Dduw a'i enw Ioan, &c.** Edrychai yr Efengylwr ar Ioan fel cenad anfonedig oddiwrth Dduw, fel rhagflaenorydd y Messiah, yn parotoi y ffordd o'i flaen, ac yn dwyn tystiolaeth iddo fel y Goleuni Dwyfol ei hun. Un dystiolaeth gyson i Grist oedd bywyd Ioan ar ei hyd. Ac ar ol dwyn tystiolaeth i'r Gair ymgnawdoledig, yr oedd ei waith ar ben, ac fe ddiflanodd yntau o'r golwg. **Fel y tystiolaethai am y Goleuni.** Gelwir y Gair yn Oleuni yma am mai efe yw ffynhonell y Goleuni, a

8. Nid efe oedd y Goleuni, eithr *efe a anfonasid* fel y tystiolaethai am y Goleuni. 9. Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn

---

thystiolaeth amdano oedd swyddogaeth arbenig Ioan. **Fel y credai pawb trwyddo ef.** Ceisio enill pawb i gredu yn y Goleuni oedd amcan Ioan, ac ni fu neb yn ffyddlonach i'w genadwri nag efe. Ac os na lwyddodd i enill pawb i gredu, eto fe lwyddodd i enill rhai ag y bydd ¡eu henwau mewn bri tra y bydd y Beibl mewn bod.

Adn. 8. **Nid hwn oedd y Goleuni.** Nid Ioan oedd y Goleuni ; gwahaniaethir yn eglur rhyngddo ef a'r Goleuni. "*Ond daeth fel y tystiolaethai am y Goleuni*" (W. E.).

Adn. 9. **Hwn ydoedd y gwir Oleuni.** "*Yr oedd y Goleuni gwirioneddol*" (W. E.). Nid yw y rhagenw "*hwn*" yn y wreiddiol, ac y mae y cyfeithwyr wedi ei roddi i mewn, debygid, er mwyn cau allan y posibilrwydd i neb dybied fod y gwir Oleuni yn wahanol i'r Goleuni y soniasai amdano eisoes. Na, y Goleuni gwirioneddol ydoedd. Defnyddir y gair gwirioneddol yn lled fynych gan Ioan, a golyga diledryw, sylweddol, a pherffaith, yn wrthgyferbyniol i'r hyn sydd ffugiol, disylwedd ac amherffaith. **Yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r sydd yn dyfod i'r byd.** Gwahaniaethir gyda golwg ar ddarlleniad y geiriau hyn, ac y mae hyny yn rhoddi ystyr wahanol iddynt. Pa un ai gyda "phob dyn," ai ynte gyda'r "hwn sydd yn goleuo" y dylid cysylltu y geiriau "sydd yn dyfod i'r byd?" Gwelir y gwahaniaeth ond sylwi ar y cyfeithiadau canlynol: "*Yr oedd y Goleuni gwirioneddol, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn, yn dyfod i'r byd*" (W. E.). "*Yr oedd y gwir Oleuni, yr Hwn sydd yn goleuo pob dyn, yn dyfod i'r byd*" (B). Credaf mai y darlleniadau hyn yw y rhai goreu. Ac felly y meddwl yw fod y gwir Oleuni yn y cwrsweithrediad graddol o ddatguddio ei hun yn amlycach i'r byd—yn dyfod i'r byd. Am Grist y dywedir yn fynych yn yr Efengylau, yr hwn sydd ar ddyfod, neu ar ddyfod i'r byd (Math. xi. 3 ; Ioan vi. 14 ; xi. 27). Nid yn yr Ymgnawdoliad y dechreuodd y Gair ddatguddio ei hun i'r byd. Yr oedd yn datguddio ei hun fel y gwir Oleuni, cyn datguddio ei hun yn llawnach ac yn amlycach fel Person Ymgnawdoledig. Ond pa un bynag ai mewn natur, ai ynte o dan yr Hen Oruchwyliaeth, ai ynte yn yr Ymgnawdoliad yr oedd y Gair yn datguddio ei hun—un datguddiad parhaol ydoedd, yn cynyddu o radd i radd, mewn eglurder, nes cyraedd ei esgyneb yn yr Ymgnawdoliad. **Yr hwn sydd yn goleuo pob dyn.** Diau mai nid at oleuni Crist yn yr Efengyl y cyfeirir yma, canys ni byddai hyny yn wir. Nid yw goleuni yr Efengyl wedi cyraedd eto at bob dyn ; ond dyma oleuni a fwynheir gan bob dyn yn ddiwahaniaeth yn mhob oes, ac o dan bob amgylchiad. Cynwysa y goleuni sydd yn ymwybyddiaeth foesol pob dyn, yn dangos y gwahaniaeth rhwng da a drwg moesol, ac yn ei gymhell i ddilyn y naill ac i ochel y llall. Ac am hyny, y mae pob dyn yn ddeddf iddo ei hun (Rhuf. ii. 14, 15.) Ond yn ychwanegol at hyn, credaf fod y goleuo yn cynwys fod Crist trwy ei Ysbryd yn ymwneyd mewn modd dirgelaidd â meddwl a chydwybod pob dyn, er ei gymhell i

dyfod i'r byd. 10. Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef ; a'r byd nid adnabu ef. 11. At ei eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef. 12. Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, *sef* i'r sawl

---

fywyd uwch a gwell. A chredaf hefyd, ond i ddyn fod yn ufudd ac yn ffyddlon i'r goleuni hwn, na fydd yn golledig. Dyma'r argyhoeddiad ddaeth i feddwl Pedr yn nglyn â Cornelius, y canwriad (Actau x. 34, 35),

Adn. 10. **Yn y byd yr oedd efe, &c.** Cyfeirir yma at bresenoldeb y Gair fel y Goleuni, cyn yr Ymgnawdoliad, yn y byd Paganaidd, ac hefyd o dan yr Hen Oruchwyliaeth Iuddewig. Nid oedd y byd yn ei adnabod i'r graddau ag yr oedd wedi datguddio ei hun iddo ar y pryd. Nid heb ei adnabod fel y Gair ymgnawdoledig a feddylir, canys nis gellid disgwyl iddo ei adnabod fel y cyfryw. Eithr nid oedd wedi ei adnabod fel ag i ddefnyddio ac i fyw i fyny i'r goleuni amdano oedd yn ei feddiant. Heb son am Baganiaid, nid oedd y cyffredin o Iuddewon yr hen oruchwyliaeth wedi ei adnabod i'r graddau y dylasent, pe yn ffyddlon i'r goleuni a dderbyniasent. Ambell i Abraham, a Dafydd, ac Esaiah oedd wedi cael ryw gip-drem arno ef.

Adn. 11. **At ei eiddo ei hun y daeth, &c.** "*I'w eiddo ei hun y daeth, a'i bobl ei hun nis croesawasant ef*" (W. E.). Nis gall fod unrhyw amheuaeth nad ymddygiadau anheilwng ei gydgenedl tuag at y Gair ymgnawdoledig sydd mewn golwg gan yr Efengylwr yn y geiriau hyn.

Adn. 12. **Ond cynifer ag a'i derbyniasant ef.** Er i gorph y genedl Iuddewig ei wrthod gyda dirmyg, eto fe gafwyd rhai unigolion yn eu plith i'w derbyn ef. Derbyniwyd ef gan y rhai mwyaf ysbrydol, y rhai yr oedd eu llygaid yn ddigon craff i'w adnabod fel Gair Duw a Goleuni dynion. Amlwg yw, fod y derbyn yma yn gyfystyr "a chredu yn ei enw ef," adn. 13. **Efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw.** Golyga y gair a gyfieithir "gallu" awdurdod gyfreithlawn, ac felly *hawlfraint*, nas gellir dadleu yn ei herbyn na'i hameu o gwbl, ac oherwydd hyny y mae yn safadwy a diogel. Nid *meibion* ond *plant* yw y cyfieithiad goreu yma. *Plant* a ddefnyddir gan Ioan ran fynychaf, a *meibion* gan Paul. Dynoda y gair *plant* berthynas ar ei hochr naturiol fel arwyddlun o'r bywyd ysbrydol sydd wedi deilliaw oddiwrth Dduw, tra y dynoda y gair *meibion* safle gyfreithiol, a rhagorfreintiau, wedi eu sicrhau trwy fabwysiad yn ol y gyfraith Rufeinig, fel eglurhad ar y safle newydd yn ngolwg Duw y dygir credinwyr iddi yn nhrefn yr Efengyl. **Sef i'r rhai a gredant yn ei enw ef.** Dyma'r waith gyntaf i Ioan ddefnyddio y geiriau *credu yn ei enw ef*, a ddefnyddir mor fynych ganddo yn ei Efengyl. Sonia Ioan weithiau am gredu *ynddo*, a chredu *yn y Mab*, ond yma credu yn ei *enw ef*. Credaf nad oes gwir wahaniaeth rhwng credu yn y Mab a chredu yn enw y Mab ; ond yn y gair *enw* rhoddir amlygrwydd i swm yr ansoddau sydd yn nodweddu y natur neu gymeriad y person. Diau y cyfeirir yma "yn ei enw ef," at y term Gair sydd yn fynegiad o

a gredant yn ei enw ef: 13. Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw. 14. A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant

---

natur ei Berson. Mae "credu yn enw" yn cynwys nid yn unig ymddiried ynddo, ond dyfod i *undeb* âg ef, nes cyfranogi o'i fywyd a'i gyfoeth.

Adn. 13. **Y rhai ni aned o waed, &c.** Pwysleisir yn y geiriau hyn ysbrydolrwydd a dwyfoldeb yr enedigaeth sydd yn gwneyd dynion pechadurus yn blant i Dduw. Nid oes a fynno *heredity* o gwbl a gwneyd dynion yn blant i Dduw Genedigaeth hollol ysbrydol ac uniongyrchiol o Dduw ydyw.

Yr Ymgnawdoliad a'i Ganlyniadau.

Adn. 14. **A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, &c.** Yn y geiriau hyn arweinir at un o'r athrawiaethau llawnaf o ddirgelwch a berthyn i Gristionogaeth. Dysgir fod y Gair tragwyddol mewn ryw ystyr nas gall bodau meidrol ei amgyffred wedi dyfod yn blentyn amser. Cyfieithiad anffodus yw "A'r Gair *a wnaethpwyd* yn gnawd." Yn un peth, y mae yn gwneyd y Gair yn rhy oddefol yn yr Ymgnawdoliad. Awgryma hefyd mai cnawd yn unig yw y Gair ar ol yr Ymgnawdoliad. Gwell yw cyfieithu, "A'r gair *a ddaeth* yn gnawd." Felly O. W., a'r holl gyfieithwyr goreu. "And the Word came in the flesh" (W.). Yn hollol wirfoddol yr ymunodd y Gair a'r natur ddynol, a dyma ystyr y gair cnawd yma,—y natur ddynol yn ei chyfanrwydd. Dylid cofio na pheidiodd ef a bod yn Air tragwyddol wrth ddyfod yn gnawd. Mae y syniad fod y Gair oedd yn cyfranogi erioed o holl briodoleddau hanfodol y Duwdod wedi ymddihatru ohonynt, ac wedi dyfod yn fôd meidrol yn yr Ymgnawdoliad, yn hollol afresymol. Nid dyma'r ffordd i leihau dirgelwch yr Ymgnawdoliad, yn hytrach ei gynyddu y mae. Os yw yn anhawdd i ni ddeall pa fodd y daeth Mab Duw yn ddyn gwirioneddol, mae yn anhawddach credu fod dim cyfnewidiad wedi cymeryd lle yn ei natur hanfodol, nes i'r Anfeidrol ddyfod yn feidrol. A dyma y mae pob ffurf ar y *Kenotic theory* (Damcaniaeth yr Ymwaghad) yn ceisio ei wneyd—meidroli yr Anfeidrol, yr hyn sydd wrthun i'r eithaf. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb," pan y mae yr Anfeidrol a'r meidrol yn dyfod i undeb a'u gilydd yn yr Ymgnawdoliad, ond rhaid credu mai yr un "*myfi*" mawr oedd yn cyfuno y ddwy natur. Y wir gyffes yw, ei fod ef yn *wir* Dduw, yn *berffaith* ddyn, yn Un Person *anwahanadwy*, ac yn ddwy natur *ddigymysg*. "Y dirgelwch hwn sydd fawr," ac y mae'n debyg yr erys yn ddirgelwch byth i fodau meidrol,—

"Dwfr i nofio heb fyn'd drwyddo—
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn."

Ac a drigodd yn ein plith ni. "*Ac a ymbabellodd yn ein plith ni*" (W. E). Syniad prydferth fod Crist yn ystod ei arosiad ar y ddaear wedi gosod ei babell yn mhlith dynion; cyfeiriad yn ddiau at y tabernacl yn yr anialwch, lle y trigai Duw yn mhlith ei bobl Israel. A dyma welai Ioan yn y Gair ymgnawdoledig—tabernacl neu deml lle y preswyliai Duw mewn gwirionedd. "Ond efe a ddywedasai

megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd. 15. ¶ Ioan a dystiolaethodd am dano ef, ac a lefodd, gan ddywedyd, Hwn oedd yr un y dywedais am dano, Yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i. 16. Ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am

---

am deml ei gorph" (gwel ii. 19—21.) **Ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr Unig-anedig oddiwrth y Tad.** Megys ag yr oedd yn y tabernael gynt *Shecinah*, gogoniant gweledig y presenoldeb Dwyfol, felly hefyd yn nhabernael yr ymgñawdoliad—yr oedd wedi ei lanw â gogoniant y presenoldeb Dwyfol. Ac megys nad oedd pawb yn cael y fraint o weled y *Shecinah* o dan yr hen oruchwyliaeth,—neb ond yr Archoffeiriaid trwy fyned i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf,—felly hefyd nid pawb a welsant ogoniant Dwyfol yr Iesu pan ar y ddaear yn nyddiau ei gnawd. Y credinwyr megys disgyblion yr Iesu oedd yn meddu llygaid ysbrydol digon craff i ganfod ei ogoniant Dwyfol, hwy yn unig oedd yr offeiriaid oedd yn cael y fraint o fyned i mewn i Sanctaidd Sancteiddiolaf ei Berson nes gweled ei ogoniant. Ystyr y gair *welsom* yw syllu yn daer, dyfal edrych. Ac yr oedd y gogoniant a welsant yn cyfateb i ogoniant yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn gyfryw nas gall neb arall ei feddu na'i ddangos ond efe. Sylwer fod Ioan yma yn unoli y Gair a'r Unig-anedig. Yr un person yw y naill a'r llall, y Gair yw y Mab a'r Mab yw y Gair. **Yn llawn gras a gwirionedd.** Nid y gogoniant oedd yn llawn gras a gwirionedd. Yr unig-anedig oddiwrth y Tad, neu fe ddichon yn fwy priodol, y Gair ymgnawdoledig a drigodd yn ein plith yn llawn gras a gwirionedd. "Gras" a olyga gariad Dwyfol yn ei weithrediad tuag at wrthrychau anheilwng a drwghaeddianol. Arwydda "gwirionedd" y sylweddol yn wrthgyferbyniol i'r cysgodol a'r disylwedd. Yr hyn oedd yn gysgodol o dan yr hen oruchwyliaeth, y mae wedi ei sylweddoli yn llawn yn y Gair ymgnawdoledig.

Adn. 15. **Ioan a dystiolaethodd amdano ef, &c.** Gwell darllen y geiriau hyn yn y presenol nag yn y gorphenol. "*Y mae Ioan yn tystiolaethu amdano ef.*" Yr oedd Ioan yr Efengylwr fel pe buasai yn clywed tystiolaeth y Bedyddiwr ar draws haner canrif yn tystiolaethu i'r Iesu. Amlwg yw fod y dystiolaeth wedi gwneyd argraff ddofn ar ei feddwl. Y darlleniad cywiraf yw, "Hwn oedd yr un y dywedais amdano, yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i sydd wedi myned o'm blaen i; canys yr oedd efe o'm blaen i." Yr oedd Crist yn dilyn y Bedyddiwr, yn dyfod ar ei ol ef, o ran amser ei ymddangosiad ar y ddaear, ond yr oedd o'i flaen ef o ran ei fodolaeth, ei natur, ei safle, a'i urddas. **Canys yr oedd efe o'm blaen i** —o ran bodolaeth bersonol erioed, fel y Gair tragwyddol.

Adn 16. **Ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll.** Digon anhawdd penderfynu weithiau pa un ai yr Efengylwr ei hun ai ynte ryw un arall sydd yn llefaru mewn rhai lleoedd yn yr Efengyl. Wele engraifft o hyny yma. Eithr credwn yn sicr mai yr Efengylwr, ac nid y Bedyddiwr bia'r geiriau hyn, a'i fod ef yn cyfeirio ynddynt at ddiwedd adn. 14. Dywedir yno fod y Gair ymgnawdoledig yn *llawn* gras, ac y mae y "cyflawnder" yma yn cyfateb i'r "llawn" yno. Ym-

ras. 17. Canys y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist. 18. Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnnw a'*i* hysbysodd *ef*. 19.

---

ddengys mai gan yr athronwyr paganaidd, a chan y Gnosticiaid y defnyddid y gair cyflawnder—*pleroma*. Yn Nghrist y mae cyflawnder gwirioneddol, ac y mae y cyflawnder sydd ynddo ef yn mhob ystyr yn gyfaddas i gyfarfod ac anghenion pechaduriaid euog a drwghaeddianol. Ni fuasai yn rhyw lawer o gysur i ni wybod fod yn Nghrist gyflawnder o nerth, o ddoethineb, ac o sancteiddrwydd; *cyflawnder o ras* yn unig sydd yn agor drws gobaith o flaen pechaduriaid. Ac nid mater o dybio na gobeithio, nac hyd y nod credu ydyw fod cyflawnder o ras ynddo ef, ond mater o *brofiad*—"y derbyniasom ni oll." **A gras am ras.** Gras yn gyfnewid am ras: gras yn lle gras, fel pe buasai un gras yn cymeryd lle un arall. Gras llai yn cael ei ddilyn gan ras mwy a helaethach. Ac y mae ffyddlondeb yn defnyddio y gras llai yn arwain i feddiant o ras mwy. "I'r hwn y mae ganddo y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd."

Canys y gyfraith a roddwyd trwy Moses. Nid y ddeddf foesol yn unig a olygir wrth y gyfraith, ond y gyfundrefn Iuddewig. Tra yn dangos fod llawer mwy wedi ei gael trwy Grist, nid yw am ddibrisio yr hyn a gafwyd trwy oruchwyliaeth Moses. Yr oedd yna wasanaeth a gwerth yn perthyn i'r Hen Oruchwyliaeth, ond o'i chydmaru â'r Efengyl, yr oedd yn mhell iawn ar ol. Cyfraith yn *gofyn* o hyd ydoedd, ond gras yn *rhoddi* sydd yn fwyaf nodweddiadol o'r Efengyl. Nid yn unig y mae gras wedi dyfod trwy Iesu Grist, ond y mae y gwirionedd wedi dyfod trwyddo ef hefyd. Ac wrth wirionedd yma y golygir sylwedd, mewn gwrthgyferbyniad i'r cysgod. Canys Iesu Grist ydoedd sylwedd pob peth arwyddluniol a chysgodol a berthynai i'r hen oruchwyliaeth.

Adn. 18. **Ni welodd neb Dduw erioed**—yn ei hanfod ysprydol ac anweledig; triga yn y goleuni nas gellir dyfod ato. Yn y Dwyf-ymddangosiadau (*Theophanies*) i'r patriarchiaid a'r prophwydi, ni welid Duw mewn gwirionedd, ond trwy gynrychiolydd, a Duw Fab oedd y cynrychiolydd hwnw. **Yr Unig-anedig Fab.** Yn ol y Beirniaid goreu, dylid darllen yma—yn lle Mab—*Duw* unig-anedig. Ac felly y mae'r Efengylwr yn diweddu, lle y dechreuodd (adn. 1), gyda mynegiad fod y Gair yn Dduw gwirioneddol. Yr unig wahaniaeth sydd rhwng y Mab a'r Tad ydyw ei fod Dduw *Unig-anedig*, neu *Unig-genededlig*. **Yr hwn sydd yn mynwes y Tad.** Yr oedd yn y gyfrinach Ddwyfol, ac mewn cymundeb parhaus â'r Tad, ac felly dynoda gymhwysder hanfodol a gwreiddiol ynddo i ddatguddio Duw. **Hwnnw a'i hysbysodd ef.** "Hwnw a eglurodd *yr oll*" (W.E.). "Efe a'i mynegodd" (B.). Dylid pwysleisio *hwnw*. Efe, ac nid neb arall. Ystyr y gair a gyfieithir "hysbysodd" ydyw *arwain allan, esbonio, dehongli, amlygu*. Yr hyn a ellir ei wybod am Dduw, yn a thrwy Grist y gellir ei gyraedd. Efe sydd yn esbonio ac yn dehongli Duw. Efe yw yr unig safon sydd genym i ffurfio barn am Dduw. "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad."

¶ A hon yw tystiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti?

NODIAD AR Y TERM "GAIR."

Gwelir fod i'r term "Gair" le amlwg yn y Rhaglith sydd gan Ioan i'w Efengyl. Tra nad oes cymaint o wahaniaeth barn yn nghylch *ystyr* y term Gair, y mae gryn annghytundeb yn nghylch ei *darddiad*. Yn ei ystyr flaenaf a mwyaf arferedig yn llenyddiaeth Groeg, y mae iddo ddwy agwedd, yr allanol a'r dufewnol. Yn ei agwedd dufewnol, rheswm ydyw—rheswm tragwyddol yn Nuw; ond yn ei agwedd allanol, mynegiad neu ddatganiad ydyw. Ac felly, yn ol y defnydd a wneir ohono gan Ioan, golyga y Rheswm Dwyfol a thragwyddol, yn nghyda'r mynegiad neu y datganiad ohono. Nid y naill heb y llall, ond y ddau yn yr undeb agosaf â'u gilydd. Ac os felly, rhaid fod y Gair yn ogyhyd dragwyddol a'r Meddwl neu y Rheswm Dwyfol ei hun, ac yn fynegiad parhaus ohono. Gan fod Ioan am ddysgu mai Iesu Grist yw cyfrwng yr unig ddatguddiad o Dduw, nis gallasai gael gwell term na'r "Gair" i osod hyny allan. Yn y Gair tragwyddol, wedi ymgnawdoli yn mherson Iesu o Nazareth, fe gawn ddatguddiad cywir a chyflawn o Dduw. Mor bell ag y mae'n bosibl datguddio y Meddwl Anfeidrol i feddyliau meidrol, y mae hyny wedi ei wneyd yn berffaith yn y Gair ymgnawdoledig.

Gyda golwg ar ei darddiad, myn rhai ei olrhain yn ol i Ysgrythyrau yr Hen Destament; a dadleuai eraill mai yn Ysgrifeniadau Philo y daeth Ioan o hyd iddo. Ni oddef gofod imi roddi rhesymau drosto, ond dyma y casgliad y daethym iddo: mai yr Hen Destament yw ffynhonell y term Gair i'r Efengylwr, ond ar yr un pryd fod yn dra thebygol y gwyddai am y defnydd a wnai Philo o'r term, a'i fod yn ysgrifenu yn y goleu hwnw, ac yn cywiro y camddefnydd a wnai Philo o'r term Gair. Nid oedd Philo yn credu fod yn bosibl i'r Gair Dwyfol ddyfod i undeb â mater, am y credai fod mater yn hanfodol ddrwg. "Yn ol ei gyfundrefn ef ni allasai Duw ddyfod yn gnawd heb ddyfod hefyd yn bechadur, yr hyn ni ellid ei feddwl am foment." Naturiol yw credu fod awyrgylch lenyddol ei oes yn effeithio, i raddau mwy neu lai, ar bob ysgrifenwr. Ac nid yw ysgrifenwyr y Bibl yn eithriaid yn hyn, ac felly Ioan yr Efengylwr. Ysgrifenai mewn oes ag yr oedd y term Gair yn cael lle arbenig yn llenyddiaeth y dydd, a chymerodd yntau fantais ar y term i wasanaethu yr amcan oedd ganddo mewn golwg, ac anhawdd iawn, os nad anmhosibl, fuasai cael ei well, os yn wir ei gystal.

EI WEINIDOGAETH GYHOEDDUS, I. 19,—XII. 50.

Gwahanol Dystiolaethau fod yr Iesu yn Grist, i. 19,—II. 11.
Tystiolaeth Ioan Fedyddiwr, I. 19-40.

Adn. 19. **A hon yw tystiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti?** Dyma un o'r lluaws profion anuniongyrchiol sydd yn yr Efengyl hon mai Ioan, Mab Zebedeus, yw ei hawdwr. Nid oes dim yn fwy naturiol nag iddo ddechreu gyda thystiolaeth ei hen athraw, Ioan Fedyddiwr; ond a

20. Ac efe o gyffesodd, ac ni wadodd ; a chyffesodd, Nid myfi yw y Crist. 21. A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? Ai Elias wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nag ê. Ai y Prophwyd wyt ti? Ac efe a attebodd, Nag ê. 22. Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom atteb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun? 23. Eb efe, Myfi *yw* llef un yn gwaeddi yn y diffaeth-

---

thybio mai rhyw un arall yw yr awdwr, nid oes dim mwy o reswm dros iddo ddechreu gyda'r Bedyddiwr na chyda ryw un arall. Yr oedd gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr yn un mor hynod a phoblogaidd nes tynu sylw yr awdurdodau Iuddewig yn Jerusalem ati. Amlwg yw eu bod yn rhyw dybio y gallai Ioan fod y Messiah y disgwylid cymaint amdano. Pa fodd bynag, yr oedd eu cywreinrwydd wedi ei gyffroi i'r fath raddau nes bod yn awyddus am gael sicrwydd pwy ydoedd. Ac am hyny anfonasant offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, Pwy wyt ti? Tybir iddynt anfon offeiriaid am fod Ioan ei hun yn un o'r dosbarth offeiriadol, ac felly y gallai feddu fwy o ddylanwad drosto.

Adn. 20. **Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd; a chyffesodd, Nid myfi yw y Crist.** Yn y geiriau hyn rhydd ddatganiad cryf a phwysleisiol i'r ffaith, mai nid efe yw y Crist. Os oedd y ddirprwyaeth yn rhyw ddirgel gredu mai efe oedd y Messiah, dyma Ioan yn rhoddi terfyn bythol i'r fath dybiaeth.

Adn. 21. **A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? Ai Elias wyt ti? Yntau a ddywedodd, Nage.** Nid oedd y ddirprwyaeth am ddychwelyd i Jerusalem heb gael allan pwy oedd Ioan. A chan mai nid efe oedd y Crist, tybiasant y gallai mai Elias ydoedd. Trwy gamddehongli prophwydoliaeth Malachi am ymddangosiad Elias (Mal. iv. 5), drachefn, yn flaenorol i ddyfodiad y Messiah, yr oedd yr Iuddewon yn dysgwyl am Elias. Nage, ebai Ioan, nid myfi yw Elias ychwaith.. **Ai y proffwyd wyt ti? Ac efe a atebodd, Nage.** Gwelir yn Deuter. xviii. 15., ragfynegiad am ddyfodiad Proffwyd arbenig. Tybiasant y gallai mai Ioan oedd y Prophwyd hwnw. Nage, ebai Ioan, drachefn. Er byn hyn nis gallent ddychmygu o gwbl pwy ydoedd, ond gwelir oddiwrth yr adnod nesaf nad oeddent am ddychwelyd heb fynnu gwybod pwy ydoedd.

Adn. 22. **Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? fel y rhoddom ateb i'r rhai a'n danfonodd. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun?** Holiadau digon naturiol a thêg yw y rhai hyn, a theimla Ioan fod yn rhaid eu hateb.

Adn. 23. **Eb efe, Myfi yw llef un yn gwaeddi yn y diffaethwch, Unionweh ffordd yr Arglwydd, fel y dywedodd Esaias y prophwyd** (Esaias xi. 3). Rhydd Ioan fwy o bwys ar ei swydd a'i waith nag ar ei enw. Fel pe dywedasai, nid yw nemawr o bwys i chwi beth yw fy enw, na phwy ydwyf. Dyma fy swydd, "LLEF un yn gwaeddi yn y diffaethwch"—un yn cyhoeddi dyfodiad y Brenin Dwyfol, ac yn parotoi y ffordd o'i flaen

wch, Uniawnwch ffordd yr Arglwydd, fel y dywedodd Esaias y prophwyd. 24. A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid. 25. A hwy a ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, Paham gan hynny yr wyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd? 26. Ioan a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Myfi sydd yn bedyddio â dwfr; ond y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch chwi: 27. Efe yw yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, yr hwn a aeth o'm blaen i; yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddattod

---

yn y diffaethwch moesol, trwy alw dynion i edifarhau am bechod (Matt. iii. 3, Marc i. 3).

Adn. 24. **A'r rhai a ofynasid oedd o'r Phariseaid.** Mae'n bur debygol y dywedir yma fod y ddirprwyaeth yn Phariseaid, nid oherwydd yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol, ond oherwydd yr hyn sydd yn dilyn, ac i barotoi y ffordd tuag ato. Yr oedd y Phariseaid y sect fwyaf ceidwadol yn mhlith yr Iuddewon, ac yn warcheidwaid defod a threfn. A'r ystyriaeth eu bod yn Phariseaid manwl sydd yn cyfrif am eu gwaith yn holi Ioan yn yr adnod nesaf.

Adn. 25. **A hwy a ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, Paham gan hyny yr wyt ti yn bedyddio, &c.** Dyma yn gymhwys yr un ysbryd cul a defodol ag sydd yn gweithio yn Uchel Eglwyswyr y dyddiau presenol. Fel pe dywedasent wrth Ioan, Pa hawl sydd genyt ti i fedyddio? Gan nad wyt ti na'r Crist nac Elias na'r Prophwyd, eglur yw nad wyt ti yn yr "olyniaeth" o gwbl. Pa rinwedd gan hyny sydd yn dy fedydd di? Nid y bedydd oedd yn eu synu, nid oedd hwnw yn newydd iddynt; ond fod un mor ddiawdurdod ag Ioan yn bedyddio, hyn oedd yn aflonyddu eu meddyliau.

Adn. 26. **Ioan a atebodd iddynt, gan ddywedyd, Myfi sydd yn bedyddio a dwfr.** Nid oedd yn werth gan Ioan ymdroi gyda'r *arweyddiun*, sef y bedyddio â dwfr, ond ceisia eu harwain yn ebrwydd at y *sylwedd yspryd*ol, sef bedydd yr Yspryd Glân. Fel pe dywedasai—Nid yw o ddim pwys pwy ydwyf fi, gan mai bedyddio â dwfr yn unig yw fy ngwaith; y peth sydd yn bwysig i chwi yw adnabod un mwy na myfi sydd yn eich plith chwi; ond i chwi ei adnabod ef, fe a'ch bedyddia chwi nid â dwfr, ond â'r Yspryd Glan (Matt. iii. 11, Marc i. 8).

Adn. 27. **Efe yw yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol, yr hwn a aeth o'm blaen i.** Yn ol y beirniaid goreu, y mae y geiriau, "yr hwn a aeth o'm blaen i," i'w gadael allan, am nad ydynt yn y testyn gwreiddiol. **Yr hwn nid wyf fi deilwng i ddatod carai ei esgid.** Y gwaith iselaf yn y Dwyrain oedd hwn. Cyflawnid y gwaith gan gaethion i'w meistriaid, eithr nid oedd Ioan yn ystyried ei hun yn deilwng i gyflawni y wasanaeth iselaf i'r un oedd yn dyfod ar ei ol, ac yn sefyll eisoes yn eu plith, gan mor fawr ydoedd yn ei olwg ef.

Adn 28. **Y pethau hyn a wnaethpwyd yn Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio.** Pwy ond

carrai ei esgid. 28. Y pethau hyn a wnaethpwyd yn Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio. 29. ¶ Trannoeth Ioan a ganfu yr Iesu yn dyfod atto; ac *efe* a ddywedodd, Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd. 30. Hwn yw efe am yr hwn y dywedais i, Ar fy ol i y mae gwr yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe

---

llygad-dyst fuasai yn nodi allan mor fanwl y lle yr oedd Ioan yn bedyddio? Cytunir gan feirniaid yn gyffredinol mai *Bethania* yw y gair priodol, ac nid *Bethabara*. Nid Bethania Mair a Martha, gerllaw Jerusalem, ond Bethania arall tu hwnt i'r Iorddonen. Anmhosibl, erbyn heddyw, yw penderfynu gyda sicrwydd safle ddaearyddol y Bethania hwn.

29—34.—Cydnabyddiaeth Gyhoeddus Ioan o'r Gwaredwr.

Adn. 29. **Tranoeth Ioan a ganfu yr Iesu yn dyfod ato.** Nid i'w fedyddio, canys y mae y bedydd wedi cymeryd lle eisoes, fel y gwelir oddiwrth eiriau dilynol Ioan. adn. 32, 33. **Ac efe a ddywedodd, Wele Oen Duw.** Credaf fod y Bedyddiwr, yn y geiriau hyn, â'i lygad ar Oen y Pasg, yr hwn oedd yn ddigon adnabyddus i'r rhai a gyfarchai ar y pryd. Nid gosod allan ddiniweidrwydd ac addfwynder Crist oedd ei brif amcan, ond cyfleu y syniad y byddai iddo gael ei aberthu fel ag yr aberthid Oen y Pasg. Mae rhai yn methu credu fod y Bedyddiwr wedi gallu cyraedd y syniad am tarwolaeth aberthol ac iawnol Crist mor gynar yn ei hanes. Dylid cofio fod Ioan Fedyddiwr o dan ddylanwad neillduol yr Yspryd Glan. Yr oedd wedi ei gyflenwi â'r Yspryd Glan; ie, o groth ei fam (Luc i. 15). A thybio nad allasai gyraedd y fath syniad, pe wedi ei adael iddo ei hun, nid oedd hyny yn anmhosibl i un oedd wedi mwynhau dylanwad a goleuni yr Yspryd Glan i raddau mor helaeth. Ie, Oen *Duw* ydoedd. Duw o'i anfeidrol gariad tuag at fyd euog a phechadurus oedd wedi ei ddarparu a'i roddi. **Yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd.** "Yr hwn sydd yn cymeryd ymaith bechod y byd" (W.E.). "Yr hwn sydd yn dwyn ymaith bechod y byd" (B.). Golyga y gair *airôn* tynu, *gymeryd ymaith*, neu *gymeryd arno*, ac y mae y naill yn cynwys y llall yma. Nid oedd modd i Grist gymeryd *ymaith* bechod y byd, heb ei gymeryd *arno* ei hun. A gwnaeth hyny fel Oen Duw, trwy roddi ei hun yn aberth dros bechod. Yn y Groes, gan hyny, y mae grym moesol ac ysprydol a ddichon wahanu dynion oddiwrth eu pechodau. Cymerwyd pechod ymaith yn ei euogrwydd, ei allu gormesol a chaethiwol, a'r dinystr tragwyddol a berthyn iddo. *Pechod* yn ei ystyr eangaf, a'r *byd* yn ei ystyr helaethaf. Cofier fod yna amodau i weithrediad effeithiol a llwyddianus y grym ysprydol ac achubol sydd yn deilliaw o Groes ein Harglwydd Iesu Grist.

Adn. 30. **Hwn yw efe am yr hwn y dywedais. Ar fy ol i y mae gwr yn dyfod, &c.** Nid yw y geiriau hyn ond ailadroddiad o'r un syniad ag sydd yn adnod 27.

o'm blaen i. 31. Ac myfi nid adwaenwn ef : eithr fel yr amlygid ef i Israel, i hynny y daethum i, gan fedyddio â dwfr. 32. Ac Ioan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Mi a welais yr Yspryd yn disgyn megis colommen, o'r nef, ac efe a arhosodd arno ef. 33. A myfi nid adwaenwn ef ; eithr yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe

---

Adn. 31. **Ac myfi nid adwaenwn ef.** Nid adnabyddiaeth bersonol a feddylir. Yr oedd yn sicr yn ei adnabod yn flaenorol fel ei berthynas, ond nid oedd yn ei adnabod yn ei wir gymeriad fel y Messiah addawedig. **Eithr fel yr amlygid ef i Israel, i hyny y daethum i, gan fedyddio a dwfr.** Yn ei fedydd y datguddiwyd ef, trwy Ioan, fel y Messiah yr hir ddisgwylid amdano. Yr oedd gweinidogaeth a bedydd Ioan wedi eu bwriadu gan Dduw i fod yn foddion i barotoi y genedl ar gyfer y Messiah, ac i fod yn ddatguddiad ohono iddi.

Adn. 32. **Ioan a dystiolaethodd.** Nis gallai gyflawni y genadwri a ymddiriedwyd iddo heb dystiolaethu yn groew ac yn bendant. **Mi a welais.** Yn bwysleisiol. Golyga edrychiad sefydlog a dwys. **Yr Yspryd yn disgyn megys colomen, o'r nef, ac efe a arhosodd arno ef.** Yr oedd y weledigaeth hon yn meddu ar sylwedd gwrthrychol. Nid dychymyg ydoedd, ac nid geiriau ffugwrol ydynt. Gwel Luc iii. 22. Yr oedd yma arwyddlun gweledig o ddisgyniad yr Yspryd Glan ar Grist i aros gydag ef i'w arwain, ac i'w nerthu i gyflawni y gwaith a berthynai iddo fel y Messian. Credir iddo gael, trwy ddisgyniad yr Yspryd arno, sylweddoliad cliriach a llawnach o'i fabolaeth Ddwyfol.

Adn. 33. **Ac myfi nid adwaenwn ef, &c.,** fel y Messiah. Eithr yr oedd wedi derbyn hysbysiad gan Dduw mai ar yr hwn y disgynai y golomen nefol, mai hwnw oedd y gwir Fessiah ag yr oedd Ioan yn Rhagredegydd iddo.

Adn. 34. **Ac mi a welais, ac a dystiolaethais mai hwn yw Mab Duw.** Cyflawnodd Ioan ei waith yn ffyddlon a gonest heb roddi yr ystyriaeth leiaf i farn dynion am dano ei hun, na'i waith. Defynyddir y geiriau Mab Duw yma yn gyfystyrol â'r gair Messiah. Pa mor bell yr oedd y Bedyddiwr wedi gallu treiddio i mewn i ddirgelwch y berthynas Ddwyfol a thragwyddol sydd rhwng y Tad a'r Mab, y mae yn anhawdd penderfynu.

Tystiolaeth y Bedyddiwr yn cael ei derbyn gan Ddau o'i Ddisgyblion.—I. 35—39.

Adn. 35 a 36. **Tranoeth drachefn y safodd Ioan, a dau o'i ddisgyblion,** &c. Y diwrnod ar ol yr hwn y cyfeirir ato yn adn. 29. Teimla y Bedyddiwr fod mor bwysig i'r ddau ddisgybl adnabod Crist yn y cymeriad o Waredwr trwy ei farwolaeth iawnyddol, fel ag y cyfeiria eu sylw ato drachefn fel *Oen Duw*. Naturiol a dyddorol yw ymholi pwy oedd y ddau ddisgybl oedd gydag Ioan Fedyddiwr yr adeg yma. Gwyddom oddiwrth adn. 40 pwy oedd un o'r ddau, canys Andreas ydoedd. Eithr pwy oedd y llall? Pwy, hefyd, ond Ioan mab

a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych yr Yspryd yn disgyn, ac yn aros arno, hwnnw yw yr un sydd yn bedyddio â'r Yspryd Glân. 34. A mi a welais, ac a dystiolaethais mai hwn yw Mab Duw. 35. ¶ Trannoeth drachefn y safodd Ioan, a dau o'i ddisgyblion : 36. A chan edrych ar yr Iesu yn rhodio, efe a ddywedodd, Wele Oen Duw. 37. A'r ddau ddisgybl a'i clywsant ef yn llefaru, ac a ganlynasant yr Iesu. 38. Yna yr Iesu a droes ; a phan welodd hwynt yn canlyn, efe a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei geisio ? A hwy a ddywedasant wrtho ef, Rabbi, (yr hyn o'i gyfieithu yw, Athraw), pa le yr wyt ti yn trigo ? 39. Efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch, a gwelwch. A hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd efe yn trigo, ac a arhosasant gyd âg ef y diwrnod hwnnw : ac yr oedd hi ynghylch y

---

Zebedeus, ac awdwr yr efengyl hon ? Ceidw Ioan ei hun allan o olwg trwy gydol yr Efengyl hon, ac felly y gwna yma trwy beidio enwi ei hun, er fod yn ddiamheuol mai llygad-dyst sydd yn adrodd yr hanes, a phwy allasai hwnw fod ond Ioan ei hun ?

Adn. 37. **A'r ddau ddisgybl a'i clywsant ef yn llefaru.** Nid yw yn debyg fod yr oll lefarodd Ioan wedi ei gofnodi, ond y mae'n amlwg mai yr hyn a lefarodd y Bedyddiwr argyhoeddodd y ddau ddisgybl mai eu braint a'u dyledswydd oedd gadael eu hen athraw, a chanlyn yr Iesu o hyn allan. Ffrwyth gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr oedd y ddau ddisgybl cyntaf gafodd yr Iesu. **Ac a ganlynasant yr Iesu.** Yn wirfoddol ac oddiar argyhoeddiad.

Adn. 38. **Yna yr Iesu a droes.** Deallodd yr Iesu rywfodd fod y ddau ddisgybl yn awyddus am ei ddilyn. **Beth yr ydych yn ei geisio ?** A thybio fod Ioan yr Efengylwr yn un o'r ddau, mor naturiol oedd i eiriau *cyntaf* yr Iesu aros byth yn ei gôf. Agorai yr Iesu y ffordd i'r ddau ddisgybl ddyweyd eu neges wrtho. **Rabbi.** Gair yn golygu parch mawr iddo fel eu hathraw newydd. **Pa le yr wyt ti yn trigo ?** Arwydda y geiriau hyn eu bod yn awyddus am aros gydag ef, a mwynhau ei gymdeithas.

Adn. 39. **Deuwch a gwelwch.** *Deuwch, a chwi a welwch* (W. E.): a Beirniaid pwysig ereill. **A hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd efe yn trigo, ac a arhosasant gydag ef y diwrnod hwnw.** Pa un ai mewn llety neu babell y trigai, nis gellir penderfynu ; ond yr oedd "y diwrnod hwnw" yn fythgofiadwy yn ei hanes. Dyma ddechreuad bychan a distadl yr eglwys fawr Gristionogol. Dyma'r hedyn o had mwstard oedd i dyfu yn bren mawr. **Ac yr oedd hi ynghylch y ddegfed awr.** Prawf sicr arall fod yr Efengylwr Ioan ei hun yn bresenol. Ar bwy arall y buasai yr awr wedi gwneyd y fath argraph ? Anhawdd yw penderfynu, yn sicr, pa gyfrifiad a ddefnyddia

ddegfed awr. 40. Andreas, brawd Simon Petr, oedd un o'r ddau a glywsent *hynny* gan Ioan, ac a'i dilynasent ef. 41. Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon, ac a ddywedodd wrtho, Nyni a gawsom y Messïas ; yr hyn o'i ddehongl yw, Y Crist. 42. Ac efe a'i dug ef at yr Iesu. A'r Iesu wedi edrych arno ef, a ddywedodd, Ti yw Simon mab Jona : ti a elwir Cephas, yr hwn a gyf-

---

yr awdwr yma. Deg o'r gloch yn y boreu, os yw Ioan yn mabwysiadu y cyfrifiad Rhufeinig, ond os mai y cyfrifiad Iuddewig a ddefnyddia, fel yr Efengylwyr eraill, pedwar o'r gloch y prydnawn ydoedd ; a dyma sydd debycaf o fod yn gywir.

40—51. Disgyblion Cyntaf yr Iesu a'u Tystiolaethau amdano.

Adn. 40. **Andreas, brawd Simon Pedr, oedd un o'r ddau a glywsent hyny gan Ioan, ac a'i dilynasent ef.** Oherwydd fod Pedr, erbyn diwedd y ganrif gyntaf, yn fwy adnabyddus nag Andreas, gelwir ef yn frawd iddo. Mewn hanes eglwysig, Pedr ydyw pob peth, ac Andreas yn neb ; ond yn mha le y buasai Pedr, oni buasai am Andreas ?

Adn. 41. **Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Simon.** Mae dau ddarlleniad o'r geiriau hyn. Yn ol un darlleniad, yr ystyr yw, mai ei frawd ei hun, Simon, oedd y cyntaf y dechreuodd ei berswadio i ddilyn Crist. Ond yn ol darlleniad arall, yr ystyr yw fod Andreas wedi dechreu ar y gwaith o flaen Ioan o enill dynion i ddilyn y Gwaredwr. Credaf mai yr ystyr fwyaf naturiol i'r geirau ydyw fod Andreas wedi dyfod o hyd i Simon cyn i Ioan ddyfod o hyd i Iago ei frawd. **Nyni a gawsom y Messias, &c.** Gair Hebraeg yw Messïas yn cyfateb i'r gair Groeg Crist, ystyr yr hwn yw "Eneiniog." Mae y geiriau "nyni a gawsom" yn rhai arwyddocaol iawn ; golygant ddyfod o hyd i rywbeth ar ol chwilio dyfal a phryderus amdano, ac o'r diwedd eu bod wedi cael yr hyn a roddai iddynt foddlonrwydd llawn.

Adn. 42. **Ac efe a'i dug ef at yr Iesu.** Geiriau tarawiadol a phrydferth. Dyma'r gwaith sydd wedi anfarwoli enw Andreas. Mor gyraedd-bell ac eang oedd dylanwad hyny. Dwyn pechadur i gyffyrddiad â'r Iesu sydd yn ei gyfnewid ac yn ei achub ef. **A'r Iesu wedi edrych arno.** *Edrych* arno, yr un gair ag sydd yn adnod 36, a golyga *sylwi yn fanwl*, fel pe buasai yn darllen cymeriad Pedr. **A ddywedodd, Ti yw Simon mab Jona : ti a elwir Cephas, yr hwn a gyfieithir, Carreg.** Rhydd y Gwaredwr i Simon enw newydd yn arwyddocau y cyfnewidiad rhyfeddol a effeithid arno trwy ddylanwad yr Iesu. O fod yn ddyn anwadal a chyfnewidiol, fe drawsffurfiwyd Simon i fod yn *graig* o sefydlogrwydd, yn cyfateb i'w enw newydd Pedr, sef, carreg neu graig. Gwna Dr. Whyte o Edinburgh y sylw tarawiadol a ganlyn : "Os bu Simon am gryn dymhor yn debycach i dywod nag i graig, daeth y tywod yn graig o'r diwedd, ac yn graig o nodwedd mor dda, nes gwneyd y tro i adeiladu teml arni."

ieithir, Carreg. 43. ¶ Trannoeth yr ewyllysiodd yr Iesu fyned allan i Galilea : ac efe a gafodd Phylip, ac a ddywedodd wrtho, Dilyn fi. 44. A Phylip oedd o Bethsaida, o ddinas Andreas a Phetr. 45. Phylip a gafodd Nathanäel, ac a ddywedodd wrtho, Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi, am dano, Iesu o Nazareth, mab Joseph. 46. A Nathanäel a ddywedodd wrtho, A ddichon dim da ddyfod o Nazareth? Phylip a ddywedodd wrtho, Tyred, a gwel.

Adn. 43. **Trannoeth yr ewyllysiodd yr Iesu fyned allan i Galilea.** Y pedwerydd dydd o adn. 19. Tybia rhai iddo symud o Bethania, lle yr oedd Ioan yn bedyddio, i Galilea, er mwyn bod yn bresenol yn y briodas yn Cana. Pa fodd bynag, am ryw reswm neu gilydd nid oedd am ddechreu ar ei waith yn Judea, ond yn Galilea. **Ac efe a gafodd Phylip.** Nid rhyfedd i Bengel alw y bennod hon yn bennod *y cael*. Mae yma lawer o gael ynddi, a chael bendigedig ydyw pob un ohonynt. Y mae y naill gael yn arwain i gael arall. Gyda fod Phylip yn dechreu dilyn yr Iesu, y mae yntau yn myned i chwilio ac yn cael ryw un arall.

Adn. 45. **Phylip a gafodd Nathanael.** Tybir yn gyffredin mai yr un person yw Nathanael a Bartholomeus yr Efengylau cydolygol. Llefara yr Efengylau eraill am Bartholomeus, ond nid am Nathanael, tra y sonia Ioan am Nathanael, ond nid am Bartholomeus. Dichon fod y naill yn enw personol arno, a'r llall yn enw teuluol. **Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith a'r prophwydi amdano, Iesu o Nazareth, mab Joseph.** Gwelir fod Phylip yn desgrifio y Gwaredwr ychydig yn wahanol i Andreas yn adn. 41, ond y naill yn hollol gyson â'r llall. Gwelai Phylip yn y Gwaredwr gyflawniad o brophwydoliaethau yr Hen Destament am y Messiah oedd i wneuthur ei ymddangosiad yn nghyflawnder yr amser. A dyma'r peth tebycaf i enill Nathanael i gredu ynddo. Syniad cyffredin ond cyfeiliornus y wlad ar y pryd oedd fod yr Iesu yn enedigol o Nazareth, ac mai Joseph oedd ei dad gwirioneddol.

Adn. 46. **A Nathanael a ddywedodd, A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?** Gyda fod Phylip wedi crybwyll yr enw Nazareth yn nglyn ag enw yr Iesu, y mae yn deffro gradd o ragfarn yn meddwl Nathanael tuag ato. Peth direswm iawn yw rhagfarn bob amser, a llawer o ddrwg a wnaeth erioed. A chaniatau fod Nazareth yn isel iawn yn y syniad cyhoeddus, eto y mae personau enwog wedi codi cyn hyn o leoedd bychain a dinod. **Phylip a ddywedodd wrtho, Tyred a gwel.** Dengys hyn hyder cryf Phylip yn yr Iesu. Ni raid ond cael Nathanael i bresenoldeb yr Iesu, ac o dan ei ddylanwad, a theimlai yn gwbl hyderus y byddai ei ragfarn wedi diflanu yn ebrwydd fel niwl y boreu. Y mae cyffyrddiad personol a'r Iesu, a phrofiad ohono yn sicr o brofi yn drech na rhagfarn ac anghrediniaeth. Pen. xx. 26—29.

47. Iesu a ganfu Nathanäel yn dyfod atto ; ac a ddywedodd am dano, Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll. 48. Nathanäel a ddywedodd wrtho, Pa fodd y'm hadwaenost? Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddit tan y ffigysbren, mi a'th welais di. 49. Nathanäel a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, Rabbi, ti yw Mab Duw ; ti yw

---

Adn. 47. **Iesu a ganfu Nathanael yn dyfod ato; ac a ddywedodd amdano.** Amlwg yw fod Nathanael, er gwaethaf ei ragfarn, wedi cymeryd ei berswadio i ddyfod at yr Iesu. Ac wrth ei weled yn dyfod ato, dywed yr Iesu amdano, nid wrtho, ond wrth y rhai y safent gerllaw. **Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.** Adnabu yr Iesu ar unwaith wir gymeriad Nathanael, canys yr oedd yn gwybod beth oedd mewn dyn (ii. 25). Nid Israeliad yn ol y cnawd oedd efe, ond yn ol yr yspryd. Yr oedd wedi etifeddu pethau goreu Jacob, ac nid ei bethau gwaelaf, y pethau oedd yn nodweddu ei gymeriad ar ol yr ymdrech fawr yn Peniel, pan y daeth yn Israel, ac yn cyfateb i'w enw. Ac felly gyda Nathanael, yr oedd yn onest, unplyg, a didwyll.

Adn. 48. **Nathanael a ddywedodd wrtho, Pa fodd y'm hadwaenost?** Teimlai Nathanael fod yr Iesu yn adnabod ei galon, ac yn darllen ei gymeriad yn gywir, a naturiol oedd iddo ofyn, Pa fodd y'm hadwaenost? Fel pe dywedasai, Nid ydwyf erioed wedi dy gyfarfod, sut yr wyt ti yn fy adnabod mor dda. **Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddit dan y ffigysbren, mi a'th welais di.** Mewn myfyrdod a defosiwn, yn ddiau, yr oedd Nathanael o dan y ffigysbren, pan y gwelodd yr Iesu ef. **Myfi a'th welaist di.** Profa y geiriau hyn fod yr Iesu yn meddu gallu goruwchddynol i adnabod calonau dynion, pan ar y ddaear yn nyddiau ei gnawd. Anhawdd iawn yw cysoni y wybodaeth oruwchnaturiol a amlygir gan yr Iesu yma, gydag unrhyw ffurf ar athrawiaeth yr Ymwaghad. A'r wybodaeth hon a feddai yr Iesu amdano ef, a gariodd argyhoeddiad i feddwl Nathanael ei fod yn neb llai na Pherson Dwyfol.

Adn. 49. **Ti yw Mab Duw; ti yw Brenhin Israel.** Ar ol rhoddi gryn ystyriaeth i'r mater, tueddir fi i feddwl mai yn yr ystyr o'i gydnabod fel y Messiah y defnyddir yr ymadroddion hyn amdano gan Nathanael. Digon prin y gellir credu ei fod ef wedi gallu treiddio i mewn i lawn ystyr y geiriau, "Ti yw Mab Duw." Ymddengys fod yr Iuddewon yn arfer galw y Messiah yn Fab Duw. Gwel Math. xxvi. 63 ; Marc xiv. 61 ; Ioan vi. 69. Ac os oedd Nathanael yn gydnabyddus â'r Salm ii., fel y mae yn dra thebyg ei fod, yr oedd wedi ei ddysgu i gysylltu y teitlau hyn â'r Messiah. Anhawdd iawn, yn sicr, yw credu fod Nathanael eto wedi cyraedd y syniad uchaf am Dduwdod ein Gwaredwr ; nid oedd eto wedi cyraedd i'r un tir a Pedr pan y gwnaeth y gyffes ardderchog am Grist (Math. xvi. 16) ; ond yr oedd ar y ffordd. Credai ei fod yn mhresenoldeb rhywun arbenig iawn—y mwyaf y bu yn ei bresenoldeb erioed, yn neb llai na'r Messiah y disgwyliasid mor hir amdano.

Brenhin Israel. 50. Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, O herwydd i mi ddywedyd i ti, Myfi a'th welais di dan y ffigysbren, a ydwyt ti yn credu? ti a gei weled pethau mwy na'r rhai hyn. 51. Ac efe a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn.

Adn. 50. **Ti a gei weled pethau mwy na'r rhai hyn.** Amlwg yw nad oedd yr Iesu yn foddlon ar y rheswm paham y credai Nathanael ynddo ef. Nid oedd credu ynddo ar sail ei fod yn meddu gwybodaeth oruwchnaturiol yn ddigon. Ac fel pe dywedasai wrtho: Nathanael, yr wyf am iti feddu gwell a chryfach sail i dy ffydd ynwyf, nag sydd gennyt ti yn bresenol. "Ti a gei weled pethau mwy na'r rhai hyn," gan gyfeirio at yr hyn a ddywed yn yr adnod nesaf (51).

Adn. 51. **Yn wir, yn wir, meddaf i chwi.** Dyma'r tro cyntaf ini gyfarfod a'r llw cryf o eiddo Crist sydd i'w gael yn lled fynych yn yr efengyl hon. Unwaith y dywedai yr Iesu "Yn wir," yn ol yr efengylau eraill, ond yn ol Efengyl Ioan dywedai y geiriau ddwywaith, ac arwyddant yn sicr, ffyddlon, teilwng o grediniaeth. **Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored.** Gadewir y geiriau "ar ol hyn" allan, gan y beirniaid goreu, a darllenir, "Chwi a welwch y nef-oedd *wedi agoryd*." Nid braint i Nathanael yn unig oedd hon, ond i'r holl rai a gredant ynddo, ac am hynny y dywed *chwi*, ac nid *ti*. "Y nefoedd wedi ei hagor" yw y darlleniad cywir. Cauwyd y nef trwy ddylanwad pechod dyn, ond y mae wedi ei hagor eto. Y mae pob rhwystr wedi ei symud i Dduw gymdeithasu â dyn. **Ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn.** Mae cyfeiriad yma, yn ddiau, at weledigaeth Jacob yn Bethel (Gen. xxviii. 12). Arwyddluniol yw yr angylion yn esgyn ac yn disgyn o'r cymundeb agored a rhydd oedd wedi ei sefydlu rhwng y nefoedd a'r ddaear yn Ymgnawdoliad Mab Duw. Yn ol y testyn, y mae'r angylion yn esgyn o'r ddaear, cyn disgyn o'r nefoedd, ac y mae y drefn hon braidd yn hynod, ac arwydda hyn eu bod yn dwyn ein gweddiau ni gerbron Duw, cyn dwyn i waered yr atebiad oddiwrtho ef. Mae breuddwyd Jacob wedi troi yn sylwedd bendigedig trwy Ymgnawdoliad ac Iawn Crist. **Ar Fab y dyn.** Dyma hoff enw yr Iesu arno ei hun. Nid oes neb yn ei ddefnyddio ond efe ei hun. Nid yw y disgyblion byth yn ei alw yn Fab y dyn. Nid yw o gymaint pwys gwybod yn mha le y cafodd yr Iesu y teitl hwn, pa un ai yn Llyfr Daniel, Llyfr Enoch, neu ryw le arall. Yn mha ystyr yr oedd yr Iesu yn ei gymhwyso ato ei hun sydd yn bwysig. Nid oes amheuaeth nad oedd ein Gwaredwr, wrth ddefnyddio y teitl, am roddi pwyslais arbenig ar y ffaith ei fod ef yn ddyn cyflawn a pherffaith. Nid cynrychioli cenedl neu wlad neillduol yr oedd, ond cynrychioli y ddynoliaeth yn gyffredinol. Efe yn unig oedd y dyn delfrydol, yn cyfateb yn llawn i ddelfryd Duw o'r hyn y dylasai dyn fod. Efe oedd yr ail-ddyn, yr Arglwydd o'r nef. Nid *llai* o ddyn, ond *mwy* o ddyn oedd y Gwaredwr, am ei fod hefyd yn Fab Duw. Yr oedd y ddau deitl, "Mab Duw" a "Mab y dyn" yn gyflenwadol i'w gilydd, ac yn ngoleuni y ddau y cyrhaeddwn syniad digonol a chyflawn am ein Gwaredwr.

PENNOD II.

A'R trydydd dydd yr oedd priodas yn Cana Galilea : a mam yr Iesu oedd yno. 2. A galwyd yr Iesu hefyd a'i ddisgyblion i'r briodas. 3. A phan ballodd y gwin, mam yr Iesu a ddywedodd wrtho ef. Nid oes ganddynt mo'r gwin. 4. Iesu a ddywedodd wrthi, Beth sydd i mi

---

1—11. NATUR YN TYSTIOLAETHU PWY OEDD YR IESU, Y WYRTH GYNTAF.

Adn. 1. **A'r trydydd dydd,** sef, y trydydd dydd ar ol galwad Phylip, adn. 43. **Yn Cana Galilea;** i'w gwahaniaethu oddiwrth y Cana arall oedd yn rhandir Aser. Gwel Jos. xix. 28. Tybir mai yr un lle yw y Cana hwn a Kefr Kenna, oddeutu pum milldir i'r gogledd o Nazareth. **A mam yr Iesu oedd yno.** Nid yw Ioan byth yn galw Mair wrth ei henw. Dichon mai rhy wylaidd ydoedd i enwi ei berthynasau agosaf. Modd bynag, oherwydd ryw reswm neu gilydd gwahoddwyd Mair i'r briodas.

Adn. 2, **A galwyd yr Iesu hefyd a'i ddisgyblion i'r briodas.** Tybia rhai oddiwrth amseriad y ferf "galw" yma ei bod yn hen alwad, ac fod yr Iesu wedi gadael Bethania, a chyfeirio ei gamrau tua Galilea mewn trefn i fod yn bresenol yn y briodas. Ac mae yn debyg mai yr Iesu ei hun a wahoddwyd ar y cyntaf, ond erbyn iddo gyrhaedd Cana, yr oedd gydag ef bump o'i ddisgyblion; a buasai yn groes i reolau moesgarwch a charedigrwydd iddynt hwythau beidio cael eu gwahodd gydag ef. Hyn, hwyrach, oedd yn cyfrif am fod y darpariadau ar gyfer y wledd wedi darfod mor fuan.

Adn. 3. **A phan ballodd y gwin.** Arferai y wledd briodas barhau yn y Dwyrain am nifer o ddyddiau yn olynol, ac nid rhyfedd felly, gyda'r ychwanegiad annisgwyliadwy at y cwmni, i'r gwin ballu. **Mam yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Nid oes ganddynt mo'r gwin.** "Nid oes ganddynt win" (W. E.). Yr oedd y gwin wedi darfod. Paham, tybed, o dan yr amgylchiadau, yr apeliodd Mair at ei Mab? Nid oes amheuaeth nad oedd Mair yn teimlo dros y cwpl ieuanc yn eu profedigaeth, ac yr oedd yn awyddus i'w cynorthwyo i ddyfod allan ohoni, pe b'ai modd. Ond paham yr apeliodd at yr Iesu? Rhoddir gwahanol atebion i'r holiad hwn. Ymddengys i mi fod yn rhaid oddiwrth atebiad yr Iesu iddi, ei bod yn disgwyl iddo ddatguddio ei hun fel y Messia, trwy gyflawni gwyrth er amlhau y gwin. Nid heb ryw gymaint o sail, yn ddiau, y disgwyliai am y fath ymyriad. Gwyddai am ei enedigaeth wyrthiol, a thebygol iddi glywed hefyd am yr amgylchiad hynod yn nglyn â'i fedydd gan y Bedyddiwr. Credai yn sicr y gallai ei Mab hynod ymyryd, os dewisai, fel ag i waredu y teulu o'r trallod a'i goddiweddodd mor sydyn.

Adn. 4. **Beth sydd i mi a wnelwyf a thi, wraig?** Nid oes dim yn anmharchus yn y dull y cyfarchodd yr Iesu ei fam, fel y gallem dybio ar y

a wnelwyf â thi, wraig? ni ddaeth fy awr i etto. 5. Ei fam ef a ddywedodd wrth y gwasanaethwyr, Beth bynnag a ddywedo efe wrthych, gwnewch. 6. Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini wedi eu gosod, yn ol defod puredigaeth yr Iuddewon, y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri. 7. Iesu a ddywedodd wrthynt, Llenwch y dyfr-lestri o ddwfr. A hwy a'u llanwasant hyd yr ymyl. 8. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gollyng-

---

cyntaf. Yr oedd yn arferiad o alw rhai mewn safle uchel wrth yr enw "gwraig;" ond y mae yn sicr hefyd fod yna awgrymiad iddi ei bod yn awr yn myned dros ei therfynau; ac fod yn rhaid i'r berthynas oedd rhyngddo ef â hi fel ei fam roddi ffordd i berthynas uwch, oedd rhyngddo â'i Dad Nefol, ac mai yr ewyllys ddoeth hono oedd i'w reoli o hyn allan yn ei holl symudiadau. Yn llythrenol, dywed yr Iesu wrth ei fam, "*Beth sydd i mi ac i ti,*" gan awgrymu nad oedd dim cyffredin i fod rhyngddynt gyda golwg ar gyflawniad y gwaith a ymddiriedwyd iddo gan ei Dad Nefol. **Ni ddaeth fy awr i eto,** Cyfarfyddwn â'r gair "awr" amryw droion yn yr efengyl hon, ac nid yw yn meddu yr un ystyr yn mhob lle (xii. 23, xiii. 1, xvii. 1). Ond yma golyga yr amser iddo ddechreu amlygu ei ogoniant Dwyfol trwy gyflawni gwyrth. Eithr yr oedd yr awr yn ymyl, ac yr oedd ei dyfodiad yn dibynu, yn yr amgylchiad hwn, ar ffydd ei fam ynddo. Priodol iawn y sylwa Westcott, nad oes dim annghysondeb rhwng gwaith yr Iesu yn dyweyd, "Ni ddaeth fy awr i eto" ac yn ebrwydd yn cyflawni y wyrth. Nid yw cyfnewidiad mewn amodau moesol ac ysprydol yn cael eu mesur gan amser.

Adn. 5. **Ei fam ef a ddywedodd wrth y gwasanaethwyr, &c.** Gwelir yn y geiriau hyn y fath ffydd ddiderfyn oedd gan Mair yn ei Mab. Gafaelodd ei ffydd hi yn dŷn a diymollwng yn y gair "eto," a rhoddodd gyfeiriad ymarferol i'w chyfarwyddiadau i'r gweision. Llwydda a gorchfyga ffydd o dan amgylchiadau anffafriol ac annhebygol. **Beth bynag a ddywedo efe wrthych, gwnewch.** Cyfarwydda Mair y gweision i roddi yr ufudd-dod llawnaf i orchymynion yr Iesu.

Adn. 6. **Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini wedi eu gosod yn ol defod puredigaeth yr Iuddewon.** Yr oedd golchiadau seremoniol yn meddu lle amlwg iawn yn mywyd yr Iuddewon. Diau eu bod yn seiliedig ar ordinhad o eiddo Moses, ond yr oedd traddodiad wedi rhoddi y fath ychwanegiadau attynt nes yr oeddent wedi dyfod yn faich annioddefol i'w ddwyn (Marc vii. 1—5). Ac amcan y dyfr-lestri oedd dal dwfr ar gyfer y seremoniau crybwylledig. **Y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri.** Daliai ffircyn oddeutu naw galwyn, ac felly cyfrifir y cyfanswm tua 120 o alwyni.

Adn. 7 a 8. **Iesu a ddywedodd wrthynt, &c.** Yn yr adnodau hyn gwelir fod yr Iesu yn rhoddi gwaith i'r gweision, a hwythau yn ei gyflawni yn ol ei gyfarwyddyd. Mae y ffaith mai y gweision a lanwasant y dyfr-lestri â dwfr yn cau allan y posiblrwydd o unrhyw dwyll yn nglyn â'r wyrth.

wch yn awr, a dygwch at lywodraethwr y wledd. A hwy a ddygasant. 9. A phan brofodd llywodraethwr y wledd y dwfr a wnaethid yn win, (ac ni wyddai o ba le yr ydoedd, eithr y gwasanaethwyr, y rhai a ollyngasent y dwfr, a wyddent,) llywodraethwr y wledd a alwodd ar y priod-fab. 10. Ac a ddywedodd wrtho, Pob dyn a esyd y gwin da yn gyntaf; ac wedi iddynt yfed yn dda, yna un a fo gwaeth; tithau a gedwaist y gwin da hyd yr awrhon. 11. Hyn o ddechreu gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea, ac a eglurodd ei ogoniant; a'i ddisgyblion

---

Adn. 9. **A phan brofodd llywodraethwr y wledd y dwfr a wnaethid yn win, &c.** Ystyr lythrenol y gair "llywodraethwr" ydyw *meistr y bwrdd*. Weithiau dewisid ef o blith y cwmni, a phryd arall llogid ef i wneyd y gwaith, sef, arolygu holl drefniadau y wledd. Gwelir fod ei farn am ansawdd y gwin yn hollol ddiduedd, canys nis gwyddai o ba le y daethai y gwin hwn. Yn ol W. E., y cyfeithiad goreu yw, "y dwfr *sydd* wedi dyfod yn win." Mae argyhoeddiad y llywodraethwr o ragoriaeth y gwin newydd mor gryf fel yr oedd yn werth ganddo alw sylw neillduol y priod-fab at y peth.

Adn. 10. **Pob dyn a esyd y gwin da yn gyntaf, &c.** Fel pe dywedasai y llywodraethwr wrtho, "Yr wyt ti yn gweithredu yn wahanol i'r arferiad cyffredin; yn lle rhoddi y gwin goreu yn gyntaf, yr wyt ti wedi ei gadw hyd y diweddaf." Tybia rhai mai mewn tymher haner chwerthingar ac haner ddifrifol y gwnaeth y llywodraethwr y sylw hwn. Pa fodd bynag, mae y datganiad sydd yn ei eiriau o'i farn am ragoriaeth y gwin a gwirioneddolrwydd y wyrth, yn aros yr un. **Ac wedi iddynt yfed yn dda.** "A phan wedi yfed yn drwm" (W. E.), "A phan feddwont" (B.). Gall y geiriau, yn sicr, olygu yfed mor helaeth nes meddwi. Defnyddir yr un gair am feddwi mewn lleoedd eraill yn y Testament Newydd (Luc xii. 45, Act. ii. 15, Ephesiaid v. 18), &c. Ond rhaid cofio mai geiriau llywodraethwr y wledd ydynt, ac nid cyfeirio y mae at yr hyn oedd yn arferiad mewn gwleddoedd eraill, ac nid at yr hyn a gymerodd le yn y wledd hon. Fy marn i ydyw nad oedd y gwin gwyrthiol hwn yn feddwol. Nid yw yr elfen alcoholaidd yn hanfodol i win gwirioneddol a da. Nid oedd angen *cadw* y gwin hwn.

Adn. 11. **Hyn o ddechreu gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea.** "Hyn o ddechreu arwyddion a wnaeth yr Iesu" (W. E.). Yn wahanol i'r efengylau ffugiol sydd yn priodoli gwyrthiau plentynaidd i'r Iesu pan yn fachgen gartref yn Nazareth, dyma, yn ol Ioan, y wyrth *gyntaf* a gyflawnodd yr Iesu o gwbl. A gwyrth o garedigrwydd ydoedd, er mwyn gwaredu y cwpl ieuanc o'r brofedigaeth o gael eu darostwng a'u gwaradwyddo yn ngolwg eu cyfeillion. Mor debyg i yspryd tosturiol a charedig yr Iesu! **Ac a eglurodd ei ogoniant** i'w ddisgyblion trwy y wyrth a gyflawnodd. Eglurodd ogoniant ei allu a'i gariad Dwyfol. Dywed Olshausen yn brydferth, "fod 'y cnawd' fel llen yn yr hwn yr oedd y goleuni wedi ei amgau; ond trwy y gwyrthiau yr oedd y llen megys yn

a gredasant ynddo. 12. ¶ Wedi hyn efe a aeth i waered i Capernaum, efe, a'i fam, a'i frodyr, a'i ddisgyblion : ac

---

ymagor, a'r gogoniant mewnol yn pelydru allan." **A'i ddisgyblion a gredasant ynddo.** Ni olyga hyn nad oedd y disgyblion wedi credu yn yr Iesu yn flaenorol, ond fod y wyrth wedi bod yn foddion i gryfhau ac i gadarnhau eu ffydd ynddo. Rhydd yr efengylwr amlygrwydd yn ei efengyl i gynydd a dadblygiad ffydd ar y naill law, ac anghrediniaeth ar y llaw arall.

NODIAD : GWYRTH.

Rhaid i'r nodiad ar wyrth fod o angenrheidrwydd yn fŷr, ond gall yr un pryd fod yn gymorth i'r darllenydd. Mae rhagfarn cryf yn mhlith rhai dynion yn erbyn gwyrthiau y Testament Newydd, ac yn erbyn yr elfen oruwchnaturiol sydd mor amlwg ynddo. Eithr ni ddylid ildio i ragfarn dall ac afresymol. Y ddau gwestiwn i'w hystyried ydynt—*A ydyw gwyrth yn bosibl*, ac *A oes gennym brawf digonol o gyflawniad gwyrthiau ?* Os oes Duw personol a Hollalluog yn bod, nis gellir gwadu y posibirwydd o gyflawniad gwyrth. Nid yw cwrs rheolaidd a chyson natur yn llyffetheirio dim ar ewyllys a gallu yr Hollalluog. Nid oddiallan i Dduw, yn ei rwymo, ac yn ei gaethiwo y mae deddfau natur ; ond *moddau* cyson a rheolaidd Duw ei hun o weithredu ydynt. Nid cywir, ychwaith, yw dyweyd am wyrth, ei bod yn *drosedd* ar ddeddf natur. Tra y mae gwyrth yn cael ei chyflawni, y mae pob deddf mewn natur ar ei llawn weithrediad fel o'r blaen.* Gwir fod yna rym newydd wedi ei alw allan i weithrediad, eithr nid yw hwnw yn difodi nac yn attal gweithrediad yr un ddeddf oedd yn bod yn flaenorol. Er esiampl, pan drodd yr Iesu y dwfr yn win, nid oedd hyny yn difodi nac yn attal dim ar fodd cyffredin a chyson natur o gynyrchu gwin. Yr unig wahaniaeth sydd fod yna rym newydd a chyflymach i gynyrchu gwin wedi ei alw i weithrediad gan ewyllys Duw. Y ddau olygiad sydd yn rhwystr i lawer gredu fod yn bosibl i wyrth gael ei chyflawni ydynt, y golygiad Deistaidd a'r golygiad Pantheistaidd. Yn ol y naill, peiriant gorphenedig yw y greadigaeth, nas dichon y Crewr ei hun ymyryd âg ef o gwbl, ond ei adael yn hollol iddo ei hun. Eithr y mae y golygiad hwn yn cael ei wrthbrofi gan y gred yn mewn-fodaeth *(immanence)* Duw. Nid yw Duw wedi gadael natur fel peiriant i weithio wrtho ei hun. "Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finau yn gweithio," ebai Mab Duw ei hun. Yn ol y golygiad arall, natur ei hunan yw Duw, a Duw yw natur, ac y mae gwyrth felly yn golygu fod Duw yn gweithredu yn groes neu wrthwynebol iddo ei hun. Ond y golygiad cywir yw, fod Duw, nid *mewn* natur yn unig, ond hefyd *uwchlaw* iddi *(transcendence)* ; ac felly yn Arglwydd ar natur. Os gall dyn, trwy ymarferiad ei ewyllys rydd reoli natur, paham nad all Duw wneyd hyny hefyd ? Cydnabyddai gwyddonwr mor enwog a Huxley nad oedd yn ystyried fod cyflawni gwyrth yn anmhosibl.

---

* "When we speak of a miracle, we have no right to mean anything but a direct act of God in the material, outside the course of nature."—*Dr. W. N. Clarke.*

yno nid arosasant nemmawr o ddyddiau. 13. ¶ A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: a'r Iesu a aeth i fynu i

A oes gennym brawf digonol i wyrthiau yr efengylau gael eu cyflawni? Nid eu cofnodiad yn yr efengylau yw yr unig brawf o'u cyflawniad. Ond y mae y gyfundrefn Gristionogol, a'i holl hanes yn dyfod yn brawf cryf o'u cyflawniad. Nid gweithredoedd yn sefyll ar wahan ydynt, ond yn y berthynas agosaf â'r Person Goruwchnaturiol a'u cyflawnodd—ei holl hanes, ei holl waith, a'i holl ddylanwad ar y byd. Dylid ystyried y Person gyflawnodd y gwyrthiau.* Gan fod y Person yn Oruwchnaturiol, rhesymol a naturiol disgwyl gweithredoedd o'r un nodwedd. Gair cyffredin Ioan am wyrth yw "arwydd" *(semeion)*,—arwydd goruwchnaturiol o bresenoldeb Person Goruwchnaturiol. Mae y wyrth a'r Person a'i cyflawnodd mewn perffaith gysondeb â'u gilydd. Ystyriwn eto y gwyrthiau eu hunain. Nid gweithredoedd i dynu sylw, i gynyrchu rhyfeddod, ac i greu syndod oeddent; ond gweithredoedd syml a chwbl ddirodres, ac yn cael eu nodweddu gan y mesur helaethaf o synwyr a doethineb. Meddylier eto am achlysuron eu cyflawniad. Cais ffyddiog ac hyderus rywun mewn angen a thrallod yw yr achlysur yn gyffredin. Nid oes dim yn wastraffus yn ngwyrthiau y Gwaredwr. Ni chyflawnodd yr un wyrth er ei fwyn ei hun, ond er mwyn eraill. Cynhyrfid ef bob amser gan dosturi a chydymdeimlad. Ac yn olaf, meddylier am yr amcan mewn golwg. Yr amcan mwyaf teilwng oedd gan yr Iesu mewn golwg wrth gyflawni pob gwyrth, sef, enill dynion i gredu ynddo, a gogoneddu enw ei Dad. Yr oedd yr anianyddol bob amser yn ddarostyngol ac yn iswasanaethgar i'r moesol a'r ysprydol. Nid yw y gwyrthiau ond rhan o'r elfen oruwchnaturiol sydd yn meddu lle mor amlwg yn y Testament Newydd; ac y mae'n anmhosibl tynu y gwyrthiau allan o'r Testament Newydd heb ei lwyr ddinystrio, gan mor ddwfn y maent wedi gwreiddio ynddo, a'u cydweu â'i holl gyfansoddiad. Byddai Crist a Christionogaeth heb wyrthiau yn hollol anmhosibl cyfrif amdanynt. Credaf gyda Dr. F. Ballard, fod yn rhaid credu mewn rhyw fath o wyrthiau—gwyrthiau ffydd y Beibl, neu ynte "wyrthiau annghrediniaeth;" ac y mae, yn sicr, yn llawer hawddach credu y naill, na chredu y lleill.

Ymweliad byr a Capernaum, II. 12.

Adn. 12. **Wedi hyn efe a aeth i waered i Capernaum, &c.** Y rheswm am ei arosiad byr yn Capernaum oedd fod gwyl y Pasc yn agos. Tref bwysig ar lan Môr Galilea oedd Capernaum, ac yr oedd cysylltiad lled agos rhwng yr Iesu â hi yn ystod ei weinidogaeth ar y ddaear. Mewn gair, yno yr oedd ei gartref. Symudodd o Nazareth i gartrefu yno (Math. iv. 13; ix. 1.) **Ei frodyr.** Y tebygolrwydd cryf yw na fu gan yr Iesu ei hun frodyr o'r un fam âg ef, ond mai meibion i Joseph o briodas flaenorol oedd y rhai hyn. Dyma'r golygiad sydd yn cael ei ffafrio gan draddodiad; ac y mae ymddygiadau gwrthwynebol y brodyr hyn

* "But it was natural that he should do miracles. Would He have been God manifest in the flesh if he had journeyed deaf, and bound, and helpless, through the evils and distresses of humanity? This was impossible, and therefore miracles were done."—*Dr. W. R. Nicoll.*

Jerusalem ; 14. Ac a gafodd yn y deml rai yn gwerthu ychain, a defaid, a cholomennod, a'r newidwyr arian yn eistedd. 15. Ac wedi gwneuthur fflangell o fân reffynnau, efe a'i gyrrodd hwynt oll allan o'r deml, y defaid hefyd a'r ychain ; ac a dywalltodd allan arian y

---

tuag at yr Iesu (vii. 3—5 ; Marc iii. 21, 31—35), a'r ffaith i'r Iesu gyflwyno ei fam, nid i'w gofal hwy, ond i ofal Ioan, yn tueddu i gadarnhau y golygiad (xix. 26).

Y Weinidogaeth foreuol a'i gwahanol ganlyniadau, II. 13—IV. 54.

(a) *Yn y Deml*, II. 13—22.

Adn. 13. **A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: a'r Iesu a aeth i fyny i Jerusalem.** Yr oedd y Pasc yn un o wyliau pwysicaf yr Iuddewon. Sefydlwyd hi er côf am waredigaeth Israel o gaethiwed yr Aipht. Cynhelid hi yn y gwanwyn. Crybwylla Ioan am dri Phasc, os nad am bedwar, i'r Iesu fod ynddynt. Fel Iuddew defosiynol, diau fod yr Iesu wedi arfer a mynychu gŵyl y Pasc yn Jerusalem. Eithr y mae yn myned i fyny i'r ŵyl flynyddol yn wahanol iawn y tro hwn. Arferai a myned fel rhyw Iuddew cyffredin a dinod arall, ond y tro hwn elai i fyny fel y Messiah, ac yn ei Yspryd, a dyma sydd yn cyfrif am ei ymddygiad hynod tuag at halogwyr y deml.

Adn. 14. **Ac a gafodd yn y deml rai yn gwerthu ychain, a defaid, a cholomennod, a'r newidwyr arian yn eistedd.** Wrth deml yma y golygir y cyntedd allanol, neu gyntedd y Cenhedloedd. Ymddengys fod y cyntedd hwn wedi ei droi yn farchnadfa, lle gellid yn ddigon cyfleus brynu anifeiliaid, &c., oedd yn angenrheidiol fel aberthau. Yr oedd y dieithriaid hefyd a ddeuent o wahanol wledydd i'r gwyliau mewn angen am newid eu harian, ac yr oedd y cyfnewidwyr arian yno yn barod i'w gwasanaethu yn y ffordd hono. Tra thebygol yw fod yr Iesu yn ddig wrth yr awdurdodau eglwysig ar fwy nag un cyfrif. Dyma bobl oedd yn rhoi cymaint o bwys ar sancteiddrwydd seremoniol a lleol yn caniatau i un o gynteddau tŷ yr Arglwydd gael ei halogi trwy ei droi yn farchnadfa, yn *cattle-market*, er mwyn elw iddynt eu hunain. Mae sail i gredu nad oedd y fasnach a gerid yn mlaen yn y lle hwn yn cael ei chario yn mlaen ar dir têg ac anrhydeddus. Yr oedd yna lawer o annonestrwydd a chribddeilio yn myned yn mlaen yno, er elw i'r offeiriaid. Rhydd Edersheim engraifft o hyn, pan y dywed fod Simeon, ŵyr Hillel, wedi gostwng pris pâr o golomenod o 15s. 3c. i swm cyfartal i 4c. o'n harian ni. Codai y cyfnewidwyr arian yn ddigydwybod am newid arian Groeg a Rhufain am arian Iuddewig, er galluogi yr Iuddewon i dalu y doll at wasanaeth y deml, o haner sicl y pen, yr hyn oedd gyfartal i 1s. 3c. o'n harian ni. Nis gallai yr Iesu edrych ar y fath olygfa anonest a phwdwr, heb gael ei gyffroi gan eiddigedd dros ogoniant tŷ ei Dad.

newidwyr, ac a ddymchwelodd y byrddau: 16. Ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn gwerthu colommennod, Dygwch y rhai hyn oddi yma; na wnewch dŷ fy Nhad i yn dŷ marchnad. 17. A'i ddisgyblion a gofiasant fod yn ysgrifenedig, Zêl dy dŷ di a'm hysodd i. 18. ¶ Yna yr

---

Adn. 15. **Ac wedi gwneuthur fflangell o fan reffynnau, efe a'u gyrrodd oll allan o'r deml, &c.** Nis gellir llai na sylwi ar yr annghyfartaledd amlwg sydd rhwng y moddion ddefnyddiwyd, a'r effaith a gynyrchwyd. Gŵr ieuanc dinod a fhlawd o Galilea, gyda gair ei enau, ac ychydig o fân reffynau a godasai oddiar y llawr, yn bwrw yr oll, y masnachwyr a'u nwyddau, allan o gyntedd y deml. Sut y llwyddodd i wneyd hyny? Yr oedd yn ymddangos yn y deml y tro hwn yn ymwybyddiaeth ac Yspryd y gwir Fessiah, gan sylweddoli ei rwymedigaeth i lanhau tŷ ei Dad, oedd wedi ei halogi am gymaint o amser. Diau fod y fath urddas a mawredd yn ei ymddangosiad ar y pryd, a'r fath awdurdod yn ei eiriau fel nas meiddient ei wrthsefyll. Ac yr oedd eu cydwybodau euog yn gwneyd llwfriaid ohonynt oll, fel nas gallent ei wrthwynebu. Gwir a ddywed Godet, mai nid offeryn oedd y fflangell, ond arwyddlun. Arwydd o awdurdod a barn ydoedd. Nid trwy rym anianyddol y bwriodd yr Iesu hwynt allan, ond trwy rym moesol ddeffrôdd gydwybodau euog halogwyr y deml; ac y mae'n dra thebyg fod cydymdeimlad y lliaws gyda'r gŵr ieuanc o Nazareth ar y pryd; canys yr oedd y masnachwyr yn hynod ar gyfrif eu gorthrwm a'u cribddeiliaeth.

Adn. 16. **Ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn gwerthu colomennod, Dygwch y rhai hyn oddiyma.** Dywedai hyn am fod y colomenod wedi eu cau mewn cewyll. **Na wnewch dy fy Nhad i yn dy marchnad.** Yn y geiriau hyn y ceir y grym moesol wnaeth y gwaith mor effeithiol. Disgynai y geiriau o enau yr Iesu fel gwreichion o dân ar eu cydwybodau euog.

Adn. 17. **A'i ddisgyblion a gofiasant fod yn ysgrifenedig, Zel dy dy di a'm hysodd i.** Darllena rhai y geiriau hyn yn yr amser dyfodol, "a'm llwyr ysa i" (W. E.). Dyma'r agerdd moesol oedd yn cyffroi, ac yn symud yr Iesu i wneyd yr hyn wnaeth—angerddolder eiddigedd ei yspryd dros wasanaeth tŷ ei Dad.

Mae sôn yn yr efengylau am yr Iesu yn glanhau y deml ddwy waith. Unwaith yma ar ddechreuad ei weinidogaeth, ac unwaith ar ei therfyn (Math. xxi. 12, 13; Marc xi. 15; Luc xix. 45). Tybiodd rhai mai yr un digwyddiad a ddesgrifir yn yr oll o'r efengylau. Credaf mai gwell cymeryd adroddiadau yr efengylwyr fel y maent, canys er yn cytuno yn y prif bethau, eto gwahaniaethant yn ddigonol fel ag i'n cyfiawnhau dros edrych arnynt fel dau ddigwyddiad gwahanol.

Adn. 18. **Yna yr Iuddewon a attebasant ac a ddywedasant wrtho ef, Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?** Mewn gofyn am arwydd yr oedd anghrediniaeth yr Iuddewon yn dechreu dangos ei hun. Er fod eu cydwybodau

Iuddewon a attebasant ac a ddywedasant wrtho ef, Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn? 19. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi. 20. Yna yr Iuddewon a ddywedasant, Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon; ac a gyfodi di hi mewn tridiau? 21. Ond efe a ddywedasai am deml ei gorph. 22. Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddisgyblion ef a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt hwy; a hwy a gredasant yr ysgrythyr, a'r gair a ddywedasai yr Iesu. 23. ¶ Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y

---

yn tystio eisoes fod gan yr Iesu awdurdod ddigonol i lanhau y deml yn y modd y gwnaeth, eto nid oeddent am gydnabod hyny heb arwydd a apeliai at eu synhwyrau corphorol. "Mae'r Iuddewon yn gofyn arwydd," ebai Paul (1 Cor. i. 22).

Adn. 19. **Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi.** Nid oedd yr Iesu yn barod i ddangos arwydd, sef, cyflawni gwyrth, er mwyn cyfarfod ac awydd afiach yr Iuddewon, ac nid yw yn gwneyd hyny yn awr. Yn hytrach, cyfeiria eu sylw at ffaith yn ei hanes, fyddai yr arwydd hynotaf a sicraf ei fod mewn gwirionedd yn gyflawn yr hyn yr honnai ei fod. Ni ddeallasant yr arwydd hwn ar y pryd. Nid oedd yr Iesu eisieu iddynt ei ddeall ar y pryd, ond gallai fod o fantais iddynt yn y dyfodol. Ond yn lle hyny ei gamddefnyddio a wnaethant (Math. xxvi. 61; Marc xiv. 28). Ystyr y gair teml *(naos)* yma yw y Cysegr Sancteiddiolaf, a golyga gorph sanctaidd y Gwaredwr. A chyfeiria yr Iesu at ei farwolaeth a'i adgyfodiad. Yr oedd felly yn brophwydoliaeth ac yn arwydd. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth, a sylweddolwyd yr arwydd.

Adn. 20. **Yna yr Iuddewon a ddywedasant, Chwe blynedd a deugain, &c.** Cymerodd yr Iuddewon eiriau yr Iesu yn eu hystyr lythrenol, ac felly yr oeddent yn ymborth i'w hanghrediniaeth, ac yn ymddangos yn wrthun, —cyfodi mewn tridiau, deml y buwyd chwe' blynedd a deugain yn ei hadeiladu!

Adn. 21. **Ond efe a ddywedasai am deml ei gorph.** Mae'r "efe" yn bwysleisiol yma mewn gwrthgyferbyniad i'r Iuddewon. Dyma eglurhad Ioan ar eiriau Crist. Yr oedd efe wedi eu deall yn hollol gywir.

Adn. 22. **Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddisgyblion a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt, &c.** Gwelir mor onest y cydnebydd Ioan nad oedd yntau, mwy na'r disgyblion eraill, wedi deall y geiriau cyn yr Adgyfodiad. Amgylchiad hynod oedd yr Adgyfodiad, daflodd ffrwd o oleuni gwerthfawr, nid yn unig ar eiriau yr Iesu, ond ar Ysgrythyrau yr Hen Destament; yn enwedig, fe ddichon, ar eiriau y Salmydd (xvi. 10).

(b) *Yn Ninas Jerusalem*, II. 23,—III. 21.

Adn. 23. **Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasg yn yr wyl.** Credir fod cysylltiad agos rhwng yr adran hon â'r bennod nesaf, ac mai

pasc yn yr wyl, llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe. 24. Ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano ei hun, am yr adwaenai efe hwynt oll: 25. Ac nid oedd raid iddo dystiolaethu o neb *iddo* am ddyn: o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.

---

dechreu y bennod hono yw ei lle, am ei bod yn arweiniad naturiol iddi. Nodir y lle, Jerusalem, a'r amser, Gwyl y Pasc. **Llawer a gredasant yn ei enw, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe.** Gwelir fod eu ffydd ynddo yn seiliedig ar y gwyrthiau a gyflawnodd yn ystod yr wyl, ac felly yr oedd yn ffydd arwynebol ac anfoddhaol. Nid oeddent yn gweled dim pellach na'r gwyrthiau, heb ganfod dim o ogoniant dwyfol y Person a'u cyflawnodd. Cael eu synu yr oeddent, ac nid eu harwain i ymddiried yn yr Iesu fel eu Gwaredwr. Yr un gair a gyfieithir yma yn "arwyddion" ag a gyfieithir yn adn. 11eg yn "wyrthiau." Ac y mae modd aros gyda'r arwyddion yn unig, heb fyned trwyddynt at yr hyn a arwyddoceir.

Adn. 24. **Ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt amdano ei hun, am yr adwaenai efe hwynt oll.** Ystyr lythrenol, "nid ymddiriedodd" yw "ni 'chredodd" yr un gair ag yn yr adnod flaenorol, ond mewn amser gwahanol. Os oeddent hwy yn credu yn yr Iesu, nid oedd yr Iesu yn credu ynddynt hwy. Ystyr y gair "adwaenai" yw gwybod trwy sylwadaeth a myfyrdod. Gallasai yr Iesu eu hadnabod yn yr ystyr yma fel dyn perffaith yn unig.

Adn. 25. **Ac nid oedd raid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn: oherwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.** Nid oedd yr Iesu yn ddibynol am ei wybodaeth am ddynion, fel y mae dynion yn gyffredin. Nid oedd raid iddo ef wrth yr unryw *testimonial* am neb. Yr oedd, yn sier, yn meddu ar wybodaeth oruwchnaturiol, nad allasai neb ei meddu ond gwir Fab Duw. Gwybodaeth a'i ffynhonell ynddo ei hun ydoedd. Dangosodd y wybodaeth hon ar amryw achlysuron, 1 Pedr i. 22; Nathanael, i. 47, 48; Nicodemus, iii. 3; y wraig o Samaria, iv. 29; y disgyblion, vi. 61, 64; Lazarus, xi. 4, 15; Judas xiii. 11: Pedr, xxi. 17.

PENNOD III.

AC yr oedd dyn o'r Phariseaid, a'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon : 2. Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw : canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd âg ef. 3. Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir,

---

1—21. Ymddiddan Crist gyda Nicodemus.

Adn. 1. **Ac yr oedd dyn o'r Phariseaid.** Fel y cyfeiriwyd eisoes credaf fod y cysylltiad agosaf rhwng y "dyn" yma, a'r "dyn" yn niwedd y bennod flaenorol. Fel prawf digonol fod yr Iesu yn gwybod beth sydd mewn dyn, dengys yr efengylwr ei fod yn adnabod Nicodemus yn drwyadl. Perthynai y dyn hwn i blaid y Phariseaid. Nid oedd y blaid hon yn lluosog iawn, ond meddai ar gryn ddylanwad. Ei hamcan oedd cadw yn y modd manylaf, yn ol y gyfraith draddodiadol, yr holl seremoniau a'r defodau cysylltiol â phurdeb Lefiticaidd ; ac oherwydd hyny t ybient eu bod yn rhagori ar bawb yn mhlith eu cydgenedl, a thueddai hyny i feithrin ynddynt yspryd balch, hunan-gyfiawn, a rhagrithiol. **A'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon.** Enw Groegaidd yw Nicodemus, megys Phylip ac Andreas. Ond er yn meddu enw Groegaidd yn arwyddo "gorchfygwr y bobl," mae'n ddiau mai Iuddew ydoedd. Gwelir ei fod yn meddu safle o anrhydedd a pharch yn mhlith y genedl. Yr oedd yn aelod o'r Cynghor neu y Sanhedrim.

Adn. 2. **Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos.** Credir fod Nicodemus wedi dyfod at yr Iesu liw nos am ddau reswm. Er mwyn hamdden i ymddiddan â'r Iesu, canys yr oedd y naill a'r llall yn brysur yn ystod y dydd. Ond yn bennaf, mae'n debyg, am fod arno radd o gywilydd ac ofn dyfod ato yn ystod y dydd, a gwneyd arddeliad cyhoeddus ohono. Cyfeiria Ioan at hyn bob tro y daw ei enw gerbron (vii. 50 ; xix. 39). **Rabbi, nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddiwrth Dduw, &c.** Rabbi, h.y., Athraw. Cydnebydd yn foesgar safle yr Iesu fel dysgawdwr ag yr oedd yn werth iddo ymgynghori âg ef. Cred hefyd yn ei Ddwyfol anfoniad. Seilia y gredinioeth ar y ffaith i'r Iesu gyflawni gwyrthiau yn ystod yr wyl hon yn Jerusalem. Beth bynag am wasanaeth gwyrthiau fel attegion i Gristionogaeth mewn oesau dilynol, yr oeddent yn wir wasanaethgar yn yr oes y cyflawnwyd hwynt. Argyhoeddwyd Nicodemus fod yr Iesu, oherwydd y gwyrthiau a gyflawnodd, yn anfonedig Duw, ac fod Duw drwyddynt yn gosod arno sêl anilwg ei gymeradwyaeth ohono.

Adn. 3. **Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.** Nid ateb cyfarchiad moesgar

meddaf i ti, Oddi eithr geni dvn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw. 4. Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? a ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni? 5. Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf

---

Nicodemus y mae'r Iesu yma, ond ateb meddyliau dirgelaidd ei galon, a thrwy hyny profa yn amlwg ei fod ef yn gwybod beth sydd mewn dyn. Treiddia trwy ei wybodaeth oruwchnaturiol i mewn i ddyfnder calon Nicodemus, a gwêl ynddi ddyhead ysprydol am fyned i mewn'i deyrnas Dduw. Dysg Nicodemus yr unig ffordd i mewn i'r deyrnas, nas boddlona dim mohono ond cael bod yn aelod gwirioneddol ohoni. "Oddieithr geni dyn *drachefn*," neu ynte *oddiuchod*. Anhawdd iawn penderfynu rhwng y ddau gyfieithiad hyn o'r gair Groeg *anôthen*. Mae'r ddau yn wir; mae yna eni drachefn neu *eilwaith*, ac y mae yna eni *oddiuchod* yn hanes ysprydol pob pechadur achubedig. Dynoda y geni drachefn neu oddiuchod, mawredd rhyfeddol, a llwyredd y cyfnewidiad ysprydol y mae pob credadyn yn ddeiliad ohono, pan y mae naws a thueddfryd ei galon yn cael eu cyfnewid a'u troi oddiwrth bechod at sancteiddrwydd. Mae'r cyfnewidiad mor fawr a thrwyadl, fel nad yw yn ormod dyweyd fod ei ddeiliad megys yn dechreu byw o'r newydd, o dan ddylanwad ysprydol ac achubol sydd wedi disgyn arno oddiuchod.

Adn. 4. **Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? &c.** Dengys y geiriau hyn fod Nicodemus wedi ei ddyrysu yn lân gan atebiad yr Iesu. Ac oherwydd hyny sieryd fel un oedd wedi deall geiriau Crist yn hollol lythrenol. Nis gall ddirnad y posiblrwydd i hen ddyn gael ei eni eilwaith, a gofyna mewn syndod, "A ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni?" Yn y Groeg, y mae *mê* sydd yn nechreu y geiriau hyn yn arwyddo mai nid ateb cadarnhaol, ond nacaol a ddisgwyliai Nicodemus amdano. Fel pe dywedasai, "Nid ydwyt yn meddwl dyweyd y dichon dyn fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni?"

Adn. 5. **Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.** Y fath amynedd a chydymdeimlad a ddengys yr Iesu gyda disgybl dwl! Ceisia ei arwain i'r goleuni, trwy egluro yn helaethach y cyfnewidiad, yr oedd yn rhaid iddo ef a phob pechadur arall fod yn ddeiliad ohono, cyn y gallai fyned i mewn i'r deyrnas. "Geni o ddwfr," cyfeiriad at fedydd edifeirwch, "Geni o'r Yspryd," cyfeiriad at adnewyddiad yr Yspryd Glân (Titus iii. 5, 6). Arwyddlun oedd y geni o ddwfr, ond y sylwedd oedd y geni o'r Yspryd. "Myfi yn wir," ebai Ioan Fedyddiwr, "a'ch bedyddiais chwi a dwfr; eithr efe a'ch bedyddia chwi â'r Yspryd Glân." Yn sicr, rhaid credu mai at fedydd y cyfeirir yn y geiriau geni o ddwfr, eithr nid oes sail o gwbl yn y geiriau i'r athrawiaeth gyfeiliornus o ail-enedigaeth mewn bedydd. Aeth y lleidr edifeiriol ar y groes i'r nefoedd heb ei fedyddio o gwbl, tra yr oedd Simon y swynwr, er iddo gael ei fedyddio, yn aros "mewn bustl chwerwder a rhwymedigaeth anwiredd" (Act. viii. 14—23). Amlwg yw, gan hyny, nad oes gysylltiad angenrheidiol ac annattodol rhwng bedydd ac ail-enedigaeth.

i ti, Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac *o*'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. 6. Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd; a'r hyn a aned *o*'r Yspryd sydd yspryd. 7. Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn. 8. Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno: a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod,

---

Adn. 6. **Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd.** Amcan yr Iesu yma ydyw pwysleisio y gwahaniaeth rhwng yr enedigaeth naturiol, a'r enedigaeth ysprydol, er dangos yr angenrheidrwydd hollol am yr olaf. Mae y ddwy enedigaeth yn meddu natur a chylch hollol wahanol. Golyga geni o'r cnawd enedigaeth anianyddol i fyd materol a daearol, ac y mae yn amhosibl i'r anianol gynyrchu yr ysprydol, ac felly "Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd." **A'r hyn a aned o'r Yspryd, sydd yspryd.** Yn ol y geiriau hyn, rhaid cael yr Yspryd Glân i roddi genedigaeth ysprydol a goruwchnaturiol i ddynion. Nid oes modd dadblygu yr ysprydol o'r cnawdol, ac nid oes modd trosglwyddo yr ysprydol trwy y materol. Gan mai teyrnas ysprydol yw teyrnas Dduw, rhaid cael genedigaeth sydd yn cyfateb i'w natur, ac Yspryd Duw yn unig a ddichon roddi bod i'r enedigaeth oruwchnaturiol hono. Megys nas dichon dyn ddyfod i'r byd materol a gweledig hwn ond trwy enedigaeth naturiol, felly nis gall dyn fyned i mewn i deyrnas Dduw ond trwy enedigaeth ysprydol sydd yn cyfateb i'w nodwedd.

Adn. 7. **Na ryfedda ddywedyd ohono fi wrthyt, Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.** "Chwi," y dosbarth a gynrychiolai Nicodemus, "chwi y Phariseaid manwl eich defodau, a helaeth eich cyfiawnderau." Ac felly hefyd rhaid geni pawb o'r newydd, pa mor ddiargyhoedd bynnag eu bywydau, a pha mor bur bynnag eu moesau y dichon iddynt fod. Mae'r ysprydol yn uwch ac yn ddyfnach na'r moesol yn ei fan goreu.

Adn. 8. **Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno, &c.** Nis gallaf dderbyn y cyfeithiad arferol o'r geiriau hyn, ond y mae yn well gennyf y cyfeithiad canlynol: "*Y mae yr Yspryd yn anadlu lle yr ewyllysio, a thi a glywi ei lais, ond nid ydwyt yn gwybod o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned; yr un modd y mae pob un sydd wedi ei eni o'r Yspryd*" (W. E.). Mae'n anhawdd iawn credu fod yr un gair (Groeg *pneuma*) i'w ddeall o fewn cylch yr un adnod, mewn dwy ystyr wahanol, yn ei dechreu yn "wynt," ac yn ei diwedd yn "Yspryd," heb fod dim yn galw am hyny. Nid yn unig y mae yna cystal, ond gwell synwyr yn y geiriau trwy gyfeithu y gair yn *Yspryd* yn y ddau le. Mae gan Ioan air arall am wynt naturiol (Groeg, *anemos*), a phe buasai yn golygu hyny, buasai yn sicr wedi ei ddefnyddio er gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall. Dyma y gair a ddefnyddir yn ddieithriad yn yr efengylau am wynt naturiol. Ac felly meddwl y geiriau hyn yw, fod ail-enedigaeth yn dibynu ar ewyllys rydd, ond doeth a da yr Yspryd Glân, a phan y mae yn anadlu ar ddynion, a phan y clywant ei lais yn ngweinidogaeth yr efengyl, y maent yn cael eu hargyhoeddi a'u hail-eni. Nid oes neb yn deall yn llawn

nac i ba le y mae yn myned : felly mae pob un a'r a aned o'r Yspryd. 9. Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon y pethau hyn fod? 10. Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn ddysgawdwr, yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn? 11. Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Mai yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu; a'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn. 12. Os dywedais

---

weithrediadau achubol yr Yspryd Glân. Y mae yna raddau mwy neu lai o ddirgelwch yn nglyn â hwynt, ac am hyny, "ni wyddom o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned." Gwelir hyn yn hanes Diwygiadau crefyddol pob oes a gwlad. Maent yn cychwyn o gyfeiriadau a thrwy offerynau nad oedd neb yn disgwyl am danynt. Nis gall bodau meidrol ddeall ffyrdd yr Yspryd Anfeidrol a thragwyddol.

Felly mae pob un a'r a aned o'r Yspryd. Gwell: "*Yr un modd y mae pob un sydd wedi ei eni o'r Yspryd.*" Mae yma gymhariaeth, nid rhwng y gwynt a'r Yspryd, fel y tybir gan lawer, *ond rhwng yr Yspryd a'r rhai a aned ohono.* Megys ag y mae yna ddirgelwch yn perthyn i waith yr Yspryd, felly y mae dirgelwch yn perthyn i fywyd ysprydol y rhai sydd wedi eu hail-eni ganddo. Y mae hyn yn ddirgelwch i'r credinwyr eu hunain, ac nid rhyfedd ei fod felly i Nicodemus.

Adn. 9. **Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?** Oherwydd fod syniadau Nicodemus mor ddaearol a materol, nid rhyfedd ei fod yn gofyn, "Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?" Mae'r ysprydol bob amser yn ddirgelwch anesboniadwy i'r dyn anianol (1 Cor. ii. 14).

Adn. 10. **A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?** Rhyfedda yr Iesu ato, ac yntau yn meddu y fath safle yn Israel, yn ddysgawdwr, nad oedd yn deall egwyddorion cyntaf crefydd ysprydol.

A bod yn fanwl, terfyna yr ymddiddan rhwng Crist a Nicodemus yma, a chilia Nicodemus o'r golwg, ond daw i'r golwg eto yn mhellach yn mlaen, Pen. vii. 20, a xix. 39. A'r geiriau lefara yr Iesu oddiyma hyd derfyn adn. 21, ei fyfyrdodau pellach ydynt ar yr hyn a achlysurwyd gan ei ymddiddan â Nicodemus. Diau ei fod yn bresenol yn gwrando ar y geiriau hyn o eiddo yr Iesu, ac iddynt fod yn gymorth i'w arwain i'r goleuni. Gwrandawr yn unig yw yn awr heb gynnyg holi nac ateb.

Adn. 11. **Mai yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu, a'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn.** Gwelir fod yr Iesu yma yn llefaru yn y rhif liosog, "a wyddom." Pwy sydd gydag ef yn llefaru ac yn tystiolaethu? Cyfeiria, yn ddiau, at Ioan Fedyddiwr a'i ddisgyblion. Tybir yn gyffredin fod Ioan yr Efengylwr yn bresenol yn gwrando y geiriau hyn. Mewn cyferbyniad i anwybodaeth Nicodemus, y mae gwybodaeth sier a phendant yr Iesu a'i gydweithwyr. Tystiolaethu yr oeddent, ac nid ymresymu, neu frydolygu *(speculate)*. Ac yr oedd grym gwybodaeth bersonol a gwirionedd yn eu tystiolaeth; ond nid oedd wedi cael y derbyniad ddylasai gael, gan y dosbarth a gynrychiolid gan Nicodemus.

i chwi bethau daearol, a chwithau nid ydych yn credu ; pa fodd, os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch ? 13. Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddi eithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, *sef* Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef. 14. ¶ Ac megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch,

---

Adn. 12. **Os dywedais i chwi bethau daearol, a chwithau nid ydych yn credu; pa fodd os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch?** Yma y mae'r Iesu yn dychwelyd yn ol i lefaru yn y person unigol, ond yn cyfarch yn y lliosog, "*dywedais i chwi.*" Nid mor hawdd penderfynu ar ystyr y "pethau daearol" a'r "pethau nefol." Yn ol un cyfieithiad darllenir "y pethau *a wneir* ar y ddaear," a'r "pethau *a wneir* yn y nefoedd" (W. E.). Mae'n sicr nad yw "pethau daearol" yn golygu pethau materol a daearol yn eu natur ; ond pethau a gymerant le ar y ddaear o fewn cylch profiad dynion sydd yn trigo ar y ddaear. Cymer hyn i mewn yr enedigaeth newydd a gwaith yr Yspryd ar ddyn, y mae Crist newydd sôn amdanynt. Ac wrth "y pethau nefol" y golygir, pethau a gymerant le, neu a berthynant i'r nefoedd ; Person Dwyfol y Mab, Cariad Duw, Iawn am bechod a ddysgir yn yr adnodau dilynol. Dyma bethau nad allasai neb ond un oedd wedi dyfod o'r nefoedd eu datguddio yn gyflawn ac yn sicr. Ac os oedd y rhai a gyfarchai Crist ar y pryd, yn amharod i gredu yr hyn oedd yn dyfod o fewn cylch profiad a sylwadaeth dynion ar y ddaear, pa fodd y credent y gwirioneddau uchaf a dirgel oedd yn perthyn i gylch y nefol a'r Dwyfol ?

Adn. 13. **Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddieithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef.** Mae y gair "nef" yma yn golygu nid yn unig gyflwr moesol, ond safle leol. Crist oedd yr unig un oedd wedi disgyn o'r nefoedd, ac efe yn unig oedd yn gallu llefaru gydag awdurdod am "y pethau nefol." Profi y mae y geiriau hyn gymhwysder arbenig yr Iesu i lefaru gyda sicrwydd llawn am "y pethau nefol," am eu bod yn perthyn i gylch yr oedd efe wedi bod ynddo, ac yn parhau ynddo, er yn trigo ar y ddaear ar y pryd. **Sef, Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef.** Yn ol rhai hen lawysgrifau, gadewir y geiriau hyn allan o'r testyn, ond y mae y mwyafrif ohonynt yn eu cadw i mewn. Golygant fod yr Iesu fel Person Anfeidrol a Hollbresenol yn y nefoedd, tra ar y ddaear yn nyddiau ei gnawd, ac felly profant ddwyfoldeb ei Berson.

Adn. 14. **Ac megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn.** Y ddau bwynt sydd yn cyfateb i'w gilydd yn y geiriau hyn ydynt, nid "y sarph" a "Mab y dyn," ond *rheidrwydd* dyrchafiad y sarph, a *rheidrwydd* dyrchafiad Mab y dyn. Megys nad oedd dim modd cael meddyginiaeth i'r rhai a glwyfwyd yn yr anialwch gan y seirph tanllyd heb i'r sarph bres gael ei dyrchafu ar drostan yn ol y cyfarwyddyd Dwyfol (Num. xxi. 9), felly hefyd nid oedd modd iachau clwyfedigion pechod heb i'r Iesu gael ei ddyrchafu i'r groes i ddioddef a marw. Rhaid oedd i'r naill a'r llall gymeryd lle, os oedd dynion i gael eu hachub rhag marwolaeth. Yn achos dyrchafiad y sarph bres, gorphwysai y rhaid ar orchymyn ac ewyllys Duw ;

felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn ; 15. Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol. 16. ¶ Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol. 17. Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd, i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo

---

ond yn achos dyrchafiad Mab y dyn gorphwysai y "rhaid," nid yn unig ar gyflawni y prophwydoliaethau, a chario allan y cynllun Dwyfol, ond hefyd ar gyfarfod â rhyw reidrwydd moesol yn natur Duw ei hun, trwy gondemnio pechod ; a chario dylanwad iach a diogel ar ei lywodraeth foesol, a boddloni cydwybodau dynion wrth gael eu hachub. Nid un ffordd allan o lawer i achub pechaduriaid oedd dyrchafiad Mab y dyn i'r groes, ond yr *unig* ffordd i'w achub ef. A *rhaid* dyrchafu Mab y dyn' neu ynte golli pechaduriaid. Dyma'r unig ddewisiad *(alternative)*.

Adn. 15. **Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol.** Gadewir y geiriau "na choller" allan yn y llawysgrifau goreu, am y credir mai rhyw gopïwr sydd wedi eu rhoddi i mewn o'r adnod nesaf. Dylid darllen, "Fel y caffo pwy bynag a gredo ynddo ef fywyd tragwyddol" (W. E.). Gwelir mor eang a helaeth yw bwriad achubol Duw, "pwy bynag a gredo ynddo ef." Ni fuasai modd iddo fod yn helaethach. Nid amod mympwyol yw credu ynddo, ond angenrhaid moesol ac ysprydol. Nis gellir achub pechadur heb ei gydsyniad, ac y mae credu yn cynwys ei fod yn cydsynio â'i holl galon. Nis gellir ei achub, ychwaith, heb ei ddwyn i undeb ysprydol â Mab Duw, a thrwy gredu yr unir ef â Christ. Trwy ffydd yr impir ef yn y Wir Winwydden, nes cyfranogi o'i bywyd hi, ac y mae hwnw yn fywyd sydd yn sicr o ddadblygu a chael ei berffeithio mewn bywyd tragwyddol.

Adn. 16. **Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, &c.** Geiriau pwysig iawn yn yr adnod hon yw "felly," a'r ddau "fel" sydd ynddi. Y ddau "fel" sydd yn dwyn ystyr a chymwys "felly" i'r amlwg. Pa fodd, neu i ba raddau y carodd Duw y byd ? Yr ateb yw "felly ;" eithr nid yw "felly" ond arwain at y ddau "fel" sydd yn dilyn. Cyfeiria un "fel" at yr aberth rhyfeddol a wnaeth Duw wrth garu y byd, "fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab." Wrth fawredd y rhodd yr ydym i fesur mawredd y cariad. A chyfeiria y "fel" arall at yr amcan mewn golwg wrth garu y byd. Yr amcan uchaf, pwysicaf, a gwerthfawrocaf—amcan sydd yn deilwng o'r cariad Dwyfol pan ar ei oreu. Ac yn ngoleuni y ddau, gwerthfawredd y rhodd, a'r amcan mewn golwg, a'r naill yn foddion i sicrhau y llall, y gwelir mawredd rhyfeddol cariad Duw at ddynion.

Adn. 17. **Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio y byd, &c.** Gwell "*Canys ni ddanfonodd Duw y Mab i farnu y byd.*" Cyfieithiad anffodus oedd cyfieithu y gair Groeg *krino* yn ddamnio. Ei ystyr yw *barnu*, neu wahaniaethu dynion trwy ddwyn eu gwir gymeriad i'r golwg. Er fod yr Iesu yn ei anfoniad i'r byd yn barnu dynion, eto nid *amcan* ei anfoniad oedd

ef. 18. ¶ Yr hwn sydd yn credu ynddo ef ni ddemnir : eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes ; o herwydd na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw. 19. A hon yw y ddamnedigaeth ; ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni : canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg. 20. O herwydd

---

barnu dynion, ond eu hachub. Achlysur yn unig, ac nid achos, o gondemniad dynion oedd anfoniad Crist i'r byd. Barna yr Iesu ddynion yn yr un ystyr ag y mae y goleuni yn farnedigaeth i ddynion, adn. 19.

Adn. 18. **Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, ni ddemnir : eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes, &c.** Yn lle "demnir" a "damniwyd," dylid darllen *bernir* a *barnwyd*. Amcan y geiriau hyn yw dangos mai perthynas dynion â'r Mab sydd yn penderfynu eu cyflwr ysprydol—credu yn y Mab yn sicrhau cyfiawnhad, a pheidio credu yn dwyn condemniad anocheladwy ar y sawl sydd yn gwrthod y Mab. Yn groes i obeithion disail yr Iuddewon, yr oedd Duw yn ymddwyn tuag at bob cenedl ar yr un egwyddor.

Adn. 19. **A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, &c.** "*A hon yw y farnedigaeth*" (W. E.). "*A hon yw'r farn*" (B.). Dyfodiad y goleuni i'r byd yw achlysur barnedigaeth dynion, ond y mae'r achos ynddynt hwy eu hunain, yn eu gwaith yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Golyga goleuni yma, nid goleuni yn gyffredinol, ond goleuni neillduol ac arbenig—y Goleuni sydd wedi ei grynhoi a'i ganolbwyntio yn Iesu Grist fel "Haul Cyfiawnder." A gwaith dynion yn caru tywyllwch moesol pechod yn hytrach na dyfod at Grist trwy gredu ynddo ef, yw yr achos o'u condemniad. Olrheinia yr Iesu eu gwrthwynebiad i ddyfod i'r goleuni i ddrygioni eu gweithredoedd. Lle bynag y mae pechod yn cael ei anwesu a'i gyflawni, y mae yna bob amser wrthwynebiad cryf i ddyfod i'r goleuni.

Adn. 20. **Oherwydd pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, &c.** Nid yw y geiriau hyn ond eglurhad llawnach ar yr hyn a ddywedwyd yn yr adnod flaenorol. Teilynga y cyfieithiad canlynol sylw : "*Canys pob un a'r sydd yn ymarfer pethau iselwael sydd yn cashau y Goleuni, ac nid yw yn dyfod at y Goleuni, fel na ddygid ei weithredoedd i brawf*" (W. E.). Y "dwyn i brawf," neu yr argyhoeddi sydd yn dilyn dyfod i'r goleuni yw'r achos o wrthwynebiad y drwg-weithredwr iddo.

Adn. 21. **Ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd, &c.** Rhoddir yma yr ochr gyferbyniol i'r un a roddwyd yn yr adnod flaenorol (adn. 20). Nid oes ar y rhinweddol a'r da ofn dyfod i'r goleuni, nid oes arno ofn ei chwilio gan y goleuni. Ni chondemnia y goleuni ei weithredoedd ef ; yn hytrach dengys yn eglurach eu hansawdd ragorol, a'u bod hefyd wedi eu cyflawni yn nghymeradwyaeth Duw, ac yn nerth ei ras ; "mai yn Nuw y maent wedi eu gweithio allan" (W. E.).

pob un ar sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef. 21. Ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd, sydd yn dyfod i'r goleuni, fel yr eglurhâer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt. 22. ¶ Wedi y pethau hyn, y daeth yr Iesu a'i ddisgyblion i wlad Judea; ac a arhosodd yno gyd â hwynt, ac a fedyddiodd. 23. ¶ Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn Ainon, yn agos i Salim; canys dyfroedd lawer oedd yno: a hwy a ddaethant ac a'u bedyddiwyd; 24. Canys ni fwriasid Ioan etto yn ngharchar. 25. ¶ Yna y bu ymofyn rhwng *rhai* o ddisgyblion Ioan a'r

---

22—36. Gweinidogaeth Crist yn Judea—ei Ddisgyblion yn Bedyddio—Ymddygiad y Bedyddiwr.

Adn. 22. **Wedi y pethau hyn, daeth yr Iesu a'i ddisgyblion i wlad Judea, &c.** Y wlad mewn cyferbyniad i'r ddinas, Jerusalem. **Ac a fedyddiodd.** Nid yr Iesu ei hun oedd yn bedyddio, ond ei ddisgyblion (Pen. iv. 12).

Adn. 23. **Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn Ainon yn agos i Salim.** Ioan Fedyddiwr a olygir. Ystyr y gair Ainon yw *ffynhonnau*, a thybir ei fod yr un lle a adnabyddir yn awr fel *Ainun*, yn agos i le adnabyddus, sef, Salim, sydd yn gorwedd yn y dwyrain i Sichem. **Canys dyfroedd lawer oedd yno.** Myn y rhai sydd yn dal bedydd trwy drochiad mai digon o ddwfr i drochi a feddylir yma; tra y cred eraill mai digon o ddyfroedd i fod at wasanaeth y tyrfaoedd a gyrchent at Ioan i'w bedyddio ganddo a olygir.

Adn. 24. **Canys ni fwriasid Ioan eto y'ngharchar.** Amcan y geiriau hyn, tebygid, yw cywiro y camsyniad a gynyrchir wrth ddarllen yr Efengylau cydolygol, sef, fod Ioan wedi ei fwrw i garchar yn ebrwydd ar ol y Temtiad, a chyn i'r Iesu ddechreu ei weinidogaeth yn Galilea, yr hon a gofnodir ganddynt.

Adn. 25. **Yna bu ymofyn rhwng rhai o ddisgyblion Ioan a'r Iuddewon yn nghylch puredigaeth.** Yn hytrach, "Cyfododd gan hynny, ddadl o ran disgyblion Ioan âg Iuddew yn nghylch puredigaeth." Yn ol y llawysgrifau goreu, nid dadl rhwng disgyblion Ioan a'r Iuddewon ydoedd, ond âg Iuddew. Mae yn amlwg oddiwrth y cyd-destyn mai wrth buredigaeth yma y golygir bedydd. Tybiai rhyw Iuddew fod bedydd Crist yn rhagorach na bedydd Ioan, am ei fod yn fwy poblogaidd. Naturiol oedd i ddisgyblion Ioan deimlo eiddigedd dros fedydd eu hathraw, a dyma, mae'n ymddangos, achlysurodd y ddadl.

Adn. 26. **A hwy a ddaethant at Ioan, &c.** Yn eu sel a'u heiddigedd, try y disgyblion at Ioan i ddyweyd eu cwyn. Cofiant yr amgylchiad gymerodd le y tu hwnt i'r Iorddonen (Ioan i. 19—37), ac am dystiolaeth ffafriol eu hathraw i'r Iesu. Awgrymant nad oedd yr Iesu wedi gwneyd yn iawn, wrth sefydlu bedydd,

Iuddewon, ynghylch puredigaeth. 26. A hwy a ddaethant at Ioan, ac a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr hwn oedd gyd â thi tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y tystiolaethaist ti, wele, y mae hwnw yn bedyddio, a phawb yn dyfod atto ef. 27. Ioan a attebodd ac a ddywedodd, Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef. 28. Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef. 29. Yr hwn sydd ganddo y briod-ferch, yw y priod-fab: ond cyfaill y priod-fab, yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei glywed ef, sydd yn llawenychu yn ddirfawr oblegid llef y priod-fab: y llawenydd hwn mau fi gan hynny a gyflawnwyd. 30. Rhaid ydyw

---

oedd mewn ystyr yn wrthymgeisydd i fedydd Ioan, ac wedi myned yn fwy poblogaidd nag ef. Gormodiaeth o dan ddylanwad eiddigedd a siomedigaeth oedd dyweyd fod "pawb yn dyfod ato ef," er fod yn debygol fod yr Iesu yn awr yn hynod o boblogaidd yn Judea.

Adn. 27. **Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef.** Yn hytrach na dyweyd dim i borthi eiddigedd ei ddisgyblion, dengys Ioan ysbryd tra rhagorol yn ei atebiad iddynt. Llefara eiriau sydd yn dangos mor gwbl amddifad ydoedd o unrhyw genfigen tuag at yr Iesu a'i lwyddiant. Yn ol syniad Ioan y mae llwyddiant ac aflwyddiant, dyrchafiad rhai a gostyngiad eraill, yn ol trefn y nef, ac wedi dyfod oddiwrth Dduw, a boddlona yn hollol i'r drefn.

Adn. 28. **Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, &c.** Apelia Ioan yn hyderus atynt, nad oedd efe erioed wedi honni bod yn Fessiah, na bod yn ogyfuwch ag ef chwaith, ond mai llanw swydd israddol o fod yn ragredegydd iddo yr oedd efe.

Adn. 29. **Yr hwn sydd ganddo y briodferch yw y priodfab.** Yr Eglwys, yn ddiau, yw y briodferch (Eph. v. 32; Dat. xix. 7. xxi. 2—9). A'r Iesu ei hun yw y priodfab. **Ond cyfaill y priodfab, &c.** Deallai Ioan ei safle yn ei berthynas â'r Iesu. Cyfaill y priodfab ydoedd, ac fel y cyfryw, parod ydoedd i lawenhau yn ei gysur â'i lwyddiant. Nid cenfigenu wrth gynydd a llwyddiant yr Iesu yr oedd Ioan, ond llawenhau. **Y llawenydd hwn mau fi gan hynny a gyflawnwyd.** Mae fy nghwpan i, fel pe dywedasai Ioan, yn orlawn o lawenydd, yn yr olwg ar ei lwyddiant ef. Os nad fy eiddo i yw y llwyddiant, fy eiddo i yw y llawenydd.

Adn. 30. **Rhaid yw iddo ef gynyddu ac i minau leihau.** Nid yn unig deallai Ioan drefn y nef, ond boddlonai iddi. Yr oedd gweinidogaeth Ioan i ddiflanu yn raddol, fel y mae y lleuad yn y boreu yn diflanu yn raddol wrth agoshâd yr haul.

iddo ef gynnyddu, ac i minnau leihâu. 31. Yr hwn a ddaeth oddi uchod, sydd goruwch pawb oll: yr hwn sydd o'r ddaear, sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru: yr hwn sydd yn dyfod o'r nef, sydd goruwch pawb. 32. A'r hyn a welodd efe ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei dystiolaethu: ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef. 33. Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth ef, a seliodd mai geirwir yw Duw. 34. Canys yr hwn a anfonodd Duw, sydd yn llefaru geiriau Duw; oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi *iddo ef* yr

---

Adn. 31—36. Digon anhawdd yw penderfynu pa un ai geiriau Ioan Fedyddiwr ai ynte geiriau Ioan yr Efengylwr yw y rhai hyn. Heb fyned i mewn i'r rhesymau dros y naill olygiad na'r llall, credaf mai syniadau y Bedyddiwr ydynt, a delw ac ieithwedd yr Efengylwr arnynt. Dyma eiriau olaf yr hen Oruchwyliaeth, cyn i'r Oruchwyliaeth newydd ddyfod i mewn.

Adn. 31. **Yr hwn sydd oddiuchod sydd goruwch pawb oll.** Sef, Crist. Mae efe "goruwch pawb," yn cynwys Ioan ei hun. Cydmarer adn. i. 3, viii. 23, Efe ydyw yr "Arglwydd o'r nef" (1 Cor. xv. 48). **Yr hwn sydd o'r ddaear sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru.** Gwell, "Yr hwn sydd o'r ddaear sydd ddaearol, ac yn ddaearol y mae yn llefaru." Dyma ddesgrifiad Ioan ohono ei hun, mewn gwrthgyferbyniad i'r Iesu. Nis gallai lefaru am bethau ysbrydol ond o safle anmherffaith y ddaear. "Y ddaear oedd ei edrychfa wrth eu llefaru; ond yr oedd yr Iesu a'i edrychfa yn y nefoedd, lle yr oedd o ran ei berson Dwyfol, ac nid ar y ddaear, lle yr oedd ei ddynoliaeth."—T.Y.S.

Adn. 32. **A'r hyn a welodd efe ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei dystiolaethu.** Rhagoriaeth ddigyffelyb tystiolaeth Crist i bethau dwyfol sydd yn y geiriau hyn. Gwelodd a chlywodd yn ei sefyllfa o ragfodolaeth gyda Duw, adn. 11, i. 18. Meddai ef ar wybodaeth uniongyrchiol am bethau nefol. Am hynny teilynga ei dystiolaeth ef bob derbyniad. **Ond nid oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef.** Yn llythrennol, nid oedd hynny yn wir, ond yn gydmariaethol yr oedd yn ddigon cywir. Gwêl Dr. Plummer yma brawf o onestrwydd Ioan, yn rhoddi dywediad eithafol i lawr, heb geisio ei doddi i lawr, a'i wneuthur yn fwy golygus.

Adn. 33. **Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth ef, a seliodd mai geirwir yw Duw.** Golyga y gair Groeg (*lambanô*) yma ei derbyn yn serchog a'i derbyn yn feddiant. Ac wrth ei dderbyn gesyd ei sêl i gadarnhau fod Duw yn dyweyd y gwir.

Adn. 34. **Canys yr hwn a anfonodd Duw, sydd yn llefaru geiriau Duw.** Dyma paham yr oedd yr hwn a dderbyniai dystiolaeth yr Iesu yn selio fod Duw yn eirwir, am fod geiriau yr Iesu yn eiriau Duw ei hun. Yr oedd y fath undeb agos rhyngddo â'r Tad fel ag yr oedd ei eiriau ef mewn modd arbenig yn

Yspryd. 35. Y mae y Tad yn caru y Mab, ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef. 36. Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol: a'r

---

eiriau y Tad. Gwêl viii. 26; xv. 15. **Oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Yspryd.** Gadewir y gair Duw allan o rai llawysgrifau pwysig, fel ag y mae'n amheus a oedd y gair i lawr yn y dechreu. Nid yw y geiriau *iddo ef* yn y Groeg. Er hynny, credaf mai dysgu y mae y geiriau fod Duw yn rhoddi ei Yspryd i'w Fab, yn ei holl helaethrwydd, ac nid wrth fesur, canys "rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef." Ac oherwydd fod Duw wedi rhoddi ei Yspryd mor helaeth i'w Fab, dyma sicrwydd ychwanegol ei fod yn llefaru geiriau Duw mewn gwirionedd.

Adn. 35. **Y mae y Tad yn caru y Mab.** Cyfeiriad sydd yma, nid at gariad tragwyddol y Tad tuag at ei dragwyddol Fab, ond tuag ato oherwydd ei ufudd-dod fel Cyfryngwr. Gwêl x. 17. **Ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef.** Am ei fod yn caru y Mab, y mae yn rhoddi pob peth yn ei law. "Pob peth" angenrheidiol er cyflawni ei waith fel Cyfryngwr, a sicrhau llwyddiant a buddugoliaeth derfynol ei deyrnas gyfryngol. Ac oherwydd hyn, y mae'n bwysig credu ynddo ac ufuddhau iddo.

Adn. 36. **Yr hwn sydd yn credu yn y Mab.** Mae credu yn y Mab ac yn ei enw Ef yn cael amlygrwydd arbenig yn yr efengyl hon. Gellid meddwl weithiau, mai ffydd yn unig yw amod cadwedigaeth pechadur, ond ni ddylid gwahanu y ffydd hon oddiwrth ei ffrwyth angenrheidiol, sef, ufudd-dod, onide ffydd farw a diffrwyth a fydd. **Mae ganddo fywyd tragwyddol.** Cyfarfyddir â'r geiriau "bywyd tragwyddol" yn dra mynych yn yr efengyl hon, a golygant yr oll o iachawdwriaeth pechadur. Nid fe gaiff y credadyn fywyd tragwyddol, ond y *mae* ganddo yn bresenol. Nid y *dyfodol*, yn ol Paul, yw bywyd tragwyddol (Rhuf. vi. 22), ond profiad ac eiddo *presenol*. Mae elfennau bywyd tragwyddol yn cael eu cynhyrchu yn nghalon pechadur y funud gyntaf y crêd yn y Mab, ac ni fydd bywyd yn y gogoniant tragwyddol yn ddim ond dadblygiad a pherffeithiad o'r bywyd ddaeth i fod y funud y credodd yn yr Iesu. **A'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wel fywyd.** Ystyr y geiriau "heb gredu" yma yw heb *ufuddhau*. Megys y mae gwir gredu yn cynwys "ufudd-dodffydd," felly y mae bod heb gredu yn cynwys anufuddhau. Ni wêl fywyd, ni chaiff un gradd o ddirnadaeth, na phrofiad o fywyd. **Eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.** Rhaid credu fod digofaint yn y Duw cyfiawn a sanctaidd tuag at bechod.* Eithr nid nwyd ddialgar ydyw, fel yn fynych mewn dynion, ond egwyddor sanctaidd a sefydlog o

---

* His righteousness must set Him in unrelenting conflict with sin. Nay, we must not shrink from speaking of the anger of God. A being incapable of moral indignation, who could look upon oppression and wrong without feeling anger at those who perpetrated it, would be too morally base to deserve the name of a God.—*Dr. Peake.*

hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd ; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.

---

wrthwynebiad tragwyddol i bechod. Nis gall sancteiddrwydd perffaith Duw lai na dyfod i wrthdarawiad â phechod. Ac fel pechadur annghrediniol ac anufudd, y mae dyn yn rhwym o fod yn wrthrych y digofaint Dwyfol, ar bob pryd, ac o dan bob amgylchiad. Mae y cwmwl du yn hofran uwch ei ben, ac yn ei ddilyn i bob man.

PENNOD IV.

PAN wybu yr Arglwydd gan hynny glywed o'r Phariseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan, 2. (Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddisgyblion ef.) 3. Efe a adawodd Judea, ac a aeth drachefn i Galilea. 4. Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria. 5. Efe a ddaeth gan

---

(d) 1—42. YN SAMARIA.

Adn. 1—3. **Pan wybu yr Arglwydd gan hynny glywed o'r Phariseaid, &c.** Nid oes dim neillduol yn y tair adnod hyn, fel nad ellir eu cymeryd gyda'u gilydd. Eu sylwedd ydyw, fod yr Iesu wedi dyfod i ddeall fod llwyddiant ei weinidogaeth wedi cynhyrchu teimladau eiddigus a digofus yn y Phariseaid tuag ato, a rhag i hynny eu harwain i geisio ei niweidio neu ei ladd, y byddai yn well iddo gilio o'u ffordd. Nid ei fod mewn un modd yn llwfr ac ofnus, ond nid oedd am beryglu ei fywyd gwerthfawr cyn dyfod ei "awr" ef. Ac nid cynddaredd a mympwy y Phariseaid oedd i benderfynu yr "awr" honno, ond ewyllys ei Dad. Nid oedd eto wedi gorphen ei waith. Ac am hynny efe a adawodd Judea, ac a ddaeth drachefn i Galilea. (Gwêl ii. 12, 13.)

Adn. 4. **Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Samaria.** Dealla rhai esbonwyr y "rhaid" hwn yn ei ystyr fwyaf naturiol, sef, am fod y ffordd feraf a mwyaf unionsyth rhwng Judea a Galilea yn cynwys myned trwy Samaria. Gorweddai Samaria yn y canol rhwng Judea a Galilea. Gwir y gellid myned o'r naill wlad i'r llall heb fyned trwy Samaria, trwy amgylchu, a myned trwy Perea. Ond y ffordd naturiol gyffredin oedd trwy Samaria. Gellid gwneyd y daith felly o Jerusalem i Galilea mewn tri diwrnod. Ond myn esbonwyr o ogwyddiadau Calfinaidd, fod yna fwy yn y "rhaid" yma, na rhaid daearyddol yn unig, fod yna raid arfaeth Ddwyfol er cyfarfod â'r wraig wrth ffynnon; a bod yn foddion iachawdwriaeth iddi hi a'i chymydogion. Ond credaf mai darllen i mewn i'r geiriau a wneir trwy hynny, ac nid eu cymeryd yn eu hystyr syml a naturiol.

Adn. 5. **Efe a ddaeth gan hynny i ddinas yn Samaria a elwid Sichar.** Yn yr Hen Destament, enw ar ddinas yw Samaria a adeiladwyd gan Omri, brenhin Israel (Bren. xvi. 23, &c.), ond yma enw ar dalaeth *(province)* ydyw. Mae esbonwyr diweddar bron yn unfryd o'r farn mai yr un lle yw Sichar, a phentref o'r enw Askar. Defnyddid y gair dinas gynt mewn ffordd lac ac amwys gan ei roddi weithiau ar leoedd bychain a dinod. Geilw yr efengylwyr Capernaum yn ddinas, tra y geilw Josephus Capernaum yn bentref. Mae Askar yn agos i Nablous y dyddiau presennol, a Sichem y dyddiau gynt. **Gerllaw y rhandir a roddasai Jacob i'w fab Joseph.** Gen. xxxiii. 19; xlviii. 22; Josua xxiv. 32. Prynodd Abraham y tir i ddechreu, a rhoddodd Jacob ef i Joseph, ac yno y claddwyd Joseph.

hynny i ddinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhandir a roddasai Jacob i'w fab Joseph: 6. Ac yno yr oedd ffynnon Jacob. Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynnon: ac ynghylch y chweched awr ydoedd hi. 7. Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr: a'r Iesu a ddywedodd wrthi, Dyro i mi i yfed. 8. (Canys ei ddisgyblion ef a aethant i'r ddinas i brynu bwyd.) 9. Yna y wraig o Samaria a ddywedodd wrtho ef, Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn Iuddew, yn gofyn diod gennyf fi, a myfi yn wraig o Samaria? oblegid nid

---

Adn. 6. **Ac yno yr oedd ffynnon Jacob.** Mae'r ffynnon yn bod hyd heddyw, a danghosir hi i deithwyr dwyreiniol. Mae oddeutu hanner milldir i'r dê i Askar, a milldir i'r dwyrain o Nablous. Dyfnder y ffynnon neu y pydew yw tua chan troedfedd, a'r ochrau wedi eu gweithio â cherryg. **Yr Iesu gan hynny yn ddiffygiol gan y daith.** Pa faint a gerddodd yr Iesu cyn cyraedd y ffynnon amhosibl yw penderfynu, ond y mae yn amlwg fod hyd y daith a gwres y dydd wedi effeithio yn fawr arno, fel erbyn iddo gyraedd y ffynnon, yr oedd wedi diffygio. Teimlai yn dra blinedig a sychedig. **A eisteddodd felly ar y ffynnon.** Yr oedd yn ddiolchgar am gael eistedd i ddadflino ychydig. **Ac ynghylch y chweched awr ydoedd hi.** Deuddeg o'r gloch yn ol y cyfrif Iuddewig. Ac yr oedd yn awr giniaw gyda'r Iuddewon. Mor naturiol a dirodres yr edrydd yr efengylwr yr hanes. Nid rhyfedd iddo dynnu o Resymolwr fel Renan y sylw canlynol:—"Mae y rhan fwyaf o amgylchiadau yr hanes yn dwyn argraff tarawiadol o wirionedd."

Adn. 7. **Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr.** Gwraig o'r wlad, ac nid o Ddinas Samaria ydoedd. Tebygol ei bod wedi myned heibio ffynhonau eraill a dyfod i ffynnon Jacob i geisio dwfr, am y tybiai fod y dwfr hwnnw yn fwy rhinweddol a chysegredig. **A'r Iesu a ddywedodd wrthi, Dyro i mi i yfed.** O dan ddylanwad syched, gofynodd am gymwynas fechan iawn. Gofynai am dani iddo ei hun, am fod y disgyblion wedi myned i'r ddinas i brynu ymborth, adn. 8. Ond fe gredir gan lawer o esbonwyr, y rhaid fod Ioan wedi aros gyda'r Iesu yn gwmni iddo ef, ac mai dyma paham y mae yn gallu adrodd yr ymddiddan gymerodd le rhyngddo ef a'r wraig.

Adn. 8. **Canys ei ddisgyblion ef a aethant i'r ddinas i brynu bwyd.** Amlwg yw nad oedd y disgyblion mor rhagfarnllyd a llawer o'r Iuddewon, onide ni phrynasent ymborth o gwbl yn Samaria, rhag iddynt halogi eu hunain.

Adn. 9. **Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn Iuddew, yn gofyn diod gennyf fi, a myfi yn wraig o Samaria?** O dan ddylanwad syndod y llefarodd y wraig o Samaria hyn, fod Iuddew yn ymostwng i ofyn am y ffafr leiaf oddiar law un o'r Samariaid dirmygedig. Yr oedd yn hawdd iddi wybod odd i wrth ei leferydd a'i wisg, mai Iuddew ydoedd. Ac yn y geiriau sydd yn dilyn cyfeiria at yr achos o hynny. **Oblegid nid yw yr Iuddewon yn ym-**

yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid. 10. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yfed; tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr bywiol. 11. Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid oes gennyt ti ddim i godi *dwfr*, a'r pydew sydd ddwfn: o ba le gan hynny y mae gennyt ti

---

gyfeillach a'r Samariaid. "*Jews have no dealings with Samaritans*" (W.), "*Jews are not on good terms with Samaritans*" (20th C.). Ymddengys mai pobl gymysgryw oedd y Samariaid. Gwelir hanes eu dechreuad yn 2 Bren. xxii. Hannent yn wreiddiol o lwythau cenhedlig a phaganaidd. Gan hynny edrychai yr Iuddewon arnynt gyda'r un dirmyg trahaus ag yr edrychent ar y Cenhedloedd yn gyffredinol. Heblaw hynny, yr oedd y bobl hyn a ddygwyd i'r wlad gan Salmaneser, Brenhin Assyria, wedi ymgymysgu â rhan o'r boblogaeth Israelaidd, ac yr oedd hynny yn dra chroes i deimlad yr Iuddew. Ac i wneyd y cwbl yn waeth, gwrthodwyd iddynt gael rhan yn ail-adeiladaeth a gwasanaeth yr ail Deml yn Jerusalem (Ezra iv., Nehemiah vi.). Parodd hynny iddynt adeiladu teml eu hunain ar Fynydd Gerazim, ac i sefydlu gwasanaeth crefyddol mewn gwrthymgeisiaeth i eiddo yr Iuddewon yn Jerusalem. Ac felly, rhwng pob peth, yr oedd teimladau croesion ac anserchus iawn yn ffynnu rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid.

Adn. 10. **Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, Dyro i mi i yfed.** Ystyr y gair dawn yw *rhodd*, rhodd anrhydeddus neu werthfawr. Yma yn unig y defnyddir y gair yn yr efengylau. Pa beth a olyga? Tybia rhai mai yr Iesu ei hun a olygir, ond y mae Efe ei hun yn gwahaniaethu ei hunan oddiwrth "ddawn Duw" pan y dywed, "*a phwy* yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt." Y golygiad mwyaf naturiol yw mai y cyfleustra gwerthfawr oedd yn meddiant y wraig ar y pryd yw "dawn Duw." Duw yn ei ragluniaeth oedd wedi arwain yr Iesu a'r wraig at eu gilydd, ond nid trwy "raid" ar y naill ochr na'r llall. Nid damwain oedd eu cydgyfarfyddiad wrth y ffynnon, ond "dawn Duw." Ac fel pe dywedasai yr Iesu, Pe bait yn adnabod amser dy ymweliad, cyn i mi ofyn i ti am lymaid o ddwfr y ffynnon hon, buaset ti wedi gofyn i mi am ddwfr fuasai yn diwychedu dy enaid yn dragywydd. **Tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti ddwfr bywiol.** Yn hytrach na myned i sôn am y cweryl rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid, buaswn ar unwaith yn rhoddi i ti ddwfr bywiol, dwfr o ansawdd annhraethol uwch a rhagorach na dwfr y ffynnon. Diau fod yna elfen gyfriniol yn y geiriau "dwfr bywiol" er ceisio codi meddwl y wraig at bethau ysprydol, a golyga yr iachawdwriaeth ysprydol yn ei chyfanswm, ag yr oedd mewn angen am dani.

Adn. 11. **Arglwydd, nid oes gennyt ti ddim i godi dwfr, &c.** Gwell, *Syr, nid oes gennyt lestr i dynu dwfr, a'r ffynon sydd ddofn* (W.E.). *You have no bucket, sir, and the well is deep* (20th C.). Gwelir oddiwrth atebiad y wraig mai daearol a materol iawn oedd eu syniadau. Nis gwelai ddim yn mhellach na dwfr y

y dwfr bywiol hwnnw? 12. Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob, yr hwn a roddodd i ni y pydew, ac efe ei hun a yfodd o hono, a'i feibion, a'i anifeiliaid? 13. Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Pwy bynnag sydd yn yfed o'r dwfr hwn, efe a sycheda drachefn: 14. Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd; eithr y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol.

---

ffynnon. A chan nad oedd gan yr Iesu lestr i godi y dwfr, nis gallai ddeall pa fodd y gallasai gynnyg iddi ddwfr o gwbl. Ymddengys fod y llestr arferedig wedi ei wneuthur o groen, yr hwn a gedwid yn agored gan brenau croes, a'r hwn a ollyngid i lawr gan raff o flew geifr.

Adn. 12. **Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob, yr hwn a roddodd i ni y pydew, &c.** Nis gallai y wraig lai na meddwl fod y gŵr dieithr yn awgrymu fod ganddo ddwfr amgen na dwfr y ffynnon i'w roddi iddi, ac os felly tybiai ei hun yn uwch na Jacob. Honnai y Samariaid berthynas â Jacob, a'u bod yn ddisgynyddion ohono trwy Joseph. Yma yr oedd rhandir Joseph, ac er na roddodd Jacob y ffynon yn uniongyrchiol iddynt hwy, eto, efe a'i cloddiodd, ac a'i gadawodd gyda'r tir yn etifeddiaeth i'w olynwyr.

Adn. 13. **Pwy bynnag sydd yn yfed o'r dwfr hwn, efe a sycheda drachefn.** "Y dwfr hwn" yw dwfr ffynon Jacob, ac er mor ragorol ydoedd, nid oedd yn effeithiol i ddisychedu dyn nac anifail. Ac y mae yn arwyddlun tarawiadol o bob peth daearol a gweledig: "efe a sycheda drachefn."

Adn. 14. **Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd.** Rhydd yr Iesu ar ddeall ini, yn y geiriau hyn, mai ganddo ef yn unig y mae'r iachawdwriaeth ysbrydol y mae pechadur mewn angen amdani, a dengys ei hyder llawn yn ei chyfaddasder i gyflawn ddiwallu holl angen ysbrydol dyn yn dragywydd. Pa ddyn yn unig a feiddiasai wneuthur y fath honiad hynod a rhyfeddol? **Eithr y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol.** Ystyr y gair *ffynnon* yma yw ffynhonell, neu darddfa—*spring of water*. Ac ystyr y gair *tarddu* yw llamu, neidio i fyny; yna ffrydio i fyny—*springing up*. Nid y meddwl yw fod dwfr yn arwain, ac yn diweddu, mewn bywyd tragwyddol, canys bywyd tragwyddol ydyw eisoes o ran ei natur, yn enaid y credadyn; ond y meddwl yw ei fod yn gyfryw o ran ei natur, fel mai yn nhragwyddoldeb y gwellr ef wedi ymddadblygu yn gyflawn a pherffaith.

Adn. 15. **Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn, &c.** Eglur yw, oddiwrth y sylw hwn o eiddo y wraig, ei bod mewn dyryswch meddwl, ac na wyddai yn iawn beth a ddywedai. Tywyll iawn oedd ei meddwl o hyd i gyfeiriad yr ysbrydol. Aros y mae gyda dwfr i ddisychedu y corph yn unig, y cyfryw ag a arbedai drafferth iddi hi ddyfod i'r ffynnon yn barhaus i godi dwfr.

15. Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, dyro i mi y dwfr hwn, fel na sychedwyf, ac na ddelwyf yma i godi *dwfr*. 16. Iesu a ddywedodd wrthi, Dos, galw dy wr, a thyred yma. 17. Y wraig a attebodd ac a ddywedodd, Nid oes gennyf wr, Iesu a ddywedodd wrthi, Da y dywedaist, Nid oes gennyf wr: 18. Canys pump o wŷr a fu i ti; a'r hwn sydd gennyt yr awrhon, nid yw wr i ti: hyn a ddywedaist yn wir. 19. Y wraig a ddywedodd wrtho ef, Arglwydd, mi a welaf mai prophwyd wyt ti. 20. Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn; ac yr

---

Teimlai yr Iesu yn awr, os oedd am wneyd lles ysbrydol i enaid y wraig hon, fod yn rhaid iddo ddefnyddio ryw lwybr gwahanol i ddeffro ynddi deimlad o'i hangen ysbrydol. Ac am hynny, ceisia gyraedd ei henaid trwy apelio at ei chydwybod. Defnyddia aradr argyhoeddiad i agor tir ei chalon. Dyma sydd yn cyfrif am y cyfeiriad gwahanol a gymer yr ymddiddan.

Adn. 16. **Dos, galw dy wr, a thyred yma.** Amcan y geiriau hyn yw deffro cydwybod euog y wraig, ac y mae yn amlwg iddynt gyraedd yr amcan yn bur effeithiol. Teimlai y wraig yn awr ei bod wedi ei dal yn y fagl. Ceisia ddyfod allan ohoni trwy ddyweyd y gwir, ac eto, dim ond hanner y gwir. Nid oedd yr un yr oedd yn byw gydag ef yn awr, mewn cysylltiad annghyfreithlon, yn ŵr iddi.

Adn. 17. **Nid oes gennyf wr.** Buasai yr ateb hwn wedi twyllo a chamarwain dyn cyffredin, ond yr oedd y wraig yn awr yn mhresenoldeb un oedd yn gwybod beth oedd mewn dyn; ac y mae yn agor hanes ei bywyd pechadurus. **Da y dywedaist, Nid oes gennyf wr.** Ystyr y gair "da" (Gr., *kalôs*) ydyw *prydferth, gwych*. Er ei fod yn wir ddigon hyll ar un olwg, eto, wrth ddyfod yn gyfaddefiad o galon ac o enau y wraig, y mae yn troi yn wych ac yn brydferth.

Adn. 18. **Canys pump o wyr a fu iti, &c.** Yr oeddent naill ai wedi marw, neu yn fwy tebygol rai ohonynt wedi eu hysgar; canys yr oedd deddf priodas yn llac iawn y pryd hyn yn mhlith yr Iuddewon a'r Cenhedloedd (Matt. xix. 8, 9).

Adn. 19. **Arglwydd, mi a welaf mai prophwyd wyt ti.** Wrth weled yr Iesu yn darllen mor gywir ei holl hanes pechadurus, nis gallai beidio dyfod i'r casgliad naturiol ei bod yn mhresenoldeb prophwyd, un wedi ei ysbrydoli â gwybodaeth goruwchnaturiol (1 Sam. ix. 9).

Adn. 20. **Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn.** Yn ddigon naturiol, pan yn sylweddoli ei bod yn mhresenoldeb un oedd yn gwybod am ei bywyd anfoesol a gwaradwyddus mor drwyadl, teimlai awydd i arwain ei feddwl oddiwrthi hi ei hunan a'i hanes poenus at ryw fater llai personol. Ac oherwydd hynny, ceisia alw ei sylw at hen gwestiwn mewn dadl rhwng yr Iuddewon a Samariaid parthed y lle priodol a chyfreithlon i addoli Duw eu tadau. Credai y Samariaid mai "y mynydd hwn" oedd y lle, gan gyfeirio at Gerizim, oedd yn dyrchafu ei ben gerllaw. "Ein tadau," sef, ei henafiaid, gan fyned mor bell yn ol a

ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae y man lle y mae yn rhaid addoli. 21. Iesu a ddywedodd wrthi hi, O wraig, cred fi, y mae yr awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem. 22. Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch: ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom: canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon. 23. Ond dyfod y mae

---

dyddiau Abraham. Yn ol traddodiad yn mhlith y Samariaid, ar "y mynydd hwn" y cyferfu Abraham â Melchisedec, ac yr offrymodd Isaac ei fab. Adeiladwyd y deml ar Fynydd Gerizim tua 400 c.c., a dinystrwyd hi gan John Hyrcanus 130 c.c. Ond yr oedd y Samariaid ofergoelus yn parhau i addoli ac aberthu yno ar ol hynny.

Adn. 21. **O wraig, cred fi.** Cyfarchiad parchus a difrifol. Defnyddir dwy ffurf ar y ferf "credu"—un (*pisteue*) a ddynoda weithred ddechreuol o ffydd, a *pisteuon*, a ddynoda weithred gyflawn a pherffaith. Y ffurf gyntaf sydd yma i osod allan ffydd yn ei chychwyniad cyntaf.—*Westcott.* **Y mae yr awr yn dyfod pryd nad addoloch y Tad, &c.** Fel pe dywedasai yr Iesu: Gyda hyn, ni bydd dim pwys yn mha *le* yr addolir Duw, *ysbryd* addoli fydd yn bwysig, ac nid *lle.* Bydd Gerizim a Jerusalem wedi myned mor gyffredin a'r lle mwyaf dinod—dim gwahaniaeth o ran lle.

Adn. 22. **Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch.** "Y peth"—cyfeiriad, y mae'n debyg, at y syniad anmherffaith oedd gan y Samariaid am gymeriad Duw o'u cydmaru â'r Iuddewon. Ni dderbynient ond pum llyfr Moses, gan wrthod y datguddiad rhagorach a chyflawnach o Dduw trwy y prophwydi (2 Bren. xvii. 24—41). Penderfyna yr Iesu y ddadl gyda golwg ar y gorphenol a'r presenol, o blaid yr Iuddewon (Es. lix. 16—20).

Adn. 23. **Ond y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr y mae hi pan addolo, &c.** Cyfyd yr Iesu y gwaith o addoli Duw uwchlaw pob gwahaniaeth cenedlaethol a gwladol, i dir uchel o ysbrydolrwydd. Mae "yn dyfod" pan y bydd felly yn hollol; "ac yn awr y mae hi" felly i raddau. Yr oedd gwawr yr Oruchwyliaeth Gristionogol wedi tori eisoes yn ymddangosiad y Messiah. **Pan addolo gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd.** Gwell "*yr addolwyr gwirioneddol y Tad*" (W.E.). Gwirioneddol, sylweddol, yn wrthgyferbyniol i'r ffugiol a'r gau, y Phariseaid a'r Samariaid. *Tad* yw gwrthrych addoliad i fod o hyn allan, ac nid Brenin fel yn y dyddiau gynt. Hyder a rhyddid plant, ac nid arswyd a dychryn deiliaid a chaethion, sydd i nodweddu yr addoliad. "Mewn ysbryd a gwirionedd." Nid yr Yspryd Glân a feddylir yma, ond ysbryd y dyn ei hun, a hwnnw mewn ysbryd addoli; a lle bynnag y mae ysbryd wrth y gwaith, y mae yno gywirdeb a gwirionedd. Nid addoliad y llythyren fel yr Iuddewon ac nid addoliad rhanol fel y Samariaid. **Canys y cyfryw y mae y Tad yn ceisio i'w addoli.** Dyma'r addolwyr ag y mae y Tad yn dyheu amdanynt. Rhyfedd meddwl, nid yn unig fod y Duw Anfeidrol yn barod i dderbyn ein haddoliad a'n gwasanaeth gwael ac annheilwng, ond ei fod yn awyddus am ei gael lle bynnag y mae yn dyfod yn gywir o'r galon.

yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd: cynys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef. 24. Yspryd *yw* Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd. 25. Y wraig a ddywedodd wrtho, Mi a wn fod y Messïas yn dyfod, yr hwn a elwir Crist: pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ni bob peth. 26. Iesu a ddywedodd wrthi hi, Myfi, yr hwn wyf yn ymddiddan â thi, yw *hwnnw*. 27. ¶ Ac ar hyn y daeth ei ddisgyblion; a bu ryfedd ganddynt ei fod ef yn ymddiddan â

Adn. 24. **Yspryd yw Duw.** Dyma'r datguddiad egluraf a llawnaf o Dduw, o ran ei *natur*, sydd yn y Beibl. Yspryd pur a diranau ydyw yn wrthgyferbyniol i gorph materol, y gellir ei weled a'i rannu. Dyma'r gwirionedd sydd i reoli ac i ddylanwadu ar ein holl syniadau am Dduw. **A rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd.** Mae natur Duw yn penderfynu cymeriad ei addoliad. Nis gellir boddloni Yspryd Hollbresenol a Hollwybodol gyda dim llai nag addoliad ysprydol a gwirioneddol. Nis gall addoliad o ffurfiau a lleoedd, heb galon a thueddiadau tufewnol cywir, fod yn gymeradwy ganddo ef. Nid addoliad o gysgodau ac arwyddluniau, ond un sydd yn cynwys sylwedd moesol ac ysprydol, a gymeradwyir ganddo ef. Mor wrthdarawol i ddysgeidiaeth y geiriau hyn yw addoliad allanol, gwych, a rhwysgfawr y Defodwyr a'r Pabyddion.

Adn. 25. **Mi a wn fod y Messias yn dyfod yr hwn a elwir Crist.** Yr oedd disgwyliad yn mhlith y Samariaid am ymddangosiad y Messias, a seilient eu disgwyliad ar rannau o Bum Llyfr Moses yn bennaf—fe ddichon, ar Deut. xviii. 15. "Yr hwn oedd i ddyfod" y gelwid ef yn gyffredin gan y ddwy genedl. **Efe a fynega ini bob peth;** neu, Efe a hysbysa ini bob peth. Casgla y wraig oddiwrth ei fod wedi mynegu ei hanes hi mor gywir, y rhaid fod cylch ei wybodaeth yn eang iawn. Ac nis gwyddai am yr un Prophwyd ag yr oedd mor debyg iddo a'r Messias ei hun. "Tybed," fel pe dywedasai, "nad y Messias yw hwn, canys y mae hwn yn ymddangos imi yn alluog i fynegu pob peth." Disgwyliai y Samariaid am y Messias yn bennaf fel Prophwyd i'w dysgu a'u goleuo.

Adn. 26. **Myfi, yr hwn wyf yn ymddiddan a thi, yw hwnnw.** Mae'r Iesu yn y geiriau hyn yn cyfaddef yn groew ac eglur mai Efe oedd y Messias. Ni wnaeth yr Iesu gyffes fel hyn o'i Fessiayddiaeth i'r Iuddewon cyn bron ddiwedd ei yrfa (Matt. xxvi. 64 a Matt. xvi. 20). Paham, tybed, i'r Samariaid yn fwy nag i'r Iuddewon? Mae'n debyg fod dau reswm am hyn. Un ydyw y gallai wneyd y gyffes yn ddiberygl yn mhlith y Samariaid. Pe gwnaethasai yr un gyffes yn mhlith yr Iuddewon, buasai yna berygl mawr o gynnwrf a gwrthryfel gwladol oherwydd eu syniadau cyfeiliornus a daearol am amcan ymddangosiad y Messias. Rheswm arall yw fod yna lai o ragfarn, a mwy o symylrwydd ac aeddfedrwydd meddwl, yn eu plith i dderbyn y gwirionedd oedd yn y gyffes.

gwraig: er hynny ni ddywedodd neb, Beth a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn ymddiddan â hi? 28. Yna y wraig a adawodd ei dwfr-lestr, ac a aeth i'r ddinas, ac a ddywedodd wrth y dynion, 29. Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum; onid hwn yw y Crist? 30. Yna hwy a aethant allan o'r ddinas, ac a ddaethant atto ef? 31. ¶ Yn y cyfamser y disgybl-

---

Adn. 27. **Ac ar hyn y daeth ei ddisgyblion,**—yn ol, ar ol bod yn y ddinas yn prynu ymborth. **A bu ryfedd ganddynt ei weled yn ymddiddan a gwraig.** O safbwynt Iuddewon, yr oedd i ŵr ymddiddan â gwraig yn beth darostyngol a gwaradwyddus, a hollol groes i arferiad y wlad. Nid oedd yn ganiataol i Iuddew gyfarch gwraig ar yr heol, hyd yn nod pe yn wraig, neu ferch, neu chwaer iddo ef ei hun. Yn y Weddi Foreuol, diolchai a bendithiai y dynion Dduw, "yr hwn na wnaeth fi yn genedl-ddyn, yn gaethwas, nac yn wraig.' Dyma sydd yn cyfrif am y rhyfeddod feddianodd y disgyblion wrth weled eu Hathraw yn ymddiddan â gwraig, yn enwedig gwraig o Samaria. **Beth a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn ymddiddan a hi?** Er cymaint eu syndod, ni feiddiasant alw yr Iesu i gyfrif am ei ymddygiad hynod. Rhaid fod ynddo, er ei holl dynerwch, ryw urddas a mawredd oedd yn dylanwadu ar y disgyblion, er eu cadw rhag myned yn rhy hyf arno.

Adn. 28. **Yna y wraig a adawodd ei dwfr-lestr, ac a aeth i'r ddinas, &c.** Yr oedd y wraig o dan ddylanwad yr ymddiddan, ac yn enwedig yn wyneb y datguddiad wnaeth yr Iesu ohono ei hun iddi fel y Messias, wedi ymgynhyrfu cymaint nes y mae yn annghofio ei dwfr-lestr, ac yn ei llawenydd yn prysuro i'r ddinas i fynegu y newydd da.

Adn. 29. **Deuwch, gwelwch ddyn, &c.** Amlwg yw fod gwybodaeth yr Iesu o hanes ei bywyd wedi effeithio yn fawr ar feddwl y wraig, nes y mae yn teimlo y dylai eraill, ei chymydogion, gael gwybod am dano. Ac y mae y grêd mai efe oedd y gwir Fessias yn ymladd am fuddugoliaeth yn ei chalon. **Onid hwn yw y Crist?** Rhy gryf braidd yw y cyfieithiad hwn. Gwell: *A all hwn fod y Crist!* Mae y gair Groeg *méti* yn disgwyl am ateb nacaol, ac nid cadarnhaol i'r cwestiwn. Gwellr ei bod yn methu credu yn iawn, mai efe oedd y Messias. Yr oedd y darganfyddiad yn ormod i'w ffydd egwan ar y pryd allu ei gofleidio.

Adn. 30. **Yna hwy a aethant allan o'r ddinas, &c.** Bu ei chyhoeddiad o'r hyn a welodd ac a glywodd yn effeithiol i godi y bobl allan o'r ddinas, ac i ddwyn tyrfa ohonynt at yr Iesu wrth ffynon Jacob: canys yr oedd y wraig o ddifrif yn mynegu ei hargyhoeddiad.

Adn. 31. **Yn y cyfamser y disgyblion a atolygasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, bwytta.** Rhwng ymadawiad y wraig a dytodiad y bobl, y mae y disgyblion yn cymeryd mantais o'r hamdden i berswadio eu Hathraw i gymeryd ymborth am y gwyddent y rhaid ei fod bellach mewn angen mawr amdano.

ion a attolygasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, bwytta. 32. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae gennyf fi fwyd i'w fwytta yr hwn ni wyddoch chwi oddi wrtho. 33. Am hynny y disgyblion a ddywedasant wrth eu gilydd, A ddug neb iddo *ddim* i'*w* fwytta? 34. Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef. 35. Onid ydych chwi yn dywedyd, Y mae etto bedwar mis, ac *yna* y daw y cynhauaf? Wele, yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych, Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y meusydd;

Adn. 32. **Y mae gennyf fi fwyd i'w fwytta, yr hwn ni wyddoch chwi amdano.** "Nad ydych chwi yn ei adnabod" (W. E.). Rhyfedd y dylanwad sydd gan y meddwl ar y corph. Os bydd y meddwl wedi ei lyncu i fyny yn llwyr gan ryw orchwyl dyddorol a boddhaus, y mae yn myned yn anymwybodol o angen y corph. Ac felly yr Iesu yma, cymaint oedd ei foddhad wrth gyflawni ewyllys ei Dad, trwy wneyd lles ysprydol i un enaid, nes yr oedd yn annghofio, ac yn myned yn ddiarchwaeth at ymborth naturiol. Dyma brofiad nad oedd y disgyblion yn ei adnabod.

Adn. 33. **A ddug neb iddo ddim i'w fwytta?** O dan ddylanwad syniad materol, ymhola y disgyblion yn eu plith eu hunain, A oedd ryw un yn eu habsenoldeb, wedi peidio dyfod âg ymborth iddo ef? Prawf eglur na wyddent ddim am yr ymborth ysprydol yr oedd yr Iesu wedi bod yn ymborthi arno.

Adn. 34. **Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef.** Dyma eglurhad yr Iesu ei hun, ar natur yr ymborth yr oedd wedi bwytta mor helaeth ohono. Megys y mae ymborth naturiol yn torri angen y corph, ac yn ei ddigoni ar y pryd, felly y teimlai yr Iesu fod cyflawni ewyllys ei Dad, a gorphen ei waith ef, y mwynhad pennaf, a'r boddhad llawnaf yr oedd yn alluog ohono. "Dyma ddigon, Cheisiaf feddu dim ond hyn."

Adn. 35. **Y mae eto bedwar mis, ac yna y daw y cynhauaf.** Tybia rhai mai diareb yw y geiriau hyn, ond credaf mai mynegiad ydynt o'r syniad cyffredin fod pedwar mis o'r amser y llefarai hyd pryd medi. Cyfeiriad ydyw, y mae yn dra thebyg, at y cynhauaf yn nechreu Ebrill, ac felly yr oedd tua chanol Rhagfyr pan lefarodd Crist y geiriau, a rhyw wyth mis ar ol y Pasg cyntaf (ii. 23). **Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y meusydd, canys gwynion ydynt eisoes i'r cynhauaf.** Os oedd pedwar mis rhwng hynny a'r cynhauaf gwenith yn Palestina, nid ydoedd felly gyda golwg ar gynhauaf eneidiau. Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y bobl yn dyfod yn lluoedd ar draws y meusydd. Yr oedd y cynhauaf mawr ysprydol yn ymyl. Yr oedd yr Iesu wedi hau a medi yr un dydd. Pan gyrhaeddodd ffynnon Jacob canol dydd, nid oedd wedi dechreu hau, ond cyn terfyn y dydd yr oedd yn dechreu medi y cynhauaf ysprydol,

canys gwynion ydynt eisoes i'r cynhauaf. 36. A'r hwn sydd yn medi, sydd yn derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragywyddol: fel y byddo i'r hwn sydd yn hau, ac i'r hwn sydd yn medi, lawenychu ynghyd. 37. Canys yn hyn y mae y gair yn wir, Mai arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi. 38. Myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch: eraill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.

Adn. 36. **A'r hwn sydd yn medi sydd yn derbyn cyflog, ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragwyddol.** *Yn barod y mae yr hwn sydd yn medi yn derbyn cyflog* (W.E.). Nid derbyn cyflog *am* fedi fel yn y dyddiau presenol, ond ei dderbyn *wrth* fedi, fel yn y dyddiau gynt. Y medi oedd y cyflog. Ac felly yn arbennig mewn ystyr ysprydol. Yr oedd yr Iesu fel hyn yn annog ei ddisgyblion i ymroddi i waith y cynhauaf ysprydol, trwy ddysgu, arwain, ac adeiladu y bobl ag yr oedd geiriau Crist, trwy y wraig o Samaria, wedi cael y fath effaith arnynt. Yr oedd y ffrwyth i gael ei ddiogelu i fywyd tragwyddol. Megys ag y cesglir yr ŷd yn ystor i'r ysgubor, felly bywyd tragwyddol yw yr ystordy lle cesglir eneidiau iddo am ddiogelwch bythol. **Fel y byddo i'r hwn sydd yn hau ac i'r hwn sydd yn medi lawenychu yn nghyd.** Wrth yr hwn sydd yn hau yma y golygir, yn ddiau, yr Iesu ei hun, yn yr had a fwriodd i feddwl a chalon y wraig o Samaria, a'r hwn sydd yn medi yw y disgyblion; a'r aeddfed ffrwyth oedd pobl Samaria, ac yn naturiol y mae'r hauwr a'r medelwr yn fawr eu llawenydd yn amser y cynhauaf, wrth weled nad yw llafur y naill na disgwyliad y llall wedi myned yn ofer.

Adn. 37. **Canys yn hyn y mae y gair yn wir,** ac yn cael ei brofi felly gan yr hanes blaenorol, a dyma hefyd y rheol gyffredin. **Mai arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi.** Anfynych, os byth, y mae yr hauwr a'r medelwr, mewn ystyr ysprydol yn cydgyfarfod yn yr un person. Ac nid felly yr oedd yn Samaria, yn yr amgylchiad o dan sylw. Yr Iesu oedd wedi hau, a'r disgyblion oedd yn cael y fraint o fedi.

Adn. 38. **Myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch.** Medi llafur yr Iesu, ac nid eu llafur hwy eu hunain yr oedd y disgyblion wrth gasglu y ffrwyth yn nychweliad y Samariaid. **Eraill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.** Mae yma wirionedd cyffredinol yn y geiriau hyn, y gellir ei gymhwyso at wahanol amgylchiadau. Mor ddibynol ac mor ddyledus ydym i rai fu yn llafurio o'n blaenau mewn gwahanol feusydd, a gwahanol gylchoedd. Ond y mae cymhwysiad uniongyrchol y geiriau at lafur yr Iesu yn Samaria, a'r disgyblion yn cael y fraint o fyned i mewn iddo. "Oni buasai fod eu Hargiwydd wedi bod yn llafurio yn ei ymddiddan difrifol a phellgyraeddol â'r wraig, ni buasai gan y disgyblion yn awr ddim gwaith medi, ac ni buasai ganddo ef a hwythau ddim gwaith cydlawenhau" (E. B.).

39. ¶ A llawer o'r Samariaid o'r ddinas honno a gredasant ynddo, o herwydd gair y wraig, yr hon oedd yn tystiolaethu, Efe a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum. 40. Am hynny pan ddaeth y Samariaid atto ef, hwy a attolygasant iddo aros gyd â hwynt. Ac efe a arhosodd yno ddeuddydd. 41. A mwy o lawer a gredasant ynddo ef oblegid ei air ei hun. 41. A *hwy* a ddywedasant wrth y wraig, Nid ydym ni weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di: canys ni a'*i* clywsom *ef* ein hunain, ac a wyddom mai hwn yn ddïau yw y Crist, Iachawdwr y byd. 43. ¶ Ac ym mhen y ddeuddydd efe

---

Adn. 39. **A llawer o'r Samariaid o'r ddinas honno a gredasant ynddo, &c.** Bu gwaith y wraig yn tystiolaethu am yr Iesu yn mhlith ei chymydogion yn llwyddianus i ennill llawer ohonynt i gredu mai Efe oedd y Messiah y disgwylid am dano.

Adn. 40. **Am hynny pan ddaeth y Samariaid atto ef, &c.** Ar ol iddynt ddyfod ato, cadarnhaodd ei bresenoldeb a'i eiriau dystiolaeth y wraig am dano, a chodod hynny awydd ynddynt am y fraint o'i adnabod yn well, ac yn llawnach. Ac am hynny, attolygasant arno ef aros gyda hwynt. Mae'r gair *aros* yma yn arwyddo aros yn *barhaus*, a gwneyd ei gartref gyda hwynt. Mae yntau yn cyfarfod â'u dymuniad, mewn rhan, trwy aros gyda hwynt am ddeuddydd, i rodd[i] cyfle iddynt ei adnabod. Dau ddiwrnod ar ol y dydd y daeth at y ffynnon.

Adn. 41. **A mwy o lawer a gredasant ynddo ef oblegid ei air ei hun.** Mae'r Iesu ei hun yn annhraethol ragori ar bob tystiolaeth am dano. Ond cael dynion i bresenoldeb Crist, ac o dan ei ddylanwad, y mae yn sicr o'u hennill i gredu ynddo, oddieithr i'w meddyliau fod wedi ymgadarnhau mewn rhagfarn yn ei erbyn, fel llawer o'r Iuddewon anghrediniol.

Adn. 42. **Nid ydym ni weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di.** Gwell "dy dystiolaeth," neu "dy ymddiddan" di, na "dy ymadrodd." Nid oeddent yn amcanu dibrisio na diystyru tystiolaeth y wraig, ond dangos fod eu ffydd bellach yn gorphwys ar sail gadarnach na'i thystiolaeth hi. **Canys ni a'i clywsom ef ein hunain, ac a wyddom, &c.** Dyfod at yr Iesu, ac o dan ei ddylanwad uniongyrchiol a digyfrwng sydd yn chwalu pob amheuon ac yn rhoddi sicrwydd llawn i enaid ei fod yn mhresenoldeb ac mewn cymundeb âg Un sydd yn Geidwad gwirioneddol i bechadur. A dyma y profiad gafodd y Samariaid a gredasant yn yr Iesu, nes cynhyrchu ffydd gref a chadarn ynddo ef.

(*e*) 43—54. Yn Galilea.

Adn. 43, 44. I Galilea y bwriadai fyned pan y gadawodd Judea, ac yn awr aiff yn mlaen i orphen ei daith. I ba le yr aeth yn Galilea, anhawdd yw penderfynu. Y tebygolrwydd yw iddo alw mewn amryw bentrefi, nes o'r diwedd gyraedd Cana, adn. 46. Teimlir peth anhawsder i ddeall adn. 44, am fod y geiriau "ei wlad ei hun"

a aeth ymaith oddi yno, ac a aeth i Galilea. 44. Canys yr Iesu ei hun a dystiolaethodd, nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun. 45. Yna pan ddaeth efe i Galilea, y Galileaid a'i derbyniasant ef, wedi iddynt weled yr holl bethau a wnaeth efe yn Jerusalem ar yr wyl: canys hwythau a ddaethant i'r wyl. 46. Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana yn Galilea, lle y gwnaeth efe y dwfr yn win. Ac yr oedd rhyw bendefig, yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum. 47. ¶ Pan glybu hwn ddyfod o'r Iesu o Judea i Galilea, efe a aeth atto ef, ac a attolygodd iddo ddyfod i waered, a iachâu ei fab ef: canys yr oedd efe ym mron marw. 48. Yna Iesu a ddywedodd wrtho ef, Oni welwch chwi arwyddion a rhy-

---

ynddynt. Os mai Galilea a olygir, y mae y geiriau yn ymddangos yn rheswm dros iddo beidio myned yno yn hytrach na rheswm dros ei fynediad yno. Ond os mai Judea a olygir, fel y dadleuir gan rai, daw y geiriau yn rheswm dros ei fynediad i Galilea. A chredaf fod Ioan yn wahanol i'r efengylwyr eraill yn defnyddio y geiriau "ei wlad ei hun" i olygu Judea. Yno y ganwyd ef, ac yno yr oedd cartref y prophwydi. Ond yn lle cael ei dderbyn a'i anrhydeddu fel prophwyd, cyffroi eiddigedd a digofaint y Phariseaid a wnaeth (adn. 1—3), nes y mae yn gorfod cilio o Judea a myned i Galilea.

Adn. 45. **Y Galileaid a'i derbyniasant ef, &c.** Cafodd dderbyniad croesawgar gan y Galileaid, oherwydd y gwyrthiau a gyflawnodd yn Jerusalem yn ystod yr wyl (ii. 23). Felly nid oedd eu ffydd ynddo y rhywogaeth uchaf ac oreu ohoni.

Adn. 46. **Drachefn i Cana yn Galilea,** ar ol absenoldeb o yn agos i flwyddyn. Yr attyniad i Cana y mae'n debyg oedd mai yno y cartrefai Nathanael. **Ac yr oedd rhyw bendefig, &c.** Gwell: *Ac yr oedd ryw swyddog brenhinol*, swyddog yn perthyn i lys y brenhin, sef, Herod Antipas. Yn Capernaum oddeutu ugain milldir oddiyno y gorweddai ei fab yn glaf, ac y mae'n ymddangos i'r tad pryderus ddyfod yr holl ffordd i gyfarfod yr Iesu yn Cana.

Adn. 47. **Ac a attolygodd iddo ddyfod i waered, a iachau ei fab ef.** Mor gywir y desgrifir perthynas Capernaum â Cana yn y gair i *waered*, canys yr oedd Capernaum yn gorwedd yn iselach mewn ystyr ddaearyddol nag ucheldiroedd Cana. **Canys yr oedd efe ym mron marw.** Yr oedd cyflwr ei fab yn ddifrifol i'r eithaf. *At the point of death* yn ol Westcott. Ac oherwydd hynny yr oedd yna daerineb mawr yn ei gais at yr Iesu.

Adn. 48. **Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch.** Cyfeiriad sydd yn y geiriau hyn at yr Iuddewon, o'u cyferbynu â'r Samariaid, ac at y swyddog hwn fel eu cynrychiolydd, canys Iuddew oedd yntau hefyd. Credodd y Samariaid heb iddynt weled yr un wyrth, ond am yr Iuddewon

feddodau, ni chredwch. 49. Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, O Arglwydd, tyred i waered cyn marw fy machgen. 50. Iesu a ddywedodd wrtho ef, Dos ymaith; y mae dy fab yn fyw. A'r gwr a gredodd y gair a ddywedasai Iesu wrtho, ac efe a aeth ymaith. 51. Ac fel yr oedd efe yr awrhon yn myned i waered, ei weision a gyfarfuant âg ef, ac a fynegasant, gan ddywedyd, Y mae dy fachgen yn fyw. 52. Yna efe a ofynodd iddynt yr awr y gwellhasai arno. A hwy a ddywedasant wrtho, Doe, y seithfed awr, y gadawodd y cryd ef. 53. Yna y gwybu y tad mai yr awr honno *oedd*, yn yr hon y dywedasai Iesu wrtho ef, Y mae dy fab yn fyw. Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ. 54. Yr ail arwydd yma drachefn a wnaeth yr Iesu, wedi dyfod o Judea i Galilea.

---

gofynent am "arwydd" o hyd cyn y credent. "Arwyddion," yr un gair ag sydd yn ii. 11, ac yn golygu gwyrth yn ei harwyddocad tufewnol ac ysprydol; "rhyfeddodau," y wyrth yn ei hagwedd allanol yn apelio at y synhwyrau corphorol nes cynhyrchu syndod a rhyfeddod. Er nad oedd yr Iesu yn gwrthod ffydd oedd yn sylfaenedig ar wyrthiau, eto nid oedd yn edrych arni fel y math uchaf o ffydd.

Adn. 49, 50. **O Arglwydd, tyred i waered cyn marw fy machgen,** neu *fy mhlentyn bychan*, &c. Awgrymai fod brys yn angenrheidiol. ac ofnai i'r bachgen farw, cyn i'r Iesu gyraedd ato. Ffydd ddiffygiol oedd ganddo. Ni chredai y gallasai yr Iesu ei iachau heb iddo ddyfod i lawr ato. **Dos ymaith; y mae dy fab yn fyw.** Rhydd yr Iesu yn awr gyfle iddo ymarfer ffydd ragorach na'r hon oedd ganddo, ffydd debycach i eiddo y canwriad (Math. viii. 8, 9), ffydd y gallasai yr Iesu o'r fan lle yr oedd iachau ei fachgen, heb iddo fyned yr holl ffordd i Capernaum. Ac y mae yn amlwg iddo gredu gair yr Iesu, y gallasai ac y gwnai, ar wahan i'w bresenoldeb corphorol, iachau ei fachgen. Yn nerth ei ffydd yn yr Iesu, fe gychwynodd tuag adref, gan gwbl gredu y cawsai y bachgen wedi ei iachau erbyn cyraedd Capernaum.

Adn. 51, 52. Gwelir oddiwrth y geiriau hyn i'r bachgen gael ei iachau ar yr awr y credodd ei dad air yr Iesu, pan y dywedodd wrtho, "Y mae dy fab yn fyw." Dyma wyrth ddiamheuol.

Adn. 53. **Ac efe a gredodd, a'i holl dy.** Golyga credu yma, nid ffydd yn ei wyrthiau, nac yn ei air yn unig, ond ffydd ynddo ef ei hun fel person goruwchddynol, a dyweyd y lleiaf. Ac y mae yn amlwg fod gwahanol aelodau ei deulu wedi meddiannu yr un ffydd ag yntau.

Adn. 54. **Yr ail arwydd yma drachefn a wnaeth yr Iesu, &c.** Dyma'r ail wyrth iddo wneuthur yn Galilea, ac yn Cana yr oedd ar y ddau amgylchiad, troi y dwfr yn win (ii. 1—11), a iachau mab y swyddog. Cyflawnodd lawer o wyrthiau yn Judea rhwng y ddwy wyrth hyn (ii. 23). Ond galw sylw at wyrthiau yr Iesu yn Galilea yn unig y mae yr efengylwr hyd yma.

PENNOD V.

WEDI hynny yr oedd gwyl yr Iuddewon; a'r Iesu a aeth i fynu i Jerusalem. 2. Ac y mae yn Jerusalem, wrth *farchnad* y defaid, lyn a elwir yn Hebraeg, Bethesda, ag iddo bùm porth; 3. Yn y rhai y gorweddai llïaws mawr o rai cleifion, deillion, cloffion, gwywedigion, yn

---

AMLYGIAD LLAWNACH O'R IESU FEL Y CRIST, A GWRTHODIAD ANGHREDINIOL YR IUDDEWON OHONO, V. 1—XII. 50.

Hyd yma y mae'r efengylwr wedi egluro dadblygiad ffydd yn Nghrist yn nglyn â gwahanol bersonau; ei ddisgyblion, Nicodemus, y Samariaid, a'r pendefig. Eithr yn awr dechreua egluro dadblygiad anghrediniaeth trwy wrthdarawiad Crist â'r Iuddewon. Dengys fod hynny wedi ei achlysuro gan gyflawniad tair o wyrthiau. Iachau y claf ar lan llyn Bethesda, pen. v.; rhoddi ei olwg i'r dyn dall, pen. ix.; ac adgyfodiad Lazarus, pen. xi. Mae yn deilwng o sylw fel y mae yr efengylwr yn dethol nifer o wyrthiau i fod yn ganolbwyntiau i ymddiddanion ysprydol yr Iesu. Felly mewn modd arbennig iachad y claf ar lyn Bethesda, porthi y pum mil, pen. vi.; rhoddi ei olwg i'r dall, &c. Gellir edrych ar y gwyrthiau fel testynau, a'r ymddiddanion neu yr annerchiadau dilynol fel cymhwysiad ysprydol o'r egwyddorion ag yr oedd y gwyrthiau yn arwyddluniau ohonynt. Crist fel *Bywyd*, a Christ fel *Goleuni* ydynt y ddau wirionedd arweiniol.

YR IESU YN FFYNHONELL AC YN GYNHALYDD BYWYD, V. 1—V.

1—18. IACHAU Y CLAF AR Y SABBATH, A GELYNIAETH YR IUDDEWON MEWN CANLYNIAD I HYNNY.

Adn. 1. **Gwyl yr Iuddewon.** Llawer o wahanol farnau sydd o berthynas i'r wyl hon. Pa wyl ydoedd? Credaf, er nad ellir bod yn hollol sicr, mai Gwyl y Pwrim ydoedd, yr hon oedd er côf am waredigaeth yr Iuddewon yn nyddiau Esther (Llyfr Esther iii. 7; ix. 24). Nis gallai fod yn Wyl y Pasg, canys y mae Ioan yn arfer nodi honno wrth ei henw gwahaniaethol. Cedwid Gwyl y Pwrim yn nechreu mis Mawrth, ac yr oedd y Pasg y crybwyllir am dano yn vi. 4 yn nechreu Ebrill. Daeth yr Iesu i fyny o Galilea i Jerusalem i'r wyl hon.

Adn. 2. **Lyn a elwir yn Hebraeg, Bethesda,** hynny yw, "tŷ trugaredd." Darganfyddwyd y llyn hwn yn ddiweddar, ac y mae sicrwydd yn awr am ei leoliad yn Jerusalem. Mae yn 55 troedfedd o hyd, gyda phyrth er cyfleustra i'r rhai a ddefnyddient y dyfroedd. Mor fanwl y desgrifia Ioan ei safle wrth borth y defaid. Nid yw y gair *marchnad* yn y wreiddiol.

Adn. 3. **O rai cleifion, deillion, cloffion, gwywedigion.** Eglurhad yw y tri gair olaf ar y cleifion a orweddent ar lan y llyn. Gadewir y

disgwyl am gynhyrfiad y dwfr. 4. Canys angel oedd ar amserau yn disgyn i'r llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr: yna yr hwn a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a âi yn iach o ba glefyd bynnag a fyddai arno. 5. Ac yr oedd rhyw ddyn yno, yr hwn a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain. 6. Yr Iesu, pan welodd hwn yn gorwedd, a gwybod ei fod ef *felly* yn hir o amser bellach, a ddywedodd wrtho, A fynni di dy wneuthur yn iach? 7. Y claf a attebodd iddo, Arglwydd, nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr: ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn o'm blaen i. 8. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Cyfod, cymmer dy wely i

---

rhan olaf o'r 3edd adnod a'r oll o adn. 4 allan gan y beirniaid goreu. Credant ar sail dda nad ydynt yn rhan o'r testyn gwreiddiol, ond y mae geiriau ydynt wedi eu hychwanegu gan ryw gopïwr oddeutu y 3edd ganrif. Tybiai yr adysgrifenwr fod eisiau eglurhad ar adn. 7. Tebygol mai ar ymyl y ddalen yr oedd y geiriau ar y cychwyn, ond rhoddwyd hwynt yn y testyn gan ryw gopïwr dilynol.

Adn. 5 a 6. Cymerodd yr Iesu sylw o'r dyn hwn, oherwydd, y mae'n debyg, ei fod yn fwy o wrthrych tosturi na neb arall oedd yno. Gwyddai yr Iesu, nid trwy holi ei hanes, ond yn rhinwedd ei wybodaeth oruwchnaturiol fod y dyn wedi bod yn glaf namyn dwy flynedd deugain. Ac oherwydd hynny dewisodd ef i fod yn wrthrych ei drugaredd, a gofyna iddo: **A fynni di dy wneuthur yn iach?** Nid oedd am ei iachau heb ei gydsyniad. Yr oedd am ei iachau fel *dyn*, ac nid fel anifail, a pharchu dynoliaeth dyn yw parchu ei ewyllys ef.

Adn. 7. **Nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr, &c.** Dengys ei awydd am iachad, trwy gyfeirio at ei sefyllfa anffodus ac aflwyddianus i gael iachad ar hyd y blynyddoedd. Credai y dyn druan, pa un bynnag a oedd hynny yn gywir ai peidio, mai y cyntaf a fwrid i'r dwfr ar ol iddo gael ei gynhyrfu oedd yn cael ei iachau. Y tebygolrwydd yw mai dyfroedd yn meddu ar briodoleddau metelaidd oedd dyfroedd y llyn, a'u bod yn cael eu cynhyrfu ar adegau, gan ddylanwadau anianyddol, ac fod yn y dwfr gyfaddasder i iachau rhyw fath o glefydau. Tybir mai *chalybeate spring* oedd yno, tebyg i ddwfr Trefriw, ond ei fod, fe ddichon, yn gryfach. Desgrifiad Eusebius o'r dwfr, yn ei ddyddiau ef, ydoedd ei fod yn rhyfeddol o goch.

Adn. 8. **Cyfod, cymmer dy wely i fyny, a rhodia.** Rhaid fod y geiriau hyn wedi eu llefaru gydag awdurdod a grym arbennig, cyn y buasent yn dylanwadu ar y claf, fel ag iddo weithredu arnynt. Yr oedd y gorchymyn yn driphlyg, cyfodi *o'i* wely, cyfodi *ei* wely, a *rhodio* oddiamgylch. Rhodio neu gerdded *oddiamgylch* yw ystyr y gair a gyfieithiwyd yn "rodio." Nid gwely yn ystyr ddiweddar a gorllewinol y gair a olygir, ond glwth *(pallet, mat,* neu *rug).*

fynu, a rhodia. 9. Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach ; ac *efe* a gododd ei wely, ac a rodiodd. A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw. 10. ¶ Am hynny yr Iuddewon a ddywedasant wrth yr hwn a wnaethid yn iach, Y Sabbath yw hi : nid cyfreithlawn i ti godi *dy* wely. 11. Efe a attebodd iddynt, Yr hwn a'm gwnaeth i yn iach, efe a ddywedodd wrthyf, Cyfod dy wely, a rhodia. 12. Yna hwy a ofynasant iddo, Pwy yw y dyn a ddywedodd wrthyt ti, Cyfod dy wely, a rhodia? 13. A'r hwn a iachasid ni wyddai pwy oedd efe : canys yr Iesu a giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan *honno*. 14. Wedi hynny yr Iesu a'i cafodd ef yn y deml, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ti a

---

Adn. 9. **Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach ; ac efe a gododd ei wely, ac a rodiodd.** Gyda fod y dyn yn credu geiriau yr Iesu, ac yn ceisio ufuddhau i'w orchymyn, teimla fod yna nerth a bywyd yn dyfod i'w aelodau, fel ag y mae yn gallu ufuddhau yn gyflawn i'w orchymyn ef. Mae dyledswydd a gras bob amser yn nglyn â'u gilydd. Nid yw Duw byth yn gorchymyn i ddyn wneyd dim nad yw yn rhoddi digon o nerth iddo gyflawni yr hyn a orchymyna. **A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw.** Mae y geiriau hyn yn bwysig iawn yn y cysylltiad hwn. Dyma barodd i'r Iuddewon ddwyn cyhuddiad yn erbyn yr Iesu o dori y Sabbath, ac a arweiniodd i'r anghydweliediad rhwng yr Iesu â hwy. Ac wrth yr Iuddewon yn yr efengyl hon y golyga yr efengylwr, nid y bobl gyffredin, ond yr arweinwyr a'r llywodraethwyr yn Jerusalem, yn cynwys Phariseaid a Saduceaid.

Adn. 10. **Y Sabbath yw hi: nid cyfreithlawn i ti godi dy wely.** Dyma engraifft eithafol o barchu llythyren, yn hytrach nag yspryd deddf y Sabbath. Gallasai yr Iuddewon ddadlu fod geiriau Jeremiah (xvii. 21, 22) o'u plaid, ond nid oedd yr Iesu yn eu deall mewn ystyr mor gaeth, onide ni fuasai yn gorchymyn i'r claf gyfodi ei wely a rhodio. Nid oedd gan y claf ddim i'w wneyd ond taflu y *mat* ar ei gefn a cherdded adref.

Adn. 11. **Yr hwn a'm gwnaeth i yn iach, efe a ddywedodd wrthyf, Cyfod dy wely, a rhodia.** Mor resymol yw amddiffyniad y dyn. Dywedai mewn effaith fod gan yr hwn oedd yn meddu gallu i'w iachau ef awdurdod i fod yn ddeddf iddo ei Hun ar gadwraeth y Sabbath, —fod Arglwydd natur yn Arglwydd y Sabbath hefyd.

Adn. 12, 13. Yr oeddent yn awyddus i wybod pwy ydoedd, er mwyn ei gyhuddo ef. Ni welent y wyrth, ond y trosedd yn unig o ddeddf y Sabbath. Yr oeddent yn ddall i'r peth mwyaf, ond yn ddigon craff i weled y peth lleiaf. Eithr ni wyddai y claf adferedig pwy oedd ei gymwynaswr caredig, ac yr oedd yr Iesu wedi cilio yn ebrwydd o'r dyrfa, ar ol cyflawni y wyrth, fel na chafodd gyfleustra i'w adnabod ef.

Adn. 14. **Wedi hynny yr Iesu a'i cafodd ef yn y deml,** hynny yw, yn un o gynteddau y deml. Dichon ei fod wedi myned yno i ddiolch i Dduw

wnaethpwyd yn iach : na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth. 15. Y dyn a aeth ymaith, ac a fynegodd i'r Iuddewon, mai yr Iesu oedd yr hwn a'i gwnaethai ef yn iach. 16. Am hynny yr Iuddewon a erlidiasant yr Iesu, ac a geisiasant ei ladd ef, oblegid iddo wneuthur y pethau hyn ar y Sabbath. 17. ¶ Ond yr Iesu a'u hattebodd hwynt, Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn gweithio. 18. Am

---

am ei adferiad. **Wele, ti a wnaethpwyd yn iach; na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth.** Awgrymir fod cysylltiad rhwng pechod y dyn a'i afiechyd y bu yn dioddef mor hir oddiwrtho. Ac y mae hynny yn bod yn fynych. Mae mwy o gysylltiad rhwng ryw ffurf neu gilydd o bechod âg afiechydon dynion nag yr ydym yn barod i feddwl. "Yr hyn a fyddo gwaeth" yw cospedigaeth dragwyddol yn y byd a ddaw, fel canlyniad pechod.

Adn. 15. Nid ydys i ddeall fod y dyn wedi gwneyd hynny oddiar unrhyw amcan drwg. Nid bradychu yr Iesu i'r Iuddewon oedd ei fwriad. Mae yn debygol mai cyfiawnhau, neu glirio ei hun o fod yn euog o dori deddf y Sabbath oedd ei amcan. Ar ol deall mai y Prophwyd enwog o Galilea a'i hiachaodd, credai fod awdurdod hwnnw yn ddigon i roddi taw ar haeriad yr Iuddewon.

Adn. 16. **Am hynny yr Iuddewon a erlidiasant yr Iesu, ac a geisiasant ei ladd ef, &c.** Dyma ddechreuad yr elyniaeth rhwng yr Iuddewon â'r Iesu derfynodd yn ei farwolaeth. Mae y ddwy ferf *erlid* a *gwneuthur* yn yr amser amherffaith, ac felly yn arwyddo fod yr Iuddewon yn *parhau* i erlid Crist, am ei fod yntau yn *arfer* iachau ar y Sabbath. Credaf mai nid erlyn yr Iesu yn ffurfiol mewn llys barn a feddylir wrth "erlid" yma, ond ceisio aflonyddu arno, ei ddarostwng a'i waradwyddo, fel un nad oedd ganddo ddim parch i'r Sabbath.

Adn. 17. **Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn gweithio.** Yma y dechreua yr Iesu ar ei amddiffyniad, ac y mae yn amlwg ei fod yn cymeryd y tir uchaf i amddiffyn ei hun. Gesyd ei hun ar yr un tir a Duw. Gan nad yw gorphwyso Duw ar y seithfed dydd ddim yn cynwys peidio gweithio, nid yw ei orphwyso yntau chwaith ar y seithfed dydd yn cynwys peidio gweithio. Mae ei Dad, er ei fod yn cadw y Sabbath, yn peri i'w haul godi, y ddaear dyfu a ffrwytho ar y Sabbath fel ar ddyddiau eraill yr wythnos, ac felly yntau hefyd, nid oedd yn torri deddf y Sabbath trwy wneuthur *daioni* ar y dydd hwnnw. Er i Dduw orphwyso oddiwrth y gwaith o greu ar y seithfed dydd, eto y mae yn parhau i weithio ar bob moment mewn cynnal a llywodraethu. Yn lle dyweyd "Ein Tad" neu "Eich Tad," dywed yr Iesu "Fy Nhad," gan honni perthynas neilltuol ac arbennig â Duw, ac yn yr ystyr hon y deallwyd ef gan yr Iuddewon. Pa un ai fel Person Dwyfol yn unig y llefara yr Iesu yma, ai ynte fel Cyfryngwr, y mae yn lled anhawdd penderfynu. Tueddu yr wyf i feddwl ei fod yn cynwys y naill a'r llall.

Adn. 18. **Ond hefyd iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo,**

hyn gan hynny yr Iuddewon a geisiasant yn fwy ei ladd ef, oblegid nid yn unig iddo dorri y Sabbath, ond hefyd iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo, gan ei wneuthur ei hun yn gystal â Duw. 19. Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono ei hunan, eithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei wneuthur: canys beth bynnag y mae efe yn ei wneuthur, hynny hefyd y mae y Mab yr un ffunud yn ei wneuthur. 20. Canys y Tad sydd yn caru y Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae

---

gan ei wneuthur ei hun yn gystal a Duw. Yn llythrennol, "Mai *ei Dad ei hun* oedd Duw," cyd. "Ei briod Fab"* (Rhuf. viii. 32). Yn lle lleddfu eu llid, cyffrodd yr Iesu lid yr Iuddewon yn waeth yn ei amddiffyniad, oherwydd iddo alw Duw "fy Nhad," ac felly "wneuthur ei hun yn gystal a Duw." Mae Tad a Mab cystal â'u gilydd o ran natur, er nad o ran safle. Ac felly fe ddehonglodd yr Iuddewon eiriau yr Iesu yn gywir, ac ystyrient ei fod yn euog o gabledd ac yn haeddu marw. Ac o hynny allan ceisiasant ddwyn y ddedfryd honno arno ef (cyd. vii. 1, 19, 25; viii. 37; xi. 53).

Adn. 19. **Ni ddichon y Mab wneuthur dim ohono ei hunan, eithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei wneuthur, &c.** Ymddengys fod yr Iesu yma yn parotoi y ffordd at yr esgyneb sydd yn adn. 26. Dechreua egluro ei berthynas â'r Tad fel Mab, a dengys fod yna berffaith gysondeb rhwng y naill a'r llall. Y ffordd y diogelir y cysondeb ydyw, nad yw y Mab yn gwneuthur dim yn annibynol ar y Tad. Y modd y sieryd yr Iesu yma am dano ei hun sydd wedi rhoddi sail i'r athrawiaeth ddiwinyddol am "Israddoliaeth y Mab." Nid israddoliaeth o ran *natur* a olygir, canys yn yr ystyr honno y maent yn ogyfuwch, ond o ran *swydd a gwaith.* Llefaru am dano ei hun yma y mae'r Iesu fel Cyfryngwr ymgnawdoledig. Ac fel y cyfryw, "nid oedd yn gwneuthur dim ohono ei hun." Yr oedd ei holl weithredoedd yn efelychiad ac yn adlewyrchiad ffyddlon o weithredoedd y Tad. Ac felly y weithred arbennig o iachau y claf wrth lyn Bethesda ar y dydd Sabbath. Am fod y Tad yn gweithio ar y Sabbath heb ei dorri, teimlai yr Iesu fod ganddo yntau fel Mab hawl a rhyddid i weithio hefyd. "Canys beth bynnag y mae efe yn ei wneuthur hynny hefyd y mae y Mab yr un ffunud yn ei wneuthur." Dyma gyfiawnhad llawn i'w waith yn gwneuthur da ar y Sabbath.

Adn. 20. **Canys y Tad sydd yn caru y Mab.** Defnyddir dau air gwahanol yn y Testament Newydd am garu. Un yw *phileô*, yn dynodi hoffi, caru, fel y gwna un ei gyfaill anwylaf. Y llall yw *agapaô* yn dynodi cariad seiliedig ar reswm, ar adnabyddiaeth o wrthrych. Dyma gariad Duw at ddyn neu gariad dyn at Dduw. Yn *phileô*, elfenau teimladol sydd yn fwyaf amlwg; ac yn *agapaô*, elfenau meddyliol. Am y Tad yn caru y Mab, *phileô* a ddefnyddir yma, a golyga

---

* "Ei Fab ei hun" (B.).

efe yn ei wneuthur: ac efe a ddengys iddo ef weithredoedd mwy na'r rhai hyn, fel y rhyfeddoch chwi. 21. Oblegid megis y mae y Tad yn cyfodi y rhai meirw, ac yn eu bywhâu; felly hefyd y mae y Mab yn bywhâu y rhai a fynno. 22. Canys y Tad nid yw yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab: 23. Fel yr anrhyd-

---

gariad o anwyldeb personol. **Ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae yn ei wneuthur,** Dyma eiriau wedi dyfod o ymwybyddiaeth ddofn yr Iesu fel Mab Duw, ac yn dangos fod ei ymwybyddiaeth yn ogyfled âg ymwybyddiaeth y Tad ei hun. Nid oes dim yn guddiedig gan y Tad oddiwrth ei anwyl Fab. **Ac efe a ddengys iddo ef weithredoedd mwy na'r rhai hyn, fel y rhyfeddoch chwi.** Gweithredoedd mwy na'r wyrth a gyflawnodd wrth iachau y gŵr claf wrth lyn Bethesda. Ond pa bethau ydynt y gweithredoedd *mwy!* Tybia rhai wyrthiau mwy, megys adgyfodi y marw yn fwy gwyrth nag iachau y claf. Credaf y dylid rhoddi ystyr eangach i'r gweithredoedd mwy nag adgyfodi y meirw yn unig, er yn cynwys hynny. Dylid cymeryd i mewn bob amlygiad roddodd y Mab o'i Dduwdod, megys nid yn unig adgyfodi y marw, ond ei waith fel barnwr: yn rhoddi bywyd ysprydol yn ogystal a naturiol, a'i holl waith fel Cyfryngwr.

Adn. 21. **Oblegid megys y mae y Tad yn cyfodi y meirw, ac yn eu bywhau, felly hefyd y mae y Mab yn bywhau y rhai a fynno.** Dug yr Iesu yma y rheswm sylfaenol am ei fod yn gallu cyflawni ei weithredoedd hynod a rhyfeddol. Honna ei fod yn meddu yr un gallu Dwyfol a'r Tad ei hun. Ni fuasai yr Iuddewon yn amheu gallu a hawl Duw i gyflawni gwyrth o dan unrhyw amgylchiad, ac ni ddylasent amheu gallu na hawl yr Iesu ychwaith, am ei fod yn ogyfuwch â'r Tad yn yr ystyr hon. Buasai y geiriau hyn yn gabledd yn ngenau yr Iesu, oni buasai ei fod yn wirioneddol yn Fab Duw. Nid oedd yr Iesu yn wastraffhyd o'i allu gwyrthiol, "Bywhau y rhai a fynno" yr oedd Efe, a hynny nid oddiar fympwy, ond am reswm doeth a da yn ei olwg ei hun. Gellir edrych ar wellhad y claf wrth lyn Bethesda fel arwyddlun o allu cyffredinol y Mab i iachau a bywhau.

Adn. 22. **Canys y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab.** Tybir yn gyffredin fod y geiriau hyn yn meddu cysylltiad agos â'r geiriau yn yr adnod flaenorol. Ac mai y meddwl yw, megys y mae gan Grist hawl i fywhau ar y naill law, fod ganddo hawl hefyd i farnu yn yr ystyr o gondemnio, ar y llaw arall; ac fod pawb yn cael eu bywhau, neu eu barnu ganddo. Eithr dylid cofio, nad yw yn gwneyd y naill na'r llall yn ddiamodol. Dysgir fod y Tad wedi cyflwyno i'w Fab yr hawlfraint o fywhau a barnu. Eithr pa mor agos bynag yw y cysylltiad sydd rhwng yr adnod hon a'r un flaenorol, y mae yna gysylltiad lawn mor agos, os nad agosach, rhyngddi a'r adnod sydd yn ei dilyn, canys yn honno y daw yr amcan i'r golwg.

eddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. 24. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Y neb sydd yn gwrandaw fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd. 25. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo y meirw lef Mab Duw: a'r rhai a glywant, a

---

Adn. 23. **Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. &c.** Gwelir mai amcan y Tad yn rhoddi y fath allu ac ymddiriedíaeth i'w Fab fel Cyfryngwr, sef gallu i fywhau a barnu dynion, oedd er mwyn iddo dderbyn a chyfranogi o'r un anrhydedd Dwyfol a'r Tad ei hun. **Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad a'i hanfonodd ef.** Yn hytrach na bod anrhydeddu y Mab yn yspeilio Duw o'r gradd lleiaf o'i ogoniant, y mae anrhydeddu y Mab yn cynwys anrhydeddu y Tad hefyd. Ac o ganlyniad, y mae gwrthod anrhydeddu y Mab yn cynwys gwrthod anrhydeddu y Tad hefyd. Mae anrhydedd y naill yn nglyn âg anrhydedd y llall.

Adn. 24. **Y neb sydd yn gwrando fy ngair i.** Gwrando yn ystyriol ac yn grediniol. **Ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i,** sef credu tystiolaeth Duw am ei Fab. Ac megys y mae credu geiriau Crist yn ei anrhydeddu ef, felly y mae credu tystiolaeth Duw am ei Fab yn ei anrhydeddu yntau. **A gaiff fywyd tragwyddol.** Gwell: *sydd ganddo fywyd tragwyddol ac nid yw yn dyfod i farn* (W. E.). Mae bywyd tragwyddol yn ei feddiant y funud y cred yn y Mab. Ni fydd bywyd perffaith y nefoedd yn ddim ond dadblygiad o'r bywyd ysprydol sydd yn dyfod yn eiddo y pechadur edifeiriol wrth gredu yn Nghrist. **Ac ni ddaw i farn.** Wrth farn yma y golygir barn o gondemniad. Nid na fydd y credadyn yn ymddangos gerbron brawdle Crist fel pawb eraill; ond ni ddaw i gondemniad yno. Mae ei ffydd yn Nghrist ac ansawdd y bywyd sydd yn ei feddiant, yn gwarantu nad yw yn dyfod i gondemniad. Tra yn parhau i gredu, nid yw yn dyfod i gondemniad, ond os rhydd le i "galon ddrwg anghrediniaeth," yna y mae'r achos yn cyfnewid (Heb. iii. 12). **Eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.** Mae ffydd yn ei drosglwyddo drosodd o diriogaeth condemniad a marwolaeth, i diriogaeth cyfiawnhad a bywyd. Ond yr un ffydd ag a'i trosglwyddodd drosodd sydd yn diogelu ei *barhad* yn y diriogaeth hyfryd honno. Nid oes ystyr arall i eiriau y Crist ei hun yn Pen. xv. 4—6. "A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd" (Heb. xi. 38).

Adn. 25. **Y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo y meirw lef Mab Duw, a rhai a glywant a fyddant byw.** Credir yn gyffredin mai cyfeiriad sydd yn y geiriau hyn at adgyfodiad yn ei wedd gyffredinol: at adgyfodiad anianyddol, ac at adgyfodiad moesol ac ysprydol

fyddant byw. 26. Canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun ; 27. Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn. 28. Na ryfeddwch am hyn : canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef ; 29. A *hwy* a ddeuant allan : y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd ; ond y rhai

---

hefyd. Yr oedd y naill mor wir a'r llall, tra yr oedd y Gwaredwr ar y ddaear, oblegyd yr oedd meirw naturiol a meirw ysprydol yn cael eu hadgyfodi.

Adn. 26. **Canys megys y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan.** Efe ydyw ffynhonell wreiddiol pob bywyd. Nis gellir ei olrhain ddim pellach na'r Tad : efe ydyw ei darddell. Cydnabyddir hyn gan bawb sydd yn credu yn modolaeth Duw personol. **Felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun.** Byddai llawer o'r hen ddiwinyddion yn cymhwyso y geiriau hyn at dragwyddol genhedliad y Mab ; ac fod y Tad yn y tragwyddoldeb diddechreu wedi cyfranu ei hanfod i'r Mab. Ond y mae yn fwy naturiol, yn ngoleuni y cysylltiadau, gredu mai at ei fywyd fel Cyfryngwr Ymgnawdoledig y cyfeirir yn y geiriau. Ac felly daw yn gyfrif am y gallu oedd yn meddiant Crist i fywhau y meirw. Fel Cyfryngwr yr oedd y Mab yn mhob peth yn israddol i'r Tad, ac yn derbyn pob peth ganddo ef.

Adn. 27. **Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn.** Gwelir y fath ymddiried llawn sydd gan y Tad yn y Mab pan yn rhoddi iddo awdurdod i wneuthur barn. Ac y mae wedi rhoddi y cyfryw awdurdod iddo ef, am ei fod yn Fab y dyn. Cadarnheir ni felly yn y syniad mai fel *Cyfryngwr* y mae y Tad yn rhoddi pob peth i'r Mab yn yr adran hon. Ac yn y geiriau hyn pwysleisir yr ochr ddynol i'w Berson rhyfeddol, "Y mae *dyn* i gael ei farnu gan *ddyn*." Ni chaiff neb gam anfwriadol oddiar law y Barnwr, canys y mae yn ddyn sydd yn gwybod oddiar brofiad am ein gwendid a'n hamgylchiadau, ac felly yn gallu cydymdeimlo yn llawn gyda ni.

Adn. 28. **Canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef.** Amlwg yw fod y geiriau hyn yn cyfeirio at yr adgyfodiad cyffredinol yn y dydd diweddaf. Lleferydd Mab y dyn a'r Barnwr fydd yn eu deffro. Sylwer ar y gwahaniaeth sydd rhwng yr adnod hon ac adnod 25. Ni chwanegir yma fel yno, "ac yn awr y mae hi," ac ni chwanegir ychwaith fel yno, "a'r rhai a glywant." Awgryma "a'r rhai a glywant" ddewisiad yn y mater ; ond ni fydd dim dewisiad yn niwedd y byd, rhaid gwrando, a rhaid cyfodi.

Adn. 29. **A hwy a ddeuant allan:** sef, allan o'u beddau, **y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd.** Barnu yn ol *gweithredoedd* dynion fydd y rheol gyffredinol y pryd hwnnw. Gwneuthur *da* fydd yn terfynu

a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn. 30. Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan : fel yr ydwyf yn clywed, yr ydwyf yn barnu ; a'm barn i sydd gyfiawn ; canys nid ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i. 31. Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hunan, nid yw fy nhystiolaeth i wir. 32. ¶ Arall sydd yn tystiolaethu am danaf fi ; ac mi wn mai gwir yw y dystiolaeth y mae efe yn ei thystiolaethu am danaf fi. 33. Chwychwi a anfonasoch at Ioan, ac efe

---

mewn bywyd. Ac nid yw ffydd heb weithredoedd o ddim lleshad i neb. Ffydd yn gweithio trwy gariad yw y ffydd achubol. **Ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.** *Ond y rhai a ymarferasant bethau iselwael i adgyfodiad barn* (W. E.). Gwêl iii. 21. Nid y meddwl yma yw fod y rhai wnaethant ddrwg yn adgyfodi i gael eu barnu ; ond golyga adgyfodiad i gondemniad, i gollfarn. Dyna fydd diwedd yr ymchwiliad i'w hachos, syrthio o dan gollfarn dragwyddol. Yn wrthgyferbyniol i "fywyd" y rhai a wnaethant dda, y mae "barn" i'r rhai a wnaethant ddrwg. Megys mai bywyd fydd o flaen y naill yn dragywydd, felly barn, collfarn, fydd o flaen y lleill, na ddeuant byth allan ohoni.

Adn. 30. **Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hun, &c.** Ailadroddiad sydd yma o'r un syniad ag yn adnod 19. Ac y mae'r Iesu yma fel pe yn adsymio yr hyn a ddywedasai o adnod 19 yn mlaen. Y mae mewn cysondeb llawn â meddwl ac ewyllys y Tad yn yr oll a wna, pa un bynnag ai bywhau neu ynte farnu. **Canys nid ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i.** Nid yw "y Tad" yn y prif lawysgrifau, ac felly y mae i'w adael allan. Am ei fod mor ymroddol i gyflawni ewyllys yr hwn a'i hanfonodd, nid oedd berygl o gwbl iddo ef wyro na methu mewn barn, er ei fod yn Fab y dyn, ac am hynny yr oedd ei farn ef bob amser yn gyfiawn.

Adn. 31. **Os ydwyf yn tystiolaethu amdanaf fy hun, nid yw fy nhystiolaeth i wir.** Dechreua yr Iesu yma ar adran newydd o'i draethiad. Dengys, i ddechreu, nad yw yn myned i ddibynu ar ei hunan-dystiolaeth. Nid yw hynny yn cael ei ystyried yn foddhaol yn ol cyfraith tystiolaeth (*laws of evidence*). Rhaid i dystiolaeth y dyn ei hun gael ei chadarnhau gan eiddo eraill. Ac felly yr Iesu ; yr oedd am gael eraill i attegu ei dystiolaeth amdano ei hun. Nid na fuasai ei dystiolaeth amdano ei hun yn ddigon gwir *yndd i hun*, ond ni fuasai yn ymddangos felly i olwg dynion. Cyd. viii. adn. 14.

Adn. 32. **Arall sydd yn tystiolaethu amdanaf fi.** Cyfeiriad, mae'n debyg, at y Tad, ac nid at Ioan Fedyddiwr, er y gall gynwys y naill a'r llall, a byddai hynny yn hollol wir. **Ac myfi a wn mai gwir yw y dystiolaeth y mae efe yn ei thystiolaethu amdanaf fi.** Yn ei ymwybyddiaeth ei hun, fe wyddai yr Iesu fod y dystiolaeth o eiddo y Tad amdano yn wir.

Adn. 33. **Chwychwi a anfonasoch at Ioan, ac efe a ddug dystiolaeth i'r gwirionedd.** Ioan yn wastad yn yr Efengyl hon yw Ioan

a ddug dystiolaeth i'r gwirionedd. 34. Ond myfi nid ydwyf yn derbyn tystiolaeth gan ddyn: eithr y pethau hyn yr ydwyf yn eu dywedyd, fel y gwareder chwi. 35. Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo; a chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef. 36. ¶ Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan: canys y gweithredoedd a roddes y Tad i mi i'w gorphen, y gweithredoedd hynny y rhai yr ydwyf fi yn eu gwneuthur, sydd yn tystiolaethu am danaf fi, mai y Tad a'm hanfonodd i. 37. A'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i,

---

Fedyddiwr. Cafodd yr Iuddewon dystiolaeth Ioan pan anfonasant ato ef Offeiriaid a Lefiaid i ofyn pwy ydoedd. Pen. i. 19, "*I'r gwirionedd*," y gwirionedd am anrhydedd ac urddas yr Iesu fel y Messiah addawedig. Ac er fod Ioan wedi diflanu, y mae gwirionedd ei dystiolaeth yn parhau.

Adn. 34. **Ond myfi nid wyf yn derbyn tystiolaeth gan ddyn.** Gwell: *Y dystiolaeth yr wyf fi yn ei derbyn, nid yw oddiwrth ddyn.* Nid y meddwl yw, fod yr Iesu yn diystyru nac yn gwrthod tystiolaeth Ioan am dano ei hun, ond yr oedd ganddo dystiolaeth uwch a rhagorach o eiddo ei Dad i ddibynu arni, ac o'i chydmaru â honno, yr oedd eiddo Ioan, a phob dyn arall yn myned yn ddiwerth yn ei olwg ef. **Eithr y pethau hyn yr ydwyf yn eu dywedyd, fel y gwareder chwi,** neu, *fel y'ch achuber.* "Y pethau hyn" oedd tystiolaeth Ioan, yr hon, er nad oedd yn hanfodol er mwyn Crist ei hun, eto yr oedd yn fuddiol i'r Iuddewon, a phe credasant hi, buasai yn eu harwain at "Oen Duw," yr hwn yn unig allasai eu hachub hwynt.

Adn. 35. **Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo.** *Efe oedd y llusern sydd yn llosgi, ac yn goleuo* (W. E.). Desgrifiad prydferth a tharawiadol o weinidogaeth y Bedyddiwr. Yr oedd yn goleuo digon i wneyd yr Iuddewon yn hollol ddiesgus am wrthod Crist fel y Messiah, ond fel canwyll neu lusern, fe losgodd allan yn fuan gan angerddolrwydd ei gwres. **A chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef.** Do, fe fu Ioan yn boblogaidd iawn am dymor byr, yr oedd ei gydgenedl yn cyrchu yn lluoedd ar ei ol ef i wrando arno, ac i gymeryd eu bedyddio ganddo (Math. iii. 5—7). Yr oeddent yn llawenychu yn orfoleddus o dan ddylanwad ei weinidogaeth. "Ond," ebai Bengel yn bur briodol, "atdynwyd hwy gan ei *ddisgleirdeb*, ac nid gan ei *wres*" (cyd. Luc vii. 24—35).

Adn. 36. **Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan.** Tystiolaeth ei Dad, trwy y gwaith rhyfeddol a gyflawnodd yr Iesu. Nid ei wyrthiau yn unig, ond ei holl fywyd, ei eiriau, ei esiampl, a'i yspryd. Un dystiolaeth barhaus a chyson oedd yr oll o eiddo y Tad i'w anwyl Fab. Yr oedd natur a chymeriad ei holl waith yn profi yn amlwg ac anwrthwynebol ei fod ef yn anfonedig y Tad.

Adn. 37. **A'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, efe a dystiolaethodd am danaf fi,** neu *sydd wedi tystiolaethu am danaf fi.* Mae y

efe a dystiolaethodd am danaf fi. *Ond* ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei wedd ef. 38. Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn aros ynoch: canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw nid ydych chwi yn credu iddo. 39. ¶ Chwiliwch yr ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol: a hwynthwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi. 40. Ond ni fynnwch chwi ddyfod attaf fi,

---

dystiolaeth hon yn wahanol i'r un y crybwyllwyd am dani yn yr adnod flaenorol. Mae hon yn y gorphenol, ac yn cyfeirio at dystiolaeth y Tad iddo yn ei fedydd, neu yn fwy tebygol at ei dystiolaeth iddo yn Ysgrythyrau yr Hen Destament, ac felly yn arwain yn naturiol at yr hyn sydd yn dilyn yn yr adnodau nesaf. **Ond ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei wedd ef.** Dylid gadael yr "ond" allan, fel y gwneir yn mhob cyfieithiad diweddar. Ystyr y gair "gwedd" yw yr hyn sydd yn taro y llygaid, ac felly ymddangosiad allanol, ffurf, dull. Deallir y geiriau hyn mewn ystyr ysprydol gan rai esbonwyr, ac felly deuant i gysylltiad naturiol â'r adnodau dilynol. Fel pe dywedasai yr Iesu: Nid oes gennych glust y galon i'w glywed Ef, na llygad y galon i'w weled ef; onide buasech wedi ei glywed yn fy nysgeidiaeth i, ac wedi ei weled ef yn fy mywyd a fy ngwaith.

Adn. 38. **Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn aros ynoch, &c.** Am nad yw ei air ef yn aros yn anian ac yn ansawdd yn eich calonau, yr ydych heb fy adnabod i a chredu ynwyf fel anfonedig y Tad. Nid oedd croesaw na chartref i feddyliau Duw yn nghalonau yr Iuddewon, a phrawf o hynny oedd eu hanghrediniaeth yn yr Iesu.

Adn. 39. **Chwiliwch yr Ysgrythyrau.** Gwell: *Yr ydych yn chwilio yr Ysgrythyrau.* Nis gellir penderfynu oddiwrth ramadeg y geiriau pa gyfieithiad sydd gywir, gan fod y ferf o'r un ffurf yn y *modd gorchymynol* ag yn y *modd dangosol.* Ac felly rhaid i ni ddefnyddio synwyr er penderfynu ar y cyfieithiad. Ac yn ddibetrus, yr wyf yn derbyn yr ail gyfieithiad. Pa beth bynnag oedd bai yr Iuddewon, nid oedd angen am eu cynghori i chwilio yr Ysgrythyrau. Yr oeddent yn chwilio yr Ysgrythyrau, ond collent yr *ysprydyn* yn y *llythyren.* Pe buasent yn eu chwilio nes cyraedd y dyfnder ysprydol a berthyn i Ysgrythyrau yr Hen Destament, ni buasent heb adnabod yr Iesu fel y Messiah y disgwylient am dano. **Canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol.** Dyma eu hamcan proffesedig, o leiaf, wrth eu chwilio, a chydnebydd yr Iesu fod yr amcan hwnnw yn un teilwng a da. Yr Ysgrythyrau oedd yn dangos iddynt y ffordd i fywyd, ac yn eu harwain at unig ffynhonell bywyd. **A hwynthwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.** Rhaid fod rhyw ddiffyg andwyol yn yr Iuddewon, gan eu bod yn gallu darllen yr Ysgrythyrau heb gael eu harwain at Grist, gan mai prif amcan, a phrif wasanaeth yr Ysgrythyrau yw tystiolaethu am Grist, ac felly arwain dynion i'w adnabod ef.

Adn. 40. **Ond ni fynnwch chwi ddyfod attaf fi, fel y caffoch**

fel y caffoch fywyd. 41. Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion. 42. Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes gennych gariad Duw ynoch. 43. Myfi a ddeuthum yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i: os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnnw a dderbyniwch. 44. Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych

---

fywyd. Gwell: "*ac*" yn lle "*ond*" yn nechreu yr adnod hon. Eglurhad yw y geiriau ar y camddefnydd wnai yr Iuddewon o'r Ysgrythyrau. Gan eu bod yn gwrthod dyfod at Grist am fywyd, yr oedd eu gwaith yn chwilio yr Ysgrythyrau yn hollol ofer. Nid oes bywyd tragwyddol i'w gael yn yr Ysgrythyrau i neb ar wahan i Grist. Efe yw y ffynnon o fywyd a ddatguddir yn yr Ysgrythyrau i bob ymofynydd pryderus, gonest, a diragfarn.

Adn. 41. **Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.** Yn mhob peth a wnaeth ac a ddywedodd yr Iesu, nid ei ogoniant ei hun yn ngolwg dynion oedd ei amcan. Gallai ddiystyru cymeradwyaeth ac anrhydedd dynion. Gwnai a dywedai bob peth gyda'r amcan pennaf a blaenaf o ogoneddu enw ei Dad, a chael ei ogoneddu gan ei Dad oedd y wobr uchaf yn ei olwg. Pen. xvii. 4, 5.

Adn. 42. **Ond myfi a'ch adwaen chwi, nad oes gennych gariad Duw ynoch.** Yn rhinwedd y gallu goruwchnaturiol a feddai yr Iesu o adnabod calonau dynion, gallasai ddyweyd yn briodol ac yn wir, "Myfi a'ch adwaen chwi." Olreinia ragfarn ac anghrediniaeth yr Iuddewon i ddiffyg cariad at Dduw. Nid oes unrhyw amheuaeth nad oes gan ansawdd foesol eu calonau lawer o ddylanwad ar ddeall dynion. Ac felly yn yr achos hwn, am nad oeddent yn caru Duw, nid oedd ei air Ef yn aros ynddynt, nac yn cael y dylanwad ddylasai ei gael ar eu meddyliau.

Adn 43. **Myfi a ddaethum yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i.** Rhoddai yr Iesu bwys mawr ar ei berthynas â'i Dad. Am ei fod wedi dyfod fel anfonedig y Tad, a holl awdurdod y Tad yn ei gefnogi, dyma oedd yn gwneyd gwrthodiad yr Iuddewon ohono yn gymaint o bechod. Wrth wrthod y Mab, gwrthodent y Tad hefyd. **Os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnnw a dderbyniwch.** Pe deuai rhywun arall, mewn yspryd hollol wrthwynebol i'r yspryd amlygodd yr Iesu, gan geisio ei amcanion ei hunan, ond yn honni ei fod ef yn ceisio gogoniant Duw, byddent yn sicr o dderbyn hwnnw. Yr oedd y genedl yn hynod am ei pharodrwydd i dderbyn a chroesawu twylliwyr. Cyfrifir eu bod ar wahanol amserau wedi derbyn dros driugain o Gristau a ddaethant yn eu henwau eu hunain.

Adn. 44. **Pa fodd y gellwch chwi gredu, &c.** Mae y *chwi* i fod yn bwysleisiol. Nid ydym i olygu fod yr Iesu yn awgrymu amhosibilrwydd hollol i'r Iuddewon gredu, onide buasai hynny yn diddymu eu cyfrifoldeb am eu hanghrediniaeth. Amhosibilrwydd perthynasol ydyw. Tra yr oeddent yn derbyn gogoniant gau eu gilydd, yr oedd yn amhosibl iddynt gredu. Llywodraethid yr

yn derbyn gogoniant gan eich gilydd, ac heb geisio y gogoniant *sydd* oddi wrth Dduw yn unig? 45. Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth y Tad: y mae a'ch cyhudda chwi, *sef* Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio. 46. Canys pe credasech chwi i Moses, chwi a gredasech i minnau: oblegid am danaf fi yr ysgrifenodd efe. 47.

Iuddewon gan awydd am gymeradwyaeth ac anrhydedd eu gilydd. Cael eu gweled a'u canmol gan ddynion oedd eu hawydd pennaf. A lle bynnag y mae yna yspryd hunangeisiol, nis gall fod yno wir ffydd. **Ac heb geisio y gogoniant sydd oddiwrth Dduw yn unig.** Gwell: *Ac heb geisio y gogoniant sydd oddiwrth yr unig Dduw.* Nis gellir ceisio y gogoniant sydd oddiwrth yr unig Dduw, a cheisio gogoniant oddiwrth ddynion ar yr un pryd, gan fod y naill yn hollol anghyson a gwrthwynebol i'r llall.

Adn. 45. **Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth y Tad.** Ystyr y gair "cyhuddo" yma yw cyhuddo yn gyhoeddus mewn llys barn, ac nid cyhuddo yn faleis-ddrwg a dirgelaidd. Nid oedd yn angenrheidiol i'r Iesu eu cyhuddo o gwbl, gan fod un arall yn gwneyd hynny. **Y mae a'ch cyhudda chwi, sef Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio.** Neu, *ar yr hwn yr ydych wedi gosod eich gobaith* (W. E.). Yn lle bod yn ffyddlon i Moses a'i ddysgeidiaeth, wrth wrthod yr Iesu mewn anghrediniaeth, yr oeddent yn profi eu hunain yn anffyddlon i'w arweiniad a'i addysg. A chaent weled ryw ddydd, yn lle bod Moses yn eu hamddiffyn, mai efe fyddai yn troi fwyaf yn eu herbyn, ac yn eu cyhuddo wrth y Tad. Hollol ofer a disail y pryd hwnnw fyddai eu hymffrost gwag mai disgyblion Moses oeddent hwy (pen. ix. 28).

Adn. 46. **Canys pe credasech chwi i Moses, chwi a gredasech i minnau.** Nid oedd yr Iuddewon hyn erioed wedi credu i Moses yn onest a gwirioneddol; ond credent mewn camddehongliad ohono o eiddo y Rabiniaid. Buasai crediniaeth wirioneddol o eiriau Moses yn eu harwain yn naturiol i gredu yn yr Iesu. Dyma nôd ac amcan y cwbl a ysgrifenodd Moses. At yr Iesu yr oedd yr addewidion (Gen. iii. 15; Deuter. xviii. 15), y cysgodau, y seremoniau, a'r aberthau, yn cyfeirio er arwain ffydd a gobaith pobl yr Arglwydd ato ef.

Adn. 47. **Ond os chwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?** Mae dadl yr Iesu yma yn anwrthwynebol. Yr oedd eu hanghrediniaeth o Moses yn rhwym o esgor ar anghrediniaeth ynddo ef. Os na chredent y gair ysgrifenedig, oedd yn wastad yn eu dwylaw, ac yr oedd ganddynt gymaint o barch iddo, ac y gallent ei fyfyrio yn barhaus, nes dyfod i ddeall pob anhawster oedd ynddo, pa ryfedd eu bod yn gwrthod derbyn y geiriau a lefarai yr Iesu wrthynt.

Bydd sylwi ar yr amlinelliad canlynol yn gymorth i'r darllenydd ddilyn olyniaeth meddwl yr Iesu yn ei amddiffyniad yn y bennod hon. Yn adn. 19 a 20, mynega yr Iesu neillduolrwydd ei berthynas â'i Dad. Yn adn. 21—23, darlunia y gwaith sydd

Ond os chwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?

---

yn tarddu o'r berthynas honno, fel yn cynnwys "bywhau" a "barnu." Amlygir y gwaith hwn yn adn. 24—27 yn ei gylch ysprydol, ac yn adn. 28, 29 yn ei gylch anianyddol. Terfyna y rhan gyntaf o'i amddiffyniad yn adn. 30 trwy ail-ddatgan ei undeb llawn â'r Tad. Yn yr ail ran o'i amddiffyniad cyfeiria yr Iesu at y prawf o'r honiad uchel a wnaethai. Gwrthyd ddwy dystiolaeth; ei eiddo ei hun, ac eiddo Ioan, adn. 31—36. Derbynia y ddwy dystiolaeth arall, sef, eiddo ei Dad ac eiddo yr Ysgrythyrau, adn. 37—40. Condemnia yr Iuddewon am beidio credu ynddo, ac olrheinia eu hanghredıniaeth i ansawdd foesol eu calonau, adn. 41—44. Terfyna trwy ddyweyd nad oeddent yn ffyddlon i ddysgeidiaeth Moses, eu prif brophwyd, ac mai efe fyddai yn troi yn eu herbyn yn y diwedd, adn. 45—47.

PENNOD VI.

WEDI y pethau hyn yr aeth yr Iesu dros fôr Galilea, hwnnw yw *môr* Tiberias. 2. A thyrfa fawr a'i canlynodd ef; canys hwy a welsant ei arwyddion, y rhai a wnaethai efe ar y cleifion. 3. A'r Iesu a aeth i fynu i'r mynydd, ac a eisteddodd yno gyd â'i ddisgyblion. 4. A'r pasc, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos. 5. ¶ Yna yr

---

1—15. Porthi y Pum Mil.

Adn. 1. **Wedi y pethau hyn.** Amwys iawn yw y geiriau hyn, fel ag y mae yn ddigon anhawdd deall at pa bethau y cyfeiriant. Mae hyn, pa fodd bynnag, yn ddigon amlwg, fod yr Iesu yn Jerusalem yn niwedd y bennod o'r blaen, a'i fod ef yn Galilea yn nechreu y bennod hon. Ni ddywedir wrthym yn mha le yr oedd cyn iddo groesi y llyn. Yr unig eglurhad sydd yn ymddangos i mi yn foddhaol yw deall y geiriau yn yr ystyr yma—"y pethau" a ddigwyddasent yn ei hanes rhwng Gwyl y Pwrim yn Jerusalem, a'r adeg presenol pan yr oedd yn Galilea. Gan fy mod yn credu mai y Pwrim yw yr wyl y crybwyllir am dani yn v. 1, nid oedd ond rhyw fis o amser rhwng yr adeg honno a'r amser presenol. **Dros for Galilea, hwnnw yw mor Tiberias.** Gwelir yn yr eglurhad hwn ar fôr Galilea, brawf o ddiweddarwch ysgrifeniad yr efengyl, a'i bod wedi ei bwriadu ar gyfer darllenwyr o'r tuallan i Palestina. Yr oedd Dinas Tiberias ar lan orllewinol y llyn y crybwyllir am dano yn adn. 23, wedi ei hadeiladu gan Herod Antipas yn ystod dyddiau Crist ar y ddaear, er anrhydedd i'r Ymherawdwr Tiberias; ac ar ol hynny yr oedd môr Galilea yn adnabyddus fel Llyn Tiberius. Yr oedd yn llyn llydan, yn ddeuddeng milldir o hyd a chwech neu ragor o led, ac amryw ddinasoedd enwog yn addurno ei ymylon, megys Capernaum, Bethsaida, a Chorazim. Tebygol yw mai o Capernaum y cychwynai yr Iesu i groesi y llyn.

Adn. 2, 3. **Canys hwy a welsent ei arwyddion, y rhai a wnaethai efe ar y cleifion.** Gwell: *Canys yr oeddent yn dal sylw ar ei arwyddion a wnaethai efe ar y cleifion.* Amlwg yw fod yr Iesu wedi cyflawni y gwyrthiau hyn, ac yn parhau i'w cyflawni ar gleifion yn Capernaum a'r gymydogaeth, a hynny oedd wedi deffro chwilfrydedd y bobl, ac yr oeddent yn awyddus am weled rhagor o bethau rhyfedd. **I'r mynydd.** Mynydd-dir y mae'n debyg. Geilw Matthew ef yn "annghyfaneddle o'r neilldu."

Adn. 4. **A'r pasc, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos.** Crybwylla yr efengylwr hyn er mwyn nodi yr amser y cymerodd yr amgylchiad le. Yr oedd yn agos i amser y pasg. Gellir casglu oddiwrth pen. vii. 1 nad aeth yr Iesu i fyny i Jerusalem y pasg hwn.

Adn. 5. **Yna yr Iesu a ddyrchafodd ei lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto.** Yr un dyrfa, mae'n debyg, a'r un y

Iesu a ddyrchafodd *ei* lygaid, ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto; ac a ddywedodd wrth Phylip, O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta? 6. (A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur.) 7. Phylip a'i hattebodd ef, Gwerth dau càn ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig. 8. Un o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, Andreas, brawd Simon Petr, 9. Y mae yma ryw fachgennyn, a chanddo bùm torth haidd, a dau bysgodyn: ond beth yw hynny rhwng cynnifer? 10. A'r Iesu a ddywedodd,

---

cyfeirir ati yn adn. 2, ac nid tyrfa wahanol i honno. **Ac a ddywedodd wrth Phylip, O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta?** Y mae adroddiad yr efengylwyr eraill yn wahanol i eiddo Ioan. Yn ol Matthew, Marc a Luc y disgyblion ddechreuodd deimlo pryder yn nghylch bwydo y bobl, wrth ei gweled yn hwyrhau, gan attolygu arno ollwng ymaith y bobl fel yr elent i'r pentrefi i brynu lluniaeth. Y tebygolrwydd yw fod yr Iesu wedi profi Phylip yn flaenorol i bryder y disgyblion. Amcan uniongyrchol y cwestiwn i Phylip oedd ei *brofi* ef, ac nid darparu ymborth ar gyfer y tyrfaoedd. Paham y gofynodd yr Iesu i Phylip? Tybir mai am mai Phylip oedd yn arfer gofalu, yn benaf, am yr ymborth i'r Iesu a'i ddisgyblion, megys ag yr oedd Judas yn drysorydd iddynt.

Adn. 6. **I'w brofi ef.** Amcan y profi hwn oedd ei gryfhau, ac nid ei demtio i ameu—rhoddi cyfleustra iddo ymarfer a dadblygu ei ffydd o dan yr amgylchiadau. Nid am fod yr Iesu mewn unrhyw anhawsder ar y pryd y gofynodd i Phylip, canys fe wyddai yr hwn a drodd y dwfr yn win yn Cana am yr adnoddau dihysbydd oedd yn eiddo iddo.

Adn. 7. **Gwerth dau can ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, &c.** Yr oedd dau can ceiniog yn gyfwerth a £7 o'n harian ni. Dichon ei fod wedi nodi y swm hwn am mai hynny oedd yr oll oedd yn eu pwrs, neu yn eu trysorfa ar y pryd, neu fe ddichon mai tybio yr oedd Phylip, pe byddai ganddynt werth y swm hwnnw o fara, na fyddai ddim yn ddigon o lawer i roddi ond ychydig i'r fath dyrfa fawr.

Adn. 8, 9. **Andreas, brawd Simon Petr.** Mae rhyw gysylltiad agos rhwng Andreas a Phylip (Ioan xii. 22). "Anhawsder Phylip oedd gyda golwg ar y pwrs, anhawsder Andreas oedd fod mor ychydig yn y farchnad." **Pum torth haidd**—ymborth y bobl gyffredin. **A dau bysgodyn.** Mae y gair pysgodyn yma yn dynodi pethau bychain i'w bwytta, neu yr hyn a fwytteir gyda bara, *enllyn* y bobl gyffredin. **Ond beth yw hynny rhwng cynnifer?** Llais anghrediniaeth sydd yn y geiriau hyn. Rhyfedd eu bod wedi anghofio y wyrth yn Cana, Galilea. Pe buasent wedi dysgu y wers honno, fel y dylasent, ni fuasent wedi gofyn y cwestiwn hwn.

Perwch i'r dynion eistedd i lawr. Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan *honno*. Felly y gwŷr a eisteddasant i lawr, ynghylch pùm mil o nifer. 11. A'r Iesu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddïolch, efe a'*u* rhannodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r rhai oedd yn eistedd; felly hefyd o'r pysgod, cymmaint ag a fynnasant. 12. Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briw-fwyd gweddill, fel na choller dim. 13. Am hynny hwy a'*u* casglasant, ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briw-fwyd o'r pùm torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwyttasent. 14. Yna y dynion,

---

Adn. 10, 11. **Pum mil o wyr.** Dyma wyrth a gofnodir gan y pedwar efengylwr (Matthew xiv. 15—21; Marc vi. 34—44; Luc ix. 12—17). Ychwanega Matthew at y pum mil, "heblaw gwragedd a phlant." **Ac wedi iddo ddiolch** —Ioan sydd yn defnyddio y gair "diolch;" "bendithio," ebai y tri efengylwr arall. Gwelir fod cysylltiad agos iawn rhwng diolch am ymborth, a chael bendith arno. Ac fe ddilynwyd diolch yr Iesu â bendith ryfeddol ar yr ymborth. **Cymmaint ag a fynnasant.** Dyma eiriau awgrymiadol. Arwyddant fod yno gyflawnder i gyfarfod â'u hangen, ac nid "ychydig" fel y dywedai Phylip, adn. 7. Dyma arlwy deilwng o ran ei helaethrwydd o'r hwn a'i darparodd—"yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd."

Adn. 12. **Ac wedi eu digoni hwynt,** neu yn fwy llythrennol, "*A phan y llanwyd hwynt*" (W. E.). Nid oedd yno yr un ferch na phlentyn nad oeddent yn gwaeddi "Dyma ddigon." Dyma sydd yn nodweddiadol o'r holl ddarpariadau Dwyfol. **Cesglweh y briw-fwyd gweddill, fel na choller dim.** Ystyr briw-fwyd yw darnau toredig o'r bara. Ioan yn unig sydd yn cofnodi y gorchymyn hwn. Ac un oedd yn bresenol ei hun, ac yn gwrando, fuasai yn meddwl am hyn. Y cyfoethocaf a'r mwyaf haelionus o bawb sydd yn rhoddi inni esiampl o gynildeb. Mae gorchymyn yr Iesu yma yn gondemniad cryf ar bob math o wastraff. "Nid yw yr hwn sydd yn gallu diwallu angen cyfanfyd am wastraffu briwsionyn bach."

Adn. 13. **Am hynny hwy a'u casglasant, ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briw-fwyd o'r pum torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwyttasent.** Gwelir oddiwrth hyn fod yna fwy o lawer yn weddill nag oedd yno ar y dechreu. Tybir mai basged pob un o'r deuddeg apostol oedd y deuddeg basgedaid hyn. Byddai yr Iuddewon yn arfer cludo gyda hwynt rhyw fath o fasged neu *wallet* i gario eu hymborth. Noda Marc fod y basgedi hyn wedi eu llanw nid yn unig â'r bara, ond â'r pysgod hefyd (Marc vi. 43). Dyma wyrth sydd wedi peri dyryswch ac anhawster mawr i Resymolwyr, a chwerthinllyd a gwrthun iawn yw ymgais rhai ohonynt i gyfrif am dani. Y gwir yw, y mae yn amhosibl cyfrif am dani heb gydnabod ei bod yn un o'r gwyrthiau hynotaf a rhyfeddaf a gofnodir yn yr efengylau.

pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddïau yw y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd. 15. ¶ Yr Iesu gan hynny, pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenhin, a giliodd drachefn i'r mynydd, ei hunan yn unig. 16. A phan hwyrhaodd hi, ei ddisgyblion a aethant i waered at y môr. 17. Ac wedi iddynt ddringo i long, hwy a aethant dros y môr i Capernaum. Ac yr oedd hi weithian

---

Adn. 14. **Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddiau yw y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.** Mae'r effaith gafodd y wyrth ar feddyliau y rhai oedd yn bresenol yn cyfateb i'w gwirionedd. Nis gallent beidio dyfod i'r casgliad naturiol eu bod yn mhresenoldeb y Prophwyd mwy na Moses (Deut. xviii. 15) y disgwylient am ei ymddangosiad. Ac y mae tystiolaeth naturiol a gwirfoddol y rhai oedd yn bresenol yn gweled y wyrth, ac yn cyfranogi ohoni, yn annhraethol bwysicach na dychymygion a dyfaliadau y rhai oedd yn absenol. Dyma atebiad synwyr cyffredin i haeriadau afresymol y rhai alwant eu hunain yn "Resymolwyr."

Adn. 15. **Yr Iesu gan hynny, pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenhin, &c.** Dyma brawf ychwanegol fod y bobl yn credu yn ngwirionedd y wyrth. Yn gyson â'u disgwyliadau am ymddangosiad Messiah daearol, i'w gwaredu oddiwrth yr iau Rufeinig, credent ei fod wedi ymddangos yn Nherson yr Iesu, ar ol ei weled yn cyflawni gwyrth mor hynod a diamheuol. Ac oherwydd hynny y maent am ei gydnabod fel brenhin yn y fan, ac am ei orfodi trwy drais i gyhoeddi ei hun yn frenhin, ac ymddwyn fel y cyfryw, trwy godi mewn gwrthryfel yn erbyn yr awdurdodau Rhufeinig. Eithr gan fod eu syniadau am natur brenhiniaeth y Messiah yn hollol gyfeiliornus (pen xviii. 36), nid oedd yr Iesu am gydffurfio â'u cais; am hynny ymgiliodd i'r mynydd oddiwrthynt. Yn ol Matthew a Marc ymgiliodd i'r mynydd i ddal cymundeb â'i Dad mewn gweddi.

16—21. Yr Iesu yn rhodio ar Fôr Galilea.

Adn. 16, 17. **A phan hwyrhaodd hi, ei ddisgyblion a aethant i waered at y mor, &c.** (Gwêl hefyd Math. xiv. 22, 23; Marc vi. 47, 54). Dywed Matthew fod yr Iesu wedi eu gyru, a Marc ei fod wedi cymell ei ddisgyblion i'r llong, neu yn fwy priodol, i'r cwch. Ymddengys felly eu bod yn anfoddlon i fyned, gan adael yr Iesu yn unig ar ol. Yr oedd eisoes wedi myned yn hwyr y nos. Yr oedd gan yr Iuddewon ddau hwyr, un o dri hyd chwech, a'r ail o fachlud haul hyd dywyll nos. Yr olaf, ac nid y blaenaf, yw hwyr y testyn. **Ac wedi iddynt ddringo i long, hwy a aethant dros y mor i Capernaum.** Gwell: *A hwy a aethant i gwch, ac yr oeddent yn myned yn groes i'r môr i Capernaum.* Tybia rhai nad i Capernaum y bwriadai y disgyblion fyned pan gychwynasant, ond i Bethsaida yn Galilea, oedd ychydig yn fwy i'r dê; ac mae effaith yr ystorm barodd

yn dywyll, a'r Iesu ni ddaethai attynt hwy. 18. A'r môr, gan wynt mawr yn chwythu, a gododd. 19. Yna, wedi iddynt rwyfo ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadiau, hwy a welent yr Iesu yn rhodio ar y môr, ac yn nesâu at y llong; ac a ofnasant. 20. Ond efe a ddywedodd wrthynt, Myfi yw; nac ofnwch. 21. Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong: ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tir yr oeddynt yn myned iddo.

---

iddynt lanio yn Capernaum. Y mae hon yn dybiaeth ddigon naturiol. **A'r Iesu ni ddaethai attynt hwy.** Gwell: *A'r Iesu nid oedd eto wedi dyfod attynt.* Credir fod yna ddeall rhwng yr Iesu a'i ddisgyblion y byddai iddo eu cyfarfod mewn lle penodol ar y traeth, lle y gallai ymuno â hwynt ar awr hwyrach, ond nad oedd yr Iesu wedi eto ddyfod attynt, am nad oedd y cwch, oherwydd yr ystorm, wedi llwyddo i gyraedd y lle hwnnw. Mae Westcott a Godet yn ffafriol i'r syniad hwn, ac y mae yn eithaf tebygol ei fod yn gywir.

Adn. 18. **A'r mor, gan wynt mawr yn chwythu, a gododd.** Yr oedd, ac y mae, môr Galilea yn agored i ystormydd mawr a sydyn, nes ei gynhyrfu i'w waelodion.

Adn. 19. **Yna, wedi iddynt rwyfo ynghylch pump ar hugain neu ddeg ar hugain o ystadiau.** Golyga *ystad* 600 o droedfeddi Groeg, 606 o droedfeddi o'n mesur ni, a chan nad oedd y môr ond ryw ddeugain o ystadiau yn ei fan letaf, gwelir eu bod wedi rhwyfo i ganol y môr. **Hwy a welent yr Iesu yn rhodio ar y mor, ac yn nesau at y llong.** Neu, y maent yn gweled neu yn dal sylw ar yr Iesu, &c. Mae ei fod yn neshau at y llong yn profi yn eglur mai nid rhodio "ar lan y môr" yr oedd, fel y tybiodd rhai. **Ac a ofnasant.** Ofni a wnaethant cyn iddynt adnabod yr Iesu, gan dybio mai drychiolaeth ydoedd.

Adn. 20. **Myfi yw; nac ofnwch.** Clywed ac adnabod llais yr Iesu oedd yn ddigon i chwalu eu hofnau, ac i roddi hyder a thawelwch i'w meddyliau. Rhyfedd y rhin a'r effaith a berthyn i lais hyfryd yr Iesu o hyd.

Adn. 21. **Yna y derbyniasant ef yn chwannog i'r llong.** Gwell: *Yr oeddent yn ewyllysio gan hynny ei gymmeryd ef i'r cwch*, wedi ei adnabod a deall pwy ydoedd. **Ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tir yr oeddent yn myned iddo.** Nid wyf yn barod i gredu y rhaid cael gwyrth i egluro y geiriau hyn, ac mai yn wyrthiol y cyrhaeddodd y cwch y lân mor fuan. Gwell gennyf gredu mai disgrifio effaith presenoldeb yr Iesu ar ei feddwl ei hun, ac ar feddyliau ei gyd-ddisgyblion y mae'r efengylwr. O'i gydmaru â'r amser yr oeddent eu hunain yn rhwyfo yn galed yn nghanol yr ystorm, ac ar ol derbyn yr Iesu i mewn i'r cwch, ac i'r ystorm ostegu, cyrhaeddasant y lân, bron heb iddynt feddwl, yn nghwmni hyfryd yr Athraw.

22. ¶ Trannoeth, pan welodd y dyrfa oedd yn sefyll y tu hwnt i'r môr, nad oedd un llong arall yno ond yr un honno i'r hon yr aethai ei ddisgyblion ef, ac nad aethai yr Iesu gyd â'i ddisgyblion i'r llong, ond myned o'i ddisgyblion ymaith eu hunain; 23. (Eithr llongau eraill a ddaethent o Tiberias yn gyfagos i'r fan, lle y bwyttasent hwy fara, wedi i'r Arglwydd roddi diolch:) 24. Pan welodd y dyrfa gan hynny nad oedd yr Iesu yno, na'i ddisgyblion, hwythau a aethant i longau, ac a ddaethant i Capernaum, dan geisio yr Iesu. 25. Ac wedi iddynt ei gael ef y tu hwnt i'r môr, hwy a ddywedasant wrtho, Rabbi, pa bryd y daethost ti yma? 26. Yr Iesu a atteb-

---

22—25. Y DYRFA YN CEISIO YR IESU AC YN EI GAEL YN CAPERNAUM.

Adn. 22—24. **Trannoeth, pan welodd y dyrfa, &c.** Yr oedd y dyrfa wedi sylwi nad aethai yr Iesu i'r cwch gyda'i ddisgyblion y noson gynt, ac nad oedd yr un cwch arall yn y lle iddo allu myned gydag ef. Disgwyliasent i'r cwch ddyfod yn ol drachefn i'w geisio, ond gan na ddaeth yn ol, disgwylient iddo ymddangos drachefn yn y gymydogaeth. Ond erbyn y boreu, wrth fethu ei weled o gwbl, daethant i'r casgliad ei fod wedi myned oddiyno mewn ffordd anadnabyddus iddynt hwy. A phan welsant longau o Tiberias wedi eu chwythu i'r lle yn ystod y nos gan yr ystorm, y maent yn cymeryd mantais arnynt i groesi drosodd i Capernaum. Gwyddent mai yn Capernaum yr oeddent debycaf o ddyfod o hyd i'r Iesu, gan mai yno yr oedd ei gartref ar y pryd. Gwelir mor benderfynol oedd y bobl o geisio yr Iesu er ei wneyd yn frenhin.

Adn. 25. **Rabbi, pa bryd y daethost ti yma?** Sylwa Bengel yn dra phriodol fod y "*pa bryd*" yn cynnwys y "*pa fodd.*" Methent a chyfrif pa fodd yr oedd yr Iesu wedi gallu croesi y llyn heb iddynt weled cwch wedi dyfod i'w gludo drosodd. Ac yr oedd eu cywreinrwydd wedi ei gyffroi, a dyma paham y gofynent y cwestiwn.

26—59. DYSGEIDIAETH YR IESU AM DANO EI HUN FEL BARA Y BYWYD.

Dyma ni ar wynebu yr adran fwyaf gyfriniol sydd yn Efengyl Ioan, ac heb inni fod mewn mesur o gydymdeimlad â'i chyfriniaeth ddofn, bydd yn anhawdd inni ddeall a gwerthfawrogi dysgeidiaeth ysprydol yr Athraw mawr. Ar ol gwneyd yr oll a ellir i egluro geiriau yr Arglwydd Iesu yn yr adran, bydd yna ryw raddau o ddirgelwch yn aros, na fedr neb ei werthfawrogi os na bydd mewn cydymdeimlad â chyfriniaeth ysprydol.

Mae cysylltiad o'r fath agosaf rhwng dysgeidiaeth Crist yn yr adran hon â'r wyrth o borthi y pum mil. Arwydd oedd porthi y pum mil, ond yn awr arweinir ni at y sylwedd ysprydol oedd yn cael ei arwyddocau.

odd iddynt, ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr ydych chwi yn fy ngheisio i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a'ch digoni. 27. Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi: canys hwn a seliodd Duw Dad. 28. Yna y dywedasant wrtho, Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw? 29.

Adn. 26. **Yr ydych chwi yn fy ngheisio i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, eithr o herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a'ch digoni.** Gwell yw darllen *arwyddion* na "gwyrthiau" yn yr adnod hon. Arwyddion yw hoff enw yr efengylwr am wyrthiau Crist. Diffyg mawr y bobl hyn oedd, nad oeddent wedi gweled dim arwydd yn y bara y porthwyd hwy hyd ddigonedd âg ef. "Yn lle," fel y sylwa Lange yn bur darawiadol, "gweled yn y bara arwydd, yn yr arwydd ni welsant ddim ond y bara." Llygaid i ganfod y materol a'r diflanedig oedd ganddynt, ac yr oeddent yn hollol ddall i'r ysprydol a'r tragwyddol. Yr oeddent felly yn ceisio yr Iesu o dan ddylanwad y cymhellion iselaf a mwyaf materol.

Adn. 27. **Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol.** "*Ymegniwch nid am y bwyd sydd yn darfod, ond am y bwyd sydd yn parhau i fywyd tragwyddol*" (W.E.). "*Eithr am y bwyd y sy'n aros i fywyd tragwyddol*" (B.). Llefaru yn gydmarol y mae'r Iesu yma. Nid yw yn gwahardd i ddynion lafurio am y bwyd a dderfydd, canys buasai hynny yn groes i drefn natur (Gen. iii. 17, 19); ond o'i gydmaru â'r pwysigrwydd a'r angenrheidrwydd o lafurio am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol, nid yw yn werth sôn am dano. Mae goruchwylion y byd hwn yn eithaf yn eu lle priodol eu hunain, ond o'u cydmaru â sylweddau mawrion y byd tragwyddol, y maent yn diflanu ac yn myn'd yn ddim. Gan hynny, pwysleisio y mae'r Iesu y pwysigrwydd a'r angenrheidrwydd am lafurio, neu ymegnio am y bwyd a bery, am ymborth a maeth ysprydol, nad oes yn ddo ddim elfenau sydd yn gwywo ac yn darfod, ond sydd yn gyfaddas i gynal bywyd a bery byth—yr ymborth hwnnw i'r enaid nad all neb ei roddi ond yr Iesu, oedd eisoes wedi porthi eu cyrff nes eu digoni. **Canys hwn a seliodd Duw Dad.** Nid y bara, ond Mab y dyn sydd yn rhoddi y bara a seliodd Duw Dad. Seliodd ef yn amlwg trwy y gwyrthiau a gyflawnodd. Nid oedd porthi y pum mil ddim ond y sêl i brofi ei Ddwyfol anfoniad i borthi miloedd dynolryw â bara y bywyd.

Adn. 28. **Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw?** Wrth "weithredoedd Duw" y golygir yma, y gweithredoedd a *ofynir* gan Dduw, ac a gymeradwyir ganddo ef. Gofyn am eglurhad y maent ar y llafurio y crybwyllasai yr Iesu am dano yn yr adnod flaenorol. Pa fodd yr ydym i lafurio fel ag i sicrhau "y bara a bery," y soniasai am dano? Syniad deddfol, y

Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe. 30. Dywedasant gan hynny wrtho ef, Pa arwydd yr ydwyt ti yn ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti? pa beth yr wyt ti yn ei weithredu? 31. Ein tadau ni a fwyttasant y manna yn yr anialwch, fel y mae yn ysgrifenedig, Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwytta. 32. Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Nid Moses a roddodd i chwi y bara o'r nef: eithr fy Nhad sydd yn rhoddi i chwi y gwir fara

---

mae'n debyg, sydd yn gorwedd o dan y gofyniad. Tybient fod yn rhaid iddynt wneyd rywbeth i ennill ac i haeddu y bara.

Adn. 29. **Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe.** Sylwa Godet yn briodol iawn mai nid am fod Duw yn awdwr y gwaith y gelwir credu yn waith Duw, ond am ei fod yn waith a ofynir gan Dduw. A sylwa yr un esboniwr galluog yn mhellach—fod *ffydd* y math uchaf o *waith*, am fod dyn trwyddo yn rhoddi ei hunan, ac nas dichon bod rhydd *wneyd* dim byd mwy na rhoddi ei hunan. Mae credu yma yn waith parhaus, ac yn wreiddyn pob gwaith arall sydd yn gymeradwy gan Dduw, canys y "ffydd sydd yn gweithio trwy gariad" ydyw. Priodol y sylwodd un; "Dyma'r atebiad Cristionogol i'r gofyniad Iuddewig."

Adn. 30. **Pa arwydd yr ydwyt ti yn ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti?** Digon anhawdd yw deall fod hyn yn cael ei ofyn gan y bobl fu yn dystion o wyrth o borthi y pum mil y dydd blaenorol. Ond pan gofiwn yr hyn oedd mor nodweddiadol ohonynt, "y mae'r Iuddewon yn gofyn arwydd," 1 Cor. i. 22, nid oedd mor ryfedd chwaith. Nid oedd modd digoni yr Iuddewon â gwyrthiau. Heblaw hyn, yr oedd yna ddisgwyliad yn eu plith y byddai i'r Messiah borthi pobl yr Arglwydd âg ymborth o'r nefoedd fel ag y gwnaeth Moses (Exod. xvi. 4, 15; Salm xxviii. 4), ond am y bwyd y porthwyd hwy âg ef y dydd o'r blaen, nid oedd ond o'r un natur a'r hyn yr arferent ei fwytta.

Adn. 31. **Ein tadau ni a fwyttasant y manna yn yr anialwch, &c.** Ceisiant gyfiawnhau eu hunain wrth ddisgwyl i'r Iesu, os oedd yn brophwyd *mwy* na Moses, eu porthi yn wyrthiol, megys y porthasid eu tadau mewn modd gwyrthiol yn yr anialwch â "bara o'r nef."

Adn. 32. **Nid Moses a roddodd i chwi y bara o'r nef;** neu *allan o'r nef.* Cywira yr Iesu eu camsyniad; nid Moses, ond Duw, oedd wedi rhoddi i'w tadau y manna yn yr anialwch, ac nid oedd rhoddiad y manna yn unrhyw brawf o ddwyfol anfoniad Moses. **Eithr fy Nhad sydd yn rhoddi i chwi y gwir fara o'r nef.** Nid oedd y manna yn ddim ond cysgod, ond dyma'r sylwedd. Nid oedd yn y manna ond moddion porthi y corph, ond y mae *gwir* fara yn ymborth ysprydol i'r enaid. Nid *rhoddi* y gwir fara yn unig y mae'r Iesu, *ond ef ei hun ydyw.*

o'r nef. 33. Canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd. 34. Yna hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol. 35. A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Myfi yw bara y bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser. 36. Eithr dywedais wrthych, i chwi fy ngweled, ac nad ydych yn credu. 37. Yr hyn oll y

---

Adn. 33. **Canys bara Duw ydyw yr hwn sydd yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd.** Ceir yn y geiriau hyn eglurhad llawnach ar y gwir fara y crybwyllwyd am dano yn yr adnod flaenorol. Awgrymir yn y rhagenw "*yr hwn*" ei fod yn berson, ac nid yn beth; ac felly parotoa y ffordd yn raddol ar gyfer y datguddiad eglur a llawn yn adn. 35. Ac fel gwir fara, y mae yn foddion i roddi maeth a chynaliaeth ysprydol i'r byd, sef, i bawb a gyfranogant ohono.

Adn. 34. **Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol.** Cyd. pen. iv. 15. Credaf fod y bobl hyn, fel y wraig o Samaria, heb feddu syniad clir am ba beth y gofynent am dano, pan yn gwneuthur y deisyfiad hwn. Yr oedd niwl materolaeth ac anghrediniaeth yn eu rhwystro i ddeall dysgeidiaeth ysprydol Crist. Eithr os oedd yna ryw foddion i'w galluogi i fyw heb bryder, angen, llafur a marwoldeb, yr oeddent yn ddigon parod i'w dderbyn.

Adn. 35. **Myfi yw bara y bywyd.** Yma y mae'r Iesu yn cyhoeddi yn eglur mai efe ei hun yw bara y bywyd,—yr ymborth ysprydol sydd yn cynhyrchu ac yn cynnal bywyd yn ystyr uchaf a chyfoethocaf y gair. Mae y pwyslais i fod ar "Myfi." Efe, ac nid neb arall. Nid ei eiriau, nid ei ddysgeidiaeth yn unig, ond Efe ei Hun yn ei Berson ymgnawdoledig. **Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi ni newyna, a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.** Dyma'r prawf ymarferol ei fod mewn gwirionedd yr hwn yr honna ei fod, sef, Bara y bywyd. Gwelir, yn ngoleu y geiriau hyn, fod dyfod at Grist, a chredu ynddo, yn hollol gyfystyr. Dull ffugwrol yw "dyfod" at yr Iesu, o ddarlunio y weithred o gredu ac ymddiried ynddo ef. "Ni newyna," ac "ni sycheda un amser." Dyma ddesgrifiad cryf iawn o'r diwalliad cyflawn a pharhaol ar angen ysprydol y rhai a gredant yn yr Iesu.

Adn. 36. **Eithr dywedais wrthych, i chwi fy ngweled, ac nad ydych yn credu.** Gofynir pa bryd y dywedodd yr Iesu y geiriau hyn wrth yr Iuddewon? Os na ddywedodd y geiriau wrthynt yn ffurfiol, ar adeg benodol, y mae wedi dyweyd hynny mewn effaith yn holl gyfeiriad yr ymddiddan hwn. Pa beth bynnag oeddent yn ei weled, ac yr oeddent wedi gweled pethau hynod a rhyfedd iawn, eto, nid oedd hynny yn eu harwain i gredu yn yr Iesu. Ni welent ond y gwyrthiau allanol, ac heb ganfod eu harwyddocad ysprydol.

Adn. 37. **Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi imi, a ddaw attaf fi,** "*a gyraedda attaf fi*" (W. E.). "*Yr oll a roddo'r Tad imi, attaf y daw*"

mae y Tad yn ei roddi i mi, a ddaw attaf fi: a'r hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim. 38. Canys myfi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd. 39. A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; o'r cwbl a roddes efe i mi, na chollwn ddim o hono, eithr bod i mi ei adgyfodi ef yn y

---

(B.). Fel pe dywedasai yr Iesu, er i chwi beidio dyfod attaf, ni fydd fy ngwaith mewn un modd yn aflwyddianus; canys fe ddaw yr oll y mae y Tad yn ei roddi imi, ataf, Dyma sail cysur i'r Iesu yn wyneb ei aflwyddiant gyda'r Iuddewon anghredinioi. Ceisia ambell i esboniwr ddarllen i mewn i'r geiriau hyn ei syniad mympwyol a chul ei hunan, trwy ddyweyd fod y Tad mewn arfaeth dragwyddol a diamodol, wedi rhoddi i'r Mab nifer penodol o ddynion i'w cadw ganddo, ac mai hwy yn unig fydd cadwedig yn y diwedd. Eithr gwrthyd y mwyafrif mawr o esbonwyr diweddar y fath syniad anheilwng o Dduw y cariad, a Thad cyffredinol dynolryw.* Dylid sylwi mai yn yr amser *presenol* y mae y rhoddi hwn o eiddo y Tad, ac nid yn yr amser *gorphenol;* mewn amser, ac nid yn nhragwyddoldeb. Mae y Tad yn rhoddi i'r Mab y rhai sydd yn credu ynddo, ac a barhant i gredu ynddo hyd y diwedd, sef, y rhai sydd yn dysgu (adn. 45) ac yn ildio i'w atdyniad grasol (adn. 44). Ac felly y mae y "rhoddi," a'r "tynnu," a'r "dysgu," yn cyfateb i'w gilydd, y naill yn egluro y llall. Ac yn rhinwedd ei hollwybodaeth, fe wyddai yr Iesu yn hollol sicr nad elai ei lafur cyfryngol ddim yn ofer, ond y byddai iddo "ddwyn ffrwyth lawer." **A'r hwn a ddel attaf, nis bwriaf ef allan ddim.** Gwell "*sydd yn dyfod attaf.*" Dysgir fod y Tad a'r Mab mewn perffaith gydgordiad â'u gilydd. Mae yr oll y mae y Tad yn eu rhoddi i'r Mab, yn sicr o dderbyniad a chroesaw ganddo. Dyma galondid cryf i bawb ddyfod ato ef (Math. xi. 28).

Adn. 38. **Canys myfi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd.** Dyma reswm am yr hyn a ddywedodd yn niwedd yr adnod flaenorol, canys y mae yna gysondeb llawn rhwng ewyllys y Mab ac ewyllys y Tad, ac felly yr oedd yn amhosibl iddo wrthod neb o'r rhai y mae y Tad yn eu rhoddi iddo. Cyflawna ewyllys ei Dad yn llwyr ac yn ffyddlon.

Adn. 39. **A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd, o'r cwbl a roddes efe imi na chollwn ddim ohono.** Dyma eglurhad llawnach ar ewyllys y Tad. Edrychir ar y Mab yma fel *Ceidwad* y rhai oll a roddir iddo ef gan y Tad, sef, y credinwyr. *Rhoddi* y mae Tad, a *chadw* y mae y Mab. Credai Paul yn ddiysgog fod yr Iesu yn abl *i gadw* yr hyn a roddodd ato (2 Tim. i. 12). Mae peidio colli yn gyfystyr â chadw. **Ddim ohono.** Gellir cymeryd y geiriau

---

* "The verse lends no support to any theory of fatalism, and does not mean that a select number chosen by God, would be saved. For it must be read in the light of v, 40, which declares that all who will to believe shall live."—*Clark, Westminster New Test.*

dydd diweddaf. 40. A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un a'r sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf. 41. Yna yr Iuddewon a rwgnachasant yn ei erbyn ef, o herwydd iddo ddywedyd, Myfi yw y bara a ddaeth i waered o'r nef. 42. A hwy a ddywedasant, Onid hwn yw Iesu mab Joseph, tad a mam yr hwn a adwaenom ni? pa fodd gan hynny y mae efe yn dywedyd, O'r nef y disgynais? 43. Yna yr

---

naill ai i olygu peidio colli dim o'r *oll* a rydd y Tad—pob credadyn ffyddlon wedi ei gadw a'i ddiogelu byth; neu fe all olygu peidio colli dim o'r *dyn* fel person unigol—ei gorph yn ogystal a'i enaid wedi ei gadw. Mae diwedd yr adnod yn ffafrio y golygiad olaf. **Eithr bod imi ei adgyfodi ef yn y dydd diweddaf.** Ni welir y cadw hwn o eiddo Crist wedi ei gwblhau hyd y dydd diweddaf. Nid cadw *rhan* o ddyn y mae y Mab, ond cadw yr *oll* ohono. Iachawdwriaeth gyflawn, yn cynnwys gogoneddiad y corph a'r enaid sydd yn yr efengyl (Phil. iii. 21).

Adn. 40. **Cael o bob un a'r sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, &c.** Nid oes dim llawer o wahaniaeth rhwng yr adnod hon a'r un flaenorol. Cyfeirir at yr un ewyllys o eiddo Tad sydd am i ddynion gael eu cadw gan Grist, ond nodir yn fwy eglur pwy yw y rhai y mae y Tad yn rhoddi i'w Fab, sef, y rhai sydd yn gweled y Mab ac yn credu ynddo ef. Gwelir felly mai rhoddi *amodol* ydyw. Nid y rhoddi sydd yn *achos* o'r credu, ond y credu sydd yn *amod* y rhoddi. Yn lle "yr hwn a'm hanfonodd," gwell darllen "fy Nhad" yn ol y llawysgrifau pwysicaf. "Gweled y Mab;" ystyr y gair "gweled" yma yw dal sylw ar, craffu yn ddifrifol. Nid trem ddiflanol fel yn adn. 36, ond craffu parhaus. Ac y mae cysylltiad anatodol rhwng y "gweled" hwn a chredu yn y Mab.

Adn. 41. **Myfi yw y bara a ddaeth i waered o'r nef.** Nid yn gymaint fod yr Iesu yn galw ei hun yn fara barodd i'r Iuddewon rwgnach, a'i fod yn dyweyd iddo ddyfod i waered o'r nef. Ac yn yr adnod nesaf gwelir paham yr oedd hynny yn dramgwydd iddynt.

Adn. 42. **Onid hwn yw Iesu mab Joseph, tad a mam yr hwn a adwaenom ni? pa fodd gan hynny y mae efe yn dywedyd, O'r nef y disgynais?** Mae gwrthddadl yr Iuddewon yma yn hollol naturiol ar y dybiaeth mai dyn yn unig oedd Crist. Cychwynasant ar y dybiaeth mai dyn yn unig ydoedd, ac felly yr oeddent yn methu ei ddeall a chyfrif am dano. Ac ar y dybiaeth hon y mae Crist o hyd yn hollol anesboniadwy, ac yn peri tramgwydd i anghredinwyr. Nid oedd dirgelwch yr enedigaeth wyrthiol wedi ei ddatguddio nes i'w fywyd sanctaidd, ei farwolaeth ryfeddol, a'i adgyfodiad gogoneddus, baratoi calonau dynion i'w dderbyn, ac felly adnabyddid yr Iesu y pryd hwnnw fel mab Joseph.

Adn. 43. **Na furmurwch wrth eich gilydd.** A oeddent yn gwneyd hynny yn glywadwy, ai ynte deall meddyliau eu calonau yr oedd yr Iesu, anhawdd

Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, na furmurwch wrth eich gilydd. 44. Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynnu ef: a myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf. 45. Y mae yn ysgrifenedig yn y prophwydi, a phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw. Pob un gan hynny a glywodd gan

---

yw penderfynu. Cyfeiria eu meddyliau at rywbeth pwysicach iddynt hwy na'r modd y daeth ef i'r byd, sef, pa fodd y gallent hwy ddyfod ato Ef.

Adn. 44. **Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynnu ef.** "*Ei at-dynu ef*" (W.E.). Mŷn rhai esbonwyr Calfinaidd mai yr un rhai ag a roddodd y Tad i'r Mab y mae yn eu tynnu ato ef—y rhoddi yn achos o'r tynnu, a'r tynnu yn achos o'r credu. Ac felly y mae'r achos o gadwedigaeth rhai, a cholledigaeth eraill yn ol y ddamcaniaeth hon yn gorwedd yn ewyllys benarglwyddiaethol Duw. Canys pe buasai Duw yn ddim ond ewyllysio "rhoddi" *pawb* a "thynu" *pawb*, ac felly ddwyn *pawb* i gredu yn y Mab, gallasai wneyd hynny. Yn hytrach na hynny, gwelodd Duw y cariad a Thad y dlynoliaeth yn dda ddangos ei ffafriaeth i *rai yn unig*, trwy ddewis eu cadw, gan adael y gweddill fyned i drueni diobaith. Y mae y fath olygiad anheilwng yn athrod ar gymeriad Duw anfeidrol gariadlawn, ac un sydd wedi myned ar ei lw nad yw yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, ond dychwelyd ohono a byw. Ac eto, dysgir y fath syniad anheilwng yn Nghymru ar ddechreuad yr ugeinfed ganrif.*

Rhaid penderfynu ystyr y "ni ddichon ddyfod attaf fi" yn ngoleuni ystyr y "tynnu." Yr un gair yw hwn—*tynnu* (Groeg, *elkuo*) ag a ddefnyddir am Grist yn tynnu pawb ato ei hun, yn pen. xii. 32). Os yw yn golygu tynnu *treisiol*, *gorfodol*, ac *anorchfygol* yn ei effaith yma, rhaid ei fod yn golygu hynny yn xii. 32. Eithr eglur yw nad yw yn golygu dim o'r fath beth yno, onide buasai pawb wedi eu tynnu at Grist, yr hyn nad yw yn ffaith. Gan hynny, nid yw yn golygu tynnu treisiol yma ychwaith. Mae gair arall yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd am dynnu trwy drais a llusgo, sef, *surô* (Act. viii. 3, xiv. 19, xvii. 16). Ac felly, tynnu moesol a grasol sydd yma, tynnu sydd yn hollol gyson â rhyddid moesol dyn. Datguddiad o drefn y cadw, amlygiad o gariad hunanaberthol Duw yn Nghrist, a'r Ysprŷd Glân yn gweithio trwyddynt ar feddwl a chalon pechadur yw y tynnu hwn. Heb hyn, "ni ddichon" yn yr ystyr o *ni fyn*, ac ni ddaw pechaduriaid at Grist. Dynoda gyndynrwydd ewyllys, ac nid anallu naturiol na moesol. Ni fynnai yr Iuddewon rhagfarnllyd a gelyniaethus hyn ddyfod at Grist, er pob dylanwad grasol a ddygwyd i orphwys ar eu meddyliau, ac felly diesgus oeddent.

Adn. 45 **A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw.** Dyma eglurhad ar natur y tynnu. Trwy ddylanwad addysg yn goleuo y meddwl am Grist a'i ragoriaethau y mae y Tad yn tynnu. **Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad ac a ddysgodd sydd yn dyfod attaf fi.**

---

* Esboniad ar Ioan gan Dr. J. Cynddylan Jones. Cyf. I.

y Tad, ac a ddysgodd, sydd yn dyfod attaf fi. 46. Nid o herwydd gweled o neb y Tad, ond yr hwn sydd o Dduw; efe a welodd y Tad. 47. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol. 48. Myfi yw bara y bywyd. 49. Eich tadau chwi a fwyttasant y manna yn yr anialwch, ac a fuont feirw. 50. Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwyttao dyn o hono, ac na byddo marw. 51. Myfi yw y bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi, yw fy

---

Y rhai sydd yn dysgu, ildiant i'r dylanwad grasol sydd am eu tynnu at Grist, ond y rhai ni fynnant ddysgu, gwrthodant ddyfod atto ef.

Adn. 46. **Nid oherwydd gweled o neb y Tad.** Nid oherwydd iddynt weled y Tad y maent wedi clywed a dysgu. **Ond yr hwn sydd o Dduw, efe a welodd y Tad.** Nid oes neb wedi gweled y Tad ond yr uniganedig Fab, ac felly profa mai nid oherwydd i neb arall weled y Tad y clywsant ac y dysgasant.

Adn. 47. Y mae sylwedd yr adnod hon wedi cael ei fynegu fwy nag unwaith eisoes, ond gwelir ei fod yn wirionedd mawr a chalonog yn nysgeidiaeth yr Athraw, a rhydd bwyslais arbenig arno.

Adn. 48. **Myfi yw bara y bywyd.** Dechreua draethu eto yn arwyddluniol yr hyn a ddysgodd mewn geiriau syml yn yr adnod flaenorol, sef, mai trwy undeb agosaf âg ef y mae caffael bywyd tragwyddol.

Adn. 49. **Eich tadau a fwyttasant y manna yn yr anialwch, ac a fuont feirw.** Dechreua yr Iesu gyferbynu ei hun, fel bara y bywyd, gyda'r manna yn yr anialwch. Er mor uchel y meddyliai yr Iuddewon am y manna, nid oedd yn foddion i wneuthur eu tadau yn anfarwol.

Adn. 50. **Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwyttao dyn ohono ac na fyddo farw.** Amdano ei hun, dywed drachefn, mai efe yw y bara ddaeth i waered o'r nef, ac fod ei effaith yn dra gwahanol i eiddo y manna, fod bwyta o'r bara hwn yn cynhyrchu ac yn diogelu anfarwoldeb i ddyn.

Adn. 51. Nid yw yr adnod hon ond ail-adroddiad o'r hyn a ddywedwyd yn yr adnodau blaenorol, 48 a 50, hyd nes y deuir at y frawddeg olaf. **A'r bara a roddaf fi, yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd.** Yn ol darlleniad arall o gryn bwysigrwydd, gadewir allan y geiriau "yr hwn a roddaf," a darllenir "*fy nghnawd i ydyw dros fywyd y byd*" (W. E.). Felly hefyd O. W. Dyma'r waith gyntaf i'r Iesu ddyweyd mai y bara yw ei gnawd, a dynoda ei natur ddynol ar ei hochr faterol a daearol. Cynwysa y gair "cnawd" felly nid yn unig ei Ymgnawdoliad, ond yr aberth hefyd a offrymodd yn ei gorph ei

nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd. 52. Yna yr Iuddewon a ymrysonasant â'u gilydd, gan ddywedyd, Pa fodd y dichon hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwytta? 53. Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni fwyttêwch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch. 54. Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol: ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf. 55. Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod

---

hun ar y groes, fel yr unig foddion i ddwyn bywyd tragwyddol i gyraedd dynion. Diau hefyd fod cyfeiriad yn y geiriau at yr arferiad Iuddewig o fwytta Oen y Pasg.

Adn. 52. **Pa fodd y dichon hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwytta?** Ymddengys fod yr Iuddewon wedi myned i ddadleu yn mhlith eu gilydd yn nghylch ystyr geiriau Crist yn adn. 51—pa un a oeddent i'w deall yn llythrennol, ai ynte yn ffugwrol neu arwyddluniol. Ac y mae yn ofidus meddwl fod cyffelyb anghydwelediad poenus yn parhau yn mhlith Cristionogion hyd heddyw. Mae y Pabyddion a'u hefelychwyr gwasaidd y blaid Ddefodol yn Eglwys Loegr, am ddeall y geiriau fel yr Iuddewon gynt, yn eu hystyr fwyaf llythrennol a materol, ac y mae eraill drachefn am eu deall mewn ystyr arwyddluniol ac ysprydol. Dyma'r golygiad a dderbynir gan y mwyafrif mawr o Brotestaniaid.

Adn. 53. **Oni fwyttewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfoch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch.** Gallai rywun dybio, ar yr olwg gyntaf, oddiwrth y geiriau hyn, fod Crist yn cadarnhau syniad cyfeiliornus yr Iuddewon am fwytta ei gnawd materol. Ond y mae yn rhaid dehongli y geiriau hyn yn ngoleuni ei ddysgeidiaeth yn adn. 63. Credaf fod y geiriau sydd yno yn allwedd sydd yn agor meddwl yr Iesu yn yr ymadroddion arwyddluniol a ddefnyddia. Nid yw bwytta ei gnawd yn llythrennol, pe byddai hynny yn bosibl, yn "lleshau dim;" ond bwytta yn ysprydol a olygir; dyfod i'r fath undeb agos â'r Iesu trwy ffydd nes cyfranogi o'i gyfoeth, o'i fywyd, ac o'i bob peth.

Adn. 54. **Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, &c.** Yr un syniad ag yn yr adnod flaenorol ond mewn ffurf gadarnhaol, ac nid nacaol. Dylid sylwi fod y ferf, *trôgô*, ddefnyddir yma am fwytta yn wahanol i'r ferf *phagô* gyfieithir bwytta yn yr adnod o'r blaen, a bod amseriad y ddwy ferf yn wahanol. Yno defnyddir yr amser amhenodol *(aorist tense—phagête)* i ddesgrifio y weithred orphenedig o fwytta trwy ba un y mae y credadyn yn *cael* bywyd. Ond yma defnyddir y rhangymeriad presennol *(present participle—trôgôn,* sydd yn golygu *parhad* y weithred o fwytta fel amod parhad y bywyd ysbrydol. Ac mae y gair hefyd yn cynnwys yr elfen chwanegol o fywyd.

Adn. 55. **Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir.** Sicrheir ni yma gan Grist, fod credu ynddo, a bod mewn undeb âg ef yn troi yn ymborth sylweddol, ac yn faeth ysprydol i'r enaid.

yn wir. 56. Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau. 57. Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy y Tad : felly yr hwn sydd yn fy mwytta i, yntau a fydd byw trwof fi. 58. Dyma y bara a ddaeth i waered o'r nef : nid megis y bwyttaodd eich tadau chwi y manna, ac y buont feirw. Y neb sydd yn bwytta y bara hwn, a fydd byw yn dragywydd. 59. Y pethau hyn a ddywedodd efe yn y synagog, wrth athrawiaethu yn Capernaum. 60. Llawer gan hynny o'i ddisgyblion, pan glywsant, a ddywedasant, Caled yw yr ymadrodd hwn ; pwy a ddichon wrandaw arno? 61.

Adn. 56. **Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i.** Megys y mae bwytta ac yfed yn cymhathu *(assimilate)* elfenau allanol, ac yn eu troi yn faeth ac yn gynhaliaeth i'r corph, felly y mae ffydd yn Nghrist, sef, bwytta ei gnawd ac yfed ei waed yn cymhathu yr iachawdwriaeth sydd ynddo ef, ac yn ei throi yn faeth ac yn gynhaliaeth ysprydol i'r enaid. Credaf gydag Augustine mai yr un peth yn hollol yw bwytta a chredu, ac nid credu yn gyntaf, a bwytta wedi hynny, fel y tybia eraill. "*Believe, and thou hast eaten.*" **Sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau.** Mae bwytta yn uno y credadyn â Christ, nes y mae y naill yn dyfod yn rhan o'r llall, fel y goeden a'r ganghen.

Adn. 57. **Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy y Tad, &c.** Megys ag yr oedd Crist fel Cyfryngwr yn dibynu ar y Tad am ei fywyd, felly y mae y credinwyr yn dibynu arno yntau am eu bywyd.

Adn. 58. **Dyma y bara a ddaeth i waered o'r nef, &c.** Dychwel yr Iesu yn ol yn y geiriau hyn i'r fan y cychwynodd ; yn adn. 30. Dechreuwyd yr ymddiddan gyda'r manna yn yr anialwch, a diweddir gydag ef hefyd, a dengys ragoriaeth effeithiau y gwir fara ar y manna. Y naill yn sicrhau anfarwoldeb, a'r llall yn terfynu mewn marwoldeb.

Adn. 59. **Yn y synagog, wrth athrawiaethu yn Capernaum.** Dyma arwydd arall o wirionedd hanesyddol yr efengyl. A thybio mai yr un lle yw Tell Hûm a Capernaum, y mae adfeilion yr hen synagog y llefarai Crist ynddi i'w gweled yno heddyw.

60—71. GWAHANOL EFFEITHIAU Y BREGETH AR EI WRANDAWYR.

Adn. 60. **Llawer gan hynny o'i ddisgyblion.** Defnyddir y gair *disgyblion* yma mewn ffordd lac ; nid neb o'r ddeuddeg a olygir, ond rhai yn ei ganlyn gyda graddau mwy neu lai o gysondeb. **Caled yw yr ymadrodd hwn; pwy a ddichon wrandaw arno?** Nid anhawdd ei ddeall, ond anhawdd ei dderbyn. Y syniad o fwytta cnawd ac yfed gwaed oedd yn eu tramgwyddo.

Pan wybu yr Iesu ynddo ei hun, fod ei ddisgyblion yn grwgnach am hyn, efe a ddywedodd wrthynt, A ydyw hyn yn eich rhwystro chwi? 62. Beth gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen? 63. Yr yspryd yw yr hyn sydd yn bywhâu; y cnawd nid yw yn llesâu dim: y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt, a bywyd ydynt. 64. Ond y mae o honoch chwi rai nid ydynt yn credu. Canys yr Iesu a wyddai o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef. 65. Ac efe a ddywedodd, Am hynny y dywedais wrthych, na ddichon neb ddyfod attaf fi, oni bydd wedi ei roddi

---

Adn. 61. **A ydyw hyn yn eich rhwystro chwi?** *A ydyw hyn yn peri i chwi dramgwydd?* (W. E.). Nid casglu hyn oddiwrth eu geiriau ddarfu yr Iesu, ond ei wybod fel Person goruwch-ddynol. Yr oedd yn deall dirgel feddyliau eu calonau.

Adn. 62. **Beth gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?** Gwelir fod y frawddeg hon yn anorphenedig. Awgryma rywbeth sydd heb ei fynegu, megys, Bydd hynny yn fwy o achos tramgwydd i chwi. Dyrchafu i ba le? I'r groes, ebai rhai; i'r nefoedd, ebai eraill. Credaf mai i'r nefoedd a olygir fel y "lle yr oedd efe o'r blaen."

Adn. 63. **Yr yspryd yw yr hyn sydd yn bywhau.** Cyfeiriad, yn ddiau, at y Trydydd Person yn y Drindod. Efe yw "yr Arglwydd a'r Bywiawdwr" (*"The Lord and Giver of life"*). **Y cnawd nid yw yn lleshau dim.** Mae y geiriau hyn yn ddyrnod marwol i Drawsylweddiad, a Chydsylweddiad hefyd. Pe bai yn bosibl i offeiriadon honiadol a rhyfygus droi y bara a'r gwin yn y Sacrament yn wir gnawd ac yn wir waed Crist, pa leshâd fyddai hynny? Nid efengyl gnawdol a materol sydd gan Grist ar gyfer angen y byd; ond un feddyliol ac ysprydol, yn cael ei chyfleu trwy gyfrwng geiriau sydd yn yspryd ac yn fywyd.

Adn. 64. **Ond y mae o honoch chwi rai nid ydynt yn credu;** sef, y rhai oeddent yn tramgwyddo wrth ei eiriau, ac yn gwrthod ei ddysgeidiaeth. **Canys yr Iesu a wyddai o'r dechreuad.** Dechreuad ei weinidogaeth, gyda chyfeiriad arbenig at Judas. Ni chafodd Crist ei dwyllo yn Judas; yn rhinwedd ei ragwybodaeth, gwyddai mai ei fradychu a wnaethai, ond yr oedd am roddi iddo bob chwareu teg; canys fe allasai Judas ymddwyn yn wahanol i'r modd y gwnaeth. Nid yw rhagwybodaeth yn gwneyd yr un dewisiad yn rheidiol ac anocheladwy.

Adn. 65. **Am hynny y dywedais wrthych, na ddichon neb ddyfod attaf fi, oni bydd wedi ei roddi iddo oddiwrth fy Nhad.** Amcan y geiriau hyn yw cyfrif am fod rhai yn gwrthod ei ddysgeidiaeth ysprydol. Y rheswm am hynny oedd, nad oeddent yn nosbarth y credinwyr, sef, y rhai oedd wedi ildio i'r atdyniad grasol a dwyfol, ac felly wedi ei rhoddi i Grist gan

iddo oddi wrth fy Nhad. 66. ¶ O hynny allan llawer o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gyd âg ef. 67. Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith? 68. Yna Simon Petr a'i hattebodd ef, *O* Arglwydd, at bwy yr awn ni? gennyt ti y mae geiriau bywyd tragywyddol. 69. Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw. 70. Iesu a'u hattebodd hwynt, Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg, ac o honoch y mae un yn ddiafol? 71. Eithr efe

---

y Tad. Pe buasai yn y geiriau "etholedigaeth ddiamodol," a "galwad anorchfygol," buasai hynny yn rheswm digonol dros eu hangrediniaeth, ac yn eu cyfiawnhau, yn hytrach nag yn eu condemnio.

Adn. 66. **O hynny allan llawer o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hol.** Gwell: *Ar hyn llawer yn mhlith ei ddisgyblion ef a aethant ymaith at y pethau ar ol* (W. E.), sef, at eu goruchwylion, y rhai a adawsant pan y dechreuasant ganlyn Crist. O dan ddylanwad siomedigaeth ynddo am nad oeddent yn deall ei ddysgeidiaeth ysprydol, "ni rodiasant mwyach gydag ef."

Adn. 67. **A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?** Mae *mê* sydd yn y gofyniad yn y wreiddiol yn disgwyl am atebiad nacaol. Fel pe dywedasai yr Iesu: Nid ydych chwithau hefyd am fyned ymaith, tybed? "*You do not wish to go away too, do you?*" (Bruce). Teimlai yr Iesu yn hyderus pwy bynnag fyddai yn ei adael y byddai i'r deuddeg, neu o leiaf yr un-ar-ddeg, lynnu yn ffyddlon wrtho ef.

Adn. 68. **At bwy yr awn ni?** Llefarai Simon Pedr fel arweinydd, nid drosto ei hun yn unig, ond dros y deuddeg hefyd. Nid oes gennym neb arall i droi ato. **Gennyt ti y mae geiriau bywyd tragywyddol.** Geiriau sydd yn datguddio bywyd tragwyddol, ac hefyd yn ei gynhyrchu, ac yn ei gynnal yn ein calonau.

Adn. 69. **Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw.** Yn ol y darlleniadau goreu: "*Tydi yw Sanct Duw.*" Felly O. W., W. E., a phob beirniad o bwys. "*The Holy One of God*" (W.). O gyffes ardderchog, a rheswm digonol am eu hymlyniad diysgog wrth yr Iesu! Golyga "gwybod" yma, dyfod i wybod yn raddol, trwy sylwi a myfyrio.

Adn. 70. **Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg?** I fod yn apostolion, yn dystion droswyf i'r byd. Cyfeirir yn fynych at y dewisiad hwn (Pen. xiii. 18; Luc vi. 13; Act. i. 2). **Ac o honoch y mae un yn ddiafol?** Credai yr Iesu wrth ddewis Judas fod yna bosibilrwydd gwirioneddol iddo droi allan, o dan ddylanwad ei addysg a'i esiampl, yn wahanol i'r modd y gwnaeth: ac onide y mae yn anhawdd meddwl y buasai yn ei ddewis o gwbl. A llefaru ar wedd ddynol, cafodd ei siomi ynddo.

a ddywedasai am Judas Iscariot, *mab* Simon : canys hwn oedd ar fedr ei fradychu ef, ac efe yn un o'r deuddeg.

Adn. 71. **Eithr efe a ddywedasai am Judas Iscariot, mab Simon.** Iscariot sydd derm Hebraeg, yn golygu fod tad Judas yn ŵr o Kerioth, tref yn Judea (Jos. xv. 25). Y bradychwr oedd yr unig un yn mhlith y deuddeg oedd yn frodor o Judea. Galileaid oedd y lleill oll.

Cyn gadael y bennod hon, tueddir fi i wneuthur ychydig o sylwadau yn mhellach, ar ddysgeidiaeth Crist am dano ei hun fel Bara y Bywyd. Mae yna wahaniaeth barn yn mhlith ei esbonwyr gyda golwg ar y cwestiwn—A oes cyfeiriad o gwbl yn ei ddysgeidiaeth yma at y Sacrament o Swper yr Arglwydd? Etyb rhai esbonwyr yn gryf a phenderfynol nad oes dim. A dadleua esbonwyr eraill fod yn y geiriau gyfeiriad diamheuol at Swper yr Arglwydd. Pa un bynnag a oes yma gyfeiriad at hynny ai peidio, y mae yn anhawdd iawn peidio meddwl nad oedd Crist yn dysgu *yr un gwirionedd* mawr a phwysig yma ag a ddysgodd yn sefydliad y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Cydmarer ei eiriau yma gyda'i eiriau wrth sefydlu y Swper Sanctaidd, "Oni fwyttewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch" (adn. 53). "Cymmerwch, bwyttewch : hwn yw fy nghorph" (Marc xiv. 22). "Hwn yw fy ngwaed i o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer" (Marc xiv. 23, 24). Eglur yw mai yr un gwirionedd ysprydol a ddysgir yma ag a ddysgwyd ar ol hyn yn sefydliad y Swper, a dysgir ef hefyd yn yr un geiriau. Nid oes dim cnawdol a materol yno, fwy nag yma, ond arwyddlun yn unig. Arwyddlun allanol yn unig yw bwytta y bara, ac yfed y gwin, o waith yr enaid yn ymborthi yn ysprydol ar Grist. Mae'r Iesu mewn gwirionedd wedi rhagflaenu y cyfeiliornad Pabaidd o'i eiriau yma, ac o'r Sacrament o Swper yr Arglwydd. trwy ddywedyd, "Y cnawd nid yw yn lleshau dim," "*The bare carnal literal meaning profiteth nothing,*" ebai Wesley. Yn ei ddysgeidiaeth yma y mae yr Iesu, yn ol ei arfer, yn egluro y gwirionedd cyn corphori y gwirionedd mewn ordinhad. Credaf, gan hynny, nad yw ymborthiant ysprydol y credadyn, wrth gyfranogi o Swper yr Arglwydd, ddim yn hanfodol wahanol i'w ymborthiant trwy ffydd ar Grist, o dan amgylchiadau cyffredin. Ac yma yr wyf yn gwahaniaethu oddiwrth yr Uchel Eglwyswyr, heb sôn am y Pabyddion. Daliant hwy fod yna ryw ymborthi *neilldual* ar Grist yn y Sacrament o Swper yr Arglwydd sydd yn hanfodol er cynhaliaeth bywyd ysprydol yr enaid. Gwell gennyf fi gredu gyda Dr. Bruce, fod y bregeth hon o eiddo'r Iesu "yn dyweyd mewn *geiriau* arwyddluniol yr hyn a ddywed y swper mewn *gweithred* arwyddluniol, mai Crist croeshoeliedig ydyw bywyd dynion," ac mai trwy ymborthi yn ysprydol arno Ef trwy ffydd, y byddant byw. Yr ydym yn bwytta cnawd Mab y dyn, ac yn yfed ei waed ef, pa bryd bynnag yr ydym yn credu yn wirioneddol ynddo ef ; ond y mae Swper yr Arglwydd yn sicr o fod yn gymorth inni, tra yn y corph, i sylweddoli hynny yn gliriach, yn fwy byw, ac yn fwy *realistic*. Mae gennyf, ar yr un pryd, lawer o gydymdeimlad â'r rhai sydd yn credu fod yna fesur o gyfrinlaeth yn Swper yr Arglwydd. Fel "*the mystical nourishment of Christ*" y soniai y diweddar Dr. W. B. Pope am dano. Nis gall unrhyw eglurhad lwyr hysbyddu ystyr dysgeidiaeth ddofn ac ysprydol Crist. Terfyna y gweddill ohoni y cyfriniol.

PENNOD VII.

A'R Iesu a rodiodd ar ol y pethau hyn yn Galilea : canys nid oedd efe yn chwennych rhodio yn Judea, oblegid bod yr Iuddewon yn ceisio ei ladd ef. 2. A gwyl yr Iuddewon, *sef* gwyl y pebyll, oedd yn agos. 3. Am hynny ei frodyr ef a ddywedasant wrtho, Cerdda ymaith oddi yma, a dos i Judea : fel y gwelo dy ddisgyblion dy weithredoedd di y rhai yr ydwyt yn eu gwneuthur. 4.

Ymweliad Cyfrinachol yr Iesu a Jerusalem yn ystod Gwyl y Pebyll.

1—13. Gwrthwynebiad ei frodyr iddo, a dyfaliad y bobl yn ei gylch.

Adn. 1. **A'r Iesu a rodiodd ar ol y pethau hyn yn Galilea, &c.** Anhawdd yw penderfynu ar ystyr y geiriau hyn gan mor amwys a phen agored ydynt. Y dybiaeth sydd debycaf o fod yn gywir yw, i'r Iesu aros yn Galilea am ryw gymaint o amser, ar ol yr hyn a gofnodir yn y chweched bennod ; ac nad aeth i Jerusalem i'r Pasg y crybwyllir am dano yn vi. 4 ; ac felly fod ei arhosiad yn Galilea y tro hwn yn ymestyn dros chwe' mis ; o amser y Pasg yn Ebrill, hyd Wyl y Pebyll yn yr Hydref. Y rheswm iddo ymgadw o Judea oedd gelyniaeth yr Awdurdodau Iuddewig tuag ato, a'u parodrwydd i'w ladd ef, ond iddynt gael cyfleustra. Ac am hyn nid oedd yr Iesu "yn ewyllysio rhodio yn Judea."

Adn. 2. **A gwyl yr Iuddewon, sef gwyl y pebyll, oedd yn agos.** Cynhelid yr wyl hon yn niwedd Medi a dechreu Hydref, ac yr oedd yn parhau am saith niwrnod. Trigai y bobl mewn pebyll, er côf am yr amser yr oedd eu tadau gynt yn trigo mewn pebyll ar eu taith trwy'r anialwch o'r Aipht i Ganaan, Lef. xxiii. 34 ; Deut. xvi. 13—15. Yr oedd hefyd yn wyl diolch am y cynhauaf, ac felly yr oedd yn un o'r tair prif wyliau ; y Pasg a'r Pentecost oeddent y ddwy arall. Geilw Josephus yr wyl hon "y sancteiddiaf a'r bennaf."

Adn. 3—5. **Am hynny ei frodyr ef a ddywedasant wrtho, Cerdda ymaith oddiyma, a dos i Judea, &c.** Gwêl nodiad ar ii. 12. Nid oedd y brodyr hyn yn credu yn yr Iesu. Nid oedd yn ymddwyn ac yn gweithredu yn gyson â'u disgwyliadau. Amlwg yw ei fod yn cyflawni gweithredoedd (gwyrthiau) oedd yn eu llanw â syndod a rhyfeddod. Ond os yr Iesu oedd y gwir Fessiah, methent a deall paham yr arhosai mewn rhyw gongl anhysbys fel Galilea, yn lle myned ar unwaith i Jerusalem, ac yno gyflawni gwyrthiau hynod, fuasai yn tynnu sylw y bobl, nes peri iddynt ymdyru o'i gwmpas yn llawn brwdfrydedd, a'i alluogi i sefydlu ei deyrnas ddaearol yn y fan. Ac oherwydd nad oedd yn gweithredu felly, ni fynnai ei frodyr, er ei holl ragoriaethau, gredu ynddo ef. Eu syniadau cyfeiliornus am Fessiah daearol oedd yn eu dyrysu.

Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn ddirgel, ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd : od wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy hun i'r byd. 5. Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo. 6. Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt hwy, Ni ddaeth fy amser i etto : ond eich amser chwi sydd yn wastad yn barod. 7. Ni ddichon y byd eich casâu chwi ; ond myfi y mae yn ei gasâu, o herwydd fy mod i yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg. 8. Ewch chwi i fyny i'r wyl hon: nid wyf fi etto yn myned i fynu i'r wyl hon, oblegid ni chyflawnwyd fy amser i etto. 9. Gwedi iddo ddywedyd y pethau hyn wrthynt, efe a arhosodd yn Galilea. 10. ¶ Ac wedi

---

Adn. 6. **Ni ddaeth fy amser i etto; ond eich amser chwi sydd yn wastad yn barod.** Wrth amser yma y golygai yr Iesu "amser cyfaddas," yr amser doeth a diogel iddo fyned i Jerusalem, fel ag i sylweddoli amcan mawr ei genhadaeth i'r byd. Gwyddai yr Iesu am yr "awr ryfedd" y byddai raid iddo farw, os oedd y byd i gael ei achub. Eithr nid oedd am redeg perygl o gael ei ddifetha gan ei elynion marwol cyn i'r awr benodedig honno ddyfod i ben. Ond yr oedd yn gyfleus ac yn ddiogel i'w frodyr fyned i fyny i'r wyl unrhyw adeg y gwelent yn dda, gan fod eu hyspryd hwy mewn cydgordiad âg yspryd y byd, ac nid yn wrthwynebol iddo.

Adn. 7. **Ni ddichon y byd eich casau chwi.** Nid yw y byd byth yn casau y rhai sydd yn cydweithredu âg ef, ac mewn cydymdeimlad â'i amcanion. **Ond myfi y mae yn ei gasau, oherwydd fy mod i yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.** Dyma oedd yn cynhyrfu gelyniaeth y byd Iuddewig yn erbyn yr Iesu ; ei onestrwydd yn tystiolaethu yn erbyn ei ddrygioni, ac felly yn ei ddinoethi. Ac nid yr Iesu yw yr olaf acth i wrthdarawiad â'r byd wrth gyhoeddi ei dwyll a'i ddrygioni. Eithr ni fu neb mor onest a gwrol a'r Iesu.

Adn. 8. **Nid wyf fi etto yn myned i fynu i'r wyl hon, oblegid ni chyflawnwyd fy amser i etto.** *Nid wyf fi yn myned i fyny i'r wyl hon, oblegyd nid yw fy amser cyfaddas i wedi ei gyflawni eto* (W. E.). Nid oes sail o gwbl yn y geiriau hyn i gyhuddo yr Iesu o anwadalwch fel y gwnaed gan rai. Nid bwriad yr Iesu oedd peidio myned iddi o gwbl, ond peidio a myned iddi yn gyhoeddus, yn ol anogaeth ei frodyr, peidio cychwyn gyda'r dyrfa yr oedd ei frodyr yn cyd-deithio â hwynt. Ni ddywed "Ni *fyddaf* yn myned," ond "nid *wyf* yn myned yn awr, yn bresennol." Disgwyliai yr Iesu am ryw amnaid o ewyllys ei Dad cyn yr elai i fyny i Jerusalem, a phan y cafodd ef, y mae yn cychwyn yno Yr oedd ei holl symudiadau yn cael eu rheoli gan ewyllys ei Dad. Efe oedd yn penderfynu ei amser ef.

Adn. 9. Arhosodd am ryw nifer o ddyddiau ar ol ei frodyr yn Galilea.

myned o'i frodyr ef i fyny, yna yntau hefyd a aeth i fynu i'r wyl ; nid yn amlwg, ond megis yn ddirgel. 11. Yna yr Iuddewon a'i ceisiasant ef yn yr wyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe ? 12. A murmur mawr oedd am dano ef ym mysg y bobl. Canys rhai a ddywedent, Gŵr da yw : ac ereill a ddywedent, Nag ê ; eithr twyllo y bobl y mae. 13. Er hynny ni lefarodd neb yn eglur am dano ef, rhag ofn yr Iuddewon. 14. ¶ *Ac* yr awrhon ynghylch canol yr wyl, yr Iesu a aeth i fynu i'r deml, ac a athrawiaethodd. 15. A'r Iuddewon a ryfeddasant, gan

---

Adn. 10. **Yna yntau hefyd a aeth i fynu i'r wyl.** Cred rhai nad yw y geiriau hyn yn rhoddi sail i gredu i'r Iesu fyned i'r *wyl* o gwbl, ond mai i Jerusalem yn unig yr aeth. Yn ol y darlleniadau goreu, gyda'i frodyr y mae y geiriau "i'r wyl" i'w cysylltu, ac nid gyda'r Iesu. "Ond pan aeth ei frodyr *i fyny i'r wyl*, yna efe ei hun a aeth i fyny," &c. Ni ymddangosodd yr Iesu yn Jerusalem nes tua chanol yr wyl. **Nid yn amlwg, ond megis yn ddirgel.** Nid aeth gyda'r dyrfa oedd yn myned i Jerusalem i'r wyl, ond wrtho ei hun, heb dynnu sylw neb ; nid aeth ychwaith, mae'n debyg, ar hyd y ffordd arferol o Galilea i Jerusalem, sef, trwy Perea. Tebygol yw iddo fyned ar ei union trwy Samaria, ac felly caffai fyned yn dawel heb dynnu sylw neb ato ei hun.

Adn. 11. **Yna yr Iuddewon a'i ceisiasant ef yn yr wyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe?** Tebygol mai nid at y bobl gyffredin y cyfeirir yn y gair "Iuddewon" yma, ond at yr arweinwyr a'r pennaethiaid yn Jerusalem, y rhai oedd yn awyddus am ei weled yn yr wyl er mwyn ei ddal, a'i gondemnio, a'i ladd, pe meiddient. Gwahaniaethir rhwng yr "Iuddewon" a'r "bobl."

Adn. 12, 13. **A murmur mawr oedd am dano ef ym mysg y bobl.** Ystyr y gair "murmur" yw sibrwd, sisial, heb lefaru allan yn eofn a chyhoeddus. Yr oedd gwahanol farnau yn eu mysg am dano, rhai yn tystio mai gŵr da ydoedd, ac eraill yn haeru mai twyllwr, un yn arwain y bobl ar gyfeiliorn ydoedd. Ni ddywedai y rhai oedd yn ffafriol i'r Iesu eu syniadau am dano yn gyhoeddus, ac yn groew, rhag ofn yr Iuddewon, sef, yr awdurdodau yn Jerusalem. Y fath wasteidd-dra anheilwng i awdurdod dynion, onide !

14—36. Yn dadleu gyda gwahanol ddosbarthiadau, ac yn terfynu yn ngwaith y Sanhedrim yn dangos eu gelyniaeth tuag ato.

Adn. 14. **Ac yr awrhon ynghylch canol yr wyl, &c.** "*Ond pan yr oedd weithian ganol yr wyl.* Y pedwerydd dydd ohoni oedd ei chanol, a dyma'r adeg y cyrhaeddodd yr Iesu Jerusalem, ac yn ebrwydd aeth i'r deml a dechreuodd ddysgu yno. Daeth yno, nid fel Iuddew cyffredin, ond fel prophwyd yn meddu cenadwri arbennig i'w thraethu.

ddywedyd, Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac *yntau* heb ddysgu? 16. Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i. 17. Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru. 18. Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun: ond yr hwn sydd yn

---

Adn. 15. **A'r Iuddewon a ryfeddasant.** Nid y bobl gyffredin a feddylir, ond yr un rhai ag yn adn. 11—yr awdurdodau yn cynnwys Rabiniaid a'r Ysgrifenyddion. Cyd. Luc ii. 47. Er gwaethaf eu gelyniaeth a'u malais, nis gallent lai na chanfod ryw nerth a newydd-deb yn ei ddysgeidiaeth, nes rhyfeddu ato. **Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu?** "*Pa fodd y gwyr hwn lenyddiaeth, ac heb yntau gael ei ddwyn i fyny fel Rabbi Iuddewig?*" (W. E.). Dyma oedd yn eu synnu, ei fod yn arddangos y fath wybodaeth helaeth, a'r fath fedr arbennig wrth ymdrin â chwestiynau Ysgrythyrol.

Adn. 16. **Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i.** Datguddia yr Iesu iddynt ddirgelwch ei ddoethineb. Nid oedd am gelu y gwirionedd er mwyn dyrchafu ei hun yn ngolwg yr Iuddewon, ond cydnebydd yn rhwydd ac ar unwaith iddo dderbyn ei ddysgeidiaeth gan ei Dad. Pa ragoriaeth bynnag oedd yn ei ddysgeidiaeth, yr oedd am i'w Dad gael y gogoniant.

Adn. 17. **Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth,** neu, efe a ddaw i wybod. Llwybr ufudd-dod i ewyllys Duw yw y ffordd i ddeall dysgeidiaeth Crist, ac i gael sicrwydd o'i gwirionedd. Pe buasai llawer Anffyddiwr ac Amheuwr wedi dechreu ufuddhau i ewyllys Duw mor bell ag yr oeddent yn ei deall ar y pryd, yn hytrach na myned i feirniadu a dadleu, buasent wedi dyfod i'r goleu yn hytrach nag ymddyrysu mewn tywyllwch dudew. Ac anufudd-dod i'r ewyllys Ddwyfol oedd yr achos o ddallineb ysprydol yr Iuddewon, ac o'u hanghrediniaeth. Am nad oeddent yn ffyddlon i'r gwirionedd llai oedd yn eu meddiant, nid oeddent yn alluog i ddirnad y gwirionedd mwy a ddysgai yr Iesu.

Adn. 18. **Y mae'r hwn sydd yn llefaru ohono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun, &c.**—yn llefaru heb dderbyn cenadwri oddiwrth Dduw, ac heb fod o dan unrhyw ymdeimlad o gyfrifoldeb, ond yn dibynu ar ei ddychmygion gwag ac ofer ei hun. Meddwl amdano ei hun y mae, ac am ei ogoniant ei hun yn unig. **Ond yr hwn sydd yn ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef.** Yn lle *sydd eirwir* darllener *sydd wir.* Llefara yr Iesu yma o ddyfnder ei ymwybyddiaeth; yr oedd ei ymddygiad a'i brofiad yn cyfateb i'w gilydd. Gwyddai ei fod ef ei hun yn *wir*, "yn gywir ei ddeall, yn onest ei amcan, a phur ei ewyllys." Nid oedd ynddo anghyfiawnder, yr hwn sydd yn wreiddyn celwydd,

ceisio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef. 19. Oni roddes Moses i chwi y gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith? Paham yr ydych yn ceisio fy lladd i? 20. Y bobl a attebodd ac a ddywedodd, Y mae gennyt ti gythraul: pwy sydd yn cesio dy ladd di? 21. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un weithred a wneuthum, ac yr ydych oll yn rhyfeddu. 22. Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad; (nid o

---

Sonia Paul yn bur briodol am "y rhai sydd yn attal y gwirionedd trwy anghyfiawnder" (Rhuf. i. 18), ac am fod "yn anufudd i'r gwirionedd, ac yn ufudd i anghyfiawnder" (Rhuf. ii. 8). Gwelir, felly, fod perthynas agos rhwng anghyfiawnder a chelwydd, ac yn wrthgyferbyniol, rhwng cyfiawnder a gwirionedd.

Adn. 19. **Oni roddes Moses i chwi y gyfraith, ac nid oes neb ohonoch yn gwneuthur y gyfraith?** Yr oedd yr Iesu yn flaenorol i hyn (v. 41—44) wedi cyferbynu ei hun yn gyffelyb i'r modd y gwna yma, gyda'r dysgawdwyr crefyddol yn Jerusalem. Cyhudda hwy o anghyfiawnder, a phrawf sicr o hynny oedd eu bod am ei ladd ef am iachau ar y Sabbath, pan yr oeddent hwy eu hunain yn euog o droseddu deddf y Sabbath. Ac heblaw hynny, troseddent ddeddf Moses trwy geisio lladd yr Iesu.

Adn. 20. **Y bobl a attebodd ac a ddywedodd, Y mae gennyt ti gythraul: pwy sydd yn ceisio dy ladd di?** Nid yw y geiriau "ac a ddywedodd" i fod i mewn yn ol y darlleniadau goreu. Yn eu hanwybodaeth, ni wyddai y bobl—y dyrfa—am fwriad yr awdurdodau Iuddewig yn Jerusalem i'w ladd ef. Ac oherwydd hynny, tybiasant y rhaid fod yr Iesu yn dechreu dyrysu—fod yspryd aflan wedi ei feddiannu, ac o dan ei ddylanwad yn cario meddwl ofnus fod rhywun am ei ladd yn barhaus.

Adn. 21. **Un weithred a wneuthum, ac yr ydych oll yn rhyfeddu.** Darllenir y frawddeg hon ychydig yn wahanol gan rai beirniaid pwysig, trwy gysylltu "Am hynny" (Groeg, *dia toulo)* yn nechreu yr adnod nesaf gyda diwedd yr adnod hon, ac felly darllena, "*Un weithred a wnaethum, ac yr ydych oll yn rhyfeddu oherwydd hyn.*" Daw "oherwydd hyn" i mewn yn fwy eglur a naturiol yma nag yn nechreu yr adnod nesaf. Nid oes dim yn galw am "oherwydd hynny" yn nechreu adn. 22. Cyfeirio y mae yr Iesu yma at y weithred o iachau y claf wrth lyn Bethesda yn ystod ei ymweliad blaenorol â Jerusalem, v. 1, &c. Er ei bod yn weithred o drugaredd, rhyfeddent iddo feiddio ei chyflawni ar y dydd Sabbath, ac felly ei droseddu. Nid rhyfeddu at y wyrth yr oeddent, ond at ei ddrygioni yn iachau dyn ar y Sabbath.

Adn. 22. **Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad.** Gwell gadael "Am hynny" allan yma, a darllen, "*Moses sydd wedi rhoddi i chwi yr enwaediad*" (Lef. xii. 1—3), **(nid oherwydd ei fod o Moses, eithr**

herwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau ;) ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Sabbath. 23. Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabbath, heb dorri cyfraith Moses ; a ydych yn llidiog wrthyf fi, am i mi wneuthur dyn yn holliach ar y Sabbath ? 24. Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn. 25. Yna y dywedodd rhai o'r Hierosolymitaniaid, Onid hwn yw yr un y maent hwy yn ceisio ei ladd ? 26. Ac wele, y mae yn llefaru ar gyhoedd, ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho

---

o'r tadau;) (Gen. xvii. 9—14), **ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y Sabbath.** Ymddengys mai gosod i lawr ei gynseiliau y mae'r Iesu yn yr adnod hon, y rhai oedd yn anwadadwy, ac yn tynnu ei gasgliad yn y nesaf.

Adn. 23. **Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabbath, heb dorri cyfraith Moses; a ydych yn llidiog wrthyf fi, am i mi wneuthur dyn yn holliach ar y Sabbath?** Amcan yr Iesu yw ceisio dysgu yr Iuddewon i beidio dehongli deddf y Sabbath yn rhy lythrennol, ond i gymeryd golwg ysprydol ac eang arni. Yr oedd Moses, fel pe dywedasai yr Iesu, yn cymeradwyo deddf yr enwaediad, ac yn cymell ufudd-dod iddi arnoch chwi, er mai nid gan Moses y sefydlwyd hi, canys yr oedd wedi disgyn oddiwrth y Patriarchiaid ; y mae y ddeddf honno yn gorchymyn enwaedu ar yr wythfed dydd, er iddo ddisgyn ar y Sabbath ; ac yr ydych chwithau yn ufuddhau iddi. Yn awr, os yw deddf y Sabbath yn rhoddi ffordd i ddefod seremoniol fel yr enwaediad, oni ddylai roddi ffordd i weithred o drugaredd ? "Mae deddf cariad," ebai Plummer, "yn hŷnach nag unrhyw ddeddf seremoniol." Fel hyn, y mae amddiffyniad yr Iesu i'w waith yn anwrthwynebol.

Adn. 24. **Na fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn.** Barnu yn arwynebol, yn anghyson, ac yn ol y llythyren, yr oedd yr Iuddewon. Yr oeddent yn rhy ragfarnllyd a gelyniaethus tuag at yr Iesu i ganfod eu hanghysondeb eu hunain, yn enwaedu ar y Sabbath. Buasai barn deg a chyfiawn yn amddiffyn yr Iesu yn ogystal a hwy eu hunain. "Canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun : canys ti yr hwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau" (Rhuf. ii. 1).

Adn. 25. **Yna y dywedodd rhai o'r Hierosolymitaniaid, Onid hwn yw yr un y maent hwy yn ceisio ei ladd?** Gair arall am Jerusalemiaid yw Hierosolymitaniaid, preswylwyr Jerusalem. Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng cwestiwn y bobl hyn, a chwestiwn y dyrfa anwybodus yn adn. 20. Rhyfedda rhai o bobl Jerusalem oedd yn gwybod am fwriad drygionus yr awdurdodau yno, fod yr Iesu yn rhydd ac yn fyw ; tra yr oedd y dyrfa anwybodus yn rhyfeddu fod yr Iesu yn dychymygu fod neb yn meddwl am ei ladd ef.

Adn. 26. **Ac wele, y mae efe yn llefaru ar gyhoedd, ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho ef.** Ystyr y gair "ar gyhoedd" yw llefaru yn eofn, yn agored a diofn, a rhyfeddai rhai o drigolion Jerusalem ei fod yn

ef : a wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw Crist yn wir ? 27. Eithr nyni a adwaenom hwn o ba le y mae : eithr pan ddêl Crist, nis gŵyr neb o ba le y mae. 28. Am hynny yr Iesu, wrth athrawiaethu yn y deml, a lefodd ac a ddywedodd, Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o ba le yr ydwyf fi : ac ni ddeuthum i o honof fy hun, eithr y mae yn gywir yr hwn a'm hanfonodd i, yr hwn nid adwaenoch chwi. 29. Ond myfi a'i hadwaen :

---

cael ei oddef gan yr awdurdodau Iuddewig. **A wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hŵn yw y Crist yn wir?** Gwell : "*A ddaeth y Llywodraethwyr erioed i wybod mewn gwirionedd mai hwn yw y Crist?*" (W. E.). Tybient mai yr achos fod yr Iesu yn cael llonydd i lefaru mor hyf oedd, y gallai fod y Llywodraethwyr eu hunain, ar ol ymchwiliad i mewn i'w achos ef, wedi eu hargyhoeddi mai efe mewn gwirionedd oedd y Crist. Yr oedd yr argraff ffafriol wnaeth mawredd yr Iesu, a'i ddysgeidiaeth arnynt yn eu tueddu i ofyn y fath gwestiwn.

Adn. 27. **Eithr nyni a adwaenom hwn o ba le y mae: eithr pan ddel Crist, nis gwyr neb o ba le y mae.** Os oedd yna ogwydd yn eu meddyliau i gredu mai yr Iesu oedd y gwir Fessiah, dyma eu rhagfarnau yn eu dyrysu, ac yn eu rhwystro i gredu ynddo ef. Credent nad oedd neb yn gwybod o ba le y daeth y Messiah pan y gwnelai ei ymddangosiad. Pa sail oedd ganddynt i'r fath grediniaeth, y mae yn anhawdd dyweyd. Tybir mai eu hunig sail oedd geiriau y prophwyd Esaiah liii. 8, "Pwy a draetha ei oes ef?" Eithr nid oes sail o gwbl i'r fath dyb yn y geiriau crybwylledig.

Adn. 28. **Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o ba le yr ydwyf fi.** Gwyddai yr Iesu am feddyliau y bobl hyn, ac y mae am geisio symud ymaith y maen tramgwydd. Digon gwir, fel pe dywedasai y gwyddoch pwy yw fy nheulu, ac o ba le yr wyf yn enedigol,—gwyddoch am fy nharddiad yn ol y cnawd—ac y mae hyny yn achos tramgwydd i chwi. Eithr os mai hyn yw eithaf eich gwybodaeth amdanaf, nid ydych wedi fy neall i, na'm hadnabod yn iawn eto. **Ac ni ddeuthum ohono fy hun, eithr y mae yn gywir, yr hwn a'm hanfonodd i, yr hwn nid adwaenoch chwi.** Cyfeiria yr Iesu at ei genadwri. Nid ohono ei hun yr oedd wedi dyfod, ond i gyflwyno cenadwri Duw i'r byd, ac heb iddynt ei ddeall fel anfonedig y Tad, nis gallent ei adnabod. Nid oeddent yn adnabod ond y dyn allanol yn unig, heb ganfod ei fod yn amlygiad o'r Duw tragwyddol, ac yr oedd eu hanwybodaeth yn tarddu oddiar y ffaith, nad oeddent yn adnabod Duw ei hunan. Dywed fod yr hwn a'i hanfonodd *yn gywir*, hyny yw *yn wirioneddol, sylweddol* mewn gwrthgyferbyniad i'r ffugiol a'r twyllodrus.

Adn. 29. **Ond myfi a'i hadwaen: oblegid o hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i.** Nid rhyfedd ei fod yn adnabod y Tad, gan ei fod ohono ef trwy dragwyddol genhedliad, ac wedi ei anfon ganddo i

oblegid o hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i. 30. Am hynny hwy a geisiasant ei ddal ef: ond ni osododd neb law arno, am na ddaethai ei awr ef etto. 31. A llawer o'r bobl a gredasant ynddo, ac a ddywedasant, Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwyddion na'r rhai hyn a wnaeth hwn? 32. ¶ Y Phariseaid a glywsant fod y bobl yn murmur y pethau hyn am dano ef; a'r Phariseaid a'r arch-offeiriaid a anfonasant swyddogion i'w ddal ef. 33. Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Yr ydwyf fi ychydig amser etto gyd â chwi, ac yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd. 34. Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch: a lle yr ydwyf fi, ni ellwch

---

ddatguddio Duw, a'i feddwl, i ddynion. Dengys yr undod natur sydd rhyngddo â'r Tad, a'r gwaith ymddiriedwyd iddo i'w gyflawni, y rhaid ei fod yn adnabod y Tad.

Adn. 30. **Am hynny hwy a geisiasant ei ddal ef:** Golyga "hwy" yma, nid y bobl, ond y llywodraethwyr, y Sanhedrim wedi eu cynddeiriogi gan ei ymadroddion cryfion, "hwy a geisiasant ei ddal," yn fwy cywir, yr *oeddent yn ceisio* ei ddal ef, yn gwylio eu cyfleustra i syrthio arno ef. **Ond ni osododd neb law arno, am na ddaethai ei awr ef etto.** Tebyg mai rhyw fath o ofn—ofn y bobl—fe ddichon, oedd yn atal yr awdurdodau i osod eu dwylaw arno, neu yn llythrenol *taflu* eu llaw arno. Ond tu ol i ofn y bobl, yr oedd cynllun Duw. Nid oedd ei "awr" i ddioddef wedi dyfod eto. Ac hyd nes i'r awr honno wawrio yr oedd Duw, trwy ryw foddion neu gilydd, yn ffrwyno eu cynddaredd, fel nad allent ei ddal ef (Pen. xiii. 1).

Adn. 31. **A llawer o'r bobl a gredasant ynddo.** Gyda ffydd arwynebol ac ansefydlog, tebyg i'r rhai y cyfeirir attynt yn Pen. ii. 23, 24. **A wna efe fwy o arwyddion na'r rhai hyn a wnaeth hwn?** Credent ynddo fel y Messiah, mae'n wir, ond ffydd ydoedd yn dibynu ar gyflawniad gwyrthiau, a ffydd allanol, heb gynwys dirnadaeth ysprydol ohono, fel Gwaredwr a Pherson Dwyfol. Nid dyma'r ffydd sydd yn uno dynion â Christ, ac yn eu hachub.

Adn. 32. **Y Phariseaid a glywsant fod y bobl yn murmur y pethau hyn am dano ef**—yn sisial ac yn sibrwd y pethau ffafriol hyn am yr Iesu. **A'r Phariseaid a'r Archoffeiriaid a anfonasant swyddogion i'w ddal ef.** Gwelsant nad oedd yna ddim amser i'w golli, gan ei fod yn dechreu dylanwadu yn ffafriol ar y bobl, rhag iddynt ymuno a chymeryd plaid yr Iesu. Ac am hynny anfonasant swyddogion i'w ddal ef, i gymeryd gafael arno, neu ei gipio. Yr oedd y swyddogion i wylio am gyfleustra ffafriol i ddal yr Iesu, ond ni chawsant ef.

Adn. 33, 34. **Wrthynt hwy.** Wrth y bobl, yn yr olwg ar y Swyddogion oedd wedi dyfod yno i'w ddal ef. **Ychydig amser eto,** yn mhen chwe mis yr oedd i gael ei roddi i farwolaeth. (Cyd. viii. 21: xiii. 33.) **Chwi a'm ceisiwch ac ni'm cewch.** Nid ceisio ei ladd a feddylir, ond ei geisio fel

chwi ddyfod. 35. Yna y dywedodd yr Iuddewon yn eu mysg eu hunain, I ba le y mae hwn ar fedr myned, fel na chaffom ni ef? ai at y rhai sydd ar wasgar ym mhlith y Groegiaid y mae efe ar fedr myned, a dysgu y Groegiaid? 36. Pa ymadrodd yw hwn a ddywedodd efe, Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch: a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod? 37. Ac ar y dydd diweddaf, y *dydd* mawr o'r wyl, y safodd yr Iesu, ac a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued attaf fi, ac yfed. 38. Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megis y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth

---

Gwaredwr, pan y byddai wedi myned yn rhy ddiweddar i'w gael. **A lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod.** Rhoir yma y presenol am y dyfodol, "lle yr ydwyf fi" am lle y *byddaf fi*. Pwysleisir ar y *fi* a'r *chwi*.

Adn. 35, 36. Pa un ai trwy ddylni eu meddyliau, ai ynte yn wirfoddol, y camddeallodd yr Iuddewon feddwl yr Iesu yma, y mae yn anhawdd penderfynu. **Ar wasgar ym mhlith y Groegiaid.** Cyfeirir yn y gair "ar wasgar" at yr Iuddewon gwasgaredig yn mhlith y rhai a lefarent yr iaith Roeg, yn bennaf yn Babilon, yr Aipht, a Syria. Tybiai Iuddewon Jerusalem mai bwriad yr Iesu oedd gadael y wlad a myned i ddysgu y rhai oedd ar wasgar. **Chwi a'm ceisiwch, &c.** Yr oedd y ddau ymadrodd hyn yn dywyll iddynt; methent yn hollol a'u deall, oherwydd diffyg ysprydolrwydd eu meddyliau.

37—52. Dadleu adnewyddol ar ddydd mawr yr wyl.

Adn. 37. **Dydd diweddaf,** sef yr wythfed dydd o'r Wyl, yr hwn a gedwid fel Sabbath, ac a elwid dydd yr Hosanna Mawr (Lef. xxiii. 36—39). **Y safodd yr Iesu ac a lefodd.** Eistedd y byddai y dysgawdwyr Iuddewig, wrth ddysgu, ac felly yr Iesu hefyd fel rheol, ond y tro hwn *sefyll* y mae, fel Prophwyd, *ac a lefodd* yn angerddoldeb ei deimlad. **Od oes ar neb syched, &c.** Credaf fod yr Iesu wrth lefaru y geiriau hyn, yn cyfeirio at Ffynnon Siloa, lle yr elai yr offeiriad gan dynu ystenaid o ddwfr, a'i dwyn i'r Deml pan y bloeddiai y bobl: "Gyda llawenydd y tynwch ddwfr o ffynhonau iachawdwriaeth," gan gyfeirio, y mae'n debyg, at y dwfr yn tarddu o'r graig yn yr anialwch. Gwelai yr Iesu ddynion yn sychedu yn ysprydol am ddwfr bywiol, a gwahoddai hwynt yn garedig at y Sylwedd mawr ei hun.

Adn. 38. **A ddylifant o'i groth ef.** Nid croth yr hwn sydd yn credu, fel y tybiai rhai, ond o groth yr Iesu, canys nid yw yr Iesu yn cyfeirio yma at yr hyn a fyddai y credadyn i eraill, ond at yr hyn a gaffai iddo ei hun. Mae yr adnod ddilynol yn penderfynu y rhaid mai dyma'r ystyr—"Yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ei dderbyn." Mae cyflawnder yn yr Iesu ar gyfer pob angen, ac nid yw y fath gyflawnder yn neb arall ond ynddo ef yn unig.

ef. 39. (A hyn a ddywedodd efe am yr Yspryd, yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn: canys etto nid oedd yr Yspryd Glân *wedi ei roddi*, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu etto.) 40. ¶ Am hynny llawer o'r bobl, wedi clywed yr ymadrodd hwn, a ddywedasant, Yn wir hwn yw y Prophwyd. 41. Eraill a ddywedasant, Hwn yw Crist. Eraill a ddywedasant, Ai o Galilea y daw Crist? 42. Oni ddywedodd yr ysgrythyr, Mai o

---

Adn. 39. **A hyn a ddywedodd efe am yr Yspryd, &c.** Eglurhad yr efengylwr yw yr adnod hon ar eiriau Crist. Gellir *gwahaniaethu* yr Yspryd a Christ, ond nid eu gwahanu. Y mae y fath undeb agos rhwng yr Yspryd a Christ, fel ag y gellir ei alw yn "*hunan arall*" Crist. Mae derbyn Crist yn cynnwys derbyn ei Yspryd ef. Gwir mai ar ddydd y Pentecost y daeth yr Yspryd yn ffurfiol i gyn-rychioli Crist, ac i weithredu yn ei le; ond rhaid bod yn ofalus i beidio anghofio, nad yw Crist ei hun mewn gwirionedd yn absennol, ond ei fod yn bresennol yn a thrwy ei Yspryd (Mat. xxviii. 20; Rhuf. viii. 9—11). **Canys etto nid oedd yr Yspryd Glan wedi ei roddi, oherwydd na ogoneddasid yr Iesu etto.** Yn ol y darlleniadau goreu: *Canys hyd yn hyn nid oedd yr Yspryd, canys ni ogoneddasid yr Iesu eto.* Cyfeirir yma, nid at ei *bersonoliaeth*, ond at ei *weithrediadau*. Nid oedd goruchwyliaeth yr Yspryd wedi dechreu, hyd nes i'r Iesu yn gyntaf orphen ei waith, a chael ei ogoneddu. Gwobr am ei waith cyfryngol yw yr Yspryd a'i weithrediadau. Rhaid oedd i'r efengyl gael ei gorphen cyn y gallasai yr Yspryd Glân ei ddefnyddio fel moddion i argyhoeddi ac achub dynion. Gwaith arbennig yr Yspryd yw gogoneddu yr Iesu, ac nis gallasai ddangos ei ogoniant, heb iddo yn gyntaf gael ei ogoneddu.

Adn. 40. **Yn wir hwn yw y Prophwyd.** Dyma'r argraff adawodd dysgeidiaeth yr Iesu ar liaws o'r rhai a wrandawsant, y rhaid mai efe oedd y prophwyd y disgwylid am dano. Diau mai cymysglyd oedd syniadau y bobl am y prophwyd ac am Grist. Yr oedd rhai yn eu gwahaniaethu, tra y tybiai eraill mai yr un un oeddent. Sail eu disgwyliad am ymddangosiad y Prophwyd oedd geiriau Moses, Deut. xviii. 15.

Adn. 41. **Ai o Galilea y daw Crist?** "*Beth! A ydyw Crist yn dyfod o Galilea?*" (W. E.). Gwelir oddiwrth yr adnod hon fod yn mhlith y dyrfa rai oedd yn credu yn gryf mai yr Iesu oedd y Crist—**Hwn yw Crist,** Salm ii. Ond yr oedd yno eraill yn bur amheus, o dan ddylanwad y dyb gyfeiliornus mai yn Galilea y ganwyd yr Iesu, ac felly yn ol y brophwydoliaeth, nad allasai fod "y Crist."

Adn. 42. **Oni ddywedodd yr ysgrythyr, mai o had Dafydd, ac o Bethlehem, y dref lle y bu Dafydd, y mae Crist yn dyfod?** Yr oedd gwybodaeth Ysgrythyrol y rhai hyn yn ddigon cywir, ond eu gwybodaeth hanesyddol am yr Iesu yn gyfeiliornus; a dyma oedd yn faen tramgwydd iddynt, ac yn eu rhwystro i gredu ynddo. Mae anwybodaeth a rhagfarn wedi gwneyd llawer o ddrwg i ddynion erioed.

had Dafydd, ac o Bethlehem, y dref lle y bu Dafydd, y mae Crist yn dyfod? 43. Felly yr aeth ymrafael ym mysg y bobl o'i blegid ef. 44. A rhai o honynt a fynnasent ei ddal ef: ond ni osododd neb ddwylaw arno. 45. ¶ Yna y daeth y swyddogion at yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid; a hwy a ddywedasant wrthynt hwy, Paham na ddygasoch chwi ef? 46. A'r swyddogion a attebasant, Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn. 47. Yna y Phariseaid a attebasant iddynt, A hudwyd chwithau hefyd? 48. A gredodd neb o'r pennaethiaid ynddo ef,

---

Adn. 43. **Felly yr aeth ymrafael ym mysg y bobl, &c.** O'r gair Groeg a gyfieithir yma yn ymrafael y mae y gair eglwysig "*sism*" wedi tarddu. Gwell cyfieithiad o'r gair yma fuasai *ymraniad* nag ymrafael. Yr oedd y dyrfa wedi ymranu o ran eu syniadau am yr Iesu, a'u teimladau tuag ato ef.

Adn. 44. **A rhai ohonynt a fynnasent ei ddal ef: ond ni osododd neb ddwylaw arno.** Amlwg yw fod yn mhlith y dyrfa rai mor elyniaethus tuag ato, fel ag yr oeddent mor barod i'w ddal ef a'r Llywodraethwyr, pe meiddient; ond yr oedd rhyw urddas a mawredd yn amgylchynu yr Iesu, oedd megys yn diffrwytho eu dwylaw, fel nas medrent ei gyffwrdd ef, er mor awyddus oeddent. Dichon hefyd fod ofn y bobl yn eu hattal i gyffwrdd yr Iesu.

Adn. 45. **Yna y daeth y swyddogion at yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid; a hwy a ddywedasant wrthynt hwy, Paham na ddygasoch chwi ef?** Gwelir fod y Sanhedrim wedi anfon eu swyddogion i ddal yr Iesu, ond yn lle ei ddal dychwelasant hebddo ef, a chafodd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid eu siomi yn fawr. Gofynasant yn flin ac yn chwerw i'r swyddogion, "Paham na ddygasoch ef?"

Adn. 46. **Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.** Dyma atebiad gonest y swyddogion, fel pe dywedasent: Yr oedd ei ddal yn gwbl amhosibl ar ol gwrando ei eiriau nerthol ac effeithiol. Dyma dystiolaeth i'r nerth a'r dylanwad oedd yn perthyn i leferydd yr Iesu, nes gorchfygu eu rhagfarn a'u hennill i gydnabod awdurdod ei eiriau.

Adn. 47. **A hudwyd chwithau hefyd?** neu "*A ydych chwithau hefyd wedi eich arwain ar gyfeiliorn?*" (W. E.). Canfyddai y Sanhedrim ar unwaith fod y swyddogion wedi eu gorchfygu gan ddylanwad geiriau yr Iesu.

Adn. 48. **A gredodd neb o'r pennaethiaid ynddo ef, neu o'r Phariseaid?** Nid cwestiwn o amheuaeth yw hwn, ond datganiad o hyder nad oedd neb o'r llywodraethwyr neu y Phariseaid wedi cymeryd eu hudo gan yr Iesu. Fel pe dywedasant wrth y swyddogion,—Nid oes neb ohonom ni wedi credu ynddo tybed? A dilyn ein hesiampl ni ddylasech chwi, ac nid dilyn y werin anwybodus.

Adn. 49. **Eithr y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt.** Fel pe dywedasant,—Nid oes dim pwys i'w roi ar eu barn a'u hesiampl hwy. Y fath syniad isel a dirmygedig oedd ganddynt am y dyrfa.

neu o'r Phariseaid? 49. Eithr y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt. 50. Nicodemus (yr hwn a ddaethai at yr Iesu o hyd nos, ac oedd un ohonynt) a ddywedodd wrthynt, 51. A ydyw ein cyfraith ni yn barnu dyn, oddi eithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe? 52. Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, A ydwyt tithau o Galilea? Chwilia a gwel, na chododd prophwyd o Galilea. 53. A phob un a aeth i'w dŷ ei hun.

Rhaid eu bod yn eithafol o ragfarnllyd a dallbleidiol, cyn y buasant yn llefaru fel hyn. Gan nad oedd y werin yn gydnabyddus âg esboniad y Rabiniaid ar y gyfraith, ymddygai y Llywodraethwyr yn y modd mwyaf trahaus tuag attynt, gan bentyru arnynt bob math o ddirmyg. "Melldigedig," hynny yw, "gwrthodedig gan Dduw" yw y bobl hyn.

Adn. 50, 51. **Nicodemus, &c.** Cawsant atebiad gan un ohonynt hwy eu hunain, sef, gan Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon, ac un o'r Phariseaid. Dyma'r ail dro i Nicodemus ddyfod i'r golwg, ac y mae yn amlwg ei fod mewn cydymdeimlad â'r Iesu yr ymwelsai yn flaenorol âg ef liw nos. Nid oedd arno ofn dangos ei fod yn bleidiol i'r Iesu, a gofyna yn hyf: **A ydyw ein cyfraith ni yn barnu dyn, oddi eithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe?** (Deut. i. 16, 17.) Yr oedd am i'r Iesu gael pob chwareu teg, ac efallai ei fod yn meddwl, ond i'r Iesu gael cyfle i egluro ei hun, ac i osod ei hawliau yn deg ger eu bron, y gallasent newid eu barn am dano. Pa fodd bynnag, gwelir mor eithafol o anheg yr oedd yr awdurdodau Iuddewig, ac i'r fath raddau yr oeddynt wedi ymgadarnhau mewn rhagfarn yn ei erbyn. Ni phetrusent fyned ar draws eu cyfraith eu hunain, yn hytrach nag ymddwyn yn deg ac yn gyfiawn tuag at yr Iesu.

Adn. 52. **A ydwyt tithau o Galilea? Chwilia a gwel, na chododd prophwyd o Galilea.** Yn hytrach na chymeryd eu hargyhoeddi o anhegwch eu hymddygiad tuag at yr Iesu, ni wnaeth apêl rhesymol Nicodemus ond cyffroi eu rhagfarn a'u teimladau drwg a chwerw yn waeth, nes dechreu edliw i Nicodemus, y rhaid fod yntau yn un o'r Galileaid, onide ni ddywedasai air o gwbl o blaid yr Iesu. Ni wnaethant unrhyw gais i ateb cyhuddiad cryf Nicodemus yn eu herbyn, a hynny am y teimlent nad allent wneyd hynny. Nid oedd yn ffaith nad oedd yr un Prophwyd wedi codi o gwbl o Galilea, canys yr oedd Jonah, ac eraill, wedi codi oddiyno. Yr ystyr, mae yn dra thebyg yw hyn, mai nid oddiyno y codai y Prophwyd mawr ac arbennig y disgwylient fel cenedl am dano. Neu ynte fel y dywed Westcott, "mai nid Gallea yw gwir wlad y prophwydi, ac nas gallwn ddisgwyl i'r Messiah ddyfod oddiyno." Dengys hyn eu hanwybodaeth anesgusodol o hanes gwirioneddol yr Iesu, canys nid o Galilea yr oedd yn enedigol, ond o Behlehem Judea.

Gyda'r adnod hon, yn ddiau, y terfyna y seithfed bennod,

Adn. 53. **A phob un a aeth i'w dy ei hun.** Nid at aelodau y Sanhedrim y cyfeirir yn unig, ond hefyd at y bobl oedd wedi bod yn ymddiddan â'r Iesu. Daeth y cyfarfod i derfyniad, a chwalodd y gynulleidfa i fyned i'w gwahanol gartrefi.

Credaf mai peth afresymol iawn oedd gwaith y sawl fu yn rhanu yr Efengyl hon yn benodau ac adnodau yn gwahanu yr adnod olaf o'r Ben. hon oddiwrth yr adn. 1 yn y Bennod nesaf. Un adnod ar bob cyfrif ddylasent fod, ac yn cael eu cysylltu nid gan *a'r*, eithr gan *ond*. *A phob un a aeth i'w dy ei hun, ond yr Iesu a aeth i fynydd yr Olewydd.*" Felly O. W., W., a phob cyfieithiad diweddar.

PENNOD VIII.

A'R Iesu a aeth i fynydd yr Olew-wydd : 2. Ac a ddaeth drachefn y bore i'r deml ; a'r holl bobl a

---

Yn ol y beirniaid mwyaf dysgedig a chymedrol, ni chydnabyddir dilysrwydd yr adran sydd yn dechreu gydag adnod pen. vii. 53 hyd adnod pen. viii. 11. Nid yw yn rhan wreiddiol o'r efengyl, ond gau-chwanegiad *(interpolation)* o eiddo rywun. Penderfynir hyn gan yr hyn a elwir yn feirniadaeth destynol. Amcan y feirniadaeth hon yw cael allan gyflwr gwreiddiol a dilys testyn gwahanol lyfrau y Testament Newydd. Trwy gydmaru â'u gilydd gynifer ag y mae'n bosibl o wahanol law-ysgrifau o'r Testament Newydd, ac yn enwedig y llaw-ysgrifau hynaf a phwysicaf, deuir i gasgliad lled ddiogel, sut yr oedd yr ysgrif yn ei chyflwr gwreiddiol. Pan y canfyddir geiriau neu adranau mewn llaw-ysgrifau diweddar a chydmarol ddibwys nad ydynt i mewn yn y llaw-ysgrifau hynaf a phwysicaf, deuir i'r penderfyniad fod y geiriau neu yr adranau hynny wedi eu hychwanegu gan ryw gopïwr neu gilydd, ac edrychir arnynt fel gau-chwanegiadau *(interpolations)*. Ac felly y mae gyda diwedd y drydedd adnod, a'r oll o'r bedwaredd adnod yn y bumed bennod o'r efengyl hon. Ac yn gyffelyb gyda'r adran grybwylledig, pen. vii. 53—pen. viii. 11. Nid yw i mewn yn y nifer liosocaf o'r llaw-ysgrifau hynaf a phwysicaf, ac y mae hynny wedi arwain y beirniaid mwyaf dysgedig i'r casgliad nad yw yn rhan o destyn gwreiddiol Efengyl Ioan. A'r hyn sydd yn cadarnhau y casgliad hwn yw, fod y geiriau sydd yn diweddu adn. 53 o'r seithfed bennod yn cydio yn naturiol gyda adn. 12 o'r wythfed bennod. Heblaw hynny, sylwa beirniaid fod ymadroddion ac arddull yr adran o dan sylw yn bur wahanol i eiddo yr Efengylwr Ioan. Yn y *Revised Version*, *Testament yr Efrydydd* y Parch. O. Williams, a Chyfieithiad y Prif-athraw W. Edwards, Caerdydd, gosodir yr adran rhwng cromfachau. Ac felly y gwnaf finnau hefyd.

Er yn credu yn ddiysgog mai gau chwanegiad *(interpolation)* yw hanes y wraig a ddaliwyd mewn godineb yn Efengyl Ioan, eto credaf ei fod yn hanes gwirioneddol, ac mai nid wedi ei ddychymygu y mae gan neb. Rhaid cofio, nad ydyw yr oll o lawer a ddywedodd, ac a wnaeth yr Iesu, wedi eu cofnodi yn yr Efengylau (Pen. xxi. 25). Detholiad yn unig sydd ynddynt o'r defnyddiau helaeth oedd wrth law y detholwyr. Yn mhlith y defnyddiau hyn, yr oedd hanes y wraig o dan sylw, a thybiodd ryw adysgrifenwr ei fod yn hanes rhy dda i fyned ar goll ; ac felly ysgrifenodd ef ar ymyl y ddalen, ac yna daeth ryw gopïwr arall ar ei ol, ag a'i dododd i mewn yn y testyn. Mae yn deilwng o sylw y ceir yr hanes hwn mewn ambell i law-ysgrif, nid i mewn yn yr Efengyl hon o gwbl, ond ar ol Luc xxi. 38.

Adn. 1. **A'r Iesu a aeth i fynydd yr Olew-wydd.** Dyma'r unig dro y ceir y geiriau "Mynydd yr Olewydd" yn yr Efengyl hon, ac y mae hyny yn un rheswm dros amheu dilysrwydd yr adn. hon. Wrth i'r Iesu fyned i fynydd yr Olewydd, credaf mai nid myned yno i dreulio y noson a feddylir, ond mai myned i'r

ddaeth atto ef : yntau a eisteddodd, ac a'u dysgodd hwynt. 3. A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid a ddygasant atto ef wraig, yr hon a ddaliesid mewn godineb ; ac wedi ei gosod hi yn y canol, 4. Hwy a ddywedasant wrtho, Athraw, y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu. 5. A Moses yn y gyfraith a orchymynodd i ni labyddio y cyfryw : beth gan hynny yr wyt ti yn ei ddywedyd ? 6. A hyn a ddywedasant hwy, gan ei demtio ef, fel y gallent ei gyhuddo ef. Eithr yr Iesu, wedi ymgrymmu tu a'r llawr, a ysgrifenodd â'*i* fys ar y ddaear, heb gymeryd arno eu clywed. 7. Ond fel yr oedd hwy yn parhâu yn gofyn iddo, efe a ymuniawnodd,

---

cyfeiriad hwnw yr oedd, ar ei ffordd i bentref bach Bethania, lle yr oedd yn sicr o gael lletty a chroesaw gan ei gyfeillion hoff, Mair a Martha, a Lazarus, eu brawd.

Adn. 2. Ar ol aros dros nos yn Bethania dychwelodd yr Iesu dranoeth i Jerusalem —aeth ar ei union i'r deml. Y mae'r bobl yn ymdyru o'i amgylch, ac y mae yntau yn eistedd i'w dysgu.

Adn. 3—6. A phan y mae'r Iesu ar ganol ei waith yn dysgu y bobl, y mae ei elynion marwol, yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, wedi bod yn llunio cynllwyn i geisio ei faglu a'i ddal, ac y maent yn cyflwyno ger ei fron wraig, gan ei gosod yn y canol, "yr hon a ddaliesid mewn godineb." O holl gynllwynion drygionus yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn erbyn yr Iesu, nid oes yr un ohonynt yn waeth na hwn, nac yn adlewyrchu yn fwy anffafriol arnynt. Eu hunig amcan oedd ceisio rhwydo a maglu yr Iesu er dwyn oddiamgylch ei ddinystr. Tybient y byddai yn rhaid iddo ef wneuthur un o ddau beth ; naill ai condemnio y wraig neu ynte gymeryd ei phlaid, a pha un bynag o'r ddau a wnai yr Iesu, credent y byddent wedi cyraedd eu hamcan isel ac anheilwng. Os ar y naill law y condemnia'r wraig yn ol cyfraith Moses, byddai yn myned yn erbyn y gyfraith Rufeinig,* a chollai ffafr a chymeradwyaeth y bobl, canys nid edrychid ar y pechod hwn erbyn hyn yn haeddu marwolaeth. Ac ond iddo golli ffafr y bobl, gallent ei ddal yn hollol ddiberygl. Pe ar y llaw arall, y peidiai yr Iesu a chondemnio y wraig, cyhuddent ef yn y fan o fyned yn erbyn y gyfraith, a byddai hyny yn galw am iddo gael ei gondemnio. Fel hyn, meddyliasant yn sicr, eu bod wedi cael yr Iesu i'r gornel, ond daeth allan o'r fagl, "yn fwy na chonciwerwr." **Eithr yr Iesu wedi ymgrymu tua'r llawr, a ysgrifenodd a'i fys ar y ddaear, heb gymeryd arno eu clywed.** Ychwanega rhai llawysgrifau : "Ysgrifenodd a'i fys, *bechodau pob un ohonynt.*" Dyma'r unig hanes sydd genym amdano yn ysgrifenu, ac unwaith yn unig y mae son am Dduw yn ysgrifenu yn yr H.D.

---

* Gan yr awdurdodau Rhufeinig yr oedd awdurdod i gyhoeddi dedfryd marwolaeth ar unrhyw berson y pryd hwn (Pen. xviii. 31).

ac a ddywedodd wrthynt, Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi. 8. Ac wedi iddo eilwaith ymgrymmu tu a'r llawr, efe a ysgrifenodd ar y ddaear. 9. Hwythau, pan glywsant *hyn*, wedi hefyd eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan o un i un, gan ddechreu o'r hynaf hyd yr olaf: a gadawyd yr Iesu yn unig, a'r wraig yn sefyll yn y canol. 10. A'r Iesu wedi ymuniawnu, ac heb weled neb ond y wraig, a ddywedodd wrthi, *Ha* wraig, pa le y mae dy gyhuddwyr di? oni chondemniodd neb di? 11. Hithau a ddywedodd, Na ddo neb, Arglwydd. A dywedodd yr Iesu wrthi, Nid wyf finau yn dy gondemnio di: dos, ac na phecha

---

Adn. 7. **Yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi.** "*Tafled fel y cyntaf y garreg ati hi*" (W. E.). Ar y cyntaf ni chymerai yr Iesu arno eu clywed: ond wrth iddynt wasgu arno am atebiad, daeth allan o'r diwedd eiriau gyda'r fath nerth nes dyrysu eu cynllwyn yn hollol, gan daflu yr holl gyfrifoldeb arnynt hwy eu hunain. Golyga y gair "dibechod" naill a'i bod yn rhydd o unrhyw bechod, neu bod yn rhydd o bechod neillduol. Diamheu mai yr ystyr olaf sydd i'r gair yma, ac mewn cyfeiriad at y pechod o dan sylw.

Adn. 8, 9. Ymostyngodd yr Iesu drachefn, a rhoddodd amser i'w atebiad ymchwiliadol i wneyd ei waith yn eu cydwybodau, a gwnaeth ei waith arnynt yn dra effeithiol. Gwnaeth eu cydwybodau euog lwfriaid ohonynt oll. Nid oedd neb ohonynt yn ddigon gwrol i daflu y garreg gyntaf at y wraig, ond yn lle hyny ciliasant ymaith y naill ar ol y llall o'r hynaf hyd yr ieuengaf.

Adn. 10. **Ha wraig, pa le y mae dy gyhuddwyr di? Oni chondemniodd neb di?** Cyfarchiad tosturiol. Nid yw yr Iesu yn cyfiawnhau y wraig, ond ymholi yn unig sut yr oedd ei chyhuddwyr heb ddechreu ar eu gwaith; ond gwyddai, yn ddiau, nad allent ei gyfiawni.

Adn. 11. **Hithau a ddywedodd, Na ddo neb, Arglwydd. A dywedodd yr Iesu wrthi, Nid wyf finnau yn dy gondemnio di: dos, ac na phecha mwyach.** Credaf mai at y condemniad *allanol*, fel condemniad ei chyhuddwyr y cyfeiria yr Iesu yna. Gan nad ydynt hwy yn *gallu* dy gondemnio, nid wyf finau yn *dewis* dy gondemnio—"Dos, ac o hyn allan na phecha mwyach." Nid yw yr Iesu yma yn condemnio nac yn cyfiawnhau y wraig mewn ystyr foesol, ond ymddyga yn hollol *neutral* tuag ati, gan yn unig roddi cynghor iddi hi fyw yn well yn y dyfodol. Diau nad oedd yn canfod y wraig hon mewn agwedd meddwl gwir edifeiriol, ac am hyny, na chyhoeddodd iddi hi y fendith o faddeuant a gollyngdod oddiwrth ei phechod. Dywed Augustine yn dra phriodol fod yr Iesu wedi condemnio y *pechod*, ond na chondemniodd y *person*.

mwyach. 12. ¶ Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, Goleuni y byd ydwyf fi : yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd. 13. Am hynny y Phariseaid a ddywedasant wrtho, Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun ;

VIII. 12.—X. 21. Crist yn oleuni y Byd ac yn Arweinydd i'r Gwirionedd.

12.—20. Yn tystiolaethu amdano ei hun fel Goleuni y Byd, yn Nhrysordy y Deml.

Adn. 12. **Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn.** A thybio mai gau-chwanegiad (*interpolation*) yw yr adran vii. 53.—viii. 11, y mae y geiriau hyn i'w cysylltu gyda diwedd vii. 52, a gwelir eu bod yn cydio yn naturiol wrth eu gilydd, heb arwyddo fod yna unrhyw doriad rhyngddynt o gwbl. **Goleuni y byd ydwyf fi.** Mae gwahanol farnau at ba beth y cyfeiria yr Iesu wrth alw ei hun yn "oleuni y byd" : y tebygolrwydd yw mai benthyca y ffugwr y mae fel yn vii. 37, oddiwrth ryw ddefod cysylltiol a'r Wyl oedd ar y pryd yn Jerusalem. Yr oedd yn arferiad o oleuo y deml a'r ddinas, ar un neu ragor o nosweithiau, gyda'r chanwyllbren aur mawr yn Nghyntedd y Gwragedd, er coffadwriaeth am y golofn dân arweiniodd yr Israeliaid trwy'r anialwch. Mewn cyfeiriad at hyn y dywed yr Iesu, "Goleuni y byd ydwyf fi." Nid goleuni Judea, neu oleuni Asia, ond goleuni y *byd*. Meddylier am Iuddew, o bawb, yn cyhoeddi ei hun yn oleuni y byd. Yn sicr, y mae *nwy* nag Iuddew yma. Neu, tybier am unrhyw ddyn yn cyhoeddi ei hun yn oleuni y byd. Buasai honiad felly yn annioddefol ; ond o enau Crist daw allan yn naturiol ac yn hollol weddus, ac fel y mae'r oesau yn olynu eu gilydd, y mae dynion yn dyfod i gredu fwy-fwy yn yr Iesu fel Goleuni y byd. Efe ydyw ffynhonell wreiddiol pob goleuni moesol ac ysprydol yn y byd heddyw, yn gwasgar tywyllwch, anwybodaeth, ac anghrediniaeth, ac yn rhoddi i'r enaid oleuni ysprydol a nefol. Cydolygaf yn llawn â Dr. Cynddylan Jones, pan y dywed : "Y mae ein cynefindra â'r geiriau wedi eu hamddifadu o'u beiddgarwch digyffelyb. Portreadwn ini ein hunain un o werin Galilea yn sefyll i fyny yn y deml, ac yn gwneyd y fath haeriad ! Ar un llaw y mwyaf gostyngedig o blant dynion ; ar y llaw arall, y mwyaf beiddgar ohonynt oll. Rhaid ei fod yn Dduw-ddyn, neu wallgof-ddyn." **Yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.** Nid dysgawdwr yn unig yw Crist, ond *esiampl berffaith a diogel i'w ddilyn*, ac o'i ddilyn terfyna mewn meddiant o fywyd, canys goleuni ydyw sydd yn troi yn fywyd yn ei oleuni ef.

Adn. 13. **Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun, &c.** Nid yw yr wrthddadl hon mor afresymol a'r cyffredin o wrth-ddadleuon y Phariseaid, ac y mae'r Iesu ei hun wedi cydnabod ei grym (Pen. v. 31). Gwelir, oddiwrth yr adnod nesaf, pa fodd y mae Efe am ei chyfarfod a'i dirymu.

nid yw dy dystiolaeth di wir. 14. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwy, Er fy mod i yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth i yn wir: oblegid mi a wn o ba le y daethum, ac i ba le yr ydwyf yn myned; chwithau nis gwyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned. 15. Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd; nid ydwyf fi yn barnu neb. 16. Ac etto os wyf fi yn barnu, y mae fy marn i yn gywir: oblegid nid wyf fi yn unig, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd i. 17. Y mae hefyd yn ys-

---

Adn. 14. **Er fy mod i yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth i yn wir.** Gwna yr Iesu eithriad o'i dystiolaeth ef amdano ei hun. Fel rheol gyffredin, cydnebydd y grym oedd yn ngwrth-ddadl y Phariseaid, ond myn fod ambell eithriad iddi, ac fod ei achos ef ei hun yn un hollol eithriadol. **Oblegid mi a wn o ba le y deuthum, ac i ba le yr ydwyf yn myned; chwithau nis gwyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned.** Dyma reswm yr Iesu dros fod ganddo ef yr hawl eithriadol o dystiolaethu amdano ei hun. Mae'r hyn ydyw Crist ynddo ei hun, sef, Goleuni, yn ei gyfiawnhau am dystiolaethu am dano ei hun. Ni raid i oleuni wrth neb i ddyweyd mai goleuni ydyw. Y mae, wrth lewyrchu, yn tystio yn effeithiol am dano ei hun. Heblaw hynny, yr oedd yna yn nyfnder ymwybodaeth yr Iesu sicrwydd o'i undeb â'r Tad—y fath undeb agos a dirgeledig fel ag yr oedd ei dystiolaeth ef am dano ei hun yn dystiolaeth y Tad hefyd. Dyma sydd yn rhoddi grym a phwysigrwydd i eiriau yr Iesu pan y dywed, "*Mi a wn*," gan gyfeirio at ei Ddwyfol darddiad, a'i gymundeb agos a pharhaus â'i Dad; ac felly yr oedd llais y Tad i'w glywed yn ei lais ef, a thystiolaeth y Tad yn cael ei chynwys yn ei dystiolaeth ef. Cyferbynia, hefyd, ei wybodaeth ei hun am ei darddiad, &c., â gydag anwybodaeth y Phariseaid am hynny.

Adn. 15. **Barnu yn ol y cnawd.** Barnu yn allanol, barnu yn ol yr hyn a wyddoch amdanaf fel dyn yn unig. Ni welai y Phariseaid ond yr Iuddew cyffredin o Galilea yn yr Iesu, ac felly yn unig y barnent amdano. Barn hollol gnawdol ydoedd, ac nid barn deg a chywir, o eiddo calon grediniol. **Nid ydwyf fi yn barnu neb.** Nid ei waith arbennig ef oedd barnu, ond achub. (Cyd. xii. 47).

Adn. 16. **Ac etto os wyf fi yn barnu, y mae fy marn i yn gywir.** Gwell, *Ac hyd yn oed os wyf fi yn barnu, fy marn i sydd wirionedd* (W. E.). Fel pe dywedasai yr Iesu, Ac os ydwyf trwy unrhyw beth a ddywedaf yn eich condemnio, y mae fy marn yn sicr o fod yn ol gwirionedd, canys nid fel dyn yn unig yr wyf yn barnu, ond mewn cymundeb meddwl â fy Nhad, yn cael fy arwain i'r hyn sydd gywir ganddo ef. Pwysleisia yr undeb sydd rhyngddo â'i Dad fel sicrwydd fod ei farn am ddynion bob amser yn gywir.

grifenedig yn eich cyfraith chwi, Mai gwir yw tystiolaeth dau ddyn. 18. Myfi yw yr hwn sydd yn tystiolaethu am danaf fy hun ; ac y mae y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi. 19. Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae dy Dad di ? Yr Iesu a attebodd, Nid adwaenoch na myfi, na'm Tad : ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd. 20. Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu yn y trysordy, wrth athrawiaethu yn y deml : ac ni ddaliodd neb ef, am na ddaethai ei awr ef

---

Adn. 17. **Mai gwir yw tystiolaeth dau ddyn.** Gwel Deut. xix. 15. Apelia yr Iesu at y gyfraith fel awdurdod ag yr oedd yn rhaid i'r Phariseaid, yn ol eu proffes ymffrostgar, ei chydnabod.

Adn. 18. **Myfi yw yr hwn sydd yn tystiolaethu am danaf fy hun.** Dyma un dystiolaeth, sef, eiddo'r Iesu amdano ei hun. **Ac y mae y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi.** Dyma'r dystiolaeth arall, ac felly y mae yn dystiolaeth dau, yn ol yr hyn a ofynai eu cyfraith hwy eu hunain, er sicrhau gwirionedd yr hyn a ddywedid. Ac felly cyferfydd yr Iesu â'r Phariseaid ar eu tir eu hunain, a gorchfyga hwynt yn deg.

Adn. 19. **Pa le y mae dy Dad di?** Yn lle cymeryd eu hargyhoeddi gan y gwirionedd, try y Phariseaid i gyndyn-ddadleu, ac i ofyn yn wawdlyd, "Pa le y mae dy Dad di ?" Yr ydym yn gweled un tyst, ond yn mha le y mae y llall ? Gofynant hwy yma mewn yspryd pur wahanol i'r yspryd yr oedd Philip ynddo pan y gofynodd i'r Iesu, "Dangos i ni y Tad." Dengys y gofyniad hwn eu bod yn hollol analluog oherwydd eu hanghrediniaeth i dderbyn dim budd ysprydol oddiwrth ddysgeidiaeth Crist. Rhaid eu bod yn gwybod at bwy y cyfeiriai yr Iesu, pan yn son am ei Dad. **Nid adwaenoch na myfi, na'm Tad : ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd.** Trwy y Mab yn unig yr ydym i adnabod y Tad, a chan na *fynai* yr Iuddewon hyn adnabod y Mab, *nis gallent* adnabod y Tad. Pen. xiv. 7.

Adn. 20. **Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu yn y trysordy, &c.** Yn nghyntedd y gwragedd yr oedd y trysordy, neu y drysorfa. (Gwel Marc xii. 41.) Yr oedd y drysorfa yn gynwysedig o driarddeg o flychau pres (y rhai a elwii udgyrn oddiwrth eu ffurf), a drefnwyd i dderbyn rhoddion y bobl. Ac yn y cyntedd crybwylledig yr oedd yr Iesu pan yn llefaru y geiriau uchod. Tybia rhai Esboiwyr fod yr ymddiddan hwn wedi cymeryd lle yn hwyr y "dydd mawr o'r wyl" (Pen. vii. 37), a bod adnodau 21—59 wedi eu llefaru dranoeth wrth rai o byrth y deml. **Ac ni ddaliodd neb ef, am na ddaethai ei awr ef etto.** Cyd. ví. 30. Er fod yr Iesu yn llefaru yn hyf ac yn agored, yn agos at yr ystafell lle y cyfarfyddai y Sanhedrim, ac er fod y ddysgeidiaeth yn cyffroi y Phariseaid ; eto, ni ddaliodd neb ef, canys nid oedd ei awr ef wedi dyfod eto. Hyd nes iddo orphen ei waith yr oedd Rhagluniaeth yn tallu ei chysgod drosto, ac felly yr oedd yn ddiogel, er gwaethaf cynddaredd ei elynion marwol.

etto. 21. Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn, Yr wyf fi yn myned ymaith, a chwi a'm ceisiwch i, ac a fyddwch feirw yn eich pechod. Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod. 22. Am hynny y dywedodd yr Iuddewon, A ladd efe ei hun? gan ei fod yn dywedyd, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod. 23. Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, Chwychwi sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod: chwychwi sydd o'r byd hwn; minnau nid wyf o'r byd

---

CRIST YN RHYBUDDIO YR IUDDEWON O GANLYNIADAU EU HANGHREDINIAETH.

Adn. 21. **Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn.** Teimlai yr Iesu fod ei yrfa ddaearol yn brysur dynu tua'i therfyn, ac hwyrach na chai gyfleustra arall i'w rhybuddio, ac am hynny gwna y defnydd goreu o'r cyfleustra oedd yn ei feddiant. **Yr wyf fi yn myned ymaith**—o'r byd hwn i'r nefoedd, ar ol gorphen ei waith. **A chwi a'm ceisiwch.** Nid ei geisio i'w ladd a feddylir, ond ei geisio fel Gwaredwr pan y byddai wedi myned yn rhy ddiweddar. **Ac a fyddwch feirw yn eich pechodau.** Geiriau llawer difrifolach na'r rhai blaenorol. Dyma un o'r disgrifiadau mwyaf arswydlawn sydd yn y Beibl o ddiwedd truenus a diobaith y rhai a fyddant feirw yn anedifeiriol ac yn anghrediniol. Pechod fel pwysau yn crogi wrth yr enaid, ac yn ei dynu i lawr i ddyfnderoedd anobaith a gwae! **Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.** Nis gallai rhai sydd yn marw yn eu pechodau gyraedd byth i'r nefoedd, ac yno yr oedd yr Iesu glân a sanctaidd ar fyned.

Adn. 22. **A ladd efe ei hun, &c.** Gwelir oddiwrth y geiriau hyn mor hynod o ddwl oedd yr Iuddewon, ac mor analluog i ddeall geiriau yr Iesu, ond yn yr ystyr fwyaf cnawdol a daearol. Tybient fod yr Iesu am gyflawni hunan-laddiad, ac am hynny y byddai wedi disgyn yn rhy isel yn uffern iddynt hwy allu myned i'r un lle ag ef. Ond hollol wrthgyferbyniol i hynny oedd y syniad cywir, nid wedi *disgyn*, ond wedi *esgyn* yn rhy uchel i ogoniant y nef y byddai yr Iesu iddynt hwy allu ei ddilyn.

Adn. 23. **Chwychwi sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod.** Mae y *chwychwi* a *minnau* yn bwysleisiol. *Oddi isod*, nid o uffern, fel y barna rhai, ond o'r ddaear. *Oddi uchod* o'r nef. Mae diwedd yr adnod hon yn gyfochrog a'i dechreu (yr hyn sydd yn bur gyffredin mewn barddoniaeth Hebraeg) —y byd hwn yn gyfystyr âg *oddi isod*, a nid o'r byd hwn yn gyfystyr âg *oddi uchod*. Awgryma fod byd o wahaniaeth rhyngddo ef a hwy. Nid cyfeirio y mae'r Iesu yma at y gwahaniaeth rhyngddynt mewn ystyr anianyddol, ond mewn ystyr foesol. Yspryd isel ac anghrediniol y byd oedd yn llywodraethu yr Iuddewon. A chan ei fod Ef a hwythau o dan lywodraeth yspryd mor hollol groes a gwrthdarawol, nis gallent byth fyned i'r un man a'u gilydd.

hwn. 24. Am hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau: oblegid oni chredwch chwi mai myfi yw *efe*, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau. 25. Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti? A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd hefyd wrthych o'r dechreuad. 26. Y mae gennyf fi lawer o bethau i'*w* dywedyd ac i'*w* barnu am danoch

---

Adn. 24. **Am hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau,** sef, am eich bod o dan ddylanwad yspryd materol ac anghrediniol y byd. Dyma *wreiddyn* y pechodau y byddent feirw ynddynt, a'r pechodau ydoedd y *ffrwyth* naturiol ac angenrheidiol. Pwysleisia yr Iesu, yn niwedd yr adnod hon, mai anghrediniaeth ynddo ef oedd achos eu marwolaeth druenus.

Adn. 25. **Pwy wyt ti?** Credaf mai amcan maleisus yr Iuddewon yn gofyn y cwestiwn hwn oedd, nid er mwyn gwybod yn gywir pwy oedd yr Iesu, ond er mwyn ei dynu allan i ddyweyd rhywbeth amdano ei hun fuasai yn rhoddi mantais iddynt hwy ei ddal a'i faglu. **Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd hefyd wrthych o'r dechreuad.** Cydnabyddir yn gyffredin fod y geiriau hyn yn ddigon anhawdd eu deall a'u hesbonio. Cyfeithir y sylw gan wahanol ddysgedigion fel y canlyn: "Yn hanfodol yr hyn wyf hefyd yn ei lefaru wrthych" (W.E.). "Yr hyn a ddywedais wrthych hyd yn oed o'r dechreuad" (B). "Yn ddiau yr hyn a ddywedais wrthych o'r dechreuad" (O.W.). "How is it that I am speaking to you at all?" (W.). "Why ask the very thing about which I have been speaking to you all along?" (20th C.). Yn wyneb cynifer o wahanol gyfeithiadau, nid rhyfedd fod anhawsder i benderfynu ar eu gwir ystyr. Ymddengys i mi fod y cyfeithiad a gymeradwyir gan y Tadau Groegaidd mor debyg, os nad yn debycach, o fod yn gywir na'r un ohonynt: "Pa fodd y mae fy mod hyd y nod yn llefaru wrthych o gwbl?" Dyma'r un y mae Westcott, Milligan a Moulton, ac eraill, yn ei gymeradwyo. Fel pe dywedasai yr Iesu wrthynt—pa ddiben yw i mi barhau i geisio eich dysgu a'ch goleuo, gan na fynwch chwi ddim deall? Yr oedd wedi dyweyd digon wrthynt am dano ei hun, pe buasai hynny yn ateb ryw ddiben. Adgofir ni o eiriau yr Iesu yn Math. xvii. 17. "O genhedlaeth anffyddlawn a throfaus, pa hyd y byddaf gyd â chwi? pa hyd y dioddefaf chwi?"

Adn. 26. **Y mae gennyf fi lawer o bethau i'w dywedyd ac i'w barnu am danoch chwi.** Nid hawdd yw bod yn sicr o ystyr y geiriau hyn. Er eu bod yn ddigon eglur ynddynt eu hunain, eto, pan edrychir arnynt yn eu cysylltiadau, teimlir anhawsder i gael allan eu gwir feddwl. Dyma, debygid, yw y meddwl. Gallasai yr Iesu, pe dewisai, ddyweyd llawer o bethau anffafriol amdanynt, a'u condemnio hefyd. Ac os yn peidio gwneyd hynny, nid am na chafodd ddigon o achos y peidiai; ond am reswm arall. **Eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; a'r pethau a glywais i ganddo, y rhai hynny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd.** Yn lle "eithr cywir yr hwn a'm danfonodd," gwell "*eithr gwir yr hwn a'm danfonodd.*" Yn lle

chwi: eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; a'r pethau a glywais i ganddo, y rhai hynny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd. 27. Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy. 28. Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt, Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw *efe*, ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn. 29. A'r hwn a'm hanfonodd i sydd gyd â myfi: ni adawodd y Tad fi yn unig; oblegid yr wyf fi yn

---

condemnio yr Iuddewon oherwydd ei beiau lliosog, gwell oedd gan yr Iesu achub y cyfleustra i gyhoeddi i'r byd y gwirionedd a glywodd gan Dduw y gwirionedd. Nid oedd am golli amser i gondemnio yr Iuddewon, pan yr oedd ganddo genadwri mor bwysig i'w chyhoeddi i'r byd—cenadwri nad allasai fod dim amheuaeth am ei gwirionedd, canys clywodd a derbyniodd hi oddiwrth yr Hwn sydd *wir.* Rhaid cofio mai Gwirionedd a Goleuni yw yr Iesu yn yr anerchiadau hyn.

Adn. 27. **Ni wyddent hwy mai am y Tad, &c.** Darllenir mewn rhai llawysgrifau "mai am *Dduw fel Tad* yr oedd yn llefaru wrthynt." Dengys hyn yn eglur eu dallineb a'u hurtrwydd.

Adn. 28. **Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn**—i'r groes. Amcan yr Iuddewon wrth ei ddyrchafu i'r groes oedd ei ddarostwng i warth, a rhoddi terfyn ar ei ddylanwad. **Yna y cewch wybod mai myfi yw efe.** Gwell, *Yna y deuwch i wybod mai myfi yw efe, neu fy mod i* (W. E.). Yn wrthwynebol i amcan yr Iuddewon, bu dyrchafiad Crist i'r groes yn foddion i ddatguddio ei wir gymeriad, ac i'w ogoneddu; ac i gryfhau ac i chwyddo ei ddylanwad (Pen. xii. 32). Daeth miloedd i adnabod Crist trwy y groes, na fuasent byth yn ei adnabod ar wahan iddi hi. Yr oedd hyn yn wir, i raddau, am yr Iuddewon eu hunain, ac y mae Saul o Tarsus yr engraifft hynotaf. **Ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun, &c.** Mor barod yw yr Iesu yn barhaus i gydnabod ei ddibyniaeth hollol ar ei Dad, fel nad oedd ef un amser yn llefaru dim, ond a ddysgodd gan ei Dad. Dyma oedd yn rhoddi y fath werth a phwys ar ei ddysgeidiaeth, nes rhoddi iddi *hawl* i dderbyniad a chrediniaeth gan bawb.

Adn. 29. **A'r hwn a'm hanfonodd i sydd gyd a myfi: ni adawodd y Tad fi yn unig.** Yn nyfnder ei ymwybodaeth, gwyddai yr Iesu am y cymundeb agos a gwirioneddol oedd rhyngddo ef a'i Dad. Dyma oedd cuddiad ei gryfder, a dyma oedd yn ei gynal ac yn ei gysuro yn ei holl brofedigaethau. Pan yr oedd pawb wedi ei adael, yr oedd y Tad gydag ef bob amser, ac eithrio yr eiliadau rhyfedd hyny ar y groes, pan y llefodd ar dorri ei galon: "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" (Matth. xxvii. 46). **Oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sydd yn foddlawn ganddo ef.** Dyma'r rheswm am y cymundeb agos a hyfryd oedd rhyngddo bob

gwneuthur bob amser y pethau sydd foddlawn ganddo ef. 30. Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, llawer a gredasant ynddo ef. 31. Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gredasant ynddo, Os arhoswch chwi yn fy ngair i, disgyblion i mi ydych yn wir; 32. A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhydd-

---

amser a'i Dad, ei ufudd-dod llawn a gwastadol i ewyllys ei Dad. Ni chodod erioed y cwmwl lleiaf rhyngddo â gwedd gwyneb ei Dad, oherwydd y gradd lleiaf o anffyddlondeb yn cyflawni ei ewyllys ef.

Adn. 30, **Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, llawer a gredasant ynddo ef.** Rhaid fod yna ryw swyn a nerth argyhoeddiadol yn ngeiriau yr Iesu, cyn y buasai yn dylanwadu o gwbl ar y rhai a wrandawent arno ar y pryd. Ac er mai credu yn arwynebol a wnaethant, y rhyfeddod yw ei fod wedi eu dwyn mor bell a hyny.

31—59. Gwir Ryddid a Mabolaeth Ysprydol.

Adn. 31. **Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gredasant ynddo.** Cyfyd cwestiwn yma sydd braidd yn anhawdd ei benderfynu—Ai yr un rhai yw y rhai "*a gredasant ynddo*" yn yr adnod hon a'r rhai "*a gredasant ynddo ef*" yn adnod 30? Buasai darllenydd unieithog Cymraeg neu Saesneg yn ateb, heb ddim petrusder, yn gadarnhaol. Ond y mae rhai Esbonwyr, ar sail eu gwybodaeth o'r iaith Roeg, yn ateb yn nacaol,—mai nid yr un rhai ydynt, ond dau ddosbarth gwahanol. Nid yr un math o gredu sydd yn y ddwy adnod. Yn adnod 30, golyga gredu *iddo* neu *arno*, nid credu yr hyn a ddywedodd yr Iesu, ond credu yn ei Berson, ei hawliau, a'i waith fel Mab Duw. Ond yn yr adnod o dan sylw, ni olyga ond credu ei eiriau yn unig. Gwir fod y credu yma yn fynych yn arwain i'r credu arall, ond y mae hefyd yn aml yn syrthio yn fyr o'i gyraedd. Mae yr un gwahaniaeth ag sydd rhwng meddu yn y dyddiau hyn ffydd hanesyddol a ffydd bersonol yn yr Iesu, y credu amdano ef, ac ymddiried ynddo, fel ein hunig Geidwad. Yr olaf yw y ffydd sydd yn cadw, ac nid y flaenaf. Gwna Westcott y gwahaniaeth canlynol rhyngddynt: 'They BELIEVED HIM and did not *believe* IN *Him*.' Ac os felly, dylid cofio, mai llefaru y mae'r Iesu yma wrth rai oedd megis ar y ffordd i gredu ynddo; os dalient y prawf deuent yn wir gredinwyr, ac os na ddalient y prawf, byddent yn fwy anghrediniol nag erioed. **Os arhoswch chwi yn fy ngair i, disgyblion i mi ydych yn wir.** Mae'r pwyslais i fod ar y *chwi* yma, ac nid ar aros,—*chwi* er eich rhagfarn a'ch ffydd amherffaith. Arhoswch chwi o dan ddylanwad fy nysgeidiaeth nes gadael iddi suddo i ddyfnder eich calonau a gwreiddio yno, ac fe gydnabyddaf eich bod chwi o nifer fy ngwir ddisgyblion. Ac wrth aros yn ei air ef, caent ddatguddiad ysprydol o Grist; a theimlent fod ei eiriau ef yn yspryd ac yn fywyd.

Adn. 32. **A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi.** Trwy aros yn ngair Crist y deuant i wybod

hâ chwi. 33. ¶ Hwythau a attebasant iddo, Had Abraham ydym ni, ac ni wasanaethasom ni neb erioed : pa fodd yr wyt ti yn dywedyd, Chwi a wneir yn rhyddion ? 34. Yr Iesu a attebodd iddynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod. 35. Ac nid yw y gwas yn aros yn tŷ byth : y Mab sydd yn aros byth. 36. Os y Mab gan

---

y gwirionedd. Gair Crist yw ffurf yr athrawiaeth a'r gwirionedd yw ei chynwys mewnol. Nid oes dim yn fwy nodweddiadol o angen dynion fel pechaduriaid na'u hangen am ryddhad,—rhyddhad oddiwrth anwybodaeth a rhagfarn,—oddiwrth gondemniad a chaethiwed phechod. Y gwirionedd efengylaidd a ddysgai Crist yw y moddion yn llaw yr Ysprydd Glân i ryddhau dynion.

Adn. 33. **Had Abraham ydym ni, ac ni wasanaethasom ni neb erioed.** Gwell ; "*Ac nid ydym erioed wedi bod mewn caethiwed i neb*" (W. E.). Dyma gychwyn anffafriol ar y prawf a roddid arnynt. Camddeallant eiriau yr Iesu, a thybient ei fod yn cyfeirio at gaethiwed gwladol a daearol, ac nid caethiwed moesol ac ysprydol. Ac nid ydynt yn cydnabod y gwir yn yr ystyr y deallent hwy eiriau yr Iesu, canys yr oeddent wedi bod mewn caethiwed gan yr Aiphtiaid, y Babiloniaid, &c. **Chwi a wneir yn rhyddion.** Oherwydd eu dallineb a'u difaterwch ysprydol, methent a deall eu bod hwy mewn angen am eu rhyddhau o gwbl.

Adn. 34. **Pwy bynag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod,** neu yn fwy cywir, yn *gaethwas* i bechod, Dengys yr Iesu ar unwaith pa gaethiwed a olygai,—caethiwed ysprydol ac nid daearol,—caethiwed tufewnol yr ysprydmewn canlyniad i ffurfio arferion pechadurus. Nid oes a fynno y caethiwed hwn o gwbl a'r cwestiwn o ryddid gwreiddiol ewyllys dyn. Caethiwed wedi ei feithrin yn wirfoddol yw hwn, ac nid un rheidiol ac anocheladwy. Trwy gydsyniad rhydd ei ewyllys yn ildio i demtasiynau pechod y mae dyn yn myned i'r fath gyflwr difrifol. Efe ei hun sydd yn gwneyd pob dolen yn y gadwen sydd yn ei rwymo wrth bechod.

Adn. 35. **Ac nid yw y gwas yn aros yn ty byth : y Mab sydd yn aros byth.** Cyferbyniad sydd yma rhwng sefyllfa'y caethwas a sefyllfa y Mab yn ei berthynas â'r teulu. Yr Iuddewon a olygir wrth y caethwas yma. Tybient hwy ar sail eu disgyniad oddiwrth Abraham, fod ganddynt hawl ddiogel a sicr i holl ragorfreintiau y ddwyfywiaeth (*theocracy*), ond rhybuddia'r Iesu hwy yma fod pechod wedi eu hamddifadu o safle meibion, a'u bod yn agored i gael eu symud o'r teulu, fel caethion (Cyd. Gen. xxi. 10, a Gal. iv. 1—7.) Yr unig ffordd iddynt gael lle parhaus yn nheyrnas Dduw ydyw trwy gael eu rhyddhau gan y Mab yr hwn sydd yn aros yn y tŷ, neu yn y teulu byth.

Adn. 36. **Os y Mab gan hynny a'ch rhyddha chwi, rhyddion fyddwch yn wir.** Hona yr Iesu fel Mab hawl ac awdurdod i ryddhau y rhai a dderbyniant ei ddysgeidiaeth ac a gredant ynddo ef. Gall yr Iesu roddi

hynny a'ch rhyddhâ chwi, rhyddion fyddwch yn wir. 37. Mi a wn mai had Abraham ydych chwi: ond yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, am nad yw fy ngair i yn genni ynoch chwi. 38. Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a welais gyd â'm Tad i: a chwithau sydd yn gwneuthur yr hyn a welsoch gyd â'ch tad chwithau. 39. Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Ein tad ni yw

---

iddynt ryddid *yn sylweddol*, yn wrthgyferbyniol i'r *ymddangosiadol* a'r *tywyllodrus* (Cyd. adn. 33, a Rhuf. viii. 2.) Dyma ystyr y geiriau "yn wir" neu "mewn gwirionedd."

Adn. 37. **Am nad yw fy ngair i yn genni ynoch chwi.** Ystyr y gair *chôreô*, a gyfieithir "genni" yn yr adn. hon, yw *ffynu*, *llwyddo*, *enill tir*: neu *yn cael lle*. A chyfeiria at dderbyniad crediniol o'r gwirionedd nes iddo gael lle yn y galon, ac yno lwyddo ac enill tir, nes cario dylanwad grymus dros holl fywyd dyn. Gwyddai yr Iesu am yr Iuddewon hyn, er eu bod yn hiliogaeth Abraham, nad oeddent yn meddu ar ei yspryd crediniol o gwbl, onide ni fuasent yn ceisio ei ladd. A'r achos o'r cwbl oedd, nad oeddent yn rhoddi derbyniad crediniol a chroesaw calon i'w eiriau ef.

Adn. 38. **Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a welais gyd a'm Tad i, &c.** Yn ol y cyfieithiad awdurdodedig, nid hawdd i'w deall ystyr y geiriau hyn; ond teg yw dyweyd fod y cyfieithiad gwahanol yn bosibl sydd yn rhoddi iddynt ystyr pur wahanol. Gair amwys yw y gair *poieîte*, a gyfieithir yn "wneuthur," am ei fod yn agored i gael ei ddeall yn y modd mynegol, neu yn y modd gorchymynol. Os deallir ef yn y modd gorchymynol, y mae yn rhoddi lliw a meddwl cwbl wahanol i'r geiriau: fel pe dywedasai yr Iesu wrthynt, "Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a welais gyda'm Tad i: *gwnewch* chwithau yr hyn a welsoch gyda'ch tad chwithau." Yn ol y cyfieithiad arferol, y mae yn amhosibl peidio credu mai at eu tad (diafol) y cyfeiria yr Iesu, er nad yw yn ei enwi; ond yn ol y cyfieithiad arall, gall olygu nid y diafol, ond Abraham yr honai yr Iuddewon eu bod yn blant iddo, ac fod yr Iesu yn eu cynghori i weithredu yn gyson ag yspryd eu tad Abraham. Ond er yn crybwyll y gwahaniaeth hwn, yr wyf yn gogwyddo ar y cyfan at y golygiad mai mynegu y gwahaniaeth y mae yr Iesu rhwng yr hyn yr oedd ef yn ei lefaru a'r hyn yr oedd yr Iuddewon yn ei wneuthur, ac fod y cyfryw wahaniaeth yn codi o'r ffaith fod ganddynt ddau dad mor drwyadl wahanol i'w gilydd, y naill yn gorphoriad ac yn ysprydoliaeth pob da, a'r llall yn gorphoriad ac yn ysprydoliaeth pob drwg.

Adn. 39. **Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech.** Os oedd yr Iuddewon wedi deall awgrym yr Iesu yn yr adnod flaenorol gyda golwg ar eu tad, nid oeddent am ei dderbyn, ond mynent mai Abraham oedd eu tad hwy. Ond gwasga yr Iesu y gwirionedd adref atynt, fod plant fel rheol yn gweithredu yn gyffelyb i'w tad, a phe buasent hwythau mewn gwirionedd yn blant i Abraham, y buasent yn cyflawni yr unrhyw weithredoedd ag yntau.

Abraham. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech. 40. Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd, yr hwn a glywais i gan Dduw: hyn ni wnaeth Abraham. 41. Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi. Am hynny y dywedasant wrtho, Nid trwy butteindra y cenhedlwyd ni: un Tad sydd gennym ni, *sef* Duw. 42. Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i: canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y daethum i; oblegid nid o honof fy hun y daethum i, ond efe a'm hanfonodd i. 43. Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i? am na ellwch wrandaw fy ymadrodd i. 44. O'*ch* tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn yn y gwirionedd, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef.

Adn. 40. Yn y geiriau hyn cyhudda yr Iesu hwy o beidio gweithredu yn debyg i Abraham, am eu bod yn ceisio lladd un oedd yn llefaru gwirionedd Duw wrthynt.

Adn. 41. **Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi.** Dywed yr Iesu yn eglur wrthynt, mai nid Abraham oedd eu tad, ond ryw un arall ag yr oeddent mor ffyddlon yn cyflawni ei weithredoedd ef. **Nid trwy butteindra y cenhedlwyd ni, &c.** Os mai deall ddarfu yr Iuddewon yr Iesu yn dyweyd, mai nid Abraham oedd eu tad yn ol y cnawd, yna honant eu bod yn ddisgynyddion hollol gyfreithlon i Abraham, o Sara, y wraig rydd, ac nid o Hagar, y gaethferch. Ond os mai ei ddeall yn cyfeirio at eu cenhedliad ysprydol yr oeddent, yna honent mai Duw oedd eu tad, ac nad oeddent hwy yn eilun-addolwyr yr un fath a'r cenhedloedd. Dyma, mae'n debyg, a olygent. "Un Tad sydd gennym ni, sef Duw." *Un* mewn gwrthgyferbyniad i aml-dduwiaeth y cenhedloedd.

Adn. 42. **Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i.** Dyma'r Iesu yn eu dwyn at faen-prawf gwir fabolaeth i Dduw. Nid oes modd i'r rhai a aned o Dduw gashau yr hwn a aned ohono Ef, ac yr oedd hyn mewn modd arbenig yn wir am Grist. (Cyd. xv. 23., gyda "A phob un a'r sydd yn caru yr hwn a genhedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd ohono," 1 Ioan v. 1.)

Adn. 43. **Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i?** Rhyfedda yr Iesu at eu hanallu i'w ddeall ef, ond olrheinia yr achos i agwedd foesol eu calonau, diffyg cydnawsedd ysprydol â'i ddysgeidiaeth. Defnyddir *anallu* yn fynych yn yr Ysgrythyr yn yr ystyr o *anewyllysgarwch*, ac nid anallu hollol, ac felly yma.

Adn. 44. **O'ch tad diafol yr ydych chwi.** Dywed yr Iesu yma yn eglur ac yn bendant yr hyn a awgrymasai yn flaenorol. Gwel yn eu hyspryd a'u

Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd : canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo. 45. Ac am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych yn credu i mi ? 46. Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod ? Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham nad ydych yn credu i mi ? 47. Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrandaw geiriau Duw : am hynny nid ydych chwi yn

---

gweithredoedd ddelw amlwg eu tad.—**A thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur.** Amlwg yw y credai yr Iesu ym modolaeth wirioneddol y diafol, ac yn ei ddylanwad personol ar feddyliau dynion, yn eu cymhell i gyflawni ei ddymuniadau, a'i chwantau drygionus. **Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn y gwirionedd.** Cyfeiriad at y cwymp yn Eden pan y gelwir y diafol yn *llofrudd*, ac yr oedd felly o *ddechreuad* pechod yn mhlith dynion ar y ddaear. Awgryma yr Iesu mai anffyddlondeb i wirionedd oedd gwreiddyn yr holl ddrwg moesol sydd wedi dyfod i'r byd ; ac mai hyny hefyd oedd wrth wraidd dechreu pechod yn y diafol ei hunan. Rhaid fod y diafol wedi bod yn y gwirionedd unwaith cyn y gallasai beidio sefyll ynddo ; eithr ni safodd yn gadarn ynddo, fel erbyn heddyw nid oes y gronyn lleiaf o wirionedd yn aros ynddo. **Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd, &c.** Edrycha y Gwaredwr ar y diafol fel ffynhonell wreiddiol celwydd, ac ohono ef y torodd allan. Pan wedi olrhain celwydd yn ol at y diafol, nis gellir ei olrhain ddim yn mhellach, canys ynddo ef y cafodd ei ddechreuad, ac efe yw ei dad.

Adn. 45. **Am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, &c.** Difrifol meddwl mai am fod yr Iesu yn llefaru gwirionedd y gwrthodai yr Iuddewon hyn gredu ynddo. Eu diffyg cydymdeimlad gyda gwirionedd, a'u casineb ohono oedd yn achos o'u hanghrediniaeth. Dyma brawf ychwanegol eu bod yn blant i dad y celwydd.

Adn. 46. **Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod ?** Ystyr y gair *elengcho* yw argyhoeddi, euog brofi, neu ddwyn i'r amlwg trwy brawf. "*Pwy ohonoch a'm profa yn euog o bechod ?*" (W. E.). Golyga pechod yma, bechod yn gyffredinol, pob pechod, ond gyda chyfeiriad arbennig at y pechod o gelwydd. Oni buasai fod yr Iesu yn hollol ddibechod, buasai ganddynt ryw fath o esgus i amheu ei gywirdeb a'i eiriau. Ond gan nad oedd modd ei brofi yn euog o unrhyw bechod, yna nid oedd yn euog o ddyweyd dim oedd yn groes i wirionedd, ac os felly, y mae'r apêl a wna attynt yn niwedd yr adnod hon yn hollol anwrthwynebol. **Ac od wyf fi yn dywedyd y gwirionedd, paham nad ydych yn credu i mi ?**

Adn. 47. **Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrandaw geiriau Duw, &c.** Wrth fod o Dduw y golygir bod mewn cydymdeimlad a chydnawsedd â Duw, ac y mae eu holl blant gwirioneddol felly : a phe buasai yr Iuddewon hyn o'u nifer, buasent yn sicrl o wrandaw ei eiriau ef. Ond y mae'r Iesu yn casglu yn

eu gwrandaw, am nad ydych o Dduw. 48. Yna yr attebodd yr Iuddewon, ac y dywedasant wrtho ef, Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod gennyt gythraul? 49. Yr Iesu a attebodd, nid oes gennyf gythraul; ond yr wyf fi yn anrhydeddu fy Nhad, ac yr ydych chwithau yn fy nïanrhydeddu innau. 50. Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngogoniant fy hun: y mai ai cais, ac a farn. 51. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wêl efe farwolaeth yn dragywydd.

---

naturiol ac yn hollol deg, gan nad oeddent yn gwrando ei eiriau ef, yr hwn nad oedd yn neb llai na Mab Duw ei hun, y rhaid nad oeddent yn blant Duw o gwbl, ond mai plant eu tad diafol oeddent.

Adn. 48. **Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod gennyt gythraul?** Ar ol eu gwasgu yn deg i'r gornel gan Grist, collant eu tymher, a rhoddant enwau drwg arno ef. Mor debyg yw y natur ddynol syrthiedig yn mhob oes—ar ol colli mewn dadl, ceisio difrio y gorchfygwr! Nis gellid difrio a dirmygu mwy ar Iuddew na'i alw yn Samariad, oblegid yr oedd yn wrthwynebwr eu cenedl a'u crefydd. Ac i gwblhau ac i berffeithio eu cabledd, haerant yn ddigywilydd fod y glanaf a'r puraf ei gymeriad droediodd y ddaear erioed wedi ei feddianu gan gythraul.

Adn. 49. **Nid oes gennyf gythraul.** Ni chymer yr Iesu sylw o'r haeriad ei fod yn Samariad. Cyfyd uwchlaw rhagfarn a sêl genedlaethol, ond teifl y cyhuddiad cableddus a disail, ei fod wedi ei feddianu gan gythraul, yn ol; a'r prawf anwrthwynebol o hynny yw, ei fod yn anrhydeddu ei Dad, yr hyn ni wna neb sydd o dan ddylanwad yspryd cythreulig ac uffernol. **Ac yr ydych chwithau yn fy nianrhydeddu innau.** Mor wahanol, onidê?—yr Iesu yn anrhydeddu Duw, a'r Iuddewon anghrediniol yn dianrhydeddu yntau, y tebycaf i Dduw, a'r llawnaf o Dduw, welodd y ddaear erioed; ïe, un oedd yn neb llai na'r Duw ymgnawdoledig ei hun. Yr oedd yr Iuddewon yn dianrhydeddu y Tad wrth ddianrhydeddu y Mab.

Adn. 50. **Ac nid wyf yn ceisio fy ngogoniant fy hun.** Er y gallasai Crist yn eithaf cyfreithlon, fel yr oedd yn wir Fab Duw, geisio ei ogoniant ei hun, eto, fel Cyfryngwr yn ei sefyllfa ddarostyngol, ni cheisiodd mohono o gwbl. Eithr nid oedd yn hollol ddiystyr o'i enw da a'i anrhydedd, ond y mae am adael amddiffyniad ei anrhydedd i ryw un ag y meddai bob hyder ac ymddiried ynddo ef. **Y mae a'i cais, ac a farn.** "Y mae un sydd yn ceisio ac yn barnu" (W. E. ac O. W.) Cyfeiria at ei Dad yn y geiriau hyn. Teimla fod ei anrhydedd neu ei ogoniant yn hollol ddiogel yn llaw ei Dad. Ac nid yn unig y gofalai am ei anrhydedd, ond y barnai ac y condemniai yr Iuddewon am ei ddianrhydeddu ef.

Adn. 51. Mewn gwrthgyferbyniad i'r farn oedd yn agored i oddiweddyd yr Iuddewon, cynygia yr Iesu iddynt fywyd tragwyddol. **Os ceidw neb fy**

52. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Yr awrhon y gwyddom fod gennyt gythraul. Bu Abraham farw, a'r prophwydi; ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd. 53. Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r prophwydi a fuant feirw: pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun? 54. Yr Iesu a attebodd, Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim: fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i, yr hwn yr

---

ymadrodd i. Gwell: "*Os ceidw neb fy ngair i.*" *Ceidw* yn yr ystyr o gadw yn ddiogel neu yn ofalus, fel cadw rhywbeth sydd yn ein meddiant eisoes—ymadrodd lled gyffredin yn ysgrifeniadau Ioan. Trwy ufuddhau i'w ddysgeidiaeth y gellir cadw gair Crist. **Ni wel farwolaeth yn dragywydd.** Mae gwahaniaeth rhwng marwolaeth a marwolaeth, cymaint felly fel nad yw y duwiol yn marw o gwbl o'i gydmaru â'r annuwiol. Nis gŵyr y credadyn sydd yn huno yn Nghrist ddim am farwolaeth yn ei elfenau chwerwaf o euogrwydd, anobaith, a phechod. A marw wedi cael gwaredigaeth oddiwrth bechod yw cyfarfod âg angau heb yr un colyn. "Yn y weithred o farw, ni welant, ac ni theimlant farwolaeth. Y rhai sydd yn cerdded tua'r haul nid ydynt yn gweled y cysgod sydd o'u hol" (Y.Y.S.).

Adn. 52. **Yr awrhon y gwyddom fod gennyt gythraul.** Wrth glywed y fath ddysgeidiaeth newydd a dieithr allan o enau yr Iesu, tybient yn sicr y rhaid ei fod allan o'i bwyll, canys dyma un arwydd o ddyn wedi ei feddianu gan gythraul. **Nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd.** Gwelir fod yr Iuddewon yn ol eu harfer wedi deall yr Iesu yn hollol lythrenol, fel pe dywedasai nad oedd y rhai a gadwent ei air ef i farw o gwbl, nac mewn unrhyw ystyr, nad oeddent i brofi neu i archwaethu cynwys y gwpan farwol o gwbl; ond ni ddywedasai yr Iesu mo hynny, ond y byddai cynwys y gwpan wedi colli pob elfen chwerw, dychrynllyd a dinystriol, nes ei droi yn ddim ond rhyw *sleeping draught* melys i'w galluogi i huno yn dawel a diogel yn yr Arglwydd. Gan fod Abraham a'r prophwydi wedi marw, y rhai oedd mor enwog ac uchel yn eu golwg, nis gallai yr Iuddewon ddeall pa fodd y gallai yr Iesu gadw dynion rhag marw, ac am hynny mynent ei fod yn anmhwyllo.

Adn. 53. **Pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?** Wrth ddarllen geiriau a gweithredoedd Crist, os edrychir arno fel dyn yn unig, y mae yn *broblem* nad oes dim modd ei dadrys; ac felly yr ymddanghosai i'r Iuddewon hyn. Defnyddia yr Iesu eiriau yn yr ymddiddan hwn nas gellir byth eu cysoni gyda'r dybiaeth mai dyn yn unig ydoedd. Yn ngoleuni ei Dduwdod llawn a gwirioneddol, y gellir deall ac esbonio yr Arglwydd Iesu Grist.

Adn. 54. **Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, &c.** Yn ol rhai darlleniadau pwysig: *Pe byddai i mi ogoneddu fy hun.* Nid yw yr Iesu yn dyweyd ei fod yn ei ogoneddu ei hun, ond pe byddai iddo wneyd hynny, nid hunan-ogoneddiad oedd amcan yr Iesu yn llefaru y geiriau hynod sydd yn adn. 52; yr Iuddewon oedd

ydych chwi yn dywedyd, mae eich Duw chwi yw. 55. Ond nid adnabuoch chwi ef : eithr myfi a'i hadwaen ef. Ac os dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog : ond mi a'i hadwaen ef, ac yr wyf yn cadw ei ymadrodd ef. 56. Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i : ac efe a'*i* gwelodd *hefyd*, ac a lawenychodd. 57. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain etto, ac a

---

yn tybio hynny amdano, ac yn ei gamfarnu. Gadawai yr Iesu y gofal am ei ogoniant yn llaw ddiogel ei Dad. Ac er fod yr Iudddewon yn honni fod ei Dad yn Dduw iddynt, pe buasai felly mewn gwirionedd, buasent yn sicr o fod o'r un farn ag ef am ei anwyl Fab.

Adn. 55. **Ond nid adnabuoch chwi ef, ond myfi a'i hadwaen ef.** Dylid pwysleisio y "Myfi" o eiddo'r Iesu. Cyferbyna ei wybodaeth ei hun gydag anwybodaeth yr Iuddewon. Nid yr un gair a ddefnyddir i ddynodi anwybodaeth yr Iuddewon a gwybodaeth yr Iesu o'i Dad. "Nid *adnabuoch*," Golyga y gair yma, *dyfod i'w adnabod*, trwy *ddysgu a sylwi* ; ond am "Myfi a'i *hadwaen* ef," golyga *wybod yn uniongyrchol*, neu gyngreddfol. Rhaid oedd i'r Iesu broffesu y fath adnabyddiaeth o'i Dad er mwyn bod yn gyson â'r gwirionedd. Ni fuasai yn cadw ymadrodd ei Dad heb gyhoeddi yn groew ei fod yn adnabod ei Dad, gan nad beth fyddai effaith hynny ar feddyliau yr Iuddewon.

Adn. 56. **Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i.** Dengys yr Iesu yma mor annhebyg i'r Iuddewon hyn oedd eu tad Abraham. Yr ydych wedi gofyn, fel pe dywedasai yr Iesu, ai mwy wyf fi nag Abraham ? Dyma fy ateb—gorfoledd oedd ganddo ef, er mor enwog ydoedd, weled fy nydd i. Gwelodd Abraham ddydd Crist trwy ffydd, ac yr oedd mor annhraethol bwysig yn ei olwg fel y gorloleddodd filoedd o flynyddoedd cyn ei ymddangosiad. Cytuna esbonwyr yn bur unfrydol mai y cyfeithiad goreu o'r geiriau ydyw, "*Eich tad Abraham a orfoleddodd i weled fy nydd i*." Golyga dydd Crist holl amser ei ymddangosiad ar y ddaear. **Ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd.** Gwell gadael *hefyd* allan o'r darlleniad, canys nid yw yn y wreiddiol, na dim yn galw am dano. Awgryma y geiriau hyn nad oedd Abraham wedi darfod a bod, ar ol iddo farw ; ond ei fod yn gwybod am ddyfodiad y Messiah, ac ymddangosiad Crist yn y cnawd. Gorfoleddodd yn y rhagolwg trwy ffydd ar ddydd Crist, ond llawenychodd wrth weled y dydd hwnw wedi ei sylweddoli. Rhaid fod Crist yn fawr iawn yn ngolwg Abraham cyn y buasai yn edrych arno fel gwrthrych ei obaith a'i orfoledd.

Adn. 57. **Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain etto.** Rhyfedd y fath allu oedd gan yr Iuddewon i gamddeall geiriau Crist, fel pe dywedasai ei fod fel person ymgnawdoledig yn cyd-oesi âg Abraham. Tybiodd rhai yn gwbl ddisail, oddiwrth y geiriau hyn, fod yr Iesu wedi byw nes bod yn agos i ddengmlwydd a

welaist ti Abraham? 58. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr wyf fi. 59. Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu atc ef. A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml, gan fyned trwy eu canol hwynt: ac felly yr aeth *efe* heibio.

---

deugain oed. Ond crybwyllir am ddeg-a-deugain oed fel amser y mae dyn yn cyraedd addfedrwydd llawn (Num. iv. 3—39. viii. 25).

Adn. 58. **Cyn bod Abraham, yr wyf fi.** *Cyn geni Abraham, yr wyf fi* (W. E.). *Cyn i Abraham ei eni, myfi wyf* (B.). Dysga yr Iesu yma yn eglur fod iddo fodolaeth wirioneddol cyn geni Abraham. Nid bodolaeth ddelfrydol fel y ffol-dybia rhai esbonwyr Rhesymolaidd. *Dyfod i fod* (*genesthai*) ddarfu i Abraham, ond am y Crist, efe yw yr **ydwyf** (*ego eimi*) tragwyddol. Dyma rai o'r geiriau pwysicaf yn Efengyl Ioan er penderfynu gwir a phriodol Dduwdod Crist. "Paham nad yw yn dywedyd, Cyn bod Abraham yr *oeddwn* i, yn lle 'yr ydwyf i,' ond yn unig i ddynodi ei hanfodiad annibynol a thragwyddol."—*Chrysostom.*

Adn. 59. **Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu atto ef.** Deallodd yr Iuddewon yr Iesu yn lled gywir y tro hwn, ac ystyrient ei fod yn cablu wrth honni iddo ei hun un o briodoleddau annghyfranogol y Jehofa Mawr, ac yr oeddent am ei labyddio, oherwydd ei gabledd, yn ol eu tyb hwy. Rhydd yr hanesydd Iuddewig Josephus engraifft o un yn cael ei labyddio yn un o gynteddau y deml. Yr oedd cerrig yn gyfleus yn ymyl, gan nad oedd y deml wedi gorphen cael ei hadeiladu. **A ymguddiodd.** Nid, fe ddichon, yn wyrthiol, ond trwy ymgolli yn nghanol y dyrfa gynhyrfus, a diangodd yr Iesu felly heb ddim niwaid. Gadewir y rhan olaf o'r adnod hon allan gan y llawysgrifau goreu.

PENNOD IX.

AC wrth fyned heibio, efe a ganfu ddyn dall o'*i* enedigaeth. 2. A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, pwy a bechodd, a'i hwn, ai ei rïeni, fel y genid ef yn ddall? 3. Yr Iesu a attebodd, Nid hwn a bechodd, na'i rïeni chwaith : eithr fel yr amlygid gweith-

---

1—12. YR IESU YN RHODDI EI OLWG I UN A ANESID YN DDALL.

Adn. 1. **Wrth fyned heibio, &c.** Nid wrth fyned heibio, pan yn dianc oddiwrth ei elynion marwol, a olygir. Buasai ar ormod brys y pryd hwnw i sylwi ar y dyn dall. Ar ryw Sabbath yn ystod ei ymweliad â Jerusalem, pan yn myned heibio yn hamddenol gyda'i ddisgyblion, y gwelodd yr Iesu wr ieuanc hollol ddall yn eistedd ar ymyl y ffordd yn cardota. Tosturio ddarfu yr Iesu yn yr olwg arno, ond myned i frydolygu y mae y disgyblion yn nghylch achos ei ddallineb.

Adn. 2. **Pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?** Cymerent yn ganiataol, yn gyson â'r syniadau a ffynent yn mhlith yr Iuddewon ar y pryd, mai cosp am bechod oedd dallineb y gwr ieuanc. A chan iddo gael ei *eni* yn ddall, methant a phenderfynu pa un ai ei bechod ef ei hun ai ynte pechod ei rieni, oedd yr achos o'i ddallineb ef. Credent yn sicr y rhaid ei fod y naill neu'r llall. Pechod ei rieni yn cael ei gyfrif iddo ef, neu ei fod ef ei hun wedi pechu yn nghroth ei fam! Rhyfedd mor dueddol yw llawer i edrych ar yr anffodion a'r dioddefiadau sydd yn cyfarfod plant dynion, fel cosp am bechod. Nis gellir gwadu nad oes cysylltiad diamheuol rhwng pechod a dioddefiadau dynion yn fynych, *ond nid bob amser.* Mae amcan arall i ddioddefiadau dynion, heblaw bod yn gosp am bechod.

Adn. 3. **Nid hwn a bechodd, na'i rieni chwaith.** Gwrthyd yr Iesu y ddwy dybiaeth. Nid oedd dallineb y dyn yn gosp o gwbl am ei bechod* ef ei hun nac eiddo ei rieni. **Eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef.** Ymweliad rhagluniaethol oedd ei ddallineb, "fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef." Cafodd ei eni yn ddall fel y byddai yn gyfrwng i amlygu gweithredoedd Duw. Tybia rhai fod y gair "*gweithredoedd*," ac nid *gweithred* Duw, yn cyfeirio at adferiad ei olwg ysprydol iddo yn ogystal a'i olwg naturiol. Goddefodd Duw, yn ei ddoethineb a'i ddaioni, i'r dyn hwn gael ei eni yn ddall, fel y byddai hynny yn achlysur iddo arddangos ei allu a'i dosturi. Wedi'r cwbl, yn yr olwg ar bob ffurf o drueni, y cwestiwn pwysicaf yw, nid pa fodd i gyfrif amdano, ond pa fodd i gael ymwared ohono.

---

* Nid rhyfedd i Proffeswr Bledsoe ddyweyd, "We thank thee, O blessed Master, for that sweet word! How delightful it is, after passing through the dark labyrinths of human folly, to sit at thy feet, and drink in the lessons of heavenly wisdom. How pleasant to the soul—how inexpressibly cheering it is—to turn from the harsh and revolting systems of men, and listen to the sweet accents of mercy as they fall from thy lips!"

redoedd Duw ynddo ef. 4. Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd : y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio. 5. Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf. 6. Wedi iddo ef ddywedyd hyn, efe a boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall ; 7. Ac a ddywedodd wrtho, Dos, ac ymolch yn llyn Siloam, (yr hwn

---

Adn. 4. **Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd, &c.** Yn ol y beirniaid goreu, gwell darllen, ' Rhaid *ini* weithio," &c. Una yr Iesu a'i ddisgyblion gydag ef yn y gwaith o droi y byd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef. Yr oedd rhoddi ei olwg i'r dall yn arwyddlun o'r goleuo moesol ac ysprydol ar ddynion oedd yn amcan cenhadaeth Crist ar y ddaear. Fel pe dywedasai yr Iesu, Yn hytrach na cholli amser i geisio cyfrif am y dallineb naturiol ac ysprydol sydd yn mhlith dynion, ein rhwymedigaeth ni i'w achub pob cyfleustra i oleuo dynion, ac i symud eu dallineb. Dyma'r gwaith y mae'r " hwn a'm hanfonodd " wedi ei ymddiried i mi i'w gyflawni. Teimlai yr Iesu mai efe oedd y prif weithiwr, ac mai arno ef y gorphwysai baich y cyfrifoldeb ; a theimlai fod yn rhaid iddo fod yn ffyddlon i'w rwymedigaeth. Sylweddolai, hefyd, fod yna derfyn buan i'w amser ef ar y ddaear i weithio " tra yr ydyw hi yn ddydd." **Y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.** Terfyn tymhor ei weinidogaeth gyhoeddus a'i einioes ar y ddaear, yr hyn a gymerai le yn mhen ychydig o flynyddoedd ; a therfyn cyfleustra pob dyn i weithio dros Dduw, ac i wneyd daioni i'w gyd-ddynion.

Adn. 5. **Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf.** Gwell " Pa bryd bynag yr wyf yn y byd, yr wyf yn Oleuni i'r byd " (W. E.). Edrychai yr Iesu ar ei waith yn rhoddi ei olwg i'r dyn dall yn ddarlun o'i waith, mewn ystyr foesol ac ysprydol, i'r byd yn gyffredinol. Efe sydd wedi, ac yn goleuo tywyllwch y byd bob amser. Pa un bynag ai cyn yr Ymgnawdoliad, ai ar ol yr Ymgnawdoliad hyd ei esgyniad, ac o hynny hyd ddiwedd y byd, Efe ydyw ffynhonell goleuni moesol ac ysprydol y byd.

Adn. 6. **Efe a boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall.** Dyma'r moddion syml a ddefnyddiodd yr Iesu er rhoddi ei olwg i'r dall, ond eglur yw ei fod yn hollol annigonol i wneyd yr hyn a effeithiwyd drwyddo, ar wahan i allu goruwchnaturiol. Er fod yna grediniaeth yn mhlith yr Iuddewon fod poeryn yn llesol i'r llygaid, eto, nid oedd digon o rinwedd ynddo i roddi ei olwg i un a anesid yn ddall. Eithr yr oedd yn rhyw gymorth i ffydd y dall. Fel y sylwa Plummer yn dra phriodol, " Y mae yn hawddach credu pan y gwelir moddion yn cael ei ddefnyddio, ac y mae yn hawddach fyth, pan yr ymddengys y moddion yn gyfaddas i gyraedd yr amcan."

Adn. 7. **Dos, ac ymolch yn llyn Siloam, (yr hwn a gyfieithir, Anfonedig), &c.** Amcan y gorchymyn hwn, yn ddiau, oedd rhoddi cyfleustra i'r dall ymarfer ffydd. Ni fuasai wedi ufuddhau o gwbl i orchymyn yr Iesu oni

a gyfieithir, Anfonedig.) Am hynny efe a aeth ymaith, ac a ymolchodd, ac a ddaeth yn gweled. 8. ¶ Y cymmydogion gan hynny, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen, mai dall oedd efe, a ddywedasant, Onid hwn yw yr un oedd yn eistedd ac yn cardotta? 9. Rhai a ddywedasant, Hwn yw efe: ac eraill, Y mae efe yn debyg iddo. Yntau a ddywedodd, Myfi yw *efe*. 10. Am hynny y dywedasant wrtho, Pa fodd yr agorwyd dy lygaid di? 11. Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Dyn a elwir Iesu, a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid i; ac a ddywedodd wrthyf, Dos i lyn Siloam, ac ymolch. Ac wedi i mi fyned ac ymolchi, mi a gefais fy ngolwg. 12. Yna y dywedasant wrtho, Pa le y mae efe? Yntau a ddywedodd, ni wn i.

---

buasai fod ganddo ryw radd o ffydd ynddo. Ac wrth ddilyn cyfarwyddyd yr Iesu yr oedd ei ffydd yn cryfhau o hyd. Nis gallaf weled ryw lawer o ddim yn ngwaith yr Efengylwr yn cyfieithu enw y llyn, sef Siloam, yn Anfonedig. Nid oes sail i gredu fod dwfr llyn Siloam yn fwy rhinweddol na ryw ddwfr arall, ond yn unig ei fod yn angenrheidiol er golchi ymaith y clai a'r poeryn, neu y pridd gwlyb oddiar ei lygaid. Edrydd yr Efengylwr yr hanes yn hynod o syml a naturiol. "Am hyny, efe a aeth ymaith, ac e ymolchodd, ac a ddaeth yn gweled." Nid oes amheuaeth yn nghylch lleoliad llyn Siloam, canys y mae yn Nyffryn Kedron, ychydig i'r de-ddwyrain o Jerusalem.

Adn. 8—10. **Y cymmydogion gan hynny, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen.** Naturiol iawn oedd i'r cymmydogion sylwi ar y gwahaniaeth oedd yn y gwr ieuanc ar ol iddo gael ei olwg. Yr oeddent yn ei adnabod yn dda, canys "gwelsent ef o'r blaen." Eithr canfyddant y fath wahaniaeth ynddo, y wyneb wedi ei oleuo i fyny, nes bron amheu mai yr un un ydoedd. "Hwn yw efe," yn bendant ebai rhai ohonynt. "Y mae yn debyg iddo," ebai eraill. Ond i roddi terfyn ar bob amheuaeth, dywed y cardotyn ei hun, "Myfi yw efe." A phwy wyddai cystal am hynny a'r dyn ei hun. Yn llawn chwilfrydedd, gofyna y cymmydogion iddo ef: "Pa fodd yr agorwyd dy lygaid di?"

Adn. 11—12. **Dyn a elwir Iesu, a wnaeth glai, &c.** "Y dyn a elwir Iesu" yw y darlleniad goreu. Ryw fodd, daeth y dyn i wybod mai y dyn Iesu, yr oedd cymaint o son am dano yn Jerusalem'y dyddiau hynny, oedd wedi bod yn offeryn i roddi ei olwg iddo. Anhawdd yw penderfynu paham y gofynai y cymmydogion, "Pa le y mae efe?" Pa un ai gofyn y maent, am na welsent erioed mo'r Iesu, neu ynte oddiar amcan drwg er mwyn ei ddal ef? Mae lle i dybio, oddiwrth eu hymddygiadau dilynol, mai nid oddiar yr amcan goreu y gofynasant y cwestiwn. Ac y mae y llanc oedd newydd gael ei olwg fel pe yn tybio hynny yn ei atebiad swta iddynt, "Ni wn i." Gan ei fod yn ddall pan y gadawodd yr Iesu i fyned i lyn Siloam, nis gallai weled i ba le yr oedd wedi cilio. Mae yn amlwg nad oedd ganddo

13. ¶ Hwythau a'i dygasant ef at y Phariseaid, yr hwn gynt *a fuasai* yn ddall. 14. A'r Sabbath oedd hi pan wnaeth yr Iesu y clai, a phan agorodd efe ei lygaid ef. 15. Am hynny y Phariseaid hefyd a ofynasant iddo drachefn, pa fodd y cawsai efe ei olwg. Yntau a ddywedodd wrthynt, Clai a osododd efe ar fy llygaid i, a mi a ymolchais, ac yr ydwyf yn gweled. 16. Yna rhai o'r Phariseaid a ddywedasant, Nid yw y dyn hwn o Dduw, gan nad yw efe yn cadw y Sabbath. Eraill a ddywedasant, Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion?

---

ddim gwybodaeth flaenorol am yr Iesu, ac y mae hyn yn rhoddi gwerth ychwanegol ar ei dystiolaeth ddilynol amdano.

13—34. Y Dyn gafodd ei Olwg, a'i Rieni yn cael eu holi gan y Phariseaid, a'r Dall yn cael ei ysgymuno ganddynt.

Adn. 13. **Hwythau a'i dygasant ef at y Phariseaid.** Ymddygodd y cymmydogion hyn yn dra annheilwng a chywilyddus wrth arwain y dyn at y Phariseaid—gelynion pennaf yr Iesu. Nid y Sanhedrim a feddylir wrth y Phariseaid yma, ond plaid ddylanwadol o'r Sanhedrim oedd yn meddu math o awdurdod i esgymuno troseddwyr (Cyd. adn. 34). Wrth ddwyn y dyn at y blaid ragfarnllyd hon, nid allent ddisgwyl dim yn amgen nag y byddai yn sicr o gael ei gondemnio ganddynt am wneyd unrhyw arddeliad o'r Iesu, ac am gymeryd agoryd ei lygaid ar y dydd Sabbath.

Adn. 14. **A'r Sabbath oedd hi pan wnaeth yr Iesu y clai, &c.** Ni olygir fod y cymmydogion wedi myned a'r dyn at y Phariseaid y diwrnod y cafodd ei olwg, ond ryw ddiwrnod dilynol i hynny. Pwysleisir y gair Sabbath fel y dydd y cawsai y dall ei olwg, ac nid fel y dydd y dygasid ef at y Phariseaid, a thebygol yw fod y cymmydogion yr un farn a'r Phariseaid, nad oedd yn iawn iddo dderbyn ei olwg ar y Sabbath.

Adn. 15, 16. **Pa fodd y cawsai ei olwg, &c.** Cafodd y dyn fwy nag un cyfleustra i ddyweyd hanes derbyniad ei olwg; ond yr un stori syml a chyson sydd ganddo i'w hadrodd bob tro. Nid oes yr arwydd lleiaf o dwyll neu hoced o'i chwmpas. Ymddengys na chafodd adroddiad y dyn, a dderbyniasai ei olwg, yr un effaith ar yr oll o'r Phariseaid. Ni welai rai ohonynt ddim yn yr hanes ond deddf y Sabbath wedi ei throseddu. Maent mor ddall i bob peth arall ag oedd y dall ei hun cyn cael ei olwg. Dyma'r rhai mwyaf rhagfarnllyd a chul eu heneidiau ohonynt. "Nid yw y dyn hwn oddiwrth Dduw, canys nid yw yn cadw y Sabbath" (W. E.). "Yr oedd yn ddywediad nad oedd yn gyfreithlon i osod poeryn ymbryd ar y llygaid ar y dydd Sabbath." Ond y mae yn amlwg fod y *wyrth* wedi cael gryn argraph ar feddyliau eraill ohonynt, canys gofynant yn synhwyrol iawn, "Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion?" Nid oedd y rhai hyn wedi goddef i'w

Ac yr oedd ymrafael yn eu plith. 17. Hwy a ddywedasant drachefn wrth y dall, Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano ef, am agoryd o honno dy lygaid di? Yntau a ddywedodd, *Mai* prophwyd yw *efe*. 18. Am hynny ni chredai yr Iuddewon am dano ef, mai dall fuasai, a chael o honno ef ei olwg, nes galw o honynt ei rieni ef, yr hwn a gawsai ei olwg. 19. A hwy a ofynasant iddynt, gan ddywedyd, Ai hwn yw eich Mab chwi, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? pa fodd gan hynny y mae efe yn gweled yn awr? 20. Ei rïeni ef a attebasant iddynt hwy, ac a ddywedasant, Nyni a wyddom mai hwn yw ein mab ni, ac mai yn ddall y ganwyd ef; 21. Ond pa fodd y mae efe yn gweled yr awrhon, nis

---

rhagfarn orchfygu eu synwyr cyffredin. Rhai yn tueddu at fod yn agored eu meddyliau, tebyg i Nicodemus, a Joseph o Arimathea, oedd y rhai hyn. Ac yr oedd ymrafael yn eu plith, neu yn fwy llythrenol *ymraniad*, tebyg i'r un yn mhlith y bobl (Pen. vii. 43).

Adn. 17. **Yntau a ddywedodd, Mai prophwyd yw efe.** Wrth fethu cydweled â'u gilydd yn nghylch cymeriad awdwr y wyrth, troant at y dyn ei hun i ofyn ei farn ef am yr hwn a gyflawnodd y fath weithred hynod arno ef. Ond atebiad syth a gwrol y cardotyn yw, "Mai prophwyd yw efe," neu yn fwy llythrenol, *Prophwyd yw*—yn yr ystyr y mae yn dra thebygol, o fod yn gynrychiolydd Duw, ac yn enau iddo ef, megys yr oedd Aaron i Moses ei frawd (Exod. vii. 1). Dyma ystyr foreuaf y gair yn yr Hen Destament. Mae'n ddyddorol sylwi y dywed Maimonides ei bod yn gred gyffredin yn mhlith yr Iuddewon fod gan Brophwyd awdurdod hyd yn oed dros ddeddf y Sabbath.

Adn. 18. **Am hynny ni chredai yr Iuddewon am dano ef, mai dall fuasai, &c.** Amhosibl yw meddwl am ragfarn a gelyniaeth yn gallu cynhyrchu mwy o effaith nag anghrediniaeth yr Iuddewon hyn o dan yr amgylchiadau. Nid oedd tystiolaeth y dyn ei hun, na thystiolaeth ei gymydogion yn ei attegu, yn ddigon i wrthsefyll eu rhagfarn a'u gelyniaeth. Rhaid oedd galw ei rieni ymlaen fel tystion.

Adn. 19. **Ai hwn yw eich mab chwi, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? &c.** Yn yr adnod hon, gwelir fod yr Iuddewon yn gofyn i rieni y dall dri cwestiwn. 1. Ai hwn yw eich mab? 2. Ai yn ddall y ganwyd ef? 3. Pa fodd y mae yn awr yn gweled? Credaf mai ar yr ail gwestiwn y rhoddent fwyaf o bwys, gan awgrymu mai nid yn ddall y ganwyd ef, er mwyn dangos mai twyll oedd y wyrth o roddi ei olwg iddo. Ond os oeddent yn coleddu gobaith am ddiangfa i'w hangrediniaeth y ffordd yna, cawsant eu siomi.

Adn. 20, 21. Gwelir fod rhieni y cardotyn wedi ateb y ddau gwestiwn blaenaf yn gadarnhaol. Nid oes y gradd lleiaf o betrusder yn eu hatebion. Fel pe dywedasent—

gwyddom ni ; neu pwy a agorodd ei lygaid ef, nis gwyddom ni : y mae efe mewn oedran : gofynwch iddo ef : efe a ddywed am dano ei hun. 22. Hyn a ddywedodd ei rïeni ef, am eu bod yn ofni yr Iuddewon : oblegid yr Iuddewon a gyd-ordeiniasent eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog. 23. Am hynny y dywedodd ei rïeni ef, Y mae efe mewn oedran ; gofynwch iddo ef. 24. Am hynny hwy a alwasant eilwaith y dyn a fuasai yn ddall, ac a ddywedasant wrtho, Dyro y

---

Mae yn sicr ddigon mai ein mab ni ydyw, ac mae yr un mor sicr mai yn ddall y ganwyd ef. Eithr gyda golwg ar y cwestiwn olaf, gwelir mai pledio anwybodaeth y maent. Ac yr oeddent, yn ddiau, yn anwybodus o'r modd y cafodd eu mab ei olwg. Ond yr oedd eu hanwybodaeth yn hynod o gyfleus, rhag eu dwyn i wrthdarawiad â'r awdurdodau eglwysig. Amlwg yw eu bod yn gaethion i ofn pennaethiaid y synagog. Ond er na wyddai y rhieni pa fodd y cafodd eu mab ei olwg, nid oedd hynny yn siglo dim ar y ffaith. Ar ol iddynt gydnabod mai efe oedd eu mhab, ac mai yn ddall y ganwyd ef, yr oedd y ffaith ei fod yn awr yn gweled yn hunan-amlwg. Ac felly rhaid fod agoriad ei lygaid yn weithred wyrthiol. Pe buasai modd o gwbl wrthbrofi dilysrwydd y wyrth, gellir bod yn hollol sicr na adawsai yr Iuddewon hyn yr un garreg heb ei throi, er cyrraedd y cyfryw amcan.

Adn. 21, 22. **Oblegid yr Iuddewon a gyd-ordeiniasent eisoes, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog.** Ystyr y gair a gyfieithir yma yn "gyd-ordeiniasent" yw, *gosod yn nghyd, cytuno, penderfynu*, tebyg i'r cytundeb a wnaeth yr Iuddewon â Judas (Luc xxii. 5), a chytundeb yr Iuddewon i ladd Paul (Act. xxxiii. 20). Yr oedd y Sanhedrim eisoes wedi dyfod i'r penderfyniad i esgymuno pwy bynnag a addefai mai Iesu o Nazareth oedd y Crist, neu y Messiah, y disgwylid am dano. Yr oedd tri gradd o esgymuno yn bod : 1, cau allan o'r teulu a'r synagog am ddeg-diwrnod-a'r-hugain ; 2, estyn yr amser, a chyhoeddi melldith ar yr esgymunedig ; 3, esgymuno am byth o gymdeithas, ac o bob gwasanaeth crefyddol. Bernir yn gyffredin y mae y radd gyntaf o esgymundod oedd wedi ei bygwth yn erbyn y rhai gyfaddefent mai yr Iesu oedd y Crist. Dyma barodd i rieni y dall fod mor hynod o ochelgar yn eu hatebiad, ac i lechu yng nghysgod eu hanwybodaeth, a thaflu yr holl gyfrifoldeb ar eu mhab. **Y mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef.** Nis gallaf weled dim bai yn y rhieni am ateb fel hyn. Rhaid cofio mai nid bachgen ieuanc ydoedd, ond dyn mewn oed, ac yn abl i edrych ar ol ei hun. Diau y gwyddai y rhieni am allu hynod eu mhab i ateb yn barod ac yn ffraeth drosto ei hun, ac y byddai yn sicr o fod yn orchfygwr mewn dadl gyda'r Iuddewon.

Adn. 24. **Am hynny hwy a alwasant eilwaith y dyn a fuasai yn ddall.** Er wedi holi y dyn a anesid yn ddall o'r blaen, a methu cael dim allan ohono oedd yn anghyson â dilysrwydd y wyrth, galwant am dano eto, gyda'r amcan yn awr o geisio anwybyddu yr Iesu fel yr hwn a gyflawnodd y wyrth. Nid oes

gogoniant i Dduw : nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn. 25. *Yna* yntau a attebodd ac a ddywedodd, Ai pechadur yw, nis gwn i : un peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled. 26. Hwythau a ddywedasant wrtho drachefn, Beth a wnaeth efe i ti? pa fodd yr agorodd efe dy lygaid di? 27. Yntau a attebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi eisoes, ac ni

---

modd iddynt ei gwadu mwyach,* ond ceisiant ddadgysylltu yr Iesu, os yn bosibl, oddiwrthi. Fel pe dywedasent :—Rhaid inni gydnabod fod Duw rywfodd, na wyddost ti na ninnau *pa fodd*, wedi rhoddi i ti dy olwg ; dyro y gogoniant iddo ef am hynny ; ond paid a chredu mai trwy yr Iesu y cefaist dy olwg. Mae hynny yn amhosibl, "canys ni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn." Eu hunig sail i'r haeriad mai pechadur yw, oedd ei fod yn cyflawni gweithredoedd o drugaredd, trwy iachau cleifion a rhoddi golwg i ddall ar y dydd Sabbath. Crediniaeth draddodiadol *(dogma)* yn erbyn daioni ymarferol !

Adn. 25. **Ai pechadur yw, nis gwn i.** Sylwer mor unplyg a gonest ydyw. Addefa ei anwybodaeth, ond y mae ei fod yn gwneyd hynny yn rhoddi mwy o nerth a grym yn yr hyn y dywed mor bendant ei fod yn ei wybod. Fel pe dywedasai, Pa un ai pechadur yw ai peidio, nis gwn ; ond **un peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled.** Sut bynnag y cefais fy ngolwg, yr wyf yn hollol sicr fy mod wedi ei gael. Safai yn ddiogel a diysgog ar graig gadarn profiad personol, ac yno yr oedd yn hollol anorchfygadwy !

Adn. 26. **Hwythau a ddywedasant wrtho drachefn, Beth a wnaeth efe i ti? &c.** Amcan y Phariseaid yn awr oedd ceisio dangos nad oedd gan y dyn gafodd ei olwg ddigon o sail i haeru mai yr Iesu roddodd iddo ef ei olwg. Ceisiant ddangos ei fod yn anwybodus o'r *modd* y rhoddasai yr Iesu iddo ei olwg, ac y mae hynny yn wir am bob gwyrth ; nis gall neb egluro y *pa fodd* ohoni, a buasai yn well i Gristionogaeth pe buasai yna lai o ymgais nag a fu yn y cyfeiriad hwn. Yr hyn oedd yn blino y Phariseaid oedd, nid fod y dyn wedi cael ei olwg, nis gallant wadu hynny, yn wyneb tystiolaeth y dyn ei hun, ei rieni, a'i gymydogion ; ond fod y dyn yn dal i ddyweyd mai yr Iesu roddodd iddo ei olwg. Amcan y croesholi oedd ceisio ei siglo ar y pen hwn. Eithr yr oedd y dyn wedi dyweyd wrthynt eisoes, mor bell ag yr oedd ei wybodaeth yn myned, pa fodd y rhoddasai yr Iesu iddo ei olwg.

Adn. 27. **A ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion iddo ef?** Amlwg yw fod y dyn a gawsai ei olwg yn dechreu colli ei dymer gyda'r Phariseaid wrth gael ei groesholi yn barhaus ganddynt, a thry arnynt, trwy ofyn yn goeglyd a oeddent hwythau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion i'r Iesu, gan

---

* "They no longer deny the miracle, but bid the man ascribe the glory of it to the right quarter, to God ; not to Jesus, because they can assure him, on knowledge of their own, that He is a sinner."—*Dr. M. Dods.* Felly hefyd Edersheim, Lange Reynolds, ac eraill.

wrandawsoch: paham yr ydych yn ewyllysio clywed drachefn? a ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion iddo ef? 28. Hwythau a'i difenwasant ef, ac a ddywedasant, Tydi sydd ddisgybl iddo ef; eithr disgyblion Moses ydym ni. 29. Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses: *eithr* hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae efe. 30. Y dyn a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn hyn yn ddiau y mae yn rhyfedd, na wyddoch chwi o ba le y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i.

---

eu bod yn holi mor fanwl yn ei gylch. Yr oedd hyn fel gwreichionen yn disgyn ar bylor, fel y ffrwydrodd eu tymerau drwg yn y fan. Yr oedd awgrymu y fath beth fel trywaniad cleddyf yn eu calonau. Dechreuant bentyru pob gwawd a dirmyg arno ef.

Adn. 28. **Hwythau a'i difenwasant ef, &c.** Eu hunig ddiogelwch oedd difenwi y dyn. Prawf amlwg eu bod yn colli yn y ddadl. **Tydi sydd ddisgybl iddo ef; eithr disgyblion Moses ydym ni.** Eu hymffrost a'u balchder oedd yn peri iddynt honni bod yn ddisgyblion i Moses, ond o ran eu cred a'u hymddygiadau yr oeddent yn dra phell o fod yn ddisgyblion iddo ef (cyd. vii. 19; v. 46, 47).

Adn. 29. **Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses.** Nid oes unrhyw amheuaeth i fod yng nghylch hynny. Ac yn hyn y mae Iuddewon a Christionogion yn hollol un a chytun. Llefarodd Duw wrth Moses megys wyneb yn wyneb. Ni raid darostwng dim ar Moses er mwyn dyrchafu Crist (Exod. xxiii. 11). **Eithr hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae efe.** Mwyaf eu cywilydd am na wyddent. Nid oedd dim ond eu rhagfarn a'u hanghrediniaeth yn rhwystro iddynt wybod. Dylid sylwi mai nid at ei darddiad naturiol y cyfeirient, canys honnent eu bod yn gwybod hynny, a gwnaent ddefnydd o'r wybodaeth honno er diystyru a dirmygu yr Iesu (vii. 27). Cyfeirio, yn ddiau, y maent, nas gwyddent pwy oedd wedi ei anfon, nac o dan ba ddylanwad y llefara, mewn cyferbyniad i Moses, gan awgrymu yn gryf mai nid o Dduw, ond o ddiafol yr ydoedd.

Adn. 30. **Yn hyn yn ddiau y mae yn rhyfedd.** Yn ol rhai o'r darlleniadau goreu, *Yn sicr, yn hyn y mae yn rhyfeddod!* "*Why, this is marvellous,*" yw cyfieithiad Dr. Weymouth. Dengys y dyn ryw graffder a phertrwydd anghyffredin yn ei atebiad, a rhydd ddyrnod iddynt sydd yn ddigon i'w llethu. Fel pe dywedai,—O bob anwybodaeth y clywais erioed sôn am dani, dyma y rhyfeddaf! **Na wyddoch chwi o ba le y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i.** Gwell: "Na wyddoch *chwi* o ba le y mae efe, ac *efo* efe a agorodd fy llygaid i" (W. E.). *Chwi* o bawb, fel pe dywedasai y dyn, *chwi* prif ddysgawdwyr crefyddol y genedl, a phrif oleuadau yr oes, na wyddoch *chwi* o ba le y mae un sydd wedi cyflawni gweithred mor hynod a rhoddi i mi fy ngolwg. Oni ddylech wybod oddiwrth nodwedd Ddwyfol y weithred o ba le y mae? Cydmarer ef â Nicodemus, a gwelir eu bod yn dyfod i gasgliad cyffelyb (pen. iii. 2).

31. Ac ni a wyddom nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid : ond os yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, hwnnw y mae efe yn ei wrandaw. 32. Ni chlybuwyd erioed agoryd o neb lygaid un a anesid yn ddall. 33. Oni bai fod hwn o Dduw, ni allai efe wneuthur dim. 34. Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Mewn pechodau y ganwyd ti oll ; ac a wyt

---

Adn. 31. **Ac ni a wyddom nad yw Duw yn gwrando pechaduriaid.** Amlwg yw, oddiwrth y geiriau hyn, fod y dyn yn ymhyfhau, ac yn myned yn fwy gwrol wrth ateb y Phariseaid. Ac y mae y duwinydd uniawngred yn ymddadblygu yn gyflym ynddo. Nid y meddwl yw, nad yw Duw yn gwrando y rhai sydd wedi pechu, onide ni fuasai gobaith i neb o blant dynion gael gwrandawiad byth. Ond yr ystyr yw, nad yw Duw yn gwrando y rhai sydd yn anedifeiriol, ac yn glynu yn gyndyn wrth eu pechodau. Ac y mae hyn yn hollol gyson â dysgeidiaeth yr Hen Destament, Salm lxvi. 18, 19 ; Job xxvii. 8, 9 ; Esaiah i. 11—15. **Ond os yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, hwnnw y mae yn ei wrando.** Addolwr Duw, neu yn ddduwiolfrydig—un yn caru addoli Duw oddiar barch didwyll iddo ef. Gwneuthur ei ewyllys, trwy roddi ufudd-dod parod a llawn i orchymynion Duw. Credai y dyn fod y wyrth wedi ei chyflawni mewn atebiad i weddi, ac nad oedd Duw yn gwrando pechaduriaid. Gan hynny, nad oedd yr un a roddodd iddo ef ei olwg yn bechadur. Ac felly y rhaid ei fod yn rhywun cymeradwy yng ngolwg Duw, ac y buasai yn wiw gan Dduw ei arddel ef a gweithio drwyddo. Dyma dduwinyddiaeth oedd yn gyson â dysgeidiaeth y Rabiniaid Iuddewig eu hunain, ac felly gorchfygai y Phariseaid ar eu tir eu hunain. Ac yr oedd hyn yn archoll annioddefol i'w balchder. Gwêl 2 Bren. iv. 33 ; Salm xxv. 3.

Adn. 32. **Ni chlybuwyd erioed agoryd o neb lygaid un a anesid yn ddall.** Rhydd y dyn bwyslais arbennig ar hynodrwydd y wyrth a gyflawnwyd arno ef. Diau ei bod yn llawer hynotach y dyddiau hynny nag a fuasai yn y dyddiau presennol, canys y mae gwyddoniaeth ddiweddar wedi gallu effeithio pethau rhyfedd iawn yn y cyfeiriad hwn.

Adn. 33. **Oni bai fod hwn o Dduw, ni allai efe wneuthur dim.** Dyma'r un casgliad ag y daeth Nicodemus iddo wrth gyfarch yr Iesu (pen. iii. 2). Ac y mae yn gasgliad hollol deg ac anwrthwynebol. Mae cysylltiad agos iawn rhwng gwirioneddolrwydd gwyrth a chymeriad y sawl a'i cyflawnodd. Nis gellir meddwl am Dduw yn arddel ac yn defnyddio dyn pechadurus ac anedifeiriol yn offeryn i gyflawni gwyrth. Ac felly y mae y dyn gafodd ei olwg yn gwrthbrofi awgrymiad anheilwng y Phariseaid fod yr Iesu yn bechadur.

Adn. 34. **Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Mewn pechodau y ganwyd ti oll; ac a wyt ti yn ein dysgu ni?** Gwell a chryfach : "Mewn pechodau y ganwyd ti yn gyfangwbl" (W. E.). "*You are wholly begotten and born in sin, and do* **you** *teach* **us?**" (W.). Eglur yw

ti yn ein dysgu ni? A hwy a'i bwriasant ef allan. 35. Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw ef allan : a phan ei cafodd, efe a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn credu

---

y teimlai y Phariseaid fod y dyn wedi eu gorchfygu mewn dadl, ac am hynny collasant eu tymer, a dechreuant arllwys difrïaeth arno ef. Awgrymant mai pechod oedd yr achos iddo gael ei eni yn ddall, ac nad oedd ond un swp o lygredigaeth o'r groth. Rhyfeddant at ei hyfdra digywilydd yn meiddio ceisio eu dysgu hwy. *Hwy*, dysgawdwyr awdurdodedig y bobl. Ni chafodd eu balchder swyddogol erioed y fath glwyf a sarhâd o'r blaen. Teimlant fod ei haerllugrwydd wedi ei yru dros ben bob terfynau, ac nad oedd dim i'w wneyd bellach ond gweinyddu arno y gosp eithaf oedd o fewn eu gallu. **A hwy a'i bwriasant ef allan.** Cafodd ei esgymuno ganddynt am arddel yr Iesu, yn gyson a'u penderfyniad yn adn. 22. Ac yr oedd yn esgymundod yn y gradd mwyaf eithafol ohono. Cynwysa ei esgymuno am byth o gymdeithas, ac o bob addoliad cyhoeddus.

Teg, fe ddichon, yw dyweyd fod yna rai esbonwyr o fri fel Westcott, ac eraill, yn dadleu nad oes gyfeiriad yn y geiriau hyn at esgymuno, ond at ei daflu allan trwy rym anianyddol o'r ystafell, neu yr adeilad yr oedd ynddo ar y pryd. Ac eto cydnabyddant i hyn gael ei ddilyn yn uniongyrchol gan esgymundod.

35—41. Yr Iesu yn datguddio ei hun i'r dyn gafodd ei olwg fel y Messiah, ac yn ceryddu y Phariseaid.

Adn. 35. **Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw ef allan.** Cynwysa hyn, yn ddiau, nid yn unig ei fwrw allan o'r ystafell ; ond ei fwrw allan o gymundeb. Ar ol ei esgymuno o'r Eglwys Iuddewig, dengys yr Iesu ei fod yn barod i'w dderbyn i'r Eglwys Gristionogol. Buan iawn y lledaenodd y newydd am ei esgymundod, nes y mae'r Iesu yn dyfod i glywed am dano, ac yn ebrwydd fe aeth i chwilio am y dyn, er dangos ei gydymdeimlad âg ef yn wyneb y fath amharch. **A phan ei cafodd.** Y cwestiwn mawr a phwysig a rydd iddo ydyw, **A wyt ti yn credu ym Mab Duw?** Lled anhawdd yw penderfynu pa un ai Mab Duw, ai ynte Mab y dyn ddylai y darlleniad fod yn y cwestiwn crybwylledig. Yn ol Westcott a Hort, a rhai o'r llawysgrifau hynaf, Mab *y dyn* ydyw. Ond y mae llawysgrifau pwysig eraill, a'r Cyf. Diwygiedig Saesneg, yn dal at y darlleniad Mab *Duw*. Ond os mai Mab Duw ydoedd y darlleniad yn y dechreu, y mae yn anhawddach cyfrif am fod *Mab Duw* wedi myned yn *Fab y dyn*, na fod *Mab y dyn* wedi myned yn *Fab Duw*. Mewn amser, yn yr Eglwys Gristionogol, fe gymerodd Mab Duw fel enw ar Grist le Mab y dyn, ac hawdd iawn yw meddwl am ryw gopïwr eiddigus dros anrhydedd ei Waredwr yn newid Mab y dyn am Fab Duw. Ond y mae yn anhawdd meddwl paham y buasai neb yn cyfnewid *Mab Duw* am *Fab y dyn*. Ac y mae yn deilwng o sylw, mae *Mab y dyn* yr arferai yr Iesu a galw ei hun, ac nid *Mab Duw*. Ac felly yr wyf yn gogwyddo, ar y cyfan, i dderbyn *Mab y dyn* fel y darlleniad cywir. Dywed Dr. David Smith yn bur briodol :—" Dywedodd *Mab y dyn*, ac nid *Mab Duw*, gan fod hwn yn deitl Messianaidd oedd ar wefusau Phariseaid yn barhaus, a buasai yn wrthdarawol i deimlad y dyn oedd wedi derbyn y fath driniaeth

ym Mab Duw? 36. Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Pwy yw *efe*, *O* Arglwydd, fel y credwyf ynddo? 37. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Ti a'i gwelaist ef: a'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnnw ydyw efe. 38. Yntau a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu, *O* Arglwydd. Ac efe a'i haddolodd ef. 39. ¶ A'r Iesu a ddywedodd, I farn y deuthum i'r byd hwn; fel y gwelai y rhai nid ydynt yn

---

anheg ac anheilwng oddiar law y blaid eglwysig falch hono. Ond er mor adnabyddus oedd y teitl a hoffai yr Iesu yn Galilea, yr oedd yn ddieithr yn Jerusalem, ac yr oedd y dyn felly mewn dyryswch."

Adn. 36. **Pwy yw efe, O Arglwydd, fel y credwyf ynddo?** Nid oedd gan y dyn yr un syniad pwy oedd yr hwn y soniai yr Iesu am dano. Rhaid cofio nad oedd wedi *gweled* yr Iesu cyn y tro hwn.

Adn. 37. **Ti a'i gwelaist ef; a'r hwn sydd yn ymddiddan a thi, hwnnw ydyw efe.** "Yr wyt hyd yn nod wedi ei weled," &c. (W. E.). Yr oedd ganddo ddau gyfleustra i adnabod Mab y dyn, ei *weled* a'i *glywed*. Nid yn unig ti a'i gwelaist, fel pe dywedasai yr Iesu wrtho ef, ond efe, yr hwn sydd yn ymddiddan â thi yn awr, yw efe. Rhoddodd yr Iesu ar ddeall yn eglur iddo nad oedd ei gymwynaswr caredig a roddodd iddo ei olwg yn neb arall ond Mab y dyn. Datguddiodd ei hun iddo ef fel ag i'r wraig o Samaria, am fod ynddo addfedrwydd ysprydol i dderbyn y cyfryw ddatguddiad.

Adn. 38. **Yntau a ddywedodd, yr wyf fi yn credu, O Arglwydd.** Yng ngoleuni atebiad yr Iesu, gwelodd y dyn fod yr Iesu yn gofyn ffydd *ynddo ef ei hun*. Y mae yntau gyda pharodrwydd yn ymarfer ffydd ynddo ef. Credai fod un oedd wedi bod mor raslawn a galluog a rhoddi iddo ei olwg yn deilwng o fod yn wrthrych ei ffydd a'i addoliad. **Ac efe a'i haddolodd ef.** Pa mor oleuedig oedd ei addoliad, anhawdd yw dyweyd. Mae y gair *(prosekunêseu)* am addoli yma yn golygu addoliad Dwyfol. Ac y mae Ioan yn defnyddio y gair i arwyddo addoliad Dwyfol yn ystyr uchaf y gair. Daeth y dyn a anwyd yn ddall i'r goleu mewn mwy nag un ystyr, nid yn unig ystyr naturiol, ond ystyr ysprydol hefyd. Nid yn unig canfyddodd haul natur, ond hefyd Haul Cyfiawnder yn llewyrchu ei belydrau achubol arno ef.

Gellir edrych ar y geiriau sydd yn diweddu y bennod hon fel gwers foesol ac ysprydol a dynir gan yr Iesu oddiwrth y wyrth a gyflawnodd ar y dyn a anesid yn ddall, ac ymddygiad y Phariseaid yn wyneb hynny. Ar ol iddo adfyfyrio ar yr hyn gymerodd le, dyma'r casgliad ymarferol yr arweinir ef iddo.

Adn. 39. **A'r Iesu a ddywedodd, I farn y deuthum i'r byd hwn.** Yma yn unig y defnyddia Ioan y gair *(krima)* a gyfieithir *barn*. Golyga barn fel *effaith* neu *ganlyniad*, ac nid *(krisis)* barn fel cwrsweithrediad *(process)*. Nid amcan Crist oedd dyfod yma i farnu dynion, ond i'w hachub hwynt, ond eto fe fu ei ymddangosiad yn *achlysur* i ddynion gael eu barnu, trwy y modd yr ymddygasant tuag ato ef, a'r breintiau a ddygodd i'w cyrraedd. Gwelir yr un egwyddor yn cael

gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion. 40. A *rhai* o'r Phariseaid a oedd gyd âg ef, a glywsant y pethau hyn, ac a ddywedasant wrtho, Ydym ninnau

---

ei hamlygu yn nysgeidiaeth yr Iesu am ddyfodiad y goleuni i'r byd (pen. iii. 19—21). Nid amcan rhoddiad y goleuni i ddynion oedd eu condemnio, ac eto fe drodd yn achlysur o'u condemniad. Bu, ac y mae ymddangosiad Crist yn y cnawd o hyd yn *test* sydd yn gwahanu dynion i gredinwyr ac anghredinwyr, ac y mae y cyfryw wahaniad mewn effaith yn farn arnynt. Ac yn yr ystyr yma y mae inni ddeall geiriau yr Iesu, "I farn y deuthum i'r byd hwn." **Fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.** Cynrychiolir "y rhai nid ydynt yn gweled" gan y dyn dall a gafodd ei olwg, ac fel yr ydym wedi sylwi eisoes, fe gafodd ei olwg mewn mwy nag un ystyr, yn ysprydol yn ogystal a naturiol, ac at yr ysprydol y cyfeirir yn bennaf, os nad yn unig, yn y geiriau hyn. Cynrychiolir "y rhai sydd yn gweled" gan y Phariseaid yr oedd yr Iesu yn ymwneyd â hwynt ar y pryd. Mae yna ddynion o hyd tebyg i'r gŵr dall, yn wirioneddol awyddus am ddyfod i'r goleuni—llefain am fwy o oleuni y maent yn barhaus—ac yn barod i fyw i fyny i'r goleuni a dderbyniant. Dyma y rhai sydd yn dyfod i weled yn llawnach ac yn gliriach o hyd. Mae eu canfyddiad ysprydol yn myned yn gywirach ac yn gryfach yn barhaus. Ac y mae eraill, cyffelyb i'r Phariseaid balch ac hunanol, yn tybied eu hunain yn bob peth y dylent fod, ac yn ymddiried yn eu hunan-gyfiawnder, ond maent yn pallu yn eu gwelediad moesol ac ysprydol, nes o'r diwedd myned yn hollol ddall. Ac felly Phariseaid Jerusalem, *ni fynnent* weled gogoniant Crist, ac o'r diwedd fe aethant i *fethu* ei weled, er ei fod yn pelydru allan yn ddisglaer trwy y wyrth a gyflawnodd ar y dyn dall.

Adn. 40. **A rhai o'r Phariseaid a oedd gydag ef, a glywsant y pethau hyn, ac a ddywedasant wrtho.** Nid yw y gair "*rhai* o'r Phariseaid" yn y wreiddiol, ac yn lle *rhai*, rhoddir *hwy* i mewn. "*Hwy* o'r Phariseaid" (W. E.). Cyfeithiad Dr. Weymouth yw—"These words were heard by those of the Pharisees who were present." Nid *rhai* o'r Phariseaid oedd yn bresennol a glywsant eiriau yr Iesu, ond yr oll ohonynt. Mae gwahanol farnau yn bod yn nghylch y Phariseaid hyn. Tybia rhai esbonwyr mai rhai cyfeillgar i'r Iesu oeddent, a barna eraill mai rhai yn aros i wylio ar eiriau yr Iesu—math o ysbïwyr oeddent. Credaf mai y syniad olaf yw y tebycaf o fod yn gywir. **Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?** Gofynant, gyda math o watwareg, a oedd yr Iesu am eu gosod hwy yn mhlith y deillion, y rhai oedd yn cael eu cydnabod yn oleuadau ac yn arweinwyr crefyddol y genedl. Tybient nad oedd raid iddynt ond gofyn y cwestiwn er dangos ei wrthuni. Eithr nid awgrymu *eu bod* yn ddeillion eisoes ddarfu yr Iesu yn adn. 39, ond eu bod ar y ffordd, "*myned* yn ddeillion." Ac y mae atebiad yr Iesu iddynt yn tybio y gwahaniaeth. Nid yw yn penderfynu pa un a ydynt yn ddeillion a'i peidio. Gosod i lawr egwyddor gyffredinol, gan adael iddynt hwy wneuthur cymhwysiad personol ohoni.

hefyd yn ddeillion? 41. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod: eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hynny y mae eich pechod yn aros.

Adn. 41. **Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod.** Gesyd yr Iesu i lawr yma egwyddor bwysig iawn, sef, fod breintiau a chyfrifoldeb yn anwahanol gysylltiol â'u gilydd. Nid oes neb yn cael ei ddal yn gyfrifol am yr hyn nad yw, neu nad allasai fod yn ei feddiant. Nid oedd y dyn dall yn gyfrifol am fethu gweled yr haul. Nis gellir pechu heb feddu syniad am y gwahaniaeth rhwng da a drwg moesol, a graddau mwy neu lai o oleuni ar y rhwymedigaeth, a'r ffordd i ddewis y naill a gwrthod y llall. Nid yw pagan na chlywodd erioed sôn am Grist yn cael ei ddal yn gyfrifol am beidio ei dderbyn ef trwy gredu ynddo. Ac felly gyda'r Phariseaid, pe buasent yn ddeillion moesol ac ysprydol, heb weled Crist yn y cnawd—heb ei glywed yn llefaru geiriau na lefarodd dyn erioed eu cyffelyb, ac yn cyflawni gweithredoedd nerthol, oeddent yn brawf amlwg fod Duw gydag ef, ni buasent yn euog am eu hanghrediniaeth ynddo. **Eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hynny y mae eich pechod yn aros.** Gedy rhai o'r llawysgrifau goreu y geiriau "am hynny" allan. *Yr ydym yn gweled; y mae eich pechod yn aros.* Felly W. E., O. W., B., &c. Gyda'u hanffaeledigrwydd arferol, mynnai y Phariseaid eu bod yn gweled. Nid oeddent mewn angen am eu goleuo na'u dysgu. Gwrthodent ddysgeidiaeth Crist, gan deimlo yn hunanddigonol ar y wybodaeth oedd eisoes yn eu meddiant. Gan nad oes arnoch eisieu goleuni, ond yn ystyried eich bod yn gweled yn glir ac yn gywir, mae eich pechod yn aros. Pa bechod? Pechod yn gyffredinol, ai ynte rhyw bechod neillduol ac arbennig? Y naill a'r llall. Y pechod arbennig oedd eu gwrthodiad o Grist fel Gwaredwr, a'u hanghrediniaeth ynddo yn wyneb y wyrth hynod o roddi i'r dyn dall ei olwg. Ond yr oedd y pechod hwn yn rhwystr anorfod i symudiad pob pechod arall oddiwrthynt. Ac oherwydd hynny, yr oedd eu pechod yn aros—yn aros yn ei euogrwydd du, yn ei gyfrifoldeb ofnadwy, ac yn ei ganlyniadau truenus a diobaith. Yng ngeiriau Dr. Whedon—"*Their sin stood permanent, recorded, unpardoned, eternal.*"

Cafodd y gwirionedd deublyg a ddysgir yn yr adran dan sylw ei egluro ar y radd'fa helaethaf yn ymddygiadau gwahanol yr Iuddewon a'r Cenhedloedd tuag at yr efengyl—y Cenhedloedd yn dyfod allan o'u dallineb ysprydol, a'u tywyllwch dudew, i'w ryfeddol oleuni ef; a'r Iuddewon, o ganol eu breintiau mawr, yn colli eu golwg moesol ac ysprydol, nes cael eu hunain yng nghanol tywyllwch dudew rhagfarn a phechod.

Evan Thomas, Argraffydd, Bangor.

ST. DEINIOL'S
HAWARDEN
LIBRARY

76359